



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 30 Mawrth 2011  
Wednesday, 30 March 2011**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol  
Questions to the Counsel General
- 6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol  
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government
- 24 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning
- 41 Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant 'Hygyrchedd Gweithgareddau  
Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru'  
The Communities and Culture Committee's Report 'The Accessibility of Arts and  
Cultural Activities in Wales'
- 71 Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol 'Triniaeth ar gyfer  
Anhwylder Straen wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog'  
The Health, Wellbeing and Local Government Committee's Inquiry 'Post-traumatic  
Stress Disorder Treatment in Services Veterans'
- 89 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: GYC a Chymorth i Fusnesau  
Welsh Conservatives Debate: GVA and Support for Business
- 115 Cyfnod Pleidleisio  
Voting Time
- 118 Dadl Fer: Pwy sy'n Gofalu yn Nelyn?  
Short Debate: Who Cares in Delyn?
- 127 Datganiad i Gloi gan y Llywydd  
Closing Statement by the Presiding Officer

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn oystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Counsel General.

## **Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General**

### **Cynlluniau Deddfwriaethol**

*1. Joyce Watson: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am gynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn y refferendwm diweddar ar bwerau'r Cynulliad. OAQ(3)0167(CGE)*

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths):** Yn y Cynulliad hwn, yr ydym wedi datblygu fel deddfwrfa, ac yr ydym wedi profi y gall Cymru wneud deddfau yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn awr, edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r pwerau newydd er lles pobl Cymru yn y Cynulliad newydd.

We have now delivered all items contained in the Welsh Assembly Government's legislative programme. Following the 'yes' vote in the referendum on 3 March, the Assembly approved the Assembly Act commencement Order in Plenary yesterday, which will come into force on 5 May. It will be for the next Assembly Government to formulate and take forward its legislative programme.

**Joyce Watson:** We all know that the Assembly has delivered some notable and important legislation. Legislation on mental health and support for carers, the first Welsh language legislation for almost 20 years, and Ann Jones's fire safety Measure are all noteworthy examples. However, what lessons can be learned from the past four years of developing and scrutinising legislation that will help the next Assembly in exercising new legislative powers, particularly in terms of promoting wider involvement in developing legislative proposals?

### **Legislative Plans**

*1. Joyce Watson: Will the Counsel General make a statement on the Welsh Assembly Government's legislative plans following the recent referendum on Assembly powers. OAQ(3)0167(CGE)*

**The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths):** In this Assembly, we have developed as a legislature, and have proved that Wales can legislate effectively and efficiently. We now look forward to using the new powers for the good of the people of Wales in the new Assembly.

Rydym yn awr wedi darparu'r holl eitemau a gynhwysir yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn dilyn y bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ar 3 Mawrth, cymeradwyodd y Cynulliad y Gorchymyn Cychwyn Deddfau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ddoe, a bydd yn dod i rym ar 5 Mai. Mater i Lywodraeth nesaf y Cynulliad fydd llunio a bwrw ymlaen â'i rhaglen ddeddfwriaethol.

**Joyce Watson:** Rydym oll yn gwybod bod y Cynulliad wedi cyflwyno deddfwriaeth nodedig a phwysig. Mae'r ddeddfwriaeth ar ieched meddwl a chymorth i ofalwyr, y ddeddfwriaeth gyntaf ar yr iaith Gymraeg ers bron i 20 mlynedd, a Mesur diogelwch tân Ann Jones i gyd yn enghreifftiau nodedig. Fodd bynnag, pa wersi gellir eu dysgu o'r gwaith o ddatblygu a chraffu ar ddeddfwriaeth dros y pedair blynedd diwethaf a fydd yn helpu'r Cynulliad nesaf wrth arfer pwerau deddfwriaethol newydd, yn enwedig o ran hyrwyddo cyfranogiad ehangach wrth ddatblygu cynigion deddfwriaethol?

**John Griffiths:** You mention some good examples of valuable and important legislation that the Assembly has passed. We have learned many lessons on legislating during this Assembly. I hope that my review will be significant in improving processes and practice for the next Assembly. In terms of wider involvement, it is important that we engage more effectively with external stakeholders, as we say, and the people of Wales as a whole. I believe that having a five-year programme will help us plan rationally a legislative programme for the next Assembly Government, whatever its composition. The use of Green Papers, White Papers and Draft Bills will be important in terms of fostering and developing that important engagement.

**Leanne Wood:** One of the legislative changes that I hope will be made in the fourth Assembly is a major overhaul of our antiquated planning laws. It is apparent from the recent Sustainability Committee inquiry that our planning system does not meet the needs of a modern and vibrant post-devolution Wales. Our country could benefit enormously from a simplified system, whereby public land could be used to produce food and made to work to allow businesses to grow. Do you agree that Wales needs a new planning Act that is fit for purpose to meet the needs of a modern-day Wales, and do you support the idea in principle of a new planning Act for Wales, which would be designed to sustain living communities?

**John Griffiths:** It will be an important consideration of the next Assembly Government as to how our planning laws can be developed and improved. Community benefit would and should be central to that. Following the referendum, we now have greater powers over town and country planning. The new Assembly Government, whatever its composition, would want to consider consolidation in legislation. Planning legislation might be one area where such consolidation could be considered. Therefore, we may well see developments, but that is a matter for the next Assembly Government.

**John Griffiths:** Rydych yn sôn am rai enghreifftiau da o ddeddfwriaeth werthfawr a phwysig y mae'r Cynulliad wedi'u pasio. Rydym wedi dysgu llawer o wersi ar ddeddfu yn ystod y Cynulliad hwn. Gobeithio y bydd fy adolygiad yn un arwyddocaol o ran gwella prosesau ac arferion ar gyfer y Cynulliad nesaf. O ran cyfranogiad ehangach, mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â rhan-ddeiliaid allanol, fel y soniwyd gennym, a chyda phobl ledled Cymru. Credaf y bydd cael rhaglen bum mlynedd yn ein helpu i gynllunio rhaglen ddeddfwriaethol resymegol ar gyfer Llywodraeth nesaf y Cynulliad, beth bynnag fydd ei chyfansoddiad. Bydd y defnydd o Bapurau Gwyrdd, Papurau Gwyn a Biliau Drafft yn bwysig ar gyfer meithrin a datblygu'r ymgysylltu pwysig hwnnw.

**Leanne Wood:** Un o'r newidiadau deddfwriaethol rwy'n gobeithio a wneir yn y pedwerydd Cynulliad yw ailwampio ein cyfreithiau cynllunio hen ffasiwn yn sylweddol. Daeth yn amlwg yn sgîl ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Cynaliadwyedd nad yw ein system gynllunio yn diwallu anghenion y Gymru fodern a bywiog ar ôl datganoli. Gallai ein gwlad elwa'n fawr o gael system symlach, lle y gallai tir cyhoeddus gael ei ddefnyddio i gynhyrchu bwyd a'i ddefnyddio i alluogi busnesau i dyfu. A gytunwch fod ar Gymru angen Deddf gynllunio newydd sy'n addas 'r pwrpas o ddiwallu anghenion y Gymru fodern, ac a ydych yn cefnogi mewn egwyddor y syniad o Ddeddf gynllunio newydd i Gymru, a fyddai'n cael ei chynllunio i gynnal cymunedau byw ?

**John Griffiths:** Bydd sut y gall ein deddfau cynllunio gael eu datblygu a'u gwella yn ystyriaeth bwysig i Lywodraeth nesaf y Cynulliad. Dylai budd i'r gymuned fod yn ystyriaeth ganolog yn hynny o beth. Ar ôl y refferendwm, mae gennym bellach fwy o bwerau dros gynllunio gwlad a thref. Byddai Llywodraeth newydd Cymru, beth bynnag fydd ei chyfansoddiad, yn dymuno ystyried cydgrynhoi o ran deddfwriaeth. Mae deddfwriaeth gynllunio yn un maes lle y gellid ystyried cydgrynhoi o'r fath o bosibl. Felly, efallai y gwelwn ddatblygiadau, ond mae hynny'n fater i Lywodraeth nesaf y Cynulliad.

**Brian Gibbons:** With the growing maturity of the Assembly as a legislature, and following yesterday's decision, and the result of the referendum, do you think that the Assembly Government should be working to develop a single legal jurisdiction in Wales, to reflect these changing circumstances?

**John Griffiths:** There is a very important debate to be had as to whether we should have a single legal jurisdiction in Wales, as is the case in Scotland and in Northern Ireland. Following the referendum, the case for that single legal jurisdiction is definitely stronger. The First Minister recently made some important comments and observations on this, and I very much agree with him that what we really need is for the legal profession to engage in a debate as to where we should go with regard to the prospect of a single legal jurisdiction. It is an important matter for Wales to understand the advantages and, perhaps, the difficulties and obstacles in establishing such jurisdiction. It is a debate that should be had.

**Irene James:** Counsel General, I am proud of the record of this Labour-led Welsh Assembly Government in moving ahead with pioneering legislation in many areas, including local government, reforming the Tory right to buy, and the rights of children and young people. It is a record of which this party can be proud. We promised action in these areas and we have delivered. In the context of the recent referendum result, will you make a statement on the emerging body of Welsh law?

**John Griffiths:** I very much agree that we have passed some very important, pioneering legislation in this Assembly, and the Measure giving effect to the UN Convention on the Rights of the Child for our children and young people is one very good example of that. We have Wales Legislation Online, which is an important resource in helping everyone understand just how much we have developed that emerging body of Welsh law. That process of a distinctive body of Welsh

**Brian Gibbons:** Gyda'r Cynulliad yn aeddfedu fwyfwy fel deddfwrfa, ac yn dilyn y penderfyniad ddoe, a chanlyniad y refferendwm, a ydych yn credu y dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio ar ddatblygu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yng Nghymru, er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau hyn sy'n newid?

**John Griffiths:** Mae dadl bwysig iawn i'w chael ynghylch a ddylem gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yng Nghymru, fel sydd ganddynt yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Yn dilyn y refferendwm, mae'r achos dros yr awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn bendant yn gryfach. Gwnaeth y Prif Weinidog rai sylwadau pwysig ar hyn yn ddiweddar, ac rwy'n cytuno ag ef mai'r hyn sydd ei angen arnom mewn gwirionedd yw bod y proffesiwn cyfreithiol yn cymryd rhan mewn dadl ynghylch ble y dylem fynd o ran y posibilrwydd o gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Mae'n fater pwysig i Gymru ddeall manteision ac, efallai, yr anawsterau a'r rhwystrau a fyddai sefydlu awdurdodaeth o'r fath yn eu hachosi. Mae hi'n ddadl y dylid ei chynnal.

**Irene James:** Gwnsler Cyffredinol, rwy'n falch o hanes Llywodraeth Cymru, dan arweiniad y blaid Lafur, yn symud ymlaen gyda deddfwriaeth arloesol mewn sawl maes, gan gynnwys llywodraeth leol, diwygio'r hawl i brynu a roddwyd gan y Torïaid, a hawliau plant a phobl ifanc. Mae'n hanes y gall y blaid hon fod yn falch ohono. Roeddem wedi addo gweithredu yn y meysydd hyn ac rydym wedi gwneud hynny. Yng nghyd-destun canlyniad y refferendwm yn ddiweddar, a fyddwch yn gwneud datganiad ar y corff o gyfraith Cymru sy'n dod i'r amlwg?

**John Griffiths:** Rwy'n cytuno ein bod wedi pasio deddfwriaeth arloesol, bwysig iawn yn y Cynulliad hwn, ac mae'r Mesur sy'n gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar gyfer ein plant a phobl ifanc yn un enghraifft dda iawn o hynny. Mae gennym Ddeddfwriaeth Cymru Ar-lein, sy'n adnodd pwysig i helpu pawb i ddeall yn union faint rydym wedi datblygu'r corff hwnnw o gyfraith Cymru sy'n dod i'r amlwg. Bydd y broses honno o sicrhau corff

law will undoubtedly accelerate in the next Assembly with the greater powers that we will have following the referendum. It is very important that we look at how we can make everyone who needs to be aware of the law, as it now applies in Wales, aware of it, and developments around Wales Legislation Online would be a good starting point for that process.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i'r Cwnsler Cyffredinol, nid yn unig am ei atebion heddiw, ond am ei gydweithrediad dros y blynyddoedd mewn perthynas â Swyddfa'r Llywydd. Llongyfarchiadau ar dy Gymraeg rhagorol a chroyw.

**John Griffiths:** Diolch yn fawr, Lywydd.

nodedig o gyfraith Cymru, heb os, yn cyflymu yn y Cynulliad nesaf gyda'r pwerau mwy a fydd gennym ar ôl y refferendwm. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar sut y gallwn sicrhau bod pawb y mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r gyfraith, fel y mae'n awr yn gymwys yng Nghymru, yn ymwybodol ohoni, a byddai datblygiadau mewn cysylltiad â Deddfwriaeth Cymru Ar-lein yn fan cychwyn da ar gyfer y broses honno.

**The Presiding Officer:** Thank you, Counsel General, not only for your responses today, but for your co-operation over the years with the Presiding Office. Congratulations on your excellent Welsh.

**John Griffiths:** Thank you, Presiding Officer.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government**

### **Blaenoriaethau**

**1. Darren Millar:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Gorllewin Clwyd dros weddill y Cynulliad hwn. OAQ(3)1551(SJL)*

**The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** For the rest of this Assembly term, my priority remains to promote safe, sustainable and fair communities. We will continue to protect the most vulnerable people in our society and safeguard the core services that we all rely on, in Clwyd West and across the country.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, Minister. You mentioned in your response the need for sustainable communities. You will be aware that Conwy County Borough Council is currently considering its local development plan proposals, which, quite frankly, are totally unsustainable. It is proposing to put another 850 new homes in the Abergele area, which will clearly put lots of stress on existing infrastructure and facilities such as roads, schools and other

### **Priorities**

**1. Darren Millar:** *Will the Minister make a statement on his priorities for Clwyd West for the rest of this Assembly term. OAQ(3)1551(SJL)*

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn, fy mlaenoriaeth o hyd yw hyrwyddo cymunedau diogel, cynaliadwy a theg. Byddwn yn parhau i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac yn diogelu'r gwasanaethau craidd yr ydym oll yn dibynnu arnynt, yng Ngorllewin Clwyd a ledled y wlad.

**Darren Millar:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Crybwyllwyd yr angen am gymunedau cynaliadwy yn eich ymateb. Byddwch yn ymwybodol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried ei gynigion ar gyfer ei gynllun datblygu lleol ar hyn o bryd, sydd, i fod yn onest, yn gwbl anghynaliadwy. Mae'n cynnig darparu 850 o gartrefi newydd yn ardal Abergele, a fydd yn amlwg yn rhoi llawer o straen ar yr isadeiledd presennol ac ar gyfleusterau fel

services provided by the health board and the local authority. What guidance have you been able to issue, and what discussions have you had, with the Minister responsible for planning, and with local authorities, to ensure that only sustainable solutions to planning are being developed as part of the LDP process?

**Carl Sargeant:** As you are aware, planning is not part of my department; that function is currently held by Jane Davidson, and I will refer your question to her.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ(3)1564(SJL), yn ôl.

### Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus

**3. Jenny Randerson:** *Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog mwy o fenywod i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus. OAQ(3)1577(SJL)*

**Carl Sargeant:** The Welsh Assembly Government has funded a number of initiatives that have sought to promote equality of opportunity for women in Wales. Many of these initiatives aim to inspire and empower women to become leaders in their communities and decision-makers at all levels of public and political life.

**Jenny Randerson:** Thank you for that answer, Minister. Earlier this month, the Equality and Human Rights Commission issued a report that showed that women were still seriously under-represented at what it called 'the decision-making tables' in Wales. I am sure that we all share the concern that there are likely to be far fewer women in the Assembly after the election. I say that as a member of a group in which four out of the five Members are women. I share the concern that has been expressed by my party leader, Kirsty Williams.

However, the Assembly Government has a real influence with regard to higher education. The latest statistics show that, although 53 per cent of all staff in higher education are women, only 42 per cent of

ffyrdd, ysgolion a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Pa ganllawiau ydych wedi gallu'u rhoi, a pha drafodaethau a gawsoch â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, a chydag awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau mai dim ond atebion cynaliadwy i gynllunio a ddatblygir fel rhan o'r broses cynlluniau datblygu lleol?

**Carl Sargeant:** Fel y gwyddoch, nid yw cynllunio yn rhan o fy adran; Jane Davidson sy'n gyfrifol am y swyddogaeth honno ar hyn o bryd, a byddaf yn cyfeirio eich cwestiwn ati hi.

**The Presiding Officer:** Question 2, OAQ(3)1564(SJL), is withdrawn.

### Women in Public Life

**3. Jenny Randerson:** *What is the Minister doing to encourage more women into public life. OAQ(3)1577(SJL)*

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu nifer o fentrau sydd wedi ceisio hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i fenywod yng Nghymru. Mae llawer o'r mentrau hyn yn anelu at ysbrydoli a grymuso menywod i ddod yn arweinwyr yn eu cymunedau ac i wneud penderfyniadau ar bob lefel mewn bywyd cyhoeddus a bywyd gwleidyddol.

**Jenny Randerson:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad a oedd yn dangos bod menywod yn dal heb gynrychiolaeth ddigonol yn yr hyn a elwir yn 'fyrdau gwneud penderfyniadau' yng Nghymru. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yr un mor bryderus ei bod yn debygol y bydd llawer yn llai o fenywod yn y Cynulliad ar ôl yr etholiad. Dywedaf hynny fel aelod o grŵp y mae pedwar allan o'r pum Aelod sydd ynddo yn fenywod. Rwy'n rhannu'r pryder a fynegwyd gan arweinydd fy mhlaid, Kirsty Williams.

Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth y Cynulliad ddylanwad gwirioneddol o ran addysg uwch. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos, er bod 53 y cant o'r holl staff ym maes addysg uwch yn fenywod, dim ond 42 y

those in academic posts are women. There is a far greater representation of men than women in the very top jobs. However, women make up 62 per cent of the lower paid, non-academic roles. This demonstrates that women are trapped in the lower paid roles. What has the Assembly Government done to improve that situation and what are you planning to do in the future?

**Carl Sargeant:** Your question is consistent with your contributions over the past 12 months as you have endeavoured to promote women in senior public sector positions. I am very disappointed that, across Wales, there are far too few women in senior posts. Some of the figures are quite disturbing. Only 30 per cent of NHS chief executives are female; in the private sector, only 4 per cent of the chief executives of Wales's top 50 companies are female. This is something that we have to tackle through the advancing equality fund programmes, such as the Women's Workshop and Women Connect First. I would be keen, as the Minister currently responsible for this area, to provide additional funding for this.

**Lynne Neagle:** It is fitting, Minister, that this hugely important issue has been raised by Jenny on her last day in the Chamber, and I certainly wish her well in her new role in the House of Lords. I also hope that she will be able to have a word with some of her Lib Dem colleagues in Westminster about the cruel cuts that they have unleashed on women across the country since they took office a little under a year ago. Although we could always do more, I welcome the steps that the Assembly Government has taken to promote equality over the last decade or more, such as providing funding for organisations to support women to move into public life, the new equality duties and support for International Women's Day celebrations across Wales. Minister, do you agree that, although we have made great strides forward, we must continue to highlight the ongoing battle for women across the world to achieve equality?

cant o'r rhai mewn swyddi academiaidd sy'n fenywod. Mae yna gynrychiolaeth llawer mwy o ddynion na menywod yn y swyddi uchaf un. Fodd bynnag, mae 62 y cant o'r rhai sydd ar gyflogau isel, a'r rhai sydd mewn rolau anacademaidd yn fenywod. Mae hyn yn dangos bod menywod yn gaeth yn y rolau cyflog isel. Beth a wnaeth Llywodraeth Cymru i wella'r sefyllfa honno a beth rydych yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol?

**Carl Sargeant:** Mae eich cwestiwn yn gyson â'ch cyfraniadau dros y 12 mis diwethaf, oherwydd rydych wedi ymdrechu i hyrwyddo menywod yn swyddi uwch y sector cyhoeddus. Rwy'n siomedig iawn fod prinder mawr o fenywod mewn swyddi uwch ledled Cymru. Mae rhai o'r ffigurau yn peri cryn bryder. Dim ond 30 y cant o brif weithredwyr y GIG sy'n fenywod, ac yn y sector preifat, dim ond 4 y cant o brif weithredwyr yn y 50 o prif gwmnïau yng Nghymru sy'n fenywod. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni fynd 'r afael ag ef drwy raglenni'r gronfa hyrwyddo cydraddoldeb, fel y Gweithdy i Fenywod a Women Connect First. Byddwn i, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y maes hwn, yn awyddus i ddarparu arian ychwanegol ar gyfer hyn.

**Lynne Neagle:** Mae'n briodol, Weinidog, fod y mater hynod bwysig hwn wedi'i godi gan Jenny ar ei diwrnod olaf yn y Siambr, ac rwy'n sicr yn dymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd hi'n gallu cael gair gyda rhai o'i chydweithwyr o blith y Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan ynghylch y toriadau creulon y maent wedi'u cyflwyno i fenywod drwy'r wlad ers iddynt ymgymryd â'u gwaith ychydig yn llai na blwyddyn yn ôl. Er y gallem wastad wneud rhagor, rwy'n croesawu'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i hybu cydraddoldeb yn ystod y degawd neu fwy diwethaf, fel darparu cyllid ar gyfer sefydliadau i gefnogi menywod i ddod i mewn i fywyd cyhoeddus, y dyletswyddau cydraddoldeb newydd a'r gefnogaeth ar gyfer dathliadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ledled Cymru. Weinidog, a ydych yn cytuno, er ein bod wedi cymryd camau breision ymlaen, fod yn rhaid i ni barhau i dynnu sylw at y frwydr barhaus sy'n wynebu menywod ledled y byd i sicrhau



cydraddoldeb?

**Carl Sargeant:** Thank you, Lynne, for raising this extremely important issue in the Chamber today. I agree wholeheartedly that the cuts coming from Westminster will have an impact on women, children and disabled groups across Wales, and it is something that I find particularly unpleasant. The important thing here is to make things happen, and we have made progress in Wales in relation to the programmes that we have supported. Unfortunately, in Westminster, there is currently some backtracking on the equality duties. This is very disappointing. Only this week, I received a letter from a senior Conservative, who was critical of the support that I have given to women's organisations across Wales. I will respond to that in the next couple of weeks.

**Mohammad Asghar:** Minister, you have stated your disappointment at what has been achieved in Wales. Research from the Equality and Human Rights Commission has found that, of the 50 top Welsh companies, only two have female chief executives. Do you share my concern at this statistic? How can the Assembly Government look to tackle the long-standing gender gap that exists at the top level of Welsh firms and help to ensure that more women achieve their potential, reach these positions and play a prominent role in public life? It is not good enough just to be disappointed, it is necessary to do something.

**Carl Sargeant:** Thank you for your question, but do you condemn the actions of one senior Conservative, who, on hearing about an award of £30,000 for an event to celebrate International Women's Day, wrote me a letter to say that he disapproves of such expenditure? Do you agree that that is a bad letter to send to the Minister with responsibility for equality?

1.45 p.m.

**Carl Sargeant:** Diolch i chi, Lynne, am godi'r mater pwysig iawn hwn yn y Siambur heddiw. Cytunaf yn llwyr y bydd y toriadau o San Steffan yn effeithio ar fenywod, plant a grwpiau anabl ledled Cymru, ac mae'n rhywbeth sy'n arbennig o annymunol yn fy marn i. Y peth pwysig yn hyn o beth yw gwneud i bethau ddigwydd, ac rydym wedi gwneud cynnydd yng Nghymru mewn perthynas â'r rhaglenni yr ydym wedi'u cefnogi. Yn anffodus, ar hyn o bryd yn San Steffan, mae rhywfaint o wrthgilio o ran y dyletswyddau cydraddoldeb. Mae hyn yn siomedig iawn. Mor ddiweddar â'r wythnos hon, cefais lythyr gan aelod uwch o'r Ceidwadwyr, a oedd yn feirniadol o'r gefnogaeth rwyf wedi ei rhoi i sefydliadau menywod ar draws Cymru. Byddaf yn ymateb i hynny yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, rydych wedi datgan eich siom am yr hyn sydd wedi'i gyflawni yng Nghymru. Canfu ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, o'r 50 o gwmnïau gorau Cymru, mai dim ond dau sydd â phrif weithredwyr benywaidd. A ydych yr un mor bryderus a mi am yr ystadegyn hwn? Sut all Llywodraeth y Cynulliad ddisgwyl mynd 'r afael â chau'r bwllch parhaus rhwng y rhywiau sy'n bodoli ar y lefel uchaf mewn cwmnïau yng Nghymru, a helpu i sicrhau bod mwy o fenywod yn cyflawni eu potensial, yn cyrraedd y swyddi hyn ac yn chwarae rhan amlwg mewn bywyd cyhoeddus? Nid yw'n ddigon da i fynegi ein siom yn unig; mae angen gweithredu.

**Carl Sargeant:** Diolch i chi am eich cwestiwn, ond a ydych yn condemnio gweithredoedd un aelod uwch o'r Ceidwadwyr, a oedd, wrth glywed am ddyfarniad o £30,000 ar gyfer digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, wedi ysgrifennu llythyr ataf i ddweud nad oedd yn cytuno â'r fath wariant? Onid ydych yn cytuno bod hwnnw'n llythyr gwael i'w anfon at y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb?

**The Presiding Officer:** Order. Minister, you have put me in some difficulty, because you are not yet in a position to ask questions. [*Laughter.*] However, since you have asked a question, I feel that I am obliged, in the interests of fairness and equality to my former party colleague, Mohammad Asghar, to call him to respond.

**Mohammad Asghar:** Thank you, Presiding Officer. The Minister should be answering my question.

**The Presiding Officer:** Order. Honour is satisfied.

**Carl Sargeant:** I take it that the Member does not agree with me, and that he supports his colleagues, who have condemned our support for International Women's Day.

#### Awdurdodau Lleol

**4. Nick Bourne:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol awdurdodau lleol yng Nghymru. OAQ(3)1561(SJL)*

If it is the senior member that I am thinking of, we disown the letter completely. He is not senior, and he has been a bugbear for all of us. [*Laughter.*] Let us move on.

**Carl Sargeant:** The Assembly Government will continue to work with local government to help it provide high-quality services that meet local needs and build strong and sustainable communities.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** I thank the Minister for that response. I know that he will be concerned about local authorities working together, and, in that context, I will ask him about an issue that will concern all Members, the media and the people of Wales—our forthcoming elections and the fragmented nature of the count. Given the increasing importance of this institution, reflected by the decisive 'yes' vote and the united vote on the issue in the Assembly, is it not important that all these counts take place on the evening of the vote and that they are not disparate, as appears to be the case at the moment?

**Y Llywydd:** Trefn. Weinidog, rydych wedi fy rhoi mewn sefyllfa anodd, oherwydd nad ydych eto mewn sefyllfa i ofyn cwestiynau. [*Chwerthin.*] Fodd bynnag, am eich bod wedi gofyn cwestiwn, teimlaf reidrwydd, er tegwch a chydraddoldeb i'm cyn cydweithiwr yn fy mhlaid, Mohammad Asghar, i'w alw i ymateb.

**Mohammad Asghar:** Diolch, Lywydd. Dylai'r Gweinidog fod yn ateb fy nghwestiwn i.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae anrhydedd wedi'i fodloni.

**Carl Sargeant:** Rwy'n cymryd nad yw'r Aelod yn cytuno â mi, a'i fod yn cefnogi ei gydweithwyr, sydd wedi ein condemnio am gefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

#### Local Authorities

**4. Nick Bourne:** *Will the Minister make a statement on the future of local authorities in Wales. OAQ(3)1561(SJL)*

Os mai'r uwch aelod iawn sydd gennyf mewn meddwl, rydym yn diarddel y llythyr yn gyfan gwbl. Nid yw'n aelod uwch, ac mae wedi bod yn destun cwyno i bob un ohonom. [*Chwerthin.*] Gadewch inni symud ymlaen.

**Carl Sargeant:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion lleol ac yn adeiladu cymunedau cryf a chynaliadwy.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Diolch i'r Gweinidog am ei ymateb. Gwn y bydd yn poeni am awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd, ac, yn y cyd-destun hwnnw, gofynnaf iddo am fater sy'n peri pryder i bob Aelod, y cyfryngau a phobl Cymru—ein etholiadau sydd ar ddod a natur fratiog y cyfrif. O ystyried pwysigrwydd cynyddol y sefydliad hwn, a adlewyrchir gan y bleidlais 'ie' bendant a'r bleidlais unedig ar y mater yn y Cynulliad, onid yw'n bwysig bod pob cyfrif yn digwydd ar noson y bleidlais, yn hytrach nag ar adegau gwahanol, fel ymddengys ar hyn o bryd?

**Carl Sargeant:** Thank you for your question, Nick. While this is not a matter for me—it is primarily a matter for returning officers—I share your concerns. It would be only right that the counts carry on after 10 p.m. on Thursday 5 May. This is something that I will, perhaps, take up with the Electoral Commission and with the Presiding Officer, who may be able to influence any decisions taken.

**The Presiding Officer:** I am grateful for your answer, Minister, and for the question. I have already started to talk about this matter with the Electoral Commission, and did so as soon as I was made aware this week that this might happen. It is in all our interests to have consistency across Wales and that our election is given the priority that it deserves.

**Ann Jones:** Minister, I was surprised to hear Nick Bourne ask a question on the future of local authorities, given his party's record in Westminster of slashing local government budgets, affecting the poorest people the hardest. Will you assure me that you will continue to fight for local government in Wales, and that you will never turn your back on it, as the Tories in Westminster have done in the name of localism?

**Carl Sargeant:** I would agree with you on this issue. We know that the Conservatives and Lib Dems in Westminster are keen on dismantling local government and the services that it provides. We have seen massive cuts in local government budgets in England, and colleagues in Wales need only look across the border to see the difference in services. We are keen, as Welsh Labour and the Labour-led Welsh Assembly Government, to support our most vulnerable people. Indeed, only yesterday, I was able to announce an additional £10 million for local authorities across Wales to help with children's services, social services and community facilities. I am keen to promote our relationship with local government; indeed, Denbighshire County Council yesterday received an additional £320,000.

**Carl Sargeant:** Diolch i chi am eich cwestiwn, Nick. Er nad yw hwn yn fater i mi—mater i'r swyddogion canlyniadau ydyw yn bennaf—rwy'n rhannu eich pryderon. Mi fyddai ond yn iawn fod y cyfrif yn parhau ar ôl 10 p.m. ddydd Iau 5 Mai. Efallai y gwnaf sôn am hynny gyda'r Comisiwn Etholiadol a'r Llywydd, a allai ddylanwadu ar benderfyniadau.

**Y Llywydd:** Diolch am eich ateb, Weinidog, ac am y cwestiwn. Rwyf eisoes wedi dechrau siarad am y mater hwn gyda'r Comisiwn Etholiadol, a gwnes hynny cyn gynted ag y cefais wybod yr wythnos hon y gallai hyn ddigwydd. Mae er budd pawb i gael cysondeb ar draws Cymru a bod ein hetholiad yn cael y flaenoriaeth y mae'n ei haeddu.

**Ann Jones:** Weinidog, rwy'n synnu i glywed Nick Bourne yn gofyn cwestiwn ar ddyfodol awdurdodau lleol, o ystyried hanes ei blaid yn San Steffan o dorri cyllidebau llywodraeth leol, sy'n effeithio fwyaf ar y bobl dlotaf. A wnewch fy sicrhau y byddwch yn parhau i ymladd dros lywodraeth leol yng Nghymru, ac na fyddwch byth yn troi eich cefn arni, fel y mae'r Torïaid yn San Steffan wedi ei wneud yn enw lleoliaeth?

**Carl Sargeant:** Rwy'n cytuno â chi ar y mater hwn. Gwyddom fod y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn awyddus i ddatgymalu llywodraeth leol a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Rydym wedi gweld toriadau enfawr yng nghyllidebau llywodraeth leol yn Lloegr, a gall cydweithwyr yng Nghymru edrych ar draws y ffin i weld y gwahaniaeth yn y gwasanaethau. Rydym yn awyddus, fel Llafur Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael ei harwain gan y Blaid Lafur, i gefnogi ein pobl fwyaf agored i niwed. Yn wir, dim ond ddoe, cyhoeddais swm ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru i helpu gyda gwasanaethau plant, gwasanaethau cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol. Rwy'n awyddus i hyrwyddo ein perthynas gyda llywodraeth leol; yn wir, ddoe, cafodd Cyngor Sir Ddinbych swm ychwanegol o £320,000.

**Chris Franks:** Minister, what discussions have you had regarding the terms and conditions of the workforce of Rhondda Cynon Taf County Borough Council? Some workers have had a 40 per cent pay cut imposed on them. Have any lessons been learned from this dispute? Are you as shocked as I was to learn that RCT had underspent by £2 million, after it had pleaded poverty and made allegations of a poor settlement from your department?

**Carl Sargeant:** Contractual arrangements within the authority are matters for the authority. I am aware of some of the issues that you raised with regard to RCT. I am in constant communication with all authorities across Wales.

### Undebau Credyd

**5. Sandy Mewies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer undebau credyd. OAQ(3)1553(SJL)*

**Carl Sargeant:** You have clearly championed the credit union movement across Wales, Sandy, and I pay tribute to you for that. The credit union action plan was published in December 2010; it is a three-year programme that aims to support and develop a strong, sound and effective credit union movement that can provide accessible, affordable and quality financial services to the citizens of Wales.

**Sandy Mewies:** Thank you for that answer, Minister. As you know, we have a fantastic all-Flintshire credit union and, indeed, there are fantastic credit unions operating throughout Wales, helping both young and old to manage their finances. Do you agree that we should very much hope that this work will be expanded upon and supported in the fourth Assembly by the next Welsh Assembly Government, of which I am sure you will be a part?

**Carl Sargeant:** We have tried to create a solid platform on which to develop the credit union programme in Wales. Welsh credit union membership has increased by 16 per cent since 2000 and the latest estimates are that there are 43,000 adult members and

**Chris Franks:** Weinidog, pa drafodaethau ydych wedi'u cael ynghylch telerau ac amodau gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf? Mae rhai gweithwyr wedi cael toriad cyflog gorfodol o 40 y cant. A oes unrhyw wersi wedi'u dysgu o'r anghydfod hwn? A ydych wedi synnu, fel fi, bod Rhondda Cynon Taf wedi tanwario gan £2 filiwn, ar ôl pledio tloidi a honni iddynt gael setliad gwael gan eich adran?

**Carl Sargeant:** Mae trefniadau cytundebol o fewn yr awdurdod yn fater i'r awdurdod. Rwy'n ymwybodol o rai o'r materion rydych wedi sôn amdanynt ynghylch Rhondda Cynon Taf. Rwyf mewn cyswllt cyson gyda phob awdurdod ledled Cymru.

### Credit Unions

**5. Sandy Mewies:** *Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's action plan for credit unions. OAQ(3)1553(SJL)*

**Carl Sargeant:** Sandy, rydych wedi bod yn amlwg wrth hyrwyddo mudiad yr undebau credyd ledled Cymru, a thalaf deyrnged i chi am hynny. Cafodd cynllun gweithredu'r undebau credyd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2010; mae'n rhaglen dair blynedd sy'n anelu i gefnogi a datblygu mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithiol sy'n gallu darparu gwasanaethau ariannol hygyrch, fforddiadwy ac o ansawdd i ddinasyddion Cymru.

**Sandy Mewies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae gennym undeb credyd gwych yn Sir y Fflint ac, yn wir, mae undebau credyd gwych yn gweithredu ledled Cymru, gan helpu pobl hen ac ifanc i reoli eu harian. A ydych yn cytuno y dylem mawr obeithio y bydd y gwaith hwn yn cael ei ehangu ac yn cael cefnogaeth y pedwerydd Cynulliad drwy Lywodraeth nesaf Cynulliad Cymru, yr wyf yn siŵr y byddwch yn rhan ohoni?

**Carl Sargeant:** Rydym wedi ceisio creu llwyfan cadarn ar gyfer datblygu'r rhaglen undeb credyd yng Nghymru. Mae aelodaeth undebau credyd Cymru wedi cynyddu 16 y cant ers 2000 a'r amcangyfrifon diweddaraf yw bod 43,000 o oedolion yn aelodau a bod

8,000 junior savers in credit unions across Wales. Those are really good figures, but we can build on them and, with the support of the next Government, whoever may be a part of it, the credit unions can go from strength to strength across Wales.

**David Melding:** One thing that we could all look at is how to extend the remit of credit unions so that they may lend money to small businesses in particular, which is crucial for economic development and regeneration. I can see ways in which the Welsh Assembly Government could create microcredit funding streams and devolve those to credit unions, to allow them to back young people with bright ideas in their local communities who need £1,000 up to perhaps £5,000 to get going on something. They are ideally placed to make good, sound decisions on those sorts of levels of loans.

**Carl Sargeant:** That is already happening in some areas. I was in Newtown recently, visiting the Robert Owen Montgomeryshire Credit Union Ltd, which already has an arm's-length body that provides credit union support to businesses across its area. That is something that I have asked my team to look at in more detail, to see whether we can promote that across all credit unions across Wales.

**Leanne Wood:** Minister, I am sure that you are aware that there is a great deal of anger out there regarding the big banks and the ineffectiveness of the Westminster Government in bringing them into line, or possibly its unwillingness to do so. The banks continue to pay obscene bonuses even though they are the very institutions that had to be bailed out by the taxpayer and that are threatening the fragile economic recovery by refusing to lend money to small businesses. Do you agree, Minister, that it is time that we took matters into our own hands in Wales and established an alternative financial model, such as the people's bank, which I have raised with you in the Chamber in the past? Credit unions have their part to play—there is no doubt about that—but I think that there needs to be some sort of provision so that small companies that are based in Wales can access loans to grow and develop. Minister, as we reach the end of the third

8,000 o gynilwyr iau mewn undebau credyd ledled Cymru. Mae'r ffigurau hynny'n rhai da iawn, ond gallwn adeiladu arnynt a, gyda chefnogaeth y Llywodraeth nesaf, pwyl bynnag fydd yn rhan ohoni, gall undebau credyd fynd o nerth i nerth ledled Cymru.

**David Melding:** Un peth y gallem oll edrych arno yw sut i ymestyn cylch gwaith undebau credyd er mwyn iddynt allu benthyc arian i fusnesau bach, yn arbennig, sy'n hanfodol ar gyfer datblygu economaidd ac adfywio. Gallaf weld sut y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru greu ffrydiau ariannu credyd micro a'u datganoli i undebau credyd, i'w galluogi i gefnogi pobl ifanc gyda syniadau disglair yn eu cymunedau lleol sydd angen £1,000 hyd at tua £5,000 i ddechrau rhywbeth. Maent mewn sefyllfa ddelfrydol i wneud penderfyniadau da a chadarn ar y mathau hynny o lefelau o fenthyciadau.

**Carl Sargeant:** Mae hynny eisoes yn digwydd mewn rhai ardaloedd. Roeddwn yn y Drenewydd yn ddiweddar, yn ymweld ag Undeb Credyd Sir Drefaldwyn Robert Owen Ltd, sydd eisoes yn gorff hyd braich sy'n darparu cefnogaeth undeb credyd i fusnesau yn ei ardal. Rwyf wedi gofyn i'm tîm edrych ar hynny'n fanylach, i weld a allwn hyrwyddo hynny ar draws pob undeb credyd ledled Cymru.

**Leanne Wood:** Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod llawer iawn o ddieter yn bodoli am y banciau mawr ac aneffeithiolrwydd Llywodraeth San Steffan i ddod â nhw i drefn, neu o bosibl ei amharodrwydd i wneud hynny. Mae'r banciau'n parhau i dalu taliadau bonws anwedus, er mai nhw yw'r sefydliadau a gafodd eu hachub gan y trethdalwr ac sy'n bygwth yr adferiad economaidd bregus trwy wrthod benthyc arian i fusnesau bach. A ydych yn cytuno, Weinidog, ei bod yn bryd inni gymryd rheolaeth yng Nghymru a sefydlu model ariannol amgen, fel banc y bobl, yr wyf wedi sôn amdano gyda chi yn y Siambr yn y gorffennol? Mae gan undebau credyd eu rhan i'w chwarae—nid oes amheuaeth am hynny—ond credaf fod angen rhyw fath o ddarpariaeth fel y gall cwmnïau bach sydd wedi'u lleoli yng Nghymru gael gafael ar fenthyciadau i dyfu a datblygu. Weinidog, wrth i ni gyrraedd diwedd y

Assembly, can you provide us with an update as to how such an alternative financial model could be developed and achieved in Wales?

**Carl Sargeant:** That was another important question on supporting the most vulnerable in our communities by providing them with safe borrowing facilities and the ability to save in safe places, which is really important after the crash of banks and other financial organisations. As I said to David earlier, we are working very hard to build the network of credit unions and to support them so that they can do that. The Robert Owen credit union has a community development finance operation in that area and has community banking funding zones around Newtown. We have to build on the support for that, from both business and private investment from members of the community. 'Taking things into our own hands' is quite a broad statement. I went on the peaceful march against the cuts in London on Saturday. I think that people are starting to wake up to the fact that there is an attack on the way in which people live their lives across the UK. People are now taking matters into their own hands, which you can see in the reaction on the streets and the demonstrations that are occurring.

### **Blaenoriaethau ar gyfer y Gorllewin**

**6. Paul Davies:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y Gorllewin dros weddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1566(SJL)*

**Carl Sargeant:** I will continue to promote safe, sustainable and fair communities while protecting core services and the most vulnerable people in west Wales and across the country. A review of local authority services is under way and the Proposed Local Government (Wales) Measure will strengthen the operation of local government.

**Paul Davies:** Last week I had the privilege of hosting an event in the Senedd on behalf of a number of advocacy groups from across Wales. The event was a wonderful opportunity to raise awareness of the

trydydd Cynulliad, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar sut y gallai model ariannol amgen o'r fath gael ei ddatblygu a'i gyflawni yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** Dyna gwestiwn pwysig arall ar gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau drwy ddarparu cyfleusterau benthyca diogel a'r gallu i gynilo mewn manau diogel, sy'n bwysig iawn ar ôl chwalfa'r banciau a sefydliadau ariannol eraill. Fel y dywedais wrth David yn gynharach, rydym yn gweithio'n galed iawn i adeiladu rhwydwaith o undebau credyd a'u cefnogi fel y gallant wneud hynny. Mae undeb credyd Robert Owen yn gweithredu system gyllid datblygu cymunedol yn yr ardal honno ac mae ganddo barthau cyllid bancio cymunedol o gwmpas y Drenewydd. Mae'n rhaid i ni adeiladu ar y gefnogaeth ar gyfer hynny, o fuddsoddiad gan fusnesau a buddsoddiad preifat gan aelodau o'r gymuned. Mae 'cymryd rheolaeth' yn ddatganiad eithaf eang. Roeddwn yn yr orymdaith heddychlon yn erbyn y toriadau yn Llundain ddydd Sadwrn. Credaf fod pobl yn dechrau deffro i'r ffaith bod yna ymosodiad ar y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ledled y DU. Mae pobl yn awr yn cymryd rheolaeth, a gallwch weld hynny yn yr ymateb ar y strydoedd a'r gwrthdystiadau sy'n digwydd.

### **Priorities for West Wales**

**6. Paul Davies:** *Will the Minister outline his priorities for West Wales for the remainder of the Third Assembly. OAQ(3)1566(SJL)*

**Carl Sargeant:** Byddaf yn parhau i hyrwyddo cymunedau diogel, cynaliadwy a theg wrth amddiffyn gwasanaethau craidd a'r bobl fwyaf agored i niwed yng ngorllewin Cymru a ledled y wlad. Mae adolygiad o wasanaethau awdurdod lleol ar waith a bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) yn cryfhau gweithrediad llywodraeth leol.

**Paul Davies:** Yr wythnos ddiwethaf, cefais y fraint o gynnal digwyddiad yn y Senedd ar ran nifer o grwpiau eiriolaeth ledled Cymru. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i godi ymwbyddiaeth ynghylch yr heriau y mae

challenges that people with learning disabilities face on a daily basis, particularly parents with learning disabilities. Further research needs to be commissioned into how parents with learning disabilities are treated by their children's education system and support services must be made readily available to help guide and advise parents through the education system. Will the Minister outline what the Welsh Assembly Government is doing to help parents who have learning disabilities to support their children through the education system, particularly in my constituency?

**Carl Sargeant:** You may wish to pose your question to the Minister for education, who is answering questions later. Working with my colleagues, Leighton Andrews and Gwenda Thomas, in relation to local government, I am keen to ensure that we get good value for money and better services for the people of Wales. We are driving through that improvement agenda collectively, but you may wish to pose the education element of your question to Leighton Andrews later.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, yr ydych wedi sôn am bwysigrwydd sicrhau bod ein cymunedau yn rhai cynaliadwy a diogel. A ydych yn cytuno bod diogelu cyllideb y polisi amaethyddol cyffredin yn hollbwysig er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru? A wnewch ymuno â mi wrth gondemnio Llywodraeth San Steffan, sy'n ceisio dirwyn y taliadau uniongyrchol i ben a lleihau'r gyllideb hollbwysig hwn, gyda chefnogaeth yr Aelodau Ceidwadol yn y Cynulliad?

**Carl Sargeant:** You are asking me condemn the UK Government—I think that you can gather what my views would be on that without me actually answering the question. The issue here is clear. It is about how we protect all of Wales, including the rural economy, which is very important to you, I know, as a Member representing west Wales. I am particularly keen to ensure that Welsh Government policy is created holistically, so that we work together across departments to ensure that no-one is disadvantaged, regardless of where they live or their circumstances.

pobl ag anableddau dysgu yn wynebu o ddydd i ddydd, yn enwedig rhieni ag anableddau dysgu. Mae angen comisiynu ymchwil pellach am sut mae rhieni ag anableddau dysgu yn cael eu trin gan system addysg eu plant ac mae angen i wasanaethau cymorth fod ar gael i helpu arwain a chynghori rhieni drwy'r system addysg. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i helpu rhieni sydd ag anableddau dysgu i gefnogi eu plant drwy'r system addysg, yn enwedig yn fy etholaeth?

**Carl Sargeant:** Efallai y byddwch am ofyn eich cwestiwn i'r Gweinidog dros addysg, sy'n ateb cwestiynau yn hwyrach. Gan weithio gyda'm cydweithwyr, Leighton Andrews a Gwenda Thomas, mewn perthynas â llywodraeth leol, rwy'n awyddus i sicrhau ein bod yn cael gwerth da am arian a gwasanaethau gwell i bobl Cymru. Rydym yn datblygu'r agenda gwelliant gyda'n gilydd, ond efallai yr hoffech ofyn elfen addysg eich cwestiwn i Leighton Andrews yn hwyrach.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, you have mentioned the importance of ensuring that our communities are sustainable and safe. Do you agree that safeguarding the common agricultural policy budget is crucial to ensuring sustainable communities in rural Wales? Will you join me in condemning the Westminster Government, which is trying to scrap direct payments and reduce this crucial budget, with the support of the Conservative Members in the Assembly?

**Carl Sargeant:** Rydych yn gofyn i mi gondemnio Llywodraeth y DU—credaf y gallwch dybio beth fyddai fy sylwadau ar hynny heb i mi orfod ateb y cwestiwn. Mae'r mater sydd o dan sylw yn glir. Mae'n ymwneud â sut yr ydym yn diogelu Cymru gyfan, gan gynnwys yr economi wledig, sy'n bwysig iawn i chi, yr wyf yn gwybod, fel Aelod sy'n cynrychioli gorllewin Cymru. Rwy'n arbennig o awyddus i sicrhau bod polisi Llywodraeth Cymru yn cael ei greu mewn modd cyfannol, er mwyn inni weithio gyda'n gilydd ar draws adrannau i sicrhau nad oes neb dan anfantais, waeth ble maent yn byw neu beth yw eu hamgylchiadau.

**Mick Bates:** First, I thank you for all your work in the field of social justice and local government. I hope that you will be able to carry on dishing out such good justice to the people of Wales in the future.

I would like to ask you about the consultation process of the Mid and West Wales Fire and Rescue Service. I have raised the issue of its proposed changes previously. Do you agree that its so-called consultation process, which does not include consultation with any local politicians, AMs or MPs, is unwise and improper? If changes are to be made as it is suggesting all local politicians, AMs and MPs should be consulted on those changes, rather than them being announced without full consultation with all stakeholders.

**Carl Sargeant:** I am aware of the issues that you raise around the Mid and West Wales Fire and Rescue Service, and I have had some discussions with its senior officials. I understand that there has been consultation with Unison, the Fire Brigades Union, the GMB and so on. I am slightly surprised that it has not involved elected members. If that is the case, I will bring that to the attention of the chief fire officer.

### System Ardrethu Annomestig

**7. William Graham:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiâu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y system ardrethu annomestig. OAQ(3)1578(SJL)*

**Carl Sargeant:** I have decided to extend, for a further 12 months, enhancements to rates relief for small businesses, so that around half of small businesses in Wales will pay no business rates until 1 October 2012 and 20 per cent more will see their business rates reduced significantly.

**William Graham:** Thank you for your answer, Minister. Certainly, your actions are welcomed. However, I am sorry that you cannot follow the proposals of the Welsh Conservatives to scrap all business rates for small businesses.

**Mick Bates:** Yn gyntaf, diolch am eich holl waith ym maes cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol. Gobeithiaf y byddwch yn gallu parhau i ddarparu cyfiawnder mor dda i bobl Cymru yn y dyfodol.

Hoffwn eich holi am broses ymgynghori Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Rwyf eisoes wedi sôn am y newidiadau arfaethedig. A ydych yn cytuno bod ei broses ymgynghori, fel y'i gelwir, nad yw'n cynnwys ymgynghori ag unrhyw wleidyddion lleol, ACau neu ASau, yn annoeth ac yn amhriodol? Os oes newidiadau i'w gwneud, fel y mae'n awgrymu, dylid ymgynghori gyda holl wleidyddion lleol, ACau ac ASau, ar y newidiadau hynny, yn hytrach na'u cyhoeddi heb ymgynghori'n llawn gyda'r holl randdeiliaid.

**Carl Sargeant:** Rwy'n ymwybodol o'r materion rydych wedi sôn amdanynt am Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac rwyf wedi cael rhai trafodaethau gyda'i uwch swyddogion. Deallaf y bu ymgynghori gydag Unison, Undeb y Brigadau Tân, y GMB ac yn y blaen. Rwy'n synnu braidd nad oedd hynny'n cynnwys aelodau etholedig. Os yw hynny'n wir, byddaf yn dwyn y mater i sylw'r prif swyddog tân.

### Non-domestic Rating System

**7. William Graham:** *Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's policies on the non-domestic rating system. OAQ(3)1578(SJL)*

**Carl Sargeant:** Rwyf wedi penderfynu ymestyn, am 12 mis arall, y gwelliannau i'r rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, fel y bydd tua hanner y busnesau bach yng Nghymru yn talu dim ardrethi busnes tan 1 Hydref 2012 a bydd 20 y cant yn fwy yn cael gostyngiad sylweddol yn eu hardrethi busnes.

**William Graham:** Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn sicr, mae eich camau gweithredu i gael eu croesawu. Fodd bynnag, mae'n flin gennyf nad oeddech yn gallu derbyn cynigion y Ceidwadwyr Cymreig i gael gwared ar yr holl ardrethi busnes i fusnesau bach.



2.00 p.m.

Similarly, there is your stubborn refusal to cancel backdated rates for businesses within port boundaries, which threatens jobs and companies' viability. You will know that, this week, Experian has indicated that Wales is recovering from the economic problems much more slowly than the rest of the United Kingdom. Your policies do little to address this.

**Carl Sargeant:** Thank you, William; I am delighted that you have raised this question today. Changing my mind on the port rates would equate to the loss of around 350 police community support officers across Wales. If that is what you are supporting, I am pleased that you have put that on the record today. While we are talking about business rates and the Welsh Conservatives' pledge, which I believe you have launched today with regard to spending, we have seen many things launched by the Welsh Conservatives, and I believe that you should declare an interest and show your magician's card, because you seem to be pulling all of these out of the hat, when they are actually all uncoded.

We all know that the cost for introducing this business rates proposal alone is around £150 million each year. I am not allowed to ask questions in this position—I am here to answer them—so I will just give you a thought: it would be really interesting to hear from Nick Bourne or any of your colleagues where you are going to get the £150 million from for scrapping the rates for small businesses. Will it be the teachers, the social workers or the care workers that go? I do not believe that you can deliver that in any way. It is another uncoded policy. You have already said that you are going to cut local government funding. Given that 80 per cent of local authority spending goes on education and social services, one has to wonder where you are going to get the cash for this one.

**Brian Gibbons:** I would like to seek further

Yn yr un modd, mae eich ystyfnigrwydd yn gwrthod canslo ardrethi ôl-ddyddiedig ar gyfer busnesau o fewn ffiniau porthladd, sy'n bygwth hyfywedd swyddi a chwmnïau. Byddwch yn gwybod, yr wythnos hon, fod Experian wedi nodi bod Cymru yn dod dros y problemau economaidd llawer yn arafach na gweddill y Deyrnas Unedig. Ychydig mae eich polisïau yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn.

**Carl Sargeant:** Diolch, William; rwyf wrth fy modd eich bod wedi codi'r cwestiwn hwn heddiw. Byddai newid fy meddwl ynghylch yr ardrethi porthladd yn golygu colli tua 350 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ar draws Cymru. Os mai dyna beth yr ydych yn ei gefnogi, rwy'n falch i chi nodi hynny heddiw. Wrth i ni sôn am ardrethi busnes ac addewid y Ceidwadwyr Cymreig, y bu i chi ei lansio heddiw o ran gwariant, rwy'n credu, rydym wedi gweld y Ceidwadwyr Cymreig yn lansio llawer o bethau, a chredaf y dylech ddatgan buddiant a dangos mai consuriwr ydych chi, oherwydd mae'n ymddangos eich bod yn tynnu pob un o'r rhain allan o'r het, pan eu bod oll mewn gwirionedd heb eu prisio.

Rydym oll yn gwybod bod y gost o gyflwyno'r cynnig ardrethi busnes hwn yn unig yn costio tua £150 miliwn bob blwyddyn. Nid oes gennyf hawl i ofyn cwestiynau yn y sefyllfa hon—rwyf yma i'w hateb—felly gwnaf sylwad i chi bendroni yn ei gylch: byddai'n ddiddorol iawn clywed gan Nick Bourne, neu unrhyw un o'ch cydweithwyr, lle byddwch yn cael y £150 miliwn o ganlyniad i gael gwared ar ardrethi busnesau bach. Ai'r athrawon, y gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr gofal sy'n mynd? Nid wyf yn credu y gallwch gyflawni hynny mewn unrhyw ffordd. Mae'n bolisi arall heb ei gostio. Rydych eisoes wedi dweud y byddwch yn torri cyllid llywodraeth leol. O ystyried bod 80 y cant o wariant awdurdodau lleol yn mynd ar addysg a gwasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid pendroni o ble byddwch yn cael yr arian ar gyfer y syniad hwn.

**Brian Gibbons:** Hoffwn ofyn am eglurhad

clarification on this unfunded pledge. The Welsh Conservatives are also talking about protecting the NHS budget, investing in education, dealing with floodplains and a whole list of uncosted promises. Is there any conceivable way that any of these sums add up to any sort of coherent financial package or is it just a cynical effort to dupe the Welsh electorate in May?

**Carl Sargeant:** It would be fair to say that we have seen evidence of the UK Government—the Conservative Government and their Lib Dem allies—trying to dupe the electorate. They tell them one thing before the election and another when they are in power. We have seen that clearly with prescription charges. I think that one of your pledges is to retain free prescriptions, but interestingly, my local Conservative candidate recently e-mailed one of my constituents to say that you would not retain free prescriptions—that when money is tight, you see no reason why people in work should not continue to pay a small amount. I am not sure that you have your story straight. One minute you are saying that you are going to protect free prescriptions; the next minute one of your party members is saying that they will be gone. Indeed, we heard Nick Bourne saying that there would be a 20 per cent cut to education spend, when you have said that you are going to invest in the education system. It just does not stack up.

**The Presiding Officer:** I would like it if Ministers were not to pose questions to the opposition. [*Laughter.*] It puts me in the very difficult position of feeling the need to call the opposition front bench to answer questions, which would be unconstitutional.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, do you share my concerns that, sometimes, because of the way in which the business rates system currently works, it can be a disincentive for businesses to invest in their buildings? I recently came across a company that would like to invest in its business. However, not only does it have to find the

pellach ar yr addewid hwn sydd heb ei ariannu. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn sôn hefyd am amddiffyn cyllideb y GIG, buddsoddi mewn addysg, ymdrin â gorlifdiroedd a rhestr gyfan o addewidion heb eu costio. A oes unrhyw ffordd bosibl bod unrhyw un o'r symiau hyn yn gallu dod at ei gilydd i greu unrhyw fath o becyn rhesymegol neu ai dim ond ymdrech sinigaidd i dwyllo etholwyr Cymru ym mis Mai ydyw?

**Carl Sargeant:** Byddai'n deg dweud ein bod wedi gweld tystiolaeth o Lywodraeth y DU—Llywodraeth y Ceidwadwyr a'i chynghreiriaid yn y Democratiaid Rhyddfrydol—yn ceisio twyllo'r etholwyr. Maent yn dweud un peth wrthynt cyn yr etholiad, a pheth arall pan fyddant mewn grym. Rydym wedi gweld hynny'n amlwg â thaliadau presgripsiwn. Rwy'n credu mai un o'ch addewidion yw cadw presgripsiynau am ddim, ond yn ddiddorol, anfonodd fy ymgeisydd Ceidwadol lleol e-bost at un o fy etholwyr yn ddiweddar yn dweud na fyddech yn cadw'r presgripsiynau am ddim—a phan fo arian yn dynn, nid ydych yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai pobl sy'n gweithio barhau i dalu swm bach. Nid wyf yn siŵr bod eich stori'n dal dŵr. Un funud rydych chi'n dweud y byddwch yn amddiffyn presgripsiynau am ddim; a'r funud nesaf mae aelodau eich plaid yn dweud y byddant yn cael mynd. Yn wir, clywsom Nick Bourne yn dweud y byddai gostyngiad o 20 y cant i wariant ar addysg, tra i chi ddweud y byddwch yn buddsoddi yn y system addysg. Yn syml, nid yw'n dal dŵr.

**Y Llywydd:** Hoffwn pe na bai Gweinidogion yn holi cwestiynau i'r gwrthbleidiau. [*Chwerthin.*] Mae'n fy rhoi i yn y sefyllfa anodd iawn o deimlo'r angen i alw ar fainc flaen yr wrthblaid i ateb cwestiynau, a byddai hynny'n anghyfansoddiadol.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryderon, weithiau, oherwydd y ffordd y mae'r system ardrethi busnes ar hyn o bryd yn gweithio, y gall fod yn anghymhelliad i fusnesau fuddsoddi yn eu hadeiladau? Yn ddiweddar, cefais wybod am gwmni a fyddai'n hoffi buddsoddi yn ei fusnes. Fodd bynnag, nid yn unig y mae'n

capital to do that, it has to find the additional revenue funding to support what will inevitably be a higher business rates bill. Do you share my concerns? Do you think that it is time to look at ways in which we can raise business rates, but in a way that does not put a barrier in the way of businesses investing in their infrastructure?

**Carl Sargeant:** How we support businesses across Wales to develop and grow successfully without too many financial burdens being placed upon them is a very important question. That is why I have extended the 12-month scheme, to ensure that 50 per cent of businesses in Wales will pay no business rates at all for the next 12 months.

**Gareth Jones:** Weinidog, a ydych yn cytuno mai un o lwyddiannau cytundeb 'Cymru'n Un' yw lleihau'r baich trwm ar ein busnesau bach drwy fynd i'r afael â threth y Torïaid ar fusnes, sef y system drethu busnes? Nid yw'r dreth hon, sydd wedi achosi gymaint o ddifflastod ers iddi gael ei chyflwyno gan Thatcher yn 1990, yn rhoi unrhyw ystyriaeth i allu busnes i dalu, ac mae'n gwaethygu problemau sy'n cael eu hachosi gan landlordiaid sy'n cadw rhenti yn uchel. O dan Lywodraeth Cymru'n Un, yr ydym wedi gweld y trothwyau yn codi, lleihad sylweddol yn y lluosydd a chynllun rhyddhad ardrethi sy'n sicrhau nad yw'r busnesau lleiaf yn sybsideiddio'r rhai mwyaf, i'r graddau na fydd hanner yr holl fusnesau bach yn Aberconwy yn talu dim neu fawr ddim ardrethi bellach. Ac eithrio codiadau llym i rai tafarndai, unwaith eto gan fod landlordiaid a bragdai barus yn gwthio rhenti i fyny, mae tri chwarter o'r holl fusnesau yn Stryd Mostyn yn Llandudno bellach yn talu llai. A wnaiff y Gweinidog ategu fy marn ar lwyddiant cytundeb 'Cymru'n Un', ac a wnaiff ymrwymo y bydd unrhyw Lywodraeth y bydd ef yn rhan ohoni yn y pedwerydd Cynulliad yn ymestyn y cynllun rhyddhad trethi am 12 mis arall?

**Carl Sargeant:** As you are aware, I made an announcement last week that the scheme would be continued for an additional 12 months. Devolution has meant that we have been able to deliver different things in a way

rhaid iddo ddod o hyd i'r cyfalaf i wneud hynny, mae'n rhaid iddo ddod o hyd i'r cyllid refeniw ychwanegol i gefnogi'r hyn a fydd yn anochel yn fil ardrethi busnes uwch. A ydych yn rhannu fy mhryderon? A ydych chi'n meddwl ei bod yn bryd edrych ar ffyrdd y gallwn godi ardrethi busnes, ond mewn modd nad yw'n rhwystro busnesau rhag buddsoddi yn eu hisadeiledd?

**Carl Sargeant:** Mae sut y gallwn gefnogi busnesau ledled Cymru i ddatblygu a thyfu yn llwyddiannus heb roi gormod o faich ariannol arnynt yn gwestiwn pwysig iawn. Dyna pam rwyf wedi ymestyn y cynllun 12 mis, i sicrhau na fydd 50 y cant o fusnesau yng Nghymru yn talu ardrethi busnes o gwbl am y 12 mis nesaf.

**Gareth Jones:** Minister, do you agree that one of the successes of the 'One Wales' agreement has been the lessening of the substantial burden on our small businesses by tackling the Tories' tax on business, namely business rates? This tax, which has caused such misery since it was introduced by Thatcher in 1990, takes no account of a business's ability to pay, and it exacerbates problems caused by landlords keeping rents high. Under the One Wales Government, we have seen a raising of the thresholds, a substantial reduction in the multiplier and a rate relief scheme that ensures that the smallest businesses do not subsidise the largest, so much so that half of all small businesses in Aberconwy now pay hardly any rates or none at all. With the exception of sharp rises for some pubs, once again because greedy landlords and breweries are driving up rents, three quarters of all business in Mostyn Street in Llandudno now pay less. Will the Minister endorse my view of the success of the 'One Wales' agreement, and will he give a commitment that any Government of which he will be a part in the fourth Assembly will extend the rate relief scheme for a further 12 months?

**Carl Sargeant:** Fel y gwyddoch, bu i mi wneud cyhoeddiad yr wythnos diwethaf y byddai'r cynllun yn parhau am 12 mis ychwanegol. Mae datganoli wedi golygu ein bod wedi gallu cyflawni pethau gwahanol

that is better than what is happening in England, as we have been able to make different choices. The Welsh Assembly Government invested £20 million of additional funding in the business rate relief scheme in Wales, which does not happen in England. We in Wales are investing in our small businesses. The multiplier that you referred to is lower for businesses in Wales than it is for businesses in England. It is about making sure that businesses can flourish and grow, and the One Wales Government can be particularly proud of its support for businesses through its intervention in business rates—action that was also supported by the Federation of Small Businesses.

### **Pobl sy'n Agored i Niwed**

**8. David Lloyd:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisiau ar gyfer cefnogi pobl agored i niwed. OAQ(3)1571(SJL)*

**Carl Sargeant:** Supporting vulnerable people is a fundamental element of the Welsh Assembly Government's social justice agenda. We have an array of initiatives designed to support disadvantaged people in Wales. This includes policies and programmes on employment, health interventions, social justice and raising education and skill levels.

**David Lloyd:** Diolch yn fawr am yr ateb cynhwysfawr hwnnw, Weinidog. A fydddech yn cytuno fod unrhyw bolisi gan y Ceidwadwyr sy'n ceisio diogelu'r gwariant ar iechyd yn golygu fod cyllidebau eraill yn derbyn dwywaith gymaint o ergyd, ac felly yn peryglu bob cefnogaeth i bobl mwyaf bregus Cymru?

**Carl Sargeant:** We all know that the manifesto commitments of the Conservatives have been drawn up on the back of a cigarette packet. We know that they do not add up, and they cannot get away from that. We know that they are considering scrapping the Communities First budget, as they are not committed to that programme. This is an attack on the young people and most vulnerable people in Wales. We introduced the foundation phase, which has proved to be popular among teachers and the education

mewn ffordd sy'n well na'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, gan ein bod wedi gallu gwneud dewisiadau gwahanol. Buddsoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £20 miliwn o gyllid ychwanegol yn y cynllun rhyddhad ardrethi busnes yng Nghymru; nid yw hynny'n digwydd yn Lloegr. Rydym ni yng Nghymru yn buddsoddi yn ein busnesau bach. Mae'r lluosydd y cyfeiriasoch ato yn is ar gyfer busnesau yng Nghymru nag ydyw i fusnesau yn Lloegr. Mae'n ymwneud â gwneud yn siŵr y gall busnesau ffynnu a thyfu, a gall Llywodraeth Cymru'n Un fod yn arbennig o falch o'i chefnogaeth i fusnesau drwy ei ymyrraeth mewn ardrethi busnes—camau a gefnogwyd hefyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach.

### **Vulnerable People**

**8. David Lloyd:** *Will the Minister make a statement on his policies for supporting vulnerable people. OAQ(3)1571(SJL)*

**Carl Sargeant:** Mae cefnogi pobl agored i niwed yn elfen sylfaenol o agenda cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gennym amrywiaeth o fentrau a gynlluniwyd i gefnogi pobl sydd o dan anfantais yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys polisiau a rhaglenni ar gyflogaeth, ymyriadau iechyd, cyfiawnder cymdeithasol a chodi lefelau addysg a sgiliau.

**David Lloyd:** Thank you very much for that comprehensive answer, Minister. Do you agree that any Conservative policy that attempts to safeguard spending on health means that other budgets would be hit twice as hard, thereby endangering all support for the most vulnerable people in Wales?

**Carl Sargeant:** Rydym oll yn gwybod bod ymrwymadau manifesto'r Ceidwadwyr wedi eu llunio ar gefn paced sigarêts. Rydym yn gwybod nad ydynt yn gwneud synnwyr, ac ni allant ddianc rhag hynny. Rydym yn gwybod eu bod yn ystyried cael gwared ar gyllideb Cymunedau yn Gyntaf, gan nad ydynt wedi ymrwymo i'r rhaglen honno. Mae hwn yn ymosodiad ar y bobl ifanc a'r bobl mwyaf bregus yng Nghymru. Bu i ni gyflwyno'r cyfnod sylfaen, sydd wedi profi yn boblogaidd ymhlith athrawon a'r sector

sector in general. Again, the Conservatives have not pledged to support these elements because they have already spent the budget elsewhere on hypothetical business rates that they pretend that they have costed, but which will cost £150 million a year.

**Mark Isherwood:** I would rather focus on my question rather than our manifesto, which will be fully costed. My question relates to vulnerable people. One of the groups of vulnerable people represented in the Assembly today are people with epilepsy. Epilepsy is a health matter, but delivery on the epilepsy strategy for Wales crosses into your social justice and local government portfolio. The third sector also crosses into your brief, as do local health boards who take the lead in partnerships with the third sector and local government. The all-Wales epilepsy forum coalition of third sector bodies, which supports people with epilepsy in Wales and which is holding an event in the Assembly as we speak, has expressed concern that no service level agreements with the partnerships are being signed off, and that Epilepsy Wales will run out of money in eight weeks' time. Given that you represent two of the three delivery elements in this area, can you give this your attention to ensure not only that the appropriate support stays in place but that these vital charities and third sector bodies continue to deliver the professional services that are saving the public sector so much money?

**Carl Sargeant:** I am a big supporter of the voluntary sector and I have spoken and written to all local authorities on the way that they do business and the compact agreements between third sector/voluntary organisations and local government. I have said clearly that I do not expect the voluntary sector to be the first line of attack in respect of any reductions in their funding, but that there must be strategic thinking about how services are delivered and who delivers them. That is what we are doing and that is what I expect of them. However, I will take no lessons from you on support for the voluntary sector or third sector groups in Wales. The effect of

addysg yn gyffredinol. Unwaith eto, nid yw'r Ceidwadwyr wedi addo cefnogi'r elfennau hyn oherwydd eu bod eisoes wedi gwario'r gyllideb mewn man arall ar ardrethi busnes damcaniaethol y maent yn esgus eu bod wedi eu prisio, ond a fydd yn costio £150 miliwn y flwyddyn.

**Mark Isherwood:** Byddai'n well gennyf ganolbwyntio ar fy nghwestiwn yn hytrach nag ar ein maniffesto, a fydd yn cael ei gostio'n llawn. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â phobl sy'n agored i niwed. Un o'r grwpiau o bobl agored i niwed sydd wedi eu cynrychioli yn y Cynulliad heddiw yw pobl ag epilepsi. Mae epilepsi yn fater iechyd, ond mae cyflenwi'r strategaeth epilepsi ar gyfer Cymru yn pontio â'ch portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol chi. Mae'r trydydd sector hefyd yn rhan o'ch briff, fel y mae byrddau iechyd lleol sy'n cymryd yr awenau o ran partneriaethau â'r trydydd sector a llywodraeth leol. Mae fforwm Cymru gyfan epilepsi o gyrff y trydydd sector, sy'n cefnogi pobl sydd ag epilepsi yng Nghymru ac sy'n cynnal digwyddiad yn y Cynulliad wrth i ni siarad, wedi mynegi pryder nad oes unrhyw gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r partneriaethau yn cael eu llofnodi, ac y bydd Epilepsi Cymru yn rhedeg allan o arian ymhen wyth wythnos. O ystyried eich bod yn cynrychioli dwy o'r tair elfen gyflenwi yn y maes hwn, a allwch roi sylw i hyn a sicrhau nid yn unig bod y cymorth priodol yn aros yn ei le, ond bod yr elusennau hanfodol hyn a chyrff y trydydd sector yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau proffesiynol sy'n arbed cymaint o arian i'r sector cyhoeddus?

**Carl Sargeant:** Rwy'n gefnogwr brwd o'r sector gwirfoddol ac rwyf wedi siarad â phob awdurdod lleol ac wedi ysgrifennu atynt am y modd y modd y maent yn gwneud busnes ac am y cytundebau compact rhwng y trydydd sector/sefydliadau gwirfoddol a llywodraeth leol. Rwyf wedi dweud yn glir nad wyf yn disgwyl i'r sector gwirfoddol gael ei dargedu yn gyntaf i'w ymosod arno o ran unrhyw ostyngiadau yn ei gyllid, ond rhaid meddwl yn strategol am sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu a phwy sy'n eu darparu. Dyna'r hyn rydym yn ei wneud a dyna beth rwy'n ei ddisgwyl ganddynt. Fodd bynnag, ni fyddaf yn dysgu unrhyw wersi gennyh chi

your plans to ring-fence the NHS budget would be a cut of at least 1.5 per cent in the revenue support grant. That would mean a reduction of £45 million in the funding for social care within local authorities. Those are your proposals, not mine. Those are the Tory plans for cuts for Wales.

**Mark Isherwood:** The all-Wales epilepsy forum did not come here to listen to party politics. Its representatives came here today to raise significant concerns. Although the Assembly may go into dissolution tomorrow night, the Welsh Government will not, and they are looking to you to help them when they need you most, which is now. Will you engage with your ministerial colleagues in relation to this matter and see what assistance you can put in place? You could even go upstairs and have a word with them. They are here now, Minister. Do you agree that—as with Communities First, which you mentioned earlier, where you are cutting the relevant budget by 17 per cent over three years according to the budget that you put before the Assembly last month—third sector bodies can help the public sector to save money and that we should allow them to ask local health boards, local authorities and others how they can help them to deliver better-quality services, in order to tackle the cause of problems so that they are resolved before someone takes up a bed in a hospital ward or becomes critically dependent on social service provision?

**Carl Sargeant:** I am always keen to enter into dialogue with organisations and I am sure that my team would be delighted to take any representations from any organisation that may be here today or over the next few weeks during the recess of the Assembly. I will ask my team to make contact with the organisation, should that be possible. However, the reduction in our budget is a direct consequence of the UK Government's cuts, which affect the people of Wales. We cannot take any responsibility for that; it is your responsibility and that of your colleagues.

am gefnogi'r sector gwirfoddol na grwpiau trydydd sector yng Nghymru. Byddai effaith eich cynlluniau i neilltuo cyllideb y GIG yn cwtogi o leiaf 1.5 y cant yn y grant cynnal refeniw. Byddai hynny'n golygu gostyngiad o £45 miliwn yn y cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol mewn awdurdodau lleol. Dyna yw eich cynigion, nid fy rhai i. Dyna yw cynlluniau'r Torïaid ar gyfer toriadau i Gymru.

**Mark Isherwood:** Ni ddaeth y fforwm epilepsi Cymru gyfan yma i wrando ar wleidyddiaeth plaid. Daeth ei gynrychiolwyr yma heddiw i godi pryderon sylweddol. Er y gall y Cynulliad gael ei ddiddymu nos yfory, ni fydd Llywodraeth Cymru, ac maent yn troi atoch chi i'w helpu pan fo'r angen mwyaf arnynt, sef nawr. A fyddwch yn ymgysylltu â'ch cyd Weinidogion mewn cysylltiad â'r mater hwn i weld pa gymorth y gallwch ei roi ar waith? Gallech hyd yn oed fynd i fyny'r grisiau a chael gair gyda nhw. Maent yma yn awr, Weinidog. A ydych chi'n cytuno—fel gyda Chymunedau yn Gyntaf, a grybwyllwyd gennych yn gynharach, lle rydych yn torri'r gyllideb berthnasol gan 17 y cant dros dair blynedd, yn ôl y gyllideb a roddoch gerbron y Cynulliad fis diwethaf—y gall cyrff y trydydd sector helpu'r sector cyhoeddus i arbed arian ac y dylem eu galluogi i ofyn i fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol ac eraill sut y gallant eu helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell, er mwyn mynd i'r afael ag achos y problemau fel eu bod yn cael eu datrys cyn i rywun gymryd gwely mewn ward ysbyty neu cyn iddynt fod yn ddifrifol ddibynnol ar ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol?

**Carl Sargeant:** Rwyf bob amser yn awyddus i ddechrau deialog gyda sefydliadau ac rwy'n siŵr y byddai fy nhîm yn falch iawn o glywed unrhyw sylwadau gan unrhyw fudiad a allai fod yma heddiw, neu yn ystod yr wythnosau nesaf yn ystod toriad y Cynulliad. Byddaf yn gofyn i fy nhîm gysylltu â'r sefydliad, pe bai hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn ein cyllideb yn ganlyniad uniongyrchol i doriadau Llywodraeth y DU, sy'n effeithio ar bobl Cymru. Ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb am hynny; eich cyfrifoldeb chi a'ch cydweithwyr yw hynny.

**Joyce Watson:** I want to take this opportunity to thank the Minister and Brian Gibbons, his worthy predecessor, for the considerable support and protection that this Government has provided for vulnerable women and children and for advocating policies to help to end violence against women. The most recent manifestation of this Government's support is the appointment of Robert Tooby as Wales's first anti-human trafficking co-ordinator. When he takes up his post next month, he will work towards identifying and supporting victims and will bring those responsible to justice. As the Minister knows, Wales is leading the way on this agenda, but the UK Government is refusing to opt into the EU directive on human trafficking, despite the Tory-led Government previously saying that tackling human trafficking would be a priority. Will he join me in urging the Westminster Government to sign up to that directive, which will at least bring help to the victims and enable people such as Mr Tooby to go after the perpetrators?

**Carl Sargeant:** I pay tribute to the work that you have undertaken and the way that you have put forward the arguments against domestic abuse and have championed the strategy to end violence against women. I took advice on the anti-human trafficking post, which became important because of the report that you did. I am pleased that we are able to announce the appointment of Mr Tooby, who will take up his post on 1 April.

2.15 p.m.

What we have seen on equality and representation, it is disappointing that Westminster seems to be taking a step back from equality duties. At one point, the website that was run by the UK Government to tackle violence against women and domestic abuse was taken down, although I am not sure whether it is back up now. That did not send out the right message. A consistent view is held in the Chamber on tackling this scourge on the most vulnerable in our society.

**Joyce Watson:** Rwyf am gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Gweinidog a Brian Gibbons, ei ragflaenydd teilwng, am y gefnogaeth a'r diogelwch sylweddol y mae'r Llywodraeth hon wedi eu darparu i fenywod a phlant sy'n agored i niwed ac am hyrwyddo polisiau i helpu i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Canlyniad mwyaf diweddar cefnogaeth y Llywodraeth hon yw penodi Robert Tooby yn gydlynnydd gwrth masnachu mewn pobl cyntaf Cymru. Wrth iddo gychwyn ei swydd y mis nesaf, bydd yn gweithio tuag at nodi a chefnogi dioddefwyr a bydd yn dod â rhai sy'n gyfrifol o flaen eu gwell. Fel y gŵyr y Gweinidog, mae Cymru yn arwain y ffordd ar yr agenda hon, ond mae Llywodraeth y DU yn gwrthod ymuno â chyfarwyddeb yr UE ar fasnachu mewn pobl, er gwaethaf i'r Llywodraeth o dan arweiniad y Torïaid ddweud y byddai mynd i'r afael â masnachu mewn pobl yn flaenoriaeth. A wnaiff ymuno â mi yn annog Llywodraeth San Steffan i ymuno â'r gyfarwyddeb honno, a fydd, o leiaf, yn cynorthwyo'r dioddefwyr ac yn galluogi pobl fel Mr Tooby i fynd ar ôl y troseddwyd?

**Carl Sargeant:** Rwy'n talu teyrnged i'r gwaith rydych wedi ei wneud, y ffordd rydych wedi cyflwyno'r dadleuon yn erbyn cam-drin domestig a'r modd yr ydych wedi hyrwyddo'r strategaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Cefais gyngor ar y swydd atal masnachu mewn pobl, a ddaeth yn bwysig oherwydd yr adroddiad a wnaethoch. Rwy'n falch ein bod yn gallu cyhoeddi penodiad Mr Tooby, a fydd yn dechrau ar ei swydd ar 1 Ebrill.

O'r hyn yr ydym wedi ei weld ar gydraddoldeb a chynrychiolaeth, mae'n siom ei bod yn edrych fel bod San Steffan yn cymryd cam yn ôl o ddyletswyddau cydraddoldeb. Ar un adeg, cafodd y wefan a oedd yn cael ei rhedeg gan Lywodraeth y DU i ymdrin â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig ei thynnu i lawr, er nad wyf yn siŵr a yw'n ôl i fyny bellach. Nid oedd hynny'n cyfleu'r neges gywir. Mae barn gyson yn ein plith yn y Siambr ar fynd i'r afael â'r pla hwn ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Eleanor Burnham:** There is vulnerability among all age groups and sections of society, but what will your Government be doing to avert the ageism that has been identified in the Commissioner for Older People in Wales's recent report on the mistreatment of older people and the lack of dignity afforded to them? I know that this is not necessarily a part of your brief, but you are concerned with social justice, so I wondered whether you had any comments to make on how we and the next Government should move forward to ensure that older people retain their dignity, particularly when they are in the care of others.

**Carl Sargeant:** You are right that we should protect vulnerable people of any age across Wales, whether they are young, middle aged or old. It is of concern to me that we must give the right level of service to the right people, and this Government has been developing programmes to identify how we can deliver more with less. Another disappointing matter that was slipped through in last week's budget is that there will be a reduction in the winter fuel allowance for people over the age of 80; that is something that you might want to take up with your colleagues in Westminster.

**Eleanor Burnham:** Mae pobl agored i niwed ymysg pob oedran a charfan o gymdeithas, ond beth fydd eich Llywodraeth yn ei wneud i atal y rhagfarn ar sail oed a gafodd ei nodi yn adroddiad diweddar Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gam-drin pobl hŷn a'r diffyg urddas a roddir iddynt? Gwn nad yw hyn o reidrwydd yn rhan o'ch brîff, ond rydych yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, felly tybed a oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar sut y dylem ni a'r Llywodraeth nesaf symud ymlaen i sicrhau bod pobl hŷn yn cadw eu hurddas, yn enwedig pan fyddant yng ngofal pobl eraill.

**Carl Sargeant:** Rydych yn gywir y dylem amddiffyn pobl sy'n agored i niwed o unrhyw oedran ar draws Cymru, boed yn ifanc, yn ganol oed neu'n hen. Mae'n bwysig i mi fod rhaid inni roi'r lefel gywir o wasanaeth i'r bobl gywir, a bu'r Llywodraeth hon yn datblygu rhaglenni i ganfod sut y gallwn gyflawni mwy gyda llai. Mater arall siomedig a gafodd ei lithro drwy gyllideb yr wythnos diwethaf yw y bydd gostyngiad yn y lwfans tanwydd gaeaf i bobl dros 80 oed; efallai fod hynny yn rhywbeth y byddech am ei drafod â'ch cydweithwyr yn San Steffan.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning**

### **Ymrwymadau 'Cymru'n Un'**

**1. Gareth Jones:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflawni'r ymrwymadau yng nghytundeb Cymru'n Un y mae'n gyfrifol amdanynt. OAQ(3)1734(CEL)*

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Mae sawl cam pwysig wedi'i gymryd i gyflawni'r ymrwymadau yn 'Cymru'n Un' sy'n perthyn i fy mhortffolio i. Mae 42 ymrwymiad wedi'u cyflawni. Caiff y tri arall eu cyflawni yn unol â blwyddyn academaidd 2011-12. Ymhlith y pethau pwysig sydd wedi'u gwneud mae opsiynau dysgu ehangach ac ansawdd uwch drwy rwydweithiau 14-19, y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfnod sylfaen.

### **'One Wales' Commitments**

**1. Gareth Jones:** *Will the Minister make a statement on fulfilling the commitments of the One Wales agreement for which he is responsible. OAQ(3)1734(CEL)*

**The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):** Good progress has been made delivering 'One Wales' commitments in my portfolio. A total of 42 commitments have been delivered. The remaining three will be delivered in line with the 2011-12 academic year. Important achievements include broader and higher quality learning options through 14-19 networks, the Welsh-medium education strategy and the foundation phase.



**Gareth Jones:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn falch o gydnabod yn gyhoeddus y cynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn addysg, yn arbennig o safbwynt cyflwyno'r cyfnod sylfaen, bagloriaeth Cymru a'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg y cyfeirioch ati yn eich ateb. Yr wyf yn credu bod addysg yng Nghymru wedi gwneud camau sylweddol ymlaen yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Ar yr un pryd, mae llawer o waith sydd angen ei wneud gan fod llawer gormod o'n pobl ifanc yn parhau i fod y tu allan i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Yr wyf yn meddwl hefyd bod angen rhoi pwysau pellach ar awdurdodau lleol i roi mwy o sylw i anghenion cymunedau yn eu cyfanrwydd cyn mynd ati i gau ysgolion bach. Mae'n hollbwysig bod pob adran o Lywodraeth yn helpu cynnal ein cymunedau gwledig sydd o dan ddigon o bwysau yn barod.

I gloi, hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad yn fy ngwaith fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu. Hefyd, gofynnaf am ymrwymiad y bydd unrhyw Lywodraeth y byddwch yn rhan ohoni yn y Cynulliad nesaf yn rhoi'r sylw dyladwy i adroddiad etifeddiaeth y pwyllgor, fel cydnabyddiaeth o'i waith yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, gan obeithio y byddwch yn cytuno y bydd yn ddogfen werthfawr ac yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer y genhedlaeth nesaf o Aelodau'r Cynulliad.

**Leighton Andrews:** I start by thanking Gareth Jones for his work as Chair of the Enterprise and Learning Committee; his work has been widely respected on all sides of the Chamber. He has led the way in pioneering a number of important reports, not least the work that he referred to on young people not in education, employment or training. The work that the committee has undertaken has always been done with a view to advancing and improving the attainment of learners in Wales, and I look forward to following through on the recommendations of the legacy report that he referred to.

**Mohammad Asghar:** Minister, the 'One Wales' agreement says that the Assembly Government's unwavering commitment is to provide a first-class education for all children in Wales. Given the Programme for

**Gareth Jones:** Thank you for that response, Minister. I am pleased to put on record my recognition of the progress that has been made in education, particularly in relation to the introduction of the foundation phase, the Welsh baccalaureate and the Welsh-medium education strategy that you referred to in your answer. I believe that education in Wales has made great strides forward over the last four years. At the same time, there is a lot of work that needs to be done as far too many of our young people are not in education, employment or training. I also think that we need to bring further pressure to bear on local authorities to pay more attention to the needs of communities as a whole before closing small schools. It is vital that all Government departments help to sustain our rural communities, which face enough pressure already.

To conclude, I would like to thank you for your co-operation in my work as Chair of the Enterprise and Learning Committee. I would also like to ask for a commitment that any Government of which you will be a part in the next Assembly will pay due regard to the committee's legacy report, in recognition of its work over the last four years, in the hope that you will agree that it will be a valuable document and a useful starting point for the next generation of Assembly Members.

**Leighton Andrews:** Dechreuaf drwy ddiolch i Gareth Jones am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu; cafodd ei waith gryn barch ar bob ochr i'r Siambr. Mae wedi arwain y ffordd o ran arloesi nifer o adroddiadau pwysig, yn enwedig y gwaith y cyfeiriodd ato ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r gwaith a wnaeth y pwyllgor bob amser wedi ei wneud gyda golwg ar hyrwyddo a gwella cyrhaeddiad dysgwyr yng Nghymru, ac edrychaf ymlaen at wireddu argymhellion yr adroddiad etifeddiaeth y cyfeiriodd atynt.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, mae cytundeb 'Cymru'n Un' yn dweud mai ymrwymiad diwyro Llywodraeth y Cynulliad yw darparu addysg o'r radd flaenaf i bob plentyn yng Nghymru. O ystyried ffigurau y

International Student Assessment figures that were published last December, which show that Wales has slid down the rankings of Organisation for Economic Co-operation and Development countries in reading, mathematics and science; the recent Estyn report, which found that standards in almost one third of Welsh schools were not good enough; and, now, the Viv Thomas review, which says that too many Welsh schools are coasting on key skills such as numeracy and literacy, do you believe that the Assembly Government has presided over a first-class education system in Wales?

**Leighton Andrews:** We have introduced, in the course of the last few years, the foundation phase, which has won widespread praise across Wales. We have strengthened the implementation of the Welsh baccalaureate. We have seen the number of young people leaving education without qualifications falling. I think that we have made significant progress in the education system, thanks to the dedication of teachers throughout Wales. What we have to do, however, is to continue to raise our game, recognising that other countries are improving even faster, and we face real challenges in that regard—challenges that I have outlined on a number of occasions in this Chamber. The Member referred to the Viv Thomas review, which is one of the latest studies that I have commissioned, and I think that it helps point the way forward to some of the improvements that we need to make to the education system in the future. Of course, we will fight these issues out over the next few weeks and it will be for the next Government to take these issues forward.

**Jenny Randerson:** As these are my last questions to you, I must say that I have enjoyed sparring with you across the Chamber. I do not always agree with what you decide to do, but at least you are doing something and you have recognised the massive problems that we face here in Wales. Something that you have not done is to implement the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 and I am sure that you will indulge me and allow me to ask again about this issue. I have asked the First Minister about it a couple of times and have

Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf, sy'n dangos bod Cymru wedi llithro i lawr rhestr gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth; adroddiad diweddar Estyn, a ganfu nad yw safonau mewn bron i draean o ysgolion Cymru yn ddigon da; ac, yn awr, adolygiad Viv Thomas, sy'n dweud bod gormod o ysgolion Cymru ddim yn gwneud digon am sgiliau allweddol fel rhifedd a llythrennedd, a ydych yn credu bod Llywodraeth y Cynulliad wedi arwain system addysg o'r radd flaenaf yng Nghymru?

**Leighton Andrews:** Rydym wedi cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cael cryn glod ar draws Cymru. Rydym wedi cryfhau'r broses o weithredu bagloriaeth Cymru. Gwelsom ostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg heb gymwysterau. Rwy'n credu ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y system addysg, diolch i ymroddiad athrawon ledled Cymru. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud, fodd bynnag, yw parhau i wella ein perfformiad, gan gydnabod bod gwledydd eraill yn gwella hyd yn oed yn gynt, ac rydym yn wynebu heriau gwirioneddol yn hynny o beth—heriau a amlinellwyd gennyf sawl gwaith yn y Siambr hon. Cyfeiriodd yr Aelod at adolygiad Viv Thomas, sef un o'r astudiaethau diweddaraf a gomisiynwyd gennyf, ac rwyf yn meddwl ei fod yn helpu i ddangos y ffordd ymlaen at rai o'r gwelliannau sydd angen inni eu gwneud i'r system addysg yn y dyfodol. Wrth gwrs, byddwn yn dadlau am y materion hyn dros yr wythnosau nesaf a mater i'r Llywodraeth nesaf fydd datblygu'r materion hyn.

**Jenny Randerson:** Gan mai'r rhain yw fy nghwestiynau olaf i chi, rhaid imi ddweud fy mod wedi mwynhau sbarian gyda chi ar draws y Siambr. Nid wyf bob amser yn cytuno â'r hyn rydych yn penderfynu ei wneud, ond o leiaf eich bod yn gwneud rhywbeth ac wedi cydnabod y problemau enfawr sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru. Rhywbeth na wnaethoch yw gweithredu'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, ac rwy'n siŵr y byddwch yn maddau i mi ac yn caniatáu i mi ofyn eto am y mater hwn. Rwyf wedi gofyn i'r Prif

had very vague answers. Are you planning to implement the healthy school food Measure, which has been gathering dust on your shelf for 18 months?

**Leighton Andrews:** I have enjoyed sparring with her as well and I hope that she enjoys sparring with others in her new political home after the Assembly elections. The nutrition of young people in education is important to us and I acknowledge the work that she did in establishing the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure. We have, through a number of our policies, invested in the nutritional benefits of young people at school. We have to look at how we take forward that work in the context of the financial situation that we face as a result of the cuts imposed by her party in Government at Westminster.

**Jenny Randerson:** Thank you for that answer, Minister. I appreciate that ‘Appetite for Life’ has been successful in many places and that progress has been made, but your own research report details a number of issues that will involve costs to schools and local authorities. For example, there are recommendations on the quality of the eating environment—what the canteen looks like, in other words. My concern is that, at a time when local authorities are seeking to save money because they have had a poor settlement from the Assembly Government, they will be seeking economies on all fronts, including the quality of school food. If you wish to maintain the progress that you have made under ‘Appetite for Life’, you need to have the legislative backing that the healthy school food Measure would provide.

**Leighton Andrews:** Local authorities were actually quite reassured by the budget put in place by my colleague the Minister for Social Justice and Local Government earlier this year, which was certainly not as bad as they had feared. Indeed, we put into that budget an extra £61 million in respect of schools, in support of the commitment made by the First Minister that we would increase school spending by 1 per cent above the settlement that we received from the Westminster Government. There is a range of issues that pertain to nutrition for children in schools.

Weinidog am y mater ar adegau ac wedi cael atebion amwys iawn. A ydych yn bwriadu gweithredu'r Mesur bwyd ysgol iach, a fu'n casglu llwch ar eich silff am 18 mis?

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi mwynhau sbarian gyda hi yn ogystal, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn mwynhau sbarian gydag eraill yn ei chartref gwleidyddol newydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad. Mae maeth pobl ifanc mewn addysg yn bwysig i ni ac rwyf yn cydnabod y gwaith a wnaeth yn sefydlu'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru). Rydym wedi buddsoddi, drwy nifer o'n polisiau, mewn manteision maethol i bobl ifanc yn yr ysgol. Mae'n rhaid inni edrych ar sut rydym yn symud ymlaen â'r gwaith yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol sy'n ein hwynebu o ganlyniad i'r toriadau a wnaed gan ei phlaid mewn Llywodraeth yn San Steffan.

**Jenny Randerson:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf yn gwerthfawrogi y bu ‘Blas am Oes’ yn llwyddiant mewn nifer o leoedd a bod cynnydd wedi ei wneud, ond mae eich adroddiad ymchwil yn tynnu sylw at nifer o faterion a fydd yn golygu costau i ysgolion ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, ceir argymhellion ar ansawdd yr amgylchedd bwyta—sut mae'r ffreutur yn edrych, mewn geiriau eraill. Fy mhryder i yw, ar adeg pan fo awdurdodau lleol yn ceisio arbed arian oherwydd eu bod wedi cael setliad gwael gan Lywodraeth y Cynulliad, y byddant yn ceisio gwneud arbedion ym mhob maes, gan gynnwys ansawdd bwyd ysgol. Os ydych yn dymuno cynnal y cynnydd rydych wedi'i wneud o dan ‘Blas am Oes’, mae angen ichi gael y gefnogaeth ddeddfwriaethol y byddai'r Mesur bwyd ysgol iach yn ei roi.

**Leighton Andrews:** Mewn gwirionedd, roedd awdurdodau lleol wedi cael dipyn o sicrwydd gan y gyllideb a roddwyd ar waith gan fy nghydweithiwr y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gynharach eleni—yn sicr, nid oedd mor ddrwg ag yr oeddynt wedi ei ofni. Yn wir, rhoesom £61 miliwn ychwanegol i mewn i'r gyllideb honno mewn perthynas ag ysgolion, i gefnogi'r ymrwymiad a wnaed gan y Prif Weinidog y byddem yn cynyddu'r gwariant ar ysgolion o 1 y cant yn uwch na'r setliad a gawsom gan Lywodraeth San

Those issues are not simply those on the 'Appetite for Life' agenda, but also those that relate to decisions made by young people about whether to consume food on school premises or whether to venture into town centres to purchase food from other outlets. There is a whole series of choices that we must get to grips with, some of which are covered by that Measure and some of which are not.

### Trafodaethau gyda Phrifysgolion

**2. William Graham:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda phrifysgolion yng Nghymru yn ymwneud â ffioedd dysgu. OAQ(3)1708(CEL)*

**Leighton Andrews:** My department has formally consulted relevant stakeholders, including all Welsh universities, on my proposals for higher education tuition fees and statutory student support from 2012-13. Eight universities responded and the consultation responses have informed the regulatory framework for tuition fees approved by Members last week.

**William Graham:** Thank you for that answer, Minister. You will be well aware of the continued concern expressed to me by students in higher education institutions regarding the financial sustainability of your Government's commitment to fund Welsh-domiciled students. What assurance can you provide students at the University of Wales, Newport regarding their concerns that the funding is a short-term measure and that other higher education institutions will suffer to pay for it?

**Leighton Andrews:** We have costed this proposal through to 2016-17 and we are confident about delivering it. We will be delivering it and it is a shame that the Welsh Conservatives will not support a policy that means that Welsh-domiciled students will not face higher fees wherever the study.

**Nerys Evans:** Wrth inni ddod at ddiwedd y

Steffan. Mae amryw o faterion sy'n berthnasol i faeth i blant mewn ysgolion. Nid yw'r materion hynny yn rhai sydd ar yr agenda 'Blas am Oes' yn unig, ond hefyd yn rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau a wneir gan bobl ifanc ynghylch a ddylid bwyta bwyd ar dir yr ysgol neu a ddylid mentro i ganol trefi i brynu bwyd o siopau eraill. Mae amryw o ddewisiadau y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy, ac mae rhai ohonynt wedi eu cynnwys yn y Mesur ond nid yw materion eraill wedi eu cynnwys.

### Discussions with Universities

**2. William Graham:** *Will the Minister outline discussions held with universities in Wales concerning tuition fees. OAQ(3)1708(CEL)*

**Leighton Andrews:** Mae fy adran wedi ymgynghori yn ffurfiol â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys yr holl brifysgolion yng Nghymru, ar fy nghynigion ar gyfer ffioedd dysgu addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr statudol o 2012-13. Ymatebodd wyth o brifysgolion ac mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi llywio'r fframwaith reoleiddio ar gyfer ffioedd dysgu a gymeradwywyd gan yr Aelodau yr wythnos diwethaf.

**William Graham:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn gwybod yn iawn am y pryder parhaus a fynegwyd i mi gan fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch ynghylch cynaliadwyedd ariannol ymrwymiad eich Llywodraeth i ariannu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd am eu pryderon bod yr arian yn fesur tymor byr ac y bydd sefydliadau addysg uwch eraill yn dioddef i dalu amdano?

**Leighton Andrews:** Rydym wedi costio'r cynnig hwn hyd at 2016-17 ac rydym yn hyderus ynghylch ei gyflwyno. Byddwn yn ei gyflwyno ac mae'n drueni na wnaiff y Ceidwadwyr Cymreig gefnogi polisi sy'n golygu na fydd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn wynebu ffioedd uwch lle bynnag maent yn astudio.

**Nerys Evans:** As we approach the end of the

tymor, hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad wrth inni drafod materion addysg dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth edrych yn ôl ar y tymor, un o'r pethau yr ydym fwyaf balch ohono yn y byd addysg yw penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio dilyn y Llywodraeth Geidwadol yn Llundain i godi hyd at £9,000 y flwyddyn ar fyfyrwyr i astudio mewn sefydliadau addysg uwch, a bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu talu i fyfyrwyr o Gymru i fynd i'r brifysgol. Diolch i chi am arwain ar y pwnc hwnnw. A rannwch fy nyhead i a Phlaid Cymru i weld y polisi hwn yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru?

**Leighton Andrews:** I thank Nerys for the collaboration that we have had as she has performed her role as the education spokesperson for her party. I also thank her for the support that she has given to what I think is a unique policy that the One Wales Government has adopted in respect of our support for Welsh-domiciled students who will go on to higher education in the future. My party is certainly committed to that policy and has already made it one of our election pledges, and I am glad that her party has done so as well. Therefore, I think that we can all have confidence that this policy will continue to the time frame that I have spoken about. We have costed it through to 2016-17 and therefore we want to deliver that policy beyond the lifetime of the next Assembly.

### Cyllido Addysg

**3. Darren Millar:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido addysg yn y Gogledd. OAQ(3)1738(CEL)*

**Leighton Andrews:** Education in north Wales is funded through established mechanisms and processes, in line with the priorities set out in the 'One Wales' agenda.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, Minister. As a result of the school closure programme that your Government embarked upon, the previous First Minister made it clear before he departed from office that 170 schools had to close across Wales. As you

term, I would like to thank you for your collaboration as we have discussed education issues over the past few years. In looking back at the term, one of the things that we are most proud of in education is the Welsh Government's decision not to follow the Conservative Government in England in charging students up to £9,000 per annum to study at higher education institutions, and that the Welsh Government has decided to pay for Welsh-domiciled students to go to university. I would also like to thank you for leading on that issue. Do you share my aspiration, and that of Plaid Cymru, to see this policy continuing to be a priority for the next Welsh Government?

**Leighton Andrews:** Diolchaf i Nerys am y cydweithio a gawsom wrth iddi ymgymryd â'i rôl fel y llefarydd addysg dros ei phlaid. Rwyf hefyd yn diolch iddi am y gefnogaeth a roddodd i'r hyn rwyf yn meddwl sy'n bolisi unigryw y mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi ei mabwysiadu o ran ein cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a fydd yn mynd ymlaen i addysg uwch yn y dyfodol. Mae fy mhlaid yn bendant wedi ymrwymo i'r polisi hwnnw ac mae eisoes wedi ei wneud yn un o'n haddewidion etholiadol, ac rwy'n falch fod ei phlaid hi wedi gwneud hynny hefyd. Felly, rwyf yn meddwl y gallwn i gyd fod yn hyderus y bydd y polisi hwn yn parhau yn unol â'r amserlen rwyf wedi sôn amdani. Rydym wedi ei gostio hyd at 2016-17, ac felly rydym am wireddu'r polisi hwnnw y tu hwnt i oes y Cynulliad nesaf.

### Education Funding

**3. Darren Millar:** *Will the Minister make a statement on education funding in North Wales. OAQ(3)1738(CEL)*

**Leighton Andrews:** Caiff addysg yng ngogledd Cymru ei hariannu drwy ddulliau a phrosesau sefydledig, yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn agenda 'Cymru'n Un'.

**Darren Millar:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. O ganlyniad i'r rhaglen cau ysgolion mae eich Llywodraeth wedi ei chychwyn, gwnaeth y Prif Weinidog blaenorol yn glir cyn iddo ymadael o'r swydd y bydd 170 o ysgolion yn gorfod cau ar

will know, many local authorities are looking at school modernisation programmes, including Conwy and Denbighshire, and many schools are also under threat in my constituency. Do you agree that it is now time to look at the way that education is administered in Wales? I know that you have conducted a review of your own, but will you take on board our proposal to fund schools directly from the Welsh Assembly Government, in order to do away with over £100 million-worth of bureaucracy that could then be released to the front line to help to protect those small rural schools that are so vital to the communities that they serve?

**Leighton Andrews:** This Government does not have a school closure policy.

#### Cynlluniau ar gyfer Gwella Llythrennedd

**4. Peter Black:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sydd ganddo ar gyfer gwella llythrennedd yng Nghymru. OAQ(3)1700(CEL)*

**Leighton Andrews:** My current priority is to raise literacy standards in primary schools so that every child has the literacy skills that are essential to access learning before they leave primary school. Our national literacy plan provides additional support for learners aged seven to 11.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. The report that you commissioned and which was published yesterday supported the view that the foundation phase may help to raise standards in literacy and numeracy. However, the author was clear in saying that that stressed that diagnostic analysis is required to help assess whether a child's development is on course and that appropriate teaching methods are being used. He is effectively advocating testing at the end of the foundation phase. What is your view on that opinion?

**Leighton Andrews:** I have made it clear that we will have to have national reading tests if we are to measure progress accurately across Wales. That means that we would need a

draws Cymru. Fel y gwyddoch, mae llawer o awdurdodau lleol yn edrych ar raglenni moderneiddio ysgolion, gan gynnwys Conwy a sir Ddinbych, ac mae llawer o ysgolion hefyd o dan fygythiad yn fy etholaeth. A ydych yn cytuno ei bod yn hen bryd edrych ar y ffordd y mae addysg yn cael ei gweinyddu yng Nghymru? Gwn eich bod wedi cynnal adolygiad eich hun, ond a wnewch ystyried ein cynnig i ariannu ysgolion yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn gwneud i ffwrdd â gwerth dros £100 miliwn o fiwrocratiaeth a allai wedyn gael ei ryddhau i'r rheng flaen i helpu amddiffyn yr ysgolion bach gwledig hynny sydd mor hanfodol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu?

**Leighton Andrews:** Nid oes polisi cau ysgolion gan y Llywodraeth hon.

#### Initiatives to Improve Literacy

**4. Peter Black:** *Will the Minister make a statement on any initiatives he is taking to improve literacy in Wales. OAQ(3)1700(CEL)*

**Leighton Andrews:** Fy mlaenoriaeth ar hyn o bryd yw codi safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd er mwyn i bob plentyn feddu ar y sgiliau llythrennedd sy'n hanfodol i gael mynediad i addysg cyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae ein cynllun llythrennedd cenedlaethol yn darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr rhwng saith ac 11 oed.

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd gennych ac a gyhoeddwyd ddoe yn cefnogi'r farn y gall y cyfnod sylfaen helpu i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, roedd yr awdur yn dweud yn glir bod hynny'n pwysleisio bod angen dadansoddiad diagnostig i helpu i asesu pa un a yw datblygiad plentyn ar y llwybr cywir a bod dulliau addysgu priodol yn cael eu defnyddio. Mae'n argymhell profion ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, i bob pwrpas. Beth yw eich barn ar y farn honno?

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi dweud yn glir y bydd rhaid inni gael profion darllen cenedlaethol os ydym i fesur cynnydd yn gywir ledled Cymru. Mae hynny'n golygu y

consistent means of testing reading ability and we are working on that.

byddai angen dull cyson o brofi gallu darllen ac rydym yn gweithio ar hynny.

2.30 p.m.

**Paul Davies:** As part of yesterday's discussion on the task and finish group's report on the structure of education services in Wales, we discussed the idea that the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills should create a national information and communications technology data platform to collect information regarding performance and standards in schools. I was pleased to hear from your response to my comments yesterday that the Assembly Government is taking this forward, in the context of this report and the front-line resources review. I also welcome the fact that you have had several meetings regarding this issue in recent weeks, and I believe that you state that you are making significant progress. Given the circumstances, will you elaborate on what progress the Welsh Assembly Government has made in recent weeks, and what do you envisage the next stage of this process to be?

**Paul Davies:** Fel rhan o drafodaeth ddoe ar adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru, buom yn trafod y syniad y dylai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau greu llwyfan data technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cenedlaethol i gasglu gwybodaeth am berfformiad a safonau mewn ysgolion. Roeddwn yn falch o glywed yn eich ymateb i'm sylwadau ddoe fod Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd hyn yn ei flaen, yng nghyd-destun yr adroddiad hwn a'r arolwg adnoddau rheng flaen. Croesawaf hefyd y ffaith eich bod wedi cael sawl cyfarfod ynghylch y mater hwn yn ystod yr wythnosau diwethaf, a chredaf eich bod yn nodi eich bod yn gwneud cynnydd sylweddol. O ystyried yr amgylchiadau, a wnewch ymhelaethu ar y cynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud yn ystod yr wythnosau diwethaf, a beth ydych chi'n rhagweld bydd cam nesaf y broses hon?

**Leighton Andrews:** Establishing a common ICT platform is not a technically simple project. We already have in place a series of different platforms. For example, we have the national grid for learning, the recording of student data, and we are looking at unique learner numbers and so on. We also have ICT systems in the operation of the national planning and funding system. We need to try to produce a seamless system, which is what officials are working on, but it is not a simple process.

**Leighton Andrews:** Nid yw sefydlu llwyfan TGCh cyffredin yn brosiect technegol syml. Mae cyfres o lwyfannau gwahanol eisoes yn eu lle. Er enghraifft, mae gennym y grid cenedlaethol ar gyfer dysgu, cofnodi data myfyrwyr, ac rydym yn edrych ar nifer y dysgwyr unigryw ac yn y blaen. Mae gennym hefyd systemau TGCh wrth weithredu'r system gynllunio a chyllido genedlaethol. Mae angen inni geisio cynhyrchu system ddi-dor, sef yr hyn y mae swyddogion yn gweithio arno, ond nid yw'n broses syml.

**Paul Davies:** In your statement that was released on 2 February, you said that you would ask your officials to examine whether you could revise initial teacher training, so that it becomes a two-year Masters course, with more classroom practice, so that teachers are familiar with advanced teaching skills. Will you provide us with an update on your discussions with your officials on revising initial teacher training?

**Paul Davies:** Yn eich datganiad a ryddhawyd ar 2 Chwefror, dywedasoeh y byddech yn gofyn i'ch swyddogion archwilio a fyddech chi'n gallu adolygu hyfforddiant cychwynnol athrawon, fel ei fod yn dod yn grws dwy flynedd Meistr, gyda mwy o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, fel y gall athrawon fod yn gyfarwydd â sgiliau addysgu uwch. A fyddwch yn rhoi inni y wybodaeth ddiweddaraf am eich trafodaethau gyda'ch swyddogion ar ddiwygio hyfforddiant cychwynnol athrawon?

**Leighton Andrews:** I have had a series of

**Leighton Andrews:** Yr wyf wedi cael cyfres

meetings with officials to discuss issues around initial teacher training, as well as with some outside experts. It was also discussed in passing in my ministerial advisory group last week. There are several ways in which we could take forward that proposal. We must ensure that the curriculum for initial teacher training includes effective training for newly qualified teachers to undertake the teaching of reading, which has not had sufficient emphasis in the past. Many teachers will tell you that they were never trained to teach young people to read in school. However, there is a series of elements to this, and it is not a simple process of just saying that we will go to a two-year Masters course. First, we need to look at current provision, how that will stack up against other provision elsewhere in the UK, and the relationships between any provision that we put in place and provision for teachers coming across the border, to ensure that we are not creating things that are not 100 per cent compatible. There are also many issues around the content of courses. Therefore, it is not a short-term process, but we are currently working through all that.

o gyfarfodydd gyda swyddogion i drafod materion yn ymwneud â hyfforddiant cychwynnol athrawon, yn ogystal â rhai arbenigwyr o'r tu allan. Fe'i trafodwyd hefyd wrth fynd heibio yn fy ngrŵp cynghori'r Gweinidog yr wythnos diwethaf. Mae yna sawl ffordd y gallem gymryd ymlaen y cynnig hwnnw. Mae'n rhaid inni sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cynnwys hyfforddiant effeithiol ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso i ymgymryd ag addysgu darllen, sydd heb gael digon o bwyslais wedi ei roi arno yn y gorffennol. Bydd llawer o athrawon yn dweud wrthy ch na chawsant erioed eu hyfforddi i addysgu pobl ifanc i ddarllen yn yr ysgol. Fodd bynnag, ceir cyfres o elfennau i hyn, ac nid yw'n broses syml o ddim ond dweud y byddwn yn mynd i gwrs Meistr dwy flynedd. Yn gyntaf, mae angen inni edrych ar y ddarpariaeth bresennol, sut y bydd yn dal dŵr yn erbyn darpariaeth eraill mewn mannau eraill yn y DU, a'r berthynas rhwng unrhyw ddarpariaeth yr ydym yn ei rhoi ar waith a'r ddarpariaeth ar gyfer athrawon yn dod dros y ffin, er mwyn sicrhau nad ydym yn creu pethau nad ydynt yn 100 y cant cydnaws. Mae yna hefyd lawer o faterion ynghylch cynnwys cyrsiau. Felly, nid yw'n broses tymor byr, ond rydym ar hyn o bryd yn gweithio trwy hynny i gyd.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 5, OAQ(3)1712(CEL), i'w ateb yn ysgrifenedig.

**The Presiding Officer:** Question 5, OAQ(3)1712(CEL), is transferred for written answer.

### Addysg Uwchradd

### Secondary Education

**6. Nick Bourne:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei weledigaeth ar gyfer addysg uwchradd yng Nghymru. OAQ(3)1710(CEL)*

**6. Nick Bourne:** *Will the Minister outline his vision for secondary education in Wales. OAQ(3)1710(CEL)*

**Leighton Andrews:** My vision is for a world-class education that enables all young people to reach their full potential, providing them with the skills that they need to access the world of education, employment or training, and where those who work with children are appropriately trained and fully engaged in achieving this vision.

**Leighton Andrews:** Mae fy ngweledigaeth ar gyfer addysg fyd-eang sy'n galluogi pob person ifanc i gyrraedd eu potensial llawn, gan roi iddynt y sgiliau y mae eu hangen arnynt i gael mynediad i'r byd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, a lle y mae'r rhai sy'n gweithio gyda phlant yn hyfforddi'n briodol ac yn ymgysylltu'n llawn wrth gyflawni'r weledigaeth hon.

**Nick Bourne:** I wish to ask you specifically about sixth-form education. You will be

**Nick Bourne:** Hoffwn eich holi'n benodol am addysg chweched dosbarth. Byddwch yn



aware of plans to reorganise sixth-form education in Powys, which are currently being consulted on, involving the potential merger, or closure, of some sixth forms. I wish to reassure myself—although I believe that I know the answer—that you do not have a template that prescribes ‘all sixth forms’ or ‘all tertiary colleges’, and that you believe, as I do, and as the Welsh Conservatives do, in a pragmatic approach, taking into consideration what works on the ground in a particular area. I wanted to probe that point.

**Leighton Andrews:** It is for local authorities to bring forward their proposals for post-16 education, in collaboration with local further education institutions and work-based learning providers. Through our transformation agenda, we have not sought to impose any blueprint. We look to local authorities to address their challenges in ensuring that there is a balanced curriculum, as well as ensuring that they are addressing the issue of surplus places in schools, and that they have provision that is fit for purpose. However, the point of initiation lies with local authorities.

**Jeff Cuthbert:** This morning, on the *Good Morning Wales* radio programme, a commentator appeared to suggest that comprehensive education tended to discourage entrepreneurship and risk taking by trying to settle on the middle of the road. Those comments were roundly rebuffed by Dr Chris Howard from Lewis School Pengam in my constituency, and I was pleased to hear that. Will you confirm that we are indeed committed to comprehensive education, that we do not support the notion of elitist or selective education, and that important initiatives like the Welsh baccalaureate and the 14-19 pathways show that we want to encourage entrepreneurship and a business approach spirit?

**Leighton Andrews:** Yes, indeed. We have made it absolutely clear here that we are committed to the comprehensive vision of education. We will not be following England in adopting Michael Gove’s policy of free schools. We do not support the academies

ymwybodol o gynlluniau i ad-drefnu addysg chweched dosbarth ym Mhowys, sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghori, yn cynnwys y posibilrwydd o gyfuno, neu gau, rhai dosbarthiadau chweched dosbarth. Hoffwn sicrhau fy hun—er fy mod yn credu fy mod yn gwybod yr ateb—nad oes gennych dempled sy’n rhagnodi ‘pob chweched dosbarth’ neu ‘bob coleg trydyddol’, a’ch bod yn credu, fel yr wyf yn ei wneud, ac fel y mae’r Ceidwadwyr Cymreig yn ei wneud, mewn dull pragmatig, gan gymryd i ystyriaeth yr hyn sy’n gweithio ar lawr gwlad mewn ardal benodol. Roeddwn i eisïau ymchwilio i’r pwynt hwnnw.

**Leighton Andrews:** Mater i awdurdodau lleol yw cyflwyno eu cynigion ar gyfer addysg ôl-16, mewn cydweithrediad â sefydliadau addysg bellach lleol a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Drwy ein agenda drawsnewid, nid ydym wedi ceisio gosod unrhyw lasbrint. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol fynd i’r afael â’u heriau o ran sicrhau bod cwricwlwm cytbwys, yn ogystal â sicrhau eu bod yn mynd i’r afael â’r mater o leoedd dros ben mewn ysgolion, a bod ganddynt ddarpariaeth sy’n addas at y diben. Fodd bynnag, y pwynt cychwyn yn gorwedd gydag awdurdodau lleol.

**Jeff Cuthbert:** Y bore yma, ar y rhaglen radio *Good Morning Wales*, roedd yn ymddangos fod sylwebydd yn awgrymu bod addysg gynhwysfawr yn tueddu i annog entrepreneuriaeth a chymryd risgiau drwy geisio setlo ar ganol y ffordd. Cafodd y sylwadau hynny eu gwrthod yn blaen gan Dr Chris Howard o Ysgol Lewis Pengam yn fy etholaeth, ac roeddwn yn falch o glywed hynny. A wnewch chi gadarnhau ein bod yn wir wedi ymrwymo i addysg gyfun, nad ydym yn cefnogi’r syniad o addysg elitaidd neu ddetholiadol, a bod mentrau pwysig fel bagloriaeth Cymru a’r llwybrau 14-19 yn dangos ein bod am annog entrepreneuriaeth ac ysbryd o ymagwedd at fusnes?

**Leighton Andrews:** Gwnaf, yn wir. Rydym wedi ei gwneud yn gwbl glir yma ein bod yn ymrwymedig i’r weledigaeth gynhwysfawr o addysg. Ni fyddwn yn dilyn Lloegr a mabwysiadu polisi Michael Gove o ysgolion rhydd. Nid ydym yn cefnogi’r rhaglen

programme and we are not going to permit the creation of any further foundation schools, having passed the final Assembly Measure on education yesterday. However, at the same time, we have a range of activities designed to support entrepreneurship in schools, such as the youth entrepreneurship action plan that I and the Deputy First Minister launched earlier this year. There are some excellent examples of young enterprise working with schools on a range of projects. The education business partnership in mid Glamorgan, for example, has been involved with many comprehensive schools in developing a series of initiatives whereby young people gain enterprise experience, and we remain committed to that agenda.

### Prosiectau Cyfalaf Addysg Bellach

**7. Irene James:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau Cyfalaf Addysg Bellach. OAQ(3)1721(CEL)*

**Leighton Andrews:** Since 2008-09, the post-16 capital investment programme has invested over £77 million to improve school and college buildings and support delivery of 14-19 learning pathways. Funding has been given for maintenance and for significant projects. Increasingly, I intend that funding will be directed towards significant projects that support the all-age transformation agenda.

**Irene James:** Thank you for your response, Minister. I had the privilege recently of attending the opening of the fantastic new facilities at the Coleg Gwent Crosskeys campus, known locally as Crosskeys college. It is fair to say that no-one can deny that it is a shining example of how seriously Labour takes providing world-class education facilities for our young students. Do you agree that it is not just the large capital projects, such as Crosskeys, that make a difference to the education of our young people, and that, despite the savage Tory cuts, we should continue to fund small, but essential, projects right across Wales?

**Leighton Andrews:** I congratulate Irene on the way in which she has continued to advance the interests of her constituency

academïau ac nid ydym yn mynd i ganiatáu creu unrhyw ysgolion sefydledig bellach, ar ôl pasio Mesur terfynol y Cynulliad ar addysg ddoe. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae gennym ystod o weithgareddau a gynlluniwyd i gefnogi entrepreneuriaeth mewn ysgolion, megis y cynllun gweithredu entrepreneuriaeth ieuentid a lanswyd gennyf i a'r Dirprwy Brif Weinidog yn gynharach eleni. Ceir rhai enghreifftiau ardderchog o fenter yr ifanc yn gweithio gydag ysgolion ar amrywiaeth o brosiectau. Mae'r bartneriaeth addysg busnes yng nghanol Morgannwg, er enghraifft, wedi bod yn gysylltiedig â llawer o ysgolion cyfun wrth ddatblygu cyfres o fentrau lle mae pobl ifanc yn cael profiad o fenter, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i'r agenda honno.

### FE Capital Projects

**7. Irene James:** *Will the Minister make a statement on FE Capital projects. OAQ(3)1721(CEL)*

**Leighton Andrews:** Ers 2008-09, mae'r rhaglen fuddsoddiad gyfalaf ôl-16 wedi buddsoddi dros £77 miliwn i wella adeiladau ysgol a choleg ac i gefnogi cyflwyno llwybrau dysgu 14-19. Mae cyllid wedi cael ei roi ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac ar gyfer prosiectau sylweddol. Yn gynyddol, yr wyf yn bwriadu y bydd y cyllid hwnnw'n cael ei gyfeirio at brosiectau sylweddol sy'n cefnogi'r agenda trawsnewid i bob oed.

**Irene James:** Diolch am eich ymateb, Weinidog. Cefais y ffrind yn ddiweddar o fynychu agor y cyfleusterau newydd gwych ar y campws Coleg Gwent Crosskeys, a adwaenir yn lleol fel coleg Crosskeys. Mae'n deg dweud na all unrhyw un wadu ei fod yn enghraifft wych o ddifrifolwch Llafur wrth ddarparu cyfleusterau addysg o'r radd flaenaf ar gyfer ein myfyrwyr ifanc. A ydych yn cytuno nad y prosiectau cyfalaf mawr yn unig, megis Crosskeys, sy'n gwneud gwahaniaeth i addysg ein pobl ifanc, ac, er gwaethaf toriadau llym y Torïaid, y dylem barhau i ariannu prosiectau bach, ond hanfodol, ledled Cymru?

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn llongyfarch Irene ar y ffordd y mae wedi parhau i hybu buddiannau ei hetholaeth drwy gydol ei

throughout her time in this Assembly. The Coleg Gwent Crosskeys campus recently received over £5 million in capital funding for its construction skills centre at that site towards a total project cost of £11.7 million. We have continued to invest, despite the capital cuts forced upon us by the Conservative-Liberal Democrat coalition at Westminster, in innovative new projects throughout the post-16 sector in Irene's constituency, and in her colleague Jeff Cuthbert's constituency, at The College Ystrad Mynach. We have been developing new facilities that are fit for purpose.

**Leanne Wood:** Minister, I would like to know what plans are being formulated to ensure that Wales can play its part in a future green revolution. The revolution is already under way and other countries are training their workforce to manufacture and install the solar panels and turbines that will become commonplace in years to come, as fossil fuels become more and more scarce. I held a public meeting recently in Cwmaman to launch a discussion paper, 'A Green Print for the Valleys', where I was told that our colleges are not training anywhere near enough young people to fulfil the demand that currently exists, never mind our future needs. Do you agree that we need to increase our provision to enable people to develop the green skills needed for the future, and do you think it would be a good idea to establish a green skills college, bringing together the further and higher education sectors, so that courses could be provided specifically to cater for the needs of the green sector?

**Leighton Andrews:** On the last point, no, I do not agree with that. I, along with the Deputy Minister for Science, Skills and Innovation, recently held two meetings with the green business skills forum, which is particularly focused on the development of green skills initiatives in the Heads of the Valleys area. We have been looking specifically at employment opportunities within the renewable sector and compiling data about the opportunities that are offered by a range of different areas of renewable activity alongside major employers in the

hamser yn y Cynulliad hwn. Mae campws Coleg Gwent Crosskeys wedi derbyn dros £5 miliwn yn ddiweddar mewn arian cyfalaf ar gyfer ei ganolfan adeiladu sgiliau ar y safle hwnnw tuag at gyfanswm cost y prosiect o £11.7 miliwn. Rydym wedi parhau i fuddsoddi, er gwaethaf y toriadau cyfalaf a orfodwyd arnom gan glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democrataidd Rhyddfrydol yn San Steffan, mewn prosiectau arloesol newydd ledled y sector ôl-16 yn etholaeth Irene, ac yn etholaeth ei chydweithiwr Jeff Cuthbert, yng Ngholeg Ystrad Mynach. Rydym wedi bod yn datblygu cyfleusterau newydd sy'n addas at y diben.

**Leanne Wood:** Weinidog, hoffwn wybod pa gynlluniau sy'n cael eu llunio er mwyn sicrhau y gall Cymru chwarae ei rhan mewn chwyldro gwyrdd yn y dyfodol. Mae'r chwyldro eisoes ar y gweill ac mae gwledydd eraill yn hyfforddi eu gweithlu i weithgynhyrchu a gosod y paneli solar a'r tyrbinau a fydd yn dod yn gyffredin yn y blynyddoedd i ddod, wrth i danwyddau ffosil ddod yn fwy a mwy prin. Cynhaliais gyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar yng Nghwmaman i lansio papur trafod, 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd', lle y cefais wybod nad yw ein colegau yn hyfforddi yn agos at ddigon o bobl ifanc i gyflawni'r galw sy'n bodoli eisoes, heb sôn am ein hanghenion yn y dyfodol. Ydych chi'n cytuno bod angen inni gynyddu ein darpariaeth er mwyn galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau gwyrdd sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol, ac a ydych yn credu y byddai'n syniad da i sefydlu coleg sgiliau gwyrdd, gan ddwyn ynghyd y sectorau addysg bellach ac uwch, fel y gellid darparu cyrsiau i ddarparu ar gyfer anghenion y sector gwyrdd yn benodol?

**Leighton Andrews:** Ar y pwynt olaf, na, nid wyf yn cytuno â hynny. Yr wyf fi, ynghyd â'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau, wedi cynnal dau gyfarfod diweddar gyda'r fforwm sgiliau busnes gwyrdd, sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu mentrau sgiliau gwyrdd ym Mlaenau'r Cymoedd. Rydym wedi bod yn edrych yn benodol ar gyfleoedd cyflogaeth o fewn y sector adnewyddadwy ac yn llunio data am y cyfleoedd a gynigir gan ystod o wahanol feysydd gweithgaredd adnewyddadwy ochr yn ochr â'r prif

sector. The British Gas training centre has been established at Tredegar in the last 18 months, making an important contribution to the training of fitting engineers in renewable skills. That was done with considerable support from the Welsh Assembly Government. A number of other employers have identified particular skills needs that we now need to ensure are delivered by the existing network of post-16 providers. We are working actively with a wide range of employers to identify the skills opportunities alongside my colleague the Minister for Environment, Sustainability and Housing, and through the Arbed scheme.

**Darren Millar:** Minister, you will be aware that the Welsh Mountain Zoo in Colwyn Bay has plans to develop a brand new tropical house project that would also allow skills and innovation to be developed alongside Coleg Llandrillo Cymru. It would be a wonderful educational opportunity for those who participate in the project. Given that it is in a strategic regeneration area, that your colleague, sitting behind you, has visited the zoo recently, and that there might be learning advantages for those who participate, what opportunity might there be to improve the capital allocation to that project from your own portfolio?

**Leighton Andrews:** We give considerable support to Coleg Llandrillo Cymru, which is doing an excellent job in his part of the world and elsewhere. I listened with interest to the way in which he continues to make the case for his constituency in his remaining days in the Assembly.

#### **Ennyn Diddordeb Pobl Ifanc ym Myd Gwaith**

**8. Val Lloyd:** *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i ennyn diddordeb pobl ifanc ym myd gwaith. OAQ(3)1724(CEL)*

**Leighton Andrews:** We are committed to ensuring that all young people are engaged in learning and gain the necessary skills needed

gyflogwyr yn y sector. Mae canolfan hyfforddiant Nwy Prydain wedi cael ei sefydlu yn Nhredegar yn ystod y 18 mis diwethaf, gan gyfrannu mewn modd pwysig i hyfforddi peirianwyr gosod mewn sgiliau adnewyddadwy. Gwnaethpwyd hynny gyda chefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae nifer o gyflogwyr eraill wedi nodi anghenion sgiliau penodol sydd angen inni sicrhau yn awr eu bod yn cael eu cyflwyno gan y rhwydwaith presennol o ddarparwyr ôl-16. Yr ydym wrthi'n gweithio gydag ystod eang o gyflogwyr i adnabod y cyfleoedd sgiliau ochr yn ochr â'm cydweithiwr y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, a thrwy gynllun Arbed.

**Darren Millar:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod gan Sŵ Mynydd Cymru ym Mae Colwyn gynlluniau i ddatblygu prosiect tŷ trofannol newydd sbon a fyddai hefyd yn caniatáu i sgiliau ac arloesedd gael eu datblygu ochr yn ochr â Choleg Llandrillo Cymru. Byddai'n gyfle addysgol gwych i'r rhai a fyddai'n cymryd rhan yn y prosiect. O gofio ei fod mewn ardal adfywio strategol, bod eich cydweithiwr, sy'n eistedd y tu ôl i chi, wedi ymweld â'r sŵ yn ddiweddar, ac y gallai fod manteision addysgol ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan, pa gyfle allai fod i wella'r dyraniad cyfalaf i'r prosiect o'ch portffolio eich hun?

**Leighton Andrews:** Rydym yn rhoi cefnogaeth sylweddol i Goleg Llandrillo Cymru, sy'n gwneud gwaith ardderchog yn ei ran ef o'r byd ac mewn mannau eraill. Gwrandewais gyda diddordeb ar y ffordd y mae'n parhau i gyflwyno'r achos dros ei etholaeth yn y dyddiau sy'n weddill ganddo yn y Cynulliad.

#### **Engaging Young People in the World of Work**

**8. Val Lloyd:** *What is the Welsh Assembly Government doing to engage young people in world of work. OAQ(3)1724(CEL)*

**Leighton Andrews:** Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob un o'n pobl ifanc yn cymryd rhan mewn dysgu ac yn ennill y

to secure work. The youth engagement and employment action plan will ensure that young people remain connected to the labour market via a broad range of learning, education and work experience opportunities.

**Val Lloyd:** Thank you for your response, Minister. With the UK unemployment level at its highest since 1994, at over 2.5 million people, and with young people in our society being hit the hardest, it is essential that the young people of Wales are equipped with the right skills, support and experience to find a job and succeed in life. I was delighted to learn of the launch of the pilot scheme for the new £900,000 intermediate labour market programme that you mentioned. Would you agree with me that that programme, along with the youth engagement and employment action plan, are testament to the Labour-led Welsh Assembly Government's commitment to supporting young people, ensuring that we do not have another lost generation of young people and youth unemployment in Wales like the one that we had in the 1980s under the last Tory Government?

**Leighton Andrews:** Indeed. One reason why we have piloted the intermediate labour market programme is because we believe that there have been valuable lessons learned through the work of the Future Jobs fund, which, unfortunately, the Conservative-Liberal Democrat coalition in Westminster is scrapping, but which has benefited many thousands of young people and communities across Wales. We are piloting a new pathway to work for 16 and 17-year-olds, which will offer young people more choice and better progression into employment. This includes the introduction of that intermediate labour market for 16 and 17-year-olds, providing these young people with a paid employment opportunity for a six-month period. I end by thanking her for her support while she has been a Member of this Assembly; she has been an extraordinary champion of her constituency.

**Eleanor Burnham:** I met with Careers Wales in north Wales the other day, and I am heartened by the work that it is doing. Do

sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen i sicrhau gwaith. Bydd y cynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yn sicrhau bod pobl ifanc yn parhau mewn cysylltiad â'r farchnad lafur drwy ystod eang o gyfleoedd profiad dysgu, addysg a gwaith.

**Val Lloyd:** Diolch am eich ymateb, Weinidog. Gyda lefel diweithdra y DU ar ei uchaf ers 1994, ar fwy na 2.5 miliwn o bobl, a chyda phobl ifanc yn ein cymdeithas yn cael eu taro waethaf, mae'n hanfodol bod pobl ifanc Cymru yn meddu ar y sgiliau, y cymorth a'r profiad cywir i ddod o hyd i swydd ac i lwyddo mewn bywyd. Roeddwn yn falch iawn o glywed am lansiad y cynllun peilot ar gyfer rhaglen y farchnad lafur ganolradd newydd, sydd werth £900,000, a grybwyllwyd gennych. A fyddech yn cytuno â mi bod y rhaglen honno, ynghyd â'r cynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc, yn dyst i ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan arweiniad y Blaid Lafur i gefnogi pobl ifanc, gan sicrhau nad oes gennym genhedlaeth arall o bobl ifanc a gollwyd, a diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, fel yr un a gawsom yn y 1980au o dan y Llywodraeth Dori'aid ddiwethaf?

**Leighton Andrews:** Yn wir. Un rheswm pam ein bod wedi treialu'r rhaglen farchnad lafur ganolradd yw oherwydd ein bod yn credu y bu gwersi gwerthfawr a ddysgwyd trwy waith cronfa Swyddi'r Dyfodol, sy'n cael ei sgrapio, yn anffodus, gan glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, ond sydd wedi elwa miloedd lawer o bobl ifanc a chymunedau ledled Cymru. Rydym yn treialu llwybr newydd at waith i bobl ifanc 16 ac 17 oed, a fydd yn cynnig mwy o ddewis i bobl ifanc a gwell dilyniant i gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r farchnad lafur ganolradd honno ar gyfer y rhai sy'n 16 a 17 mlwydd oed, a darparu gwaith cyflogedig i'r bobl ifanc hyn am gyfnod o chwe mis. Rwyf am gloi trwy ddiolch iddi am ei chefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Aelod o'r Cynulliad hwn; mae hi wedi bod yn bencampwr anhygoel o'i hetholaeth.

**Eleanor Burnham:** Cefais gyfarfod gyda Gyrfa Cymru yng ngogledd Cymru y diwrnod o'r blaen, ac yr wyf wedi fy

you agree that Careers Wales should be beefed up to continue its good work to help the many youngsters who need its full support and the various ways that it can help youngsters get into a career of their choice and play a productive part in society?

nghalonogi gan y gwaith y mae'n ei wneud. Ydych chi'n cytuno y dylai Gyrfa Cymru fod yn fwy cydnerth i barhau â'i waith da i helpu llawer o bobl ifanc sydd angen ei gefnogaeth lawn a'r ffyrdd gwahanol y gall helpu pobl ifanc i fynd i mewn i yrfa o'u dewis a chwarae rhan gynhyrchiol mewn cymdeithas?

2.45 p.m.

**Leighton Andrews:** We are moving towards a single Careers Wales organisation; that has been the policy that we have implemented. The review of Careers Wales has taken place over the past year. Clearly, we invest a significant amount of money in the careers service in Wales. We have to ensure that we are getting full value from the investment that we are making, as I am sure that she would recognise.

**Leighton Andrews:** Rydym yn symud tuag at weld Gyrfa Cymru fel un sefydliad; dyna'r polisi yr ydym wedi'i weithredu. Cynhaliwyd yr adolygiad o Yrfa Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn amlwg, rydym yn buddsoddi swm sylweddol o arian yn y gwasanaeth gyrfaoedd yng Nghymru. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cael gwerth llawn o'r buddsoddiad yr ydym yn ei wneud, fel yr wyf yn siŵr y byddai hi'n cydnabod.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ(3)1713(CEL), a chwestiwn 10, OAQ(3)1730(CEL), yn ôl.

**The Presiding Officer:** Question 9, OAQ(3)1713(CEL), and question 10, OAQ(3)1730(CEL), have been withdrawn.

#### **Darpariaeth Addysg yn Nwyrain De Cymru**

#### **Education Provision in South Wales East**

*11. **Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)1705(CEL)*

*11. **Mohammad Asghar:** Will the Minister make a statement on education provision in South Wales East. OAQ(3)1705(CEL)*

**Leighton Andrews:** In accordance with their statutory responsibilities, local authorities in South Wales East are actively engaged in the review of schools provision in their areas and are bringing forward proposals for change as and when they believe is appropriate.

**Leighton Andrews:** Yn unol â'u cyfrifoldebau statudol, mae awdurdodau lleol yn Nwyrain De Cymru yn cymryd rhan weithredol yn yr adolygiad o ddarpariaeth ysgolion yn eu hardaloedd ac yn cyflwyno cynigion ar gyfer newid fel a phryd y maent yn credu sy'n briodol.

**Mohammad Asghar:** I am pleased to welcome the recent opening of the new campus of the University of Wales, Newport. The university has said that it is to consider options for its future, including potential mergers with English institutions. Collaboration can be a positive step when it improves education provision and increases the stability of an institution. However, there are concerns over cross-border collaboration, given the growing divergence in higher education policy on funding and fees and the potentially difficult impact that that could

**Mohammad Asghar:** Yr wyf yn falch o groesawu agor campws newydd Prifysgol Cymru, Casnewydd yn ddiweddar. Mae'r brifysgol wedi dweud ei bod yn ystyried opsiynau ar gyfer ei dyfodol, gan gynnwys uno posibl gyda sefydliadau yn Lloegr. Gall cydweithredu fod yn gam cadarnhaol pan fydd yn gwella'r ddarpariaeth addysg ac yn cynyddu sefydlogrwydd sefydliad. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch cydweithredu ar draws ffiniau, o ystyried y gwahaniaeth cynyddol mewn polisi addysg uwch ar ariannu a ffioedd a'r effaith anodd

have on students in a cross-border institution. What thought has the Minister given to those complexities?

**Leighton Andrews:** I look forward to the governing body and the management of Newport university fulfilling their obligations to the Higher Education Funding Council for Wales under its regional planning arrangements.

### NEETs

**12. Chris Franks:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am NEETS yn y De. OAQ(3)1715(CEL)*

**Leighton Andrews:** Supporting young people throughout Wales to engage in learning and to find sustainable employment is one of the Welsh Assembly Government's top priorities. The youth engagement and employment action plan, published on 12 January 2011, outlines our approach to achieving this.

**Chris Franks:** I recently visited the excellent Rathbone centre in Pontypridd. One issue that was raised with me is that the new funding arrangements for courses that are provided at Rathbone centres across Wales could mean the closure of the centre in Pontypridd. Could your department ensure that all factors are taken into account when it comes to making a decision on funding that centre?

**Leighton Andrews:** That issue has not been raised with me by Rathbone. If the Member wants to write to me about it, I will certainly look at it.

**The Presiding Officer:** I call Lorraine Barrett to ask the final question to the Minister in this Assembly.

### Dechrau'n Deg

**13. Lorraine Barrett:** *A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Dechrau'n Deg. OAQ(3)1728(CEL)*

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** Flying Start is our flagship early

posibl y gallai hynny ei chael ar fyfyrwyr mewn sefydliad traws-ffiniol. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'r cymhlethdodau hynny?

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn edrych ymlaen at gorff llywodraethu a rheolwyr prifysgol Casnewydd yn cyflawni eu rhwymedigaethau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan ei drefniadau cynllunio rhanbarthol.

### NEETs

**12. Chris Franks:** *Will the Minister make a statement on NEETS in South Wales. OAQ(3)1715(CEL)*

**Leighton Andrews:** Cynorthwyo pobl ifanc ledled Cymru i gymryd rhan mewn dysgu ac i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cynllun gweithredu ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc, a gyhoeddwyd ar 12 Ionawr 2011, yn amlinellu ein dull o gyflawni hyn.

**Chris Franks:** Yn ddiweddar, bûm ar ymweliad â chanolfan ardderchog Rathbone ym Mhontypridd. Un mater a godwyd gyda mi yw y gallai'r trefniadau ariannu newydd ar gyfer cyrsiau sy'n cael eu darparu yng nghanolfannau Rathbone ledled Cymru olygu cau'r ganolfan ym Mhontypridd. A allai eich adran sicrhau bod yr holl ffactorau yn cael eu hystyried pan ddaw yn amser i wneud penderfyniad ar gyllido'r ganolfan honno?

**Leighton Andrews:** Nid yw Rathbone wedi codi'r mater hwn gyda mi. Os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf yn ei gylch, byddaf yn sicrhau yn edrych arno.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Lorraine Barrett i ofyn y cwestiwn olaf i'r Gweinidog yn y Cynulliad hwn.

### Flying Start

**13. Lorraine Barrett:** *Will the Minister provide an update on the Flying Start scheme. OAQ(3)1728(CEL)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Dechrau'n Deg yw ein rhaglen

years programme, and it provides a path towards improving the life chances of children in our most disadvantaged communities. We are committed to the programme, and that is why we have invested an additional £2.5 million in the programme from 2012 to 2014 to enhance the services that it provides.

**Lorraine Barrett:** Thank for that response, Deputy Minister. It is clear that time spent in the classroom is not the sole factor affecting a child's early development, and that is why the Flying Start programme is so important, not least in some of the most deprived parts of my constituency. I know that many children in Cardiff South and Penarth benefit from it. As you know, Flying Start delivers health workers, parenting programmes and access to speech development—I have seen the needs of some of the children in my constituency at first hand, and they will benefit. Will you ensure that the programme will continue in a future Labour Welsh Assembly Government?

**Huw Lewis:** I pay tribute to your dogged determination to fight for your constituents in the Assembly since 1999; I know that it is much appreciated by very many. Flying Start provides support for emotional and social development, and, crucially, support for language and cognitive development, and it helps with parental confidence and engagement as well as the general health of our youngest citizens. You may recall that, at Welsh Labour's spring conference, the First Minister, Carwyn Jones, stated that Labour's intent was to double the number of children who come under the aegis of Flying Start. The challenge goes out to all of us, in all political parties, as we head for the elections in May, to state our intentions with regard to this invaluable programme.

**Mark Isherwood:** Clearly, Flying Start is focused primarily on better outcomes for children aged up to three. You recently launched the Families First initiative, with pioneer programmes in north-east Wales, among others, focused on support for families with children living in poverty. How do you see the two schemes working

blynyddoedd cynnar flaenllaw, ac mae'n darparu llwybr tuag at wella cyfleoedd bywyd plant yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Yr ydym wedi ymrwymo i'r rhaglen, a dyna pam ein bod wedi buddsoddi swm ychwanegol o £2.5 miliwn yn y rhaglen o 2012 i 2014 er mwyn gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

**Lorraine Barrett:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Mae'n amlwg nad yr amser a dreulir yn yr ystafell ddosbarth yw'r unig ffactor sy'n effeithio ar ddatblygiad cynnar plentyn, a dyna pam mae'r rhaglen Dechrau'n Deg mor bwysig, nid lleiaf yn rhai o rannau mwyaf difreintiedig fy etholaeth. Gwn fod llawer o blant yn Ne Caerdydd a Phenarth yn elwa ohoni. Fel y gwyddoch, mae Dechrau'n Deg yn darparu gweithwyr ieched, rhaglenni magu plant a mynediad i ddatblygiad lleferydd—yr wyf wedi gweld â'm llygaid fy hun anghenion rhai o'r plant yn fy etholaeth, a byddant yn elwa. A wnewch chi sicrhau y bydd y rhaglen yn parhau mewn Llywodraeth Cynulliad Cymru Lafur yn y dyfodol?

**Huw Lewis:** Hoffwn dalu teyrnged i'ch penderfyniad dyfal i ymladd dros eich etholwyr yn y Cynulliad ers 1999; gwn ei fod yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan lawer iawn. Mae Dechrau'n Deg yn darparu cymorth ar gyfer datblygiad emosiynol a chymdeithasol, ac, yn hollbwysig, cymorth ar gyfer datblygiad ieithyddol a gwybyddol, ac mae'n helpu gyda hyder ac ymgysylltiad rhieni yn ogystal ag ieched cyffredinol ein dinasyddion ieuengaf. Efallai y cofiwch, yng nghynhadledd wanwyn Llafur Cymru, i'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, ddweud mai bwriad Llafur oedd dyblu nifer y plant sy'n dod o dan nawdd Dechrau'n Deg. Yr her ar gyfer pob un ohonom, ym mhob plaid wleidyddol, wrth inni wynebu'r etholiadau ym mis Mai, yw datgan ein bwriadau o ran y rhaglen amhrisiadwy hon.

**Mark Isherwood:** Yn amlwg, mae Dechrau'n Deg yn canolbwyntio'n bennaf ar well canlyniadau i blant hyd at dair oed. Yn ddiweddar, lansioch y fenter Teuluoedd yn Gyntaf, gyda rhaglenni arloesol yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ymysg eraill, yn canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd sydd â phlant yn byw mewn tlodi. Sut ydych chi'n



together, given the inevitable linkages that will exist in certain areas between the two?

**Huw Lewis:** There is no competition between the two programmes, Mark. Families First is our overarching, universalist approach to supporting families with children. You could think of Families First almost as a national families service. That is what we are attempting to construct through the programme. It also carries within it the backbone of our anti-poverty programme, and much of it will be targeted at combating child poverty. Flying Start, on the other hand, is a specialist programme that will sit within the work that Families First engages in within any area of Wales, working with the very youngest children—those aged up to three, as you say. I hope that the Conservative Party will get on the overall approach taken to children and family support in Wales and let us know what it intends to put before the electorate in the next few weeks.

**The Presiding Officer:** Thank you, Ministers, for your responses.

gweld y ddau gynllun yn gweithio gyda'i gilydd, o ystyried y cysylltiadau anochel a fydd yn bodoli rhwng y ddau mewn rhai ardaloedd?

**Huw Lewis:** Nid oes unrhyw gystadleuaeth rhwng y ddwy raglen, Mark. Teuluoedd yn Gyntaf yw ein dull cyffredinol, blaengar i gefnogi teuluoedd â phlant. Gallech feddwl am Deuluoedd yn Gyntaf bron fel gwasanaeth cenedlaethol i deuluoedd. Dyna beth yr ydym yn ceisio ei greu gyda'r rhaglen. Oddi mewn iddi hefyd mae asgwrn cefn ein rhaglen wrthdlodi, a bydd llawer ohoni'n cael ei dargedu at drechu tldi plant. Ar y llaw arall, mae Dechrau'n Deg yn rhaglen arbenigol a fydd yn rhan o'r gwaith mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ei gyflawni o fewn unrhyw ardal o Gymru, gan weithio gyda'r plant ieuengaf oll—y rheini hyd at dair oed, fel y dywedaso. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Blaid Geidwadol yn ymgyswrtio â'r dull cyffredinol o gefnogi plant a theuluoedd yng Nghymru a rhoi gwybod inni beth mae'n bwriadu ei roi gerbron yr etholwyr yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i chi, Weinidogion, am eich ymatebion.

**Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant 'Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru'**  
**The Communities and Culture Committee's Report 'The Accessibility of Arts and Cultural Activities in Wales'**

*Cynnig NDM4716 Sandy Mewies*

*Motion NDM4716 Sandy Mewies*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Chwefror 2011.*

*Notes the Report of the Communities and Culture Committee: The accessibility of arts and cultural activities in Wales which was laid in the Table Office on 3 February 2011.*

**Sandy Mewies:** I move the motion.

**Sandy Mewies:** Cynigiau y cynnig.

I am very pleased to be able to open this debate today on the Communities and Culture Committee's report, 'The accessibility of arts and cultural activities in Wales', and feel privileged to open one of the last debates on a committee report in the third Assembly.

Yr wyf yn falch iawn o allu agor y ddadl hon heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 'Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru', ac yn teimlo'n freintiedig i agor un o'r dadleuon olaf ar adroddiad pwyllgor yn y trydydd Cynulliad.

Brian Harris wrote that:

‘To be born in Wales, not with a silver spoon in your mouth, but, with music in your blood, and with poetry in your soul, is a privilege indeed.’

It goes without saying that our arts and culture help to define us as a nation and are also a force for economic growth and community inclusion. The Welsh Government has long recognised the value of the arts in progressing a wide range of Government policies and has utilised public funds to progress them. However, in the current economic climate, it is more critical than ever that every £1 of public finance should benefit all the people of Wales. If we are funding arts and cultural experiences, they need to be accessible to all of us. For example, with one in seven people in Wales suffering from hearing loss, we considered it to be simply not acceptable that a significant number of our witnesses commented that people with disabilities often still find it significantly more difficult to participate in, or access, arts and cultural activities. We were sad to hear that, in some cases where activities were held, there were facilities to enable people with sensory impairment to hear what was going on and to help them to understand what was happening, but, often, they were not switched on and there was nobody there to operate them. We believe that it is not sustainable for Welsh taxpayers to fund services that a sizeable proportion of the population are unable to access fully. I am therefore very pleased that the Welsh Government has accepted in full our recommendation that it ensures that decision makers effectively take into account the accessibility of arts and cultural experiences when determining whether to provide funding to the organisations responsible for such experiences. I am particularly pleased that the Minister detailed in his response that the Arts Council of Wales is now looking at how it can use its funding arrangements to encourage best practice in ensuring fully accessible arts provision.

Ysgrifennodd Brian Harris bod

cael eich geni yng Nghymru, nid â llwy arian yn eich ceg, ond, â cherddoriaeth yn eich gwaed, a chyda barddoniaeth yn eich enaid, yn fraint yn wir.

Afraid dweud bod ein celfyddydau a diwylliant yn helpu i ddiffinio ein hunain fel cenedl ac maent hefyd yn rym ar gyfer twf economaidd a chynhwysiant cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru wedi hen gydnabod gwerth y celfyddydau wrth ddatblygu ystod eang o bolisiau Llywodraeth ac wedi defnyddio arian cyhoeddus i'w hybu. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n fwy hanfodol nag erioed y dylai pob £1 o arian cyhoeddus fod o fudd i holl bobl Cymru. Os ydym yn ariannu profiadau celfyddydol a diwylliannol, mae angen iddynt fod yn hygyrch i bob un ohonom. Er enghraifft, gydag un o bob saith o bobl yng Nghymru yn dioddef o nam clyw, gwnaethom ystyried ei fod yn gwbl annerbyniol bod nifer sylweddol o'n tystion wedi sôn fod pobl ag anableddau yn ei chael yn sylweddol fwy anodd i gymryd rhan neu gael mynediad i weithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Yr oedd yn drist gennym glywed, mewn rhai achosion lle'r oedd gweithgareddau yn cael eu cynnal, bod cyfleusterau i alluogi pobl sydd â nam ar y synhwyrau i glywed beth oedd yn digwydd ac i'w helpu i ddeall beth oedd yn digwydd ar gael, ond, yn aml, nad oeddent ar waith ac nad oedd neb yno i'w gweithredu. Yr ydym yn credu nad yw'n gynaliadwy i drethdalwyr Cymru ariannu gwasanaethau y mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn methu â chael mynediad llawn iddynt. Yr wyf felly yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yn llawn ein hargymhelliad y dylai sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried hygyrchedd profiadau celfyddydol a diwylliannol wrth benderfynu a ddylid darparu cyllid i sefydliadau sy'n gyfrifol am brofiadau o'r fath. Yr wyf yn arbennig o falch bod y Gweinidog wedi manylu yn ei ymateb fod Cyngor Celfyddydau Cymru yn awr yn edrych ar sut y gall ddefnyddio ei drefniadau cyllido i annog arfer gorau o ran sicrhau darpariaeth gelfyddydol sy'n gwbl hygyrch.

Indeed, the Welsh Government has fully accepted and agreed with 12 of the 16 recommendations in this report, accepted two in principle and rejected the remaining two. There is therefore a great deal for me, and the committee, to welcome in the Government's response. In particular, we are very pleased that the Welsh Government has accepted our recommendation that it should work with partners to enable the identification of areas in Wales where people have particularly limited access to arts and cultural experiences. I am delighted that the Minister's remit letter to the Arts Council of Wales for 2011-12 asks it to carefully consider the question of geographical provision. As well as access across all sorts of other areas, geographical provision was something that we thought was particularly important.

I also think the Welsh Government's decision to accept our fifteenth recommendation is particularly noteworthy. That recommendation calls on the Government to set out a strategic message that all public funding arrangements for arts and cultural experiences should be reviewed to ensure that they promote, rather than prevent, partnership working between organisations that deliver arts and cultural experiences. I am delighted that this acceptance has already been transformed into action, with officials from Communities First meeting with the Arts Council of Wales to discuss synergies between their areas of work. Furthermore, the Welsh Government's decision to accept our fifth recommendation, that it enables an audit to be taken of the accessibility of all publicly funded sites intended for the provision of arts and cultural experiences, is very welcome. I recognise that such an audit could involve expenditure from much-pressed public funds, and I consider the Minister's decision to explore options for taking this recommendation forward to be entirely reasonable. Such an audit will be extremely valuable in highlighting any publicly funded sites that could be more accessible to people with disabilities, for example. As I mentioned earlier, it is vital, if we are spending public money on these experiences, that they should be accessible to all of Wales's people, rather than exclude a substantial section of us.

Yn wir, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yn llawn ac yn cytuno gyda 12 o'r 16 o argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn, wedi derbyn dau mewn egwyddor a gwrthod y ddau arall. Felly, mae llawer iawn i mi, a'r pwyllgor, i'w groesawu yn ymateb y Llywodraeth. Yn benodol, rydym yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ein hargymhelliad y dylai weithio gyda phartneriaid er mwyn adnabod ardaloedd yng Nghymru lle mae mynediad pobl i'r celfyddydau a phrofiadau diwylliannol yn arbennig o gyfyng. Yr wyf wrth fy modd bod llythyr cylch gwaith y Gweinidog i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2011-12 yn gofyn iddo ystyried yn ofalus y cwestiwn o ddarpariaeth ddaearyddol. Yn ogystal â mynediad ar draws pob math o feysydd eraill, roedd darpariaeth ddaearyddol yn rhywbeth yr oeddem yn credu oedd yn arbennig o bwysig.

Yr wyf hefyd yn credu bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i dderbyn ein pymthegfed argymhelliad yn arbennig o nodedig. Mae'r argymhelliad hwnnw'n galw ar y Llywodraeth i amlinellu neges strategol y dylai'r holl drefniadau ariannu cyhoeddus ar gyfer profiadau celfyddydol a diwylliannol gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn hyrwyddo, yn hytrach nag atal, gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau sy'n darparu profiadau celfyddydol a diwylliannol. Yr wyf wrth fy modd bod y derbyniad hwn eisoes wedi cael ei droi'n weithredu, gyda swyddogion Cymunedau yn Gyntaf yn cwrdd â Chyngor Celfyddydau Cymru i drafod synergeddau rhwng eu meysydd gwaith. Ar ben hynny, mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i dderbyn ein pumed argymhelliad, sef ei fod yn galluogi cynnal archwiliad o hygyrchedd pob safle a ariennir yn gyhoeddus a fwriedir ar gyfer profiadau celfyddydol a diwylliannol, i'w groesawu'n fawr. Yr wyf yn cydnabod y gallai archwiliad o'r fath olygu gwariant o gronfeydd arian cyhoeddus sydd o dan bwysau, ac yr wyf yn ystyried penderfyniad y Gweinidog i archwilio opsiynau ar gyfer mynd â'r argymhelliad ymlaen i fod yn gwbl resymol. Bydd archwiliad o'r fath yn eithriadol o werthfawr i dynnu sylw at unrhyw safleoedd a ariennir yn gyhoeddus a allai fod yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau, er enghraifft. Fel y soniais yn

gynharach, mae'n hanfodol, os ydym yn gwario arian cyhoeddus ar y profiadau hyn, y dylent fod yn hygyrch i holl bobl Cymru, yn hytrach nag eithrio rhan sylweddol ohonom.

On the two rejected recommendations, while the committee will be disappointed that the Minister has not accepted our recommendation that he place a statutory duty on local authorities to support arts and cultural experiences in their local areas, I am pleased that he has accepted, in his response, that it is unsatisfactory that there is a lack of clarity over how much money local authorities spend on arts and cultural activities and what outcomes are being achieved with such funding. I know that the Minister is aware that there is great inconsistency in this funding across Wales. I am therefore satisfied that he will raise this issue with the Welsh Local Government Association to discuss what might be put in place.

The Welsh Government has also rejected recommendation 10 of the report, which calls on it to have dialogue with the Arts Council of Wales to ensure that reductions in funding for its revenue-funded clients are limited to around 4 per cent over the three years from 2011-12 onwards. The Minister's written response details that this recommendation has been rejected on the basis that there may be a sound reason for some organisations to receive a greater or lower reduction in funding than others, and that the Arts Council of Wales's strategic judgment should not be undermined by placing arbitrary constraints upon it.

I agree with the Minister that the Welsh Government is right to not arbitrarily limit the arts council in making decisions about the funding of individual organisations. However, that is not what we intended to call for in this recommendation. Rather, we wanted the Welsh Government to engage in dialogue with the Arts Council of Wales to ensure that the total funding provided to all of the Arts Council of Wales's revenue-funded clients, as a collective whole, was limited to a total cut of around 4 per cent over the three years from 2011-12 onwards. The Minister stated in evidence to the committee that funding for the Arts Council of Wales would

Ar y ddau argymhelliad a wrthodwyd, tra bydd y pwyllgor yn siomedig nad yw'r Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad ei fod yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gefnogi profiadau celfyddydol a diwylliannol yn eu hardaloedd lleol, yr wyf yn falch ei fod wedi derbyn, yn ei ymateb, bod diffyg eglurder ynghylch faint o arian mae awdurdodau lleol yn ei wario ar weithgareddau celfyddydol a diwylliannol a pha ganlyniadau a gyflawnir gyda chyllid o'r fath yn anfoddfaol. Gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol bod anghysondeb mawr yn y cyllido hwn ledled Cymru. Yr wyf yn fodlon, felly, y bydd yn codi'r mater hwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod yr hyn y gellid ei roi ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwrthod argymhelliad 10 yn yr adroddiad, sy'n galw arni i siarad â Chyngor Celfyddydau Cymru i sicrhau bod gostyngiadau mewn cyllido ar gyfer cleientiaid a ariennir drwy refeniw wedi'u cyfyngu i tua 4 y cant dros y tair blynedd o 2011-12 ymlaen. Mae ymateb ysgrifenedig y Gweinidog yn manylu bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei wrthod ar y sail y gall fod rheswm da i rai sefydliadau dderbyn mwy neu lai o ostyngiad mewn cyllid nag eraill, ac na ddylid tanseilio barn strategol Cyngor Celfyddydau Cymru wrth osod cyfyngiadau mympwyol arno.

Yr wyf yn cytuno â'r Gweinidog bod Llywodraeth Cymru yn iawn i beidio â chyfyngu'n fypwyol ar gyngor y celfyddydau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag ariannu sefydliadau unigol. Fodd bynnag, nid dyna'r hyn yr oeddem yn bwriadu galw amdano yn yr argymhelliad hwn. Yn hytrach, yr oeddem am i Lywodraeth Cymru gymryd rhan mewn deialog gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i sicrhau bod yr holl gyllid a ddarparwyd i bob un o gleientiaid Cyngor Celfyddydau Cymru a ariennir drwy refeniw, fel cyfanrwydd, wedi'i gyfyngu i ostyngiad o tua 4 y cant dros y tair blynedd o 2011-12 ymlaen.

fall by about 4.6 per cent in cash terms over three years, but he anticipated that a sizeable proportion of this cut could be met from efficiency savings from within the Arts Council of Wales's own administration processes. However, as the Arts Council of Wales is ultimately responsible for determining how it allocates the funding that it receives, we believe that it is important that the Welsh Government should actively engage with the arts council to ensure that the Minister's anticipation of events is translated into reality. I would therefore like to ask the Minister to reconsider his response to this recommendation.

I would now like to turn to the two recommendations that the Minister has accepted in principle only. During our inquiry, we repeatedly heard concerns that, far from recognising the arts as an integral part of our culture, the media often perpetuates the idea that the arts are elitist and are to be enjoyed only by the well-off and the privileged. We therefore urged the Welsh Government to seek to increase media coverage of Wales's arts and cultural experiences and to challenge the myth that arts and cultural experiences are for an elite few. I am pleased that the Welsh Government has accepted this recommendation in principle, and I recognise the Minister's concerns that the media will ultimately cover the stories that it wishes to cover. However, the media does not operate in a vacuum, and I would urge the Minister to bring to bear what influence he can on this issue in order to challenge the myth that arts and cultural experiences are elitist, rather than part of the cultural fabric of our communities.

3.00 p.m.

Our witnesses also suggested that the perception that arts and cultural experiences were elitist could helpfully be addressed by getting arts and cultural experiences into

Dywedodd y Gweinidog mewn tystiolaeth i'r pwyllgor y byddai cyllid ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru yn gostwng tua 4.6 y cant mewn termau arian parod dros dair blynedd, ond ei fod yn rhagweld y gallai cyfran sylweddol o'r gostyngiad hwn gael ei wireddu o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd o fewn prosesau gweinyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ei hun. Fodd bynnag, gan fod Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol yn y pen draw am benderfynu sut y mae'n dyrannu'r cyllid y mae'n ei dderbyn, yr ydym yn credu ei bod yn bwysig y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ymgysylltu â chyngor y celfyddydau i sicrhau bod disgwyliad y Gweinidog o ddigwyddiadau yn cael ei wireddu. Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog ailystyried ei ymateb i'r argymhelliad hwn.

Hoffwn yn awr droi at y ddau argymhelliad y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn mewn egwyddor yn unig. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom dro ar ôl tro bod y cyfryngau, yn hytrach na chydabod y celfyddydau fel rhan annatod o'n diwylliant, yn aml yn cyfleu'r syniad bod y celfyddydau yn elitaidd ac i'w mwynhau gan y cefnog a'r breintiedig yn unig. Yr ydym felly'n annog Llywodraeth Cymru i geisio cynyddu'r sylw a roddir i brofiadau celfyddydol a diwylliannol Cymru yn y cyfryngau ac i herio'r myth mai rhywbeth ar gyfer ychydig o bobl elitaidd yw profiadau celfyddydol a diwylliannol. Yr wyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ac yr wyf yn cydnabod pryderon y Gweinidog y bydd y cyfryngau yn y pen draw yn rhoi sylw i'r straeon y maent yn dymuno ymdrin â hwy. Fodd bynnag, nid yw'r cyfryngau yn gweithredu mewn gwagle, a byddwn yn annog y Gweinidog i ddwyn pa bynnag ddylanwad sydd o fewn ei allu ar y mater hwn er mwyn herio'r myth bod profiadau celfyddydol a diwylliannol yn elitaidd, yn hytrach nag yn rhan o wead diwylliannol ein cymunedau.

Awgrymodd ein tystion hefyd y gallai denu'r celfyddydau a phrofiadau diwylliannol i gymunedau, a'u cynnal mewn lleoliadau cymunedol, fynd i'r afael â'r modd y mae'r

communities and using community venues to host them. Indeed, the use of such venues was also recommended as a way of overcoming challenges associated with transport and geography. We were repeatedly reminded that arts and cultural activities can take place in places other than theatres, galleries and arts centres. We were provided with numerous examples of how school halls, leisure centres, castles, pubs and the streets themselves could all be suitable locations for enabling arts and cultural experiences. I think that we all know of examples from our own communities where cultural experiences have been brought to life. To this end, we recommended that the Welsh Government continues to prioritise supporting the development of arts and cultural experiences, including those taking place within community venues over and above the development of new purpose-built arts venues.

I am pleased that the Minister has accepted our view that community venues offer immense scope for arts experiences, and I welcome the fact that he has asked the Arts Council of Wales to report on new approaches to fostering greater community and voluntary engagement in the arts in Wales. I also agree that the arts council should have strategic proposals in place for future capital investment, if these are based around maintaining our existing estate of arts and cultural buildings. I agree wholeheartedly with the Minister's observation that capital investment in recent years has helped to transform the landscape of the arts in Wales, with the development of landmark buildings such as the Wales Millennium Centre, the Riverfront in Newport and Galeri Caernarfon. It is important that such buildings are maintained. However, as a broad generalisation, in the current economic climate, the committee questioned the need for capital investment in the next few years in any further purpose-built buildings, if it comes at a cost to investment in community-based arts and cultural experiences. I would be grateful if the Minister can clarify whether he anticipates that capital investment will be used for developing any new buildings as

celfyddydau a phrofiadau diwylliannol yn cael eu gweld yn elitaidd. Yn wir, argymhellwyd defnyddio'r fath lleoliadau fel modd o oresgyn heriau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a daearyddiaeth. Fe'n hatgoffwyd dro ar ôl tro y gall y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol ddigwydd mewn mannau ar wahân i theatrau, orielau a chanolfannau celfyddydau. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau o sut mae neuaddau ysgol, canolfannau hamdden, cestyll, tafarndai a'r strydoedd eu hunain, oll, yn gallu bod yn lleoliadau addas ar gyfer galluogi celfyddydau a phrofiadau diwylliannol. Credaf ein bod i gyd yn gwybod am enghreifftiau yn ein cymunedau ein hunain lle mae profiadau diwylliannol wedi dod yn fyw. I'r perwyl hwn, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth i gefnogi datblygiad y celfyddydau a phrofiadau diwylliannol, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau cymunedol yn ychwanegol at ddatblygu adeiladau newydd pwrpasol ar gyfer y celfyddydau.

Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn ein barn fod lleoliadau cymunedol yn cynnig cyfle enfawr ar gyfer profiadau celfyddydol, a chroesawaf y ffaith ei fod wedi gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru gyflwyno adroddiad ar ddulliau newydd o feithrin mwy o ymgysylltu cymunedol a gwirfoddol yn y celfyddydau yng Nghymru. Rwyf hefyd yn cytuno y dylai cyngor y celfyddydau gael cynigion strategol ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol, os yw'r rhain yn seiliedig ar gynnal ein hystâd presennol o adeiladau celfyddydol a diwylliannol. Cytunaf yn llwyr â sylw'r Gweinidog fod buddsoddiad cyfalaf yn y blynyddoedd diwethaf wedi helpu i drawsnewid tirwedd y celfyddydau yng Nghymru, gyda datblygiad o adeiladau tirnod megis Canolfan Mileniwm Cymru, Glan yr Afon yng Nghasnewydd a Galeri, Caernarfon. Mae'n bwysig bod adeiladau o'r fath yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, gan gyffredinoli'n fras, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, cwestiynodd y pwyllgor yr angen am fuddsoddiad cyfalaf yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf mewn unrhyw adeiladau pwrpasol eraill, os daw ar gost i fuddsoddi yn y celfyddydau a phrofiadau diwylliannol yn y gymuned. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog

well as maintaining existing infrastructure.

Before I close, I acknowledge that the original terms of reference of our inquiry did not extend to the process by which the arts council carried out its own investment review and the individual decisions taken as part of this process. We took this decision on the basis that the business cases submitted by different organisations to the arts council and the feedback provided by the arts council to those organisations were not public documents. As such, we did not consider that we would be able to examine effectively the individual decisions made by the arts council in its investment review, while at the same time carrying out a wide-ranging inquiry. I note, however, that the Petitions Committee has received a number of petitions from organisations affected by the investment review, and I look forward to the conclusion of the more detailed consideration of these decisions that the Petitions Committee has initiated. We considered that it would be more effective for us to scrutinise the strategic political direction and framework in which the Welsh Government had instructed the arts council to operate. On this issue, we urge the Welsh Government to accept that it has accountability at a strategic level for the funding decisions taken by Assembly Government-sponsored bodies, such as the arts council. I am pleased that the Minister has accepted this recommendation, considering it to not be in question.

I also recognise that, as the Minister stated, he already sets strategic objectives in his annual remit letter for such bodies and discusses such issues at biannual meetings with the chair and chief executive of the Arts Council of Wales. Nevertheless, the committee believes that it was an error that the Arts Council of Wales's remit letter for 2009-10 commented that the investment review was intended to bring the highest quality arts activity to audiences and participants across Wales, but did not explicitly state that an objective of the investment review itself should be to increase

gadarnhau a yw'n rhagweld y bydd buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygu unrhyw adeiladau newydd yn ogystal â chynnal yr isadeiledd presennol.

Cyn i mi gloi, rwy'n cydnabod nad oedd cylch gorchwyl gwreiddiol ein hymchwiliad yn cynnwys y broses y defnyddiodd cyngor y celfyddydau i wneud ei adolygiad buddsoddi ei hun a'r penderfyniadau unigol a wnaed o ganlyniad i'r broses honno. Bu i ni wneud y penderfyniad hwnnw ar y sail nad oedd yr achosion busnes a gyflwynwyd gan wahanol sefydliadau i gyngor y celfyddydau, na'r adborth a ddarparwyd gan gyngor y celfyddydau i'r sefydliadau hynny, yn ddogfennau cyhoeddus. O ganlyniad, nid oeddem yn ystyried y byddem yn gallu archwilio'r penderfyniadau unigol a wnaed gan gyngor y celfyddydau yn ei adolygiad buddsoddi, gan gynnal ymchwiliad eang ei gwmpas ar yr un pryd. Sylwaf, fodd bynnag, fod y Pwyllgor Deisebau wedi derbyn nifer o ddeisebau gan sefydliadau y mae'r adolygiad buddsoddi yn effeithio arnynt, ac edrychaf ymlaen at ddiwedd yr ystyriaeth mwy manwl o'r penderfyniadau y mae'r Pwyllgor Deisebau wedi eu cymell. Rydym o'r farn y byddai'n fwy effeithiol i ni graffu ar y cyfeiriad gwleidyddol strategol a'r fframwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo cyngor y celfyddydau i'w gweithredu. Ar y mater hwn, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i dderbyn ei bod yn atebol ar lefel strategol am y penderfyniadau ariannu a wnaed gan gyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, fel cyngor y celfyddydau. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn, gan ystyried nad oes cwestiwn yn ei gylch.

Rwyf hefyd yn cydnabod, fel y dywedodd y Gweinidog, ei fod eisoes yn gosod amcanion strategol yn ei lythyr cylch gwaith blynyddol i gyrff o'r fath ac yn trafod materion o'r fath mewn cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda chadeirydd a phrif weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Serch hynny, mae'r pwyllgor yn credu yr oedd yn gamgymeriad bod llythyr cylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2009-10 yn nodi ei fod yn fwriad gan yr adolygiad buddsoddi ddod â chelfyddydau o'r radd flaenaf i gynulleidfaedd a chyfranogwyr ledled Cymru, ond nid oedd yn datgan yn glir

participation and access.

In looking at strategic priorities, I am pleased that the Minister has accepted our recommendation that the Welsh Government clarifies its total current expenditure towards arts and cultural experiences across all Government departments. I am delighted that the Welsh Government is already reviewing all grant funding provided to third party organisations as part of a grants management project. This information will provide the Government with an accurate and up-to-date picture with which it can determine its overarching strategic investment in the arts.

I am also pleased that the Minister has fully accepted our recommendation that the Welsh Government should continue to promote a co-ordinated approach between its various departments in their support for the arts and delivery of cultural experiences in Wales. I warmly welcome the examples detailed in the Minister's response, which illustrate the Welsh Government's work to date in progressing this issue. I hope that the Welsh Government will give consideration to some of the specific ideas suggested in our report for further enabling co-operation and co-ordination between its departments.

In conclusion, I would like to thank all members of the Communities and Culture Committee for their commitment to this inquiry. I would also like to thank those Members who acted as substitutes on the committee during this important investigation. On behalf of the committee, I also thank all of those who submitted evidence to us and members of the services here who contribute to every committee and make reports such as these possible. I am not going to name anyone because I would leave someone out. Finally, I thank the Minister for his positive response to our report and look forward to his response today and to the wider debate this afternoon.

**The Presiding Officer:** Thank you. I know that your remarks about the support we get from our officials are much appreciated.

y dylai fod yn amcan i'r adolygiad buddsoddi gynyddu cyfranogiad a mynediad.

Wrth edrych ar flaenoriaethau strategol, rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru egluro cyfanswm ei gwariant presennol tuag at y celfyddydau a phrofiadau diwylliannol ar draws holl adrannau'r Llywodraeth. Rwyf wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru eisoes yn adolygu'r holl gyllid grant a ddarperir i sefydliadau trydydd parti fel rhan o brosiect rheoli grantiau. Bydd y wybodaeth hon yn rhoi darlun cywir a diweddar i'r Llywodraeth y gall ei ddefnyddio i benderfynu ar ei buddsoddiad strategol cyffredinol yn y celfyddydau.

Rwyf hefyd yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yn llawn ein hargymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru barhau i hyrwyddo dull o weithio wedi ei gydlynu rhwng ei gwahanol adrannau yn eu cefnogaeth i'r celfyddydau ac i ddarparu profiadau diwylliannol yng Nghymru. Rwy'n croesawu'n fawr yr enghreifftiau a nodir yn ymateb y Gweinidog, sy'n dangos gwaith Llywodraeth Cymru hyd yn hyn wrth symud ymlaen â'r mater hwn. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i rai o'r syniadau penodol a awgrymwyd yn ein hadroddiad ar gyfer rhagor o alluogi cydweithio a chyd-drefnu rhwng ei hadrannau.

I gloi, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am eu hymroddiad i'r ymchwiliad hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Aelodau hynny a weithredodd fel dirprwyon ar y pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad pwysig hwn. Ar ran y pwyllgor, rwy'n diolch i bawb a gyflwynodd dystiolaeth i ni ac aelodau o'r gwasanaethau yma sy'n cyfrannu at bob pwyllgor ac sy'n gwneud adroddiadau fel y rhain yn bosibl. Ni fyddaf yn enwi neb, oherwydd mi fyddwn i'n gadael rhywun allan. Yn olaf, diolch i'r Gweinidog am ei ymateb cadarnhaol i'n hadroddiad ac rwy'n edrych ymlaen at ei ymateb heddiw ac at y drafodaeth ehangach y prynhawn yma.

**Y Llywydd:** Diolch. Rwy'n gwybod y bydd eich sylwadau am y cymorth a gawn gan ein swyddogion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.



**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Yr wyf yn croesawu gwaith y pwyllgor ar hygyrchedd diwylliant. Mae hwn yn faes pwysig ac mae'r pwyllgor wedi cynhyrchu adroddiad ac argymhellion eang eu cwmpas. Yr oedd yn bleser gen i dderbyn, yn gyfan gwbl neu yn rhannol, 14 o'r 16 argymhelliad.

Fel y dywedwyd gan y Cadeirydd, nid wyf wedi derbyn Argymhelliad 10, sydd yn gofyn imi ymyrryd ym mhenderfyniadau ariannu unigol Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae rhai Aelodau wedi rhoi pwysau arnaf i wneud hynny yn y misoedd diwethaf, ond mae fy safbwynt i a safbwynt cyd-aelodau fel Eleanor Burnham a Rhodri Glyn Thomas yn debyg, sef y dylai'r Llywodraeth gadw hyd braich o ran rheoli'r celfyddydau. Serch hynny, yr wyf yn fwy na pharod i gytuno na ddylai'r cyngor celfyddydau dorri ei gyllideb grantiau i gyrff celfyddydol fwy na 4 y cant dros y tair blynedd nesaf. Y flwyddyn hon, 2010-11, fydd blwyddyn gynta'r tair.

Hoffwn i Aelodau nodi bod y cyngor celfyddydau wedi neilltuo £750,000 yn ychwanegol i fudiadau sy'n derbyn cyllid referiw, hynny ar ben dyraniad 2011-12. Hoffwn nodi hefyd fy mod yn disgwyl i'r cyngor celfyddydau wneud arbedion trwy effeithlonrwydd o 12 y cant dros y tair blynedd nesaf. Mae hwn yn darged uchelgeisiol ond mae'r cyngor eisoes wedi dechrau adolygu ei drefniadau.

Ni allaf ychwaith dderbyn argymhelliad 9, sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol. Mae'r pwyllgor yn gofyn i'r Llywodraeth gyflwyno Mesur i roi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gefnogi'r celfyddydau a digwyddiadau diwylliannol yn eu hardaloedd. Mae'r LCO yn ei le, ond cyn i'r Llywodraeth symud i'r cam nesaf, rhaid inni fod yn gwbl sicr y bydd profiadau celfyddydol a diwylliannol yn gwella o ganlyniad i Fesur. Mae perygl, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni, y gallai olygu dim mwy na phennu rhyw safon ofynnol isaf. Byddai hynny'n anffodus iawn.

Fel y mae Cadeirydd y pwyllgor wedi esbonio, dewisodd y pwyllgor ganolbwyntio ar y celfyddydau ac yn arbennig, ar yr

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** I welcome the committee's work on the accessibility of culture. This is an important area of work and the committee has produced a wide-ranging report and set of recommendations. I have been happy to accept, wholly or in part, 14 of the 16 recommendations.

As the Chair mentioned, I have not accepted recommendation 10, which asks me to intervene in individual funding decisions taken by the Arts Council of Wales. Some Members have pressured me to do so in recent months, but my position is shared by Members such as Eleanor Burnham and Rhodri Glyn Thomas, namely that arm's-length management of the arts is how the Government should operate. However, I am happy to agree that the arts council should not cut its grant funding to arts organisations, by more than 4 per cent over the coming three years. This year, 2010-11, would be the first of those three years.

I would like Members to note that the arts council has set aside an additional £750,000 to support revenue-funded organisations in addition to its allocation for 2011-12. I would also like to note that I expect the arts council to make efficiency savings of 12 per cent over the next three years. This is a challenging target, but the arts council has already begun an organisational review.

I also could not accept recommendation 9, which relates to local authorities. The committee asks the Government to bring forward a Measure to place a statutory duty on local authorities to support arts and cultural experiences in their areas. The legislative competence Order is in place, but, before the Government moves to the next stage, we have to be absolutely sure that cultural and arts experiences would improve. There is a risk, especially in the current difficult economic climate, that such a Measure could set a minimum standard. That would be very unfortunate.

As the Chair of the committee has already explained, the committee chose to focus its attention on the arts, and specifically on the

adolygiad ariannu y gwnaeth y cyngor celfyddydau ei gynnal. Er hynny, y mae wedi gwneud nifer o argymhellion ehangach eu cwmipas ac yr wyf wedi ymateb i'r adroddiad i'r perwyl hwnnw.

Yr wyf yn teimlo'n falch o'r hyn y mae'r Llywodraeth hon wedi'i wneud. Mae 'Cymru'n Un' wedi gosod ein bwriad i sicrhau bod profiadau diwylliannol o'r safon uchaf ar gael i holl bobl Cymru, ble bynnag maent yn byw a beth bynnag yw eu cefndir. Bu inni hefyd gyhoeddi ein bwriad i ddathlu a diogelu treftadaeth arbennig Cymru. Yn unol â'r bwriad hwnnw, mae'r Llywodraeth hon wedi hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant. Mae gan bobl Cymru dirwedd gyfoethog o gelf a diwylliant i elwa arno. Ar ben hynny, mae mudiadau celf a diwylliannol Cymru yn gwneud mwy a mwy i annog pobl o dros y ffin a thu hwnt i ddod yma. Mae hwn yn beth da gan ei fod yn cadw calon ddiwylliannol Cymru i guro; ac yr wyf yn siŵr nad oes angen imi atgoffa Aelodau ei fod hefyd yn gwneud cyfraniad aruthrol at ddatblygu'n heconomi. Mewn adroddiad annibynnol diweddar, amcangyfrifwyd bod Opera Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu dros £33 miliwn y flwyddyn at economi'r wlad. Cleient refeniw newydd i'r cyngor celfyddydau yw'r cwmni opera bychan, Mid Wales Opera, a bydd y cwmni'n parhau i fynd â chynyrchiadau bach a chyffrous ledled Cymru, gan ddod ag opera byw i leoedd fel Theatr Hafren a Glan yr Afon yng Nghasnewydd.

Fel rhan o raglen y Llywodraeth, yr ydym wedi meithrin gweithgarwch diwylliannol. Yn gynharach y mis hwn, cefais gyfle i longyfarch cwmni National Theatre Wales ar lwyddiant ei flwyddyn gyntaf, ar ôl neilltuo £3 miliwn o arian cyhoeddus i'w sefydlu. Cafwyd cynhyrchiad newydd bob mis a pherfformiwyd bob un o'r rheiny ledled Cymru. Cynhyrchiad cyntaf y cwmni oedd *A Good Night Out in the Valleys*—enw addas o gofio'r perfformiad cyntaf yn Sefydliad Glowyr y Coed Duon. Aeth y sioe wedyn i Flaengarw, Pontardawe, Bedwas a Threcynon. Mae cwmni National Theatre Wales wedi gweithio'n galed i wneud ei waith mor hygyrch i gymaint o bobl â phosibl, gyda chynyrchiadau eraill yn cael eu cynnal yn y Bermo, Prestatyn, ar ben yr

review of funding conducted by the arts council. Nonetheless, it has made a number of broader recommendations and I have responded to the report in that vein.

I am proud of what this Government has achieved. 'One Wales' set out our intention to aim for high-quality culture experiences to be available to all, irrespective of where they live or their background. We also announced our intention to celebrate and conserve Wales's outstanding heritage. In line with that intention, this Government has promoted the arts and culture. The people of Wales have a rich landscape of arts and culture to benefit from. In addition, the arts and cultural organisations of Wales are increasingly encouraging people from over the border and beyond to come here. This is good because it keeps the cultural heart of Wales beating, and I am sure that I do not need to remind Members that it also makes a huge contribution to our economic development. In a recent independent report, it was estimated that Welsh National Opera contributes over £33 million each year to the country's economy. The arts council has a new revenue client in the form of Mid Wales Opera, which is a small opera company that will continue to take small and exciting productions across Wales, bringing live opera to places such as Theatr Hafren and the Riverfront in Newport.

As part of the Government's programme, we have nurtured cultural activity. Earlier this month, I had the opportunity to congratulate National Theatre Wales on its successful first year, after £3 million of public funding was set aside to establish it. A new production has been developed each month and each has been performed across Wales. The company's first production was *A Good Night Out in the Valleys*—an appropriate title as it was first performed in the Blackwood Miners' Institute. The show was then performed in Blaengarw, Pontardawe, Bedwas and Trecynon. National Theatre Wales has worked hard to ensure that its work is as accessible to as many people as possible, with other productions being performed in Barmouth, Prestatyn, on the

Wyddfa, ym Mhen-y-groes ac ar dir y Weinyddiaeth Amddiffyn ar y Bannau. Mae'r cwmni wedi denu canmoliaeth gyson y beirniaid.

Over recent years, I have been delighted by the Wales Millennium Centre's achievements and successes. The centre is the only arts organisation that is directly funded and monitored by the Assembly Government. In the spirit of arm's-length management, I intend to introduce new arrangements for the overseeing of the centre, and therefore from 1 April the responsibility for funding and monitoring the centre will transfer from the Welsh Assembly Government to the Arts Council of Wales, in line with a recommendation made by the National Assembly's Audit Committee in 2008. I believe that this new arrangement will help both organisations to fulfil their long-term ambitions, and it is a sign of my confidence in the board and management of the centre.

ACW is revising its children and young people's strategy, but its track record on provision is good. Its involvement in the 'Reach the Heights' EU-funded programme, for example, aims to bring opportunities to 15,000 young people at risk of exclusion from full-time education by the end of 2013. Currently, over 40 arts projects have been set up. ACW's popular Night Out scheme, whereby young people are involved in staging professional arts performances, was recently praised by one of Wales' senior police officers for its impact on child disaffection in her part of south-east Wales. Night Out made 100 performances available in south-east Wales in 2009-10, 70 of which were aimed at young audiences.

In 2009, my ambition statement for the historic environment delivered on my personal commitment to set out a strategic direction for the historic environment sector, not only to conserve and protect, but also to deploy every feasible means to make heritage sites enjoyable, relevant and stimulating places to visit. Cadw continues to seek to understand and address the physical and

peak of Snowdon, in Pen-y-groes and on Ministry of Defence land in the Beacons. The company has attracted frequent praise from critics.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn falch iawn o lwyddiannau Canolfan Mileniwm Cymru. Y ganolfan yw'r unig sefydliad celfyddydol sy'n cael ei ariannu yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad ac sy'n cael ei fonitro ganddi. Mewn ysbryd o reoli hyd braich, rwy'n bwriadu cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer goruchwyllo'r ganolfan, ac felly o 1 Ebrill, bydd y cyfrifoldeb am ariannu a monitro'r ganolfan yn trosglwyddo oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru, yn unol ag argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2008. Credaf y bydd y trefniant newydd hwn yn helpu'r ddau sefydliad i gyflawni eu dyheadau hirdymor, ac mae'n arwydd o fy hyder yn y bwrdd ac yn rheolwyr y ganolfan.

Mae CCC yn adolygu ei strategaeth plant a phobl ifanc, ond mae ei record ar y ddarpariaeth yn dda. Mae ei waith yn 'Cyrraedd y Nod', sef rhaglen a ariennir gan yr UE, er enghraifft, yn anelu at ddod â chyfleoedd i 15,000 o bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o addysg llawn amser erbyn diwedd 2013. Ar hyn o bryd, mae dros 40 o brosiectau celfyddydol wedi eu sefydlu. Cafodd cynllun Noson Allan poblogaidd CCC, lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn llwyfannu perfformiadau celfyddydol proffesiynol, ei ganmol yn ddiweddar gan un o uwch swyddogion yr heddlu am ei effaith ar anfonlonrwydd plant yn ei hardal o dde-ddwyrain Cymru. Gwnaeth Noson Allan 100 o berfformiadau ar gael yn ne-ddwyrain Cymru yn 2009-10; roedd 70 ohonynt wedi'u hanelu at gynulleidfaedd ifanc.

Yn 2009, roedd fy natganiad uchelgais ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn unol â'm hymrwymiad personol i osod cyfeiriad strategol ar gyfer y sector amgylchedd hanesyddol, nid yn unig i gadw a diogelu, ond hefyd i ddefnyddio pob dull posibl i sicrhau bod safleoedd treftadaeth yn bleserus, yn berthnasol ac yn lleoedd cyffrous i ymweld â nhw. Mae Cadw yn parhau i geisio

social barriers that some people encounter in accessing our heritage, and much good work has already been achieved at many of its monuments. Particularly significant developments have been seen at the Bishops' Palace in St David's and at Chepstow and Caernarfon castles. Where the structure of a monument prohibits access to some visitors, such as castle towers, facilities such as touch screen tours can make a difference, and a new tour is now being developed for Tretower court and castle. There is certainly scope to improve access to some heritage sites by improving connections to rail and bus services; this has happened in an Arriva Trains Wales initiative on the Cambrian Coast Line, where discount access is provided to Harlech and Criccieth castles. Cadw's new public engagement team will be pursuing further opportunities during 2011-12.

Public libraries play an important part in promoting access to Welsh art and culture. The Welsh Assembly Government has invested £9 million in recent years in modernising 68 public libraries, and a key aspect of the funding is to create flexible space in libraries to stage a wide range of cultural activities, including author events and exhibitions. I have seen at first hand the activities taking place in our libraries, ranging from an arts workshop with a school group at the new public library in an outbuilding of Tredegar House, to a rap artist in Bangor Library. I recently re-opened the modernised Rhyl Library and this was an excellent example of creating a vibrant cultural focus in the community. In addition to the library, there was a museum, and I enjoyed participating in an arts workshop in the gallery and then I had lunch in the cafe. Perhaps that is too much information. Last Monday, I issued a press release announcing a further £1.5 million to modernise another nine libraries.

3.15 p.m.

I was pleased to give evidence to the committee last November; I thought that

deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau ymarferol a chymdeithasol y mae rhai yn dod ar eu traws wrth gael mynediad at ein treftadaeth, ac mae llawer o waith da eisoes wedi ei gyflawni â nifer o'i henebion. Cafwyd datblygiadau arbennig o arwyddocaol yn Llys yr Esgob yn Nhyddewi, ac yng nghostyll Casgwent a Chaernarfon. Pan fydd strwythur heneb yn gwahardd mynediad i rai ymwelwyr, fel tyrau cestyll, gall cyfleusterau fel teithiau sgrin gyffwrdd wneud gwahaniaeth, ac mae taith newydd bellach yn cael ei datblygu ar gyfer llys a chastell Tretŵr. Yn sicr, mae lle i wella mynediad i rai safleoedd treftadaeth trwy wella cysylltiadau â gwasanaethau rheilffordd a bysiau; mae hyn wedi digwydd mewn menter Trenau Arriva Cymru ar Reilffordd Arfordir y Cambrian, lle mae mynediad â gostyngiad i gestyll Harlech a Chriccieth. Bydd tîm ymgysylltu cyhoeddus newydd Cadw yn ymrafael â chyfleoedd pellach yn ystod 2011-12.

Mae gan lyfrgelloedd cyhoeddus ran bwysig wrth hyrwyddo mynediad i gelfyddyd a diwylliant Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi £9 miliwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf i foderneiddio 68 llyfrgell gyhoeddus, ac ymagwedd allweddol ar y cyllid yw creu gofod hyblyg mewn llyfrgelloedd i gynnal ystod eang o weithgareddau diwylliannol, gan gynnwys digwyddiadau gydag awduron ac arddangosfeydd. Rwyf wedi gweld y gweithgareddau sy'n digwydd yn ein llyfrgelloedd fy hun, yn amrywio o weithdy celf gyda grŵp ysgol mewn llyfrgell gyhoeddus newydd yn un o adeiladau ystâd Tŷ Tredegar, i artist rap yn Llyfrgell Bangor. Yn ddiweddar, ail-agorais Llyfrgell Rhyl, sydd wedi ei moderneiddio, ac mae hyn yn enghraifft ardderchog o greu ffocws diwylliannol bywiog yn y gymuned. Yn ychwanegol at y llyfrgell, roedd amgueddfa, a mwynheais gymryd rhan mewn gweithdy celf yn yr oriel, ac yna cefais ginio yn y caffi. Efallai fod hynny'n ormod o wybodaeth. Ddydd Llun diwethaf, cyhoeddais ddatganiad i'r wasg yn cyhoeddi £1.5 miliwn arall i foderneiddio naw llyfrgell arall.

Roeddwn yn falch o roi tystiolaeth i'r pwyllgor fis Tachwedd diwethaf; credais fod

there was a good story to tell, although there will always be more that can and should be done to make the arts and culture more accessible. To a degree, modern technology is beginning to help us in this task, as evidenced by the People's Collection. I have responded to the committee's report, accepting most of its recommendations. It will be for the next Government to follow up this report, and my officials have drawn up an action plan that will now be pursued.

**Lynne Neagle:** I will start by joining others in thanking committee staff, fellow committee members and all the people who gave evidence or were otherwise involved in this inquiry. There has been toing and froing on points of detail, passionate evidence sessions with witnesses on all sides, robust discussions between Members and a final report that has been scrutinised by stakeholders with a fine-toothed comb—it has been refreshing to have been involved in this inquiry, and it should act as a model of best practice as we look to renew our scrutiny processes following the referendum result.

While there are many important elements to this report, I am sure that it will not surprise you to hear that I will focus my contribution on our consideration of the consequences of the arts council's investment review, because it led to the closure of one of my area's most loved and most important cultural institutions, namely Gwent Theatre, which, sadly, drew the curtain on its final production earlier this year. It was a sad day that brought to an end 30 years of providing theatre in education opportunities for children and young people across the region, including many of the most deprived children in Wales, whose only experience of theatre growing up would have come through the kind of work undertaken by Gwent Theatre in schools across my constituency.

I hold the Minister for Heritage responsible for this. Minister, I believe that you have let down young people in my constituency badly and, like it or not, this report is damning about your role in all this. First, you failed to set out increasing participation and access to the arts as a priority for the investment

stori dda i'w hadrodd, er y bydd mwy y gellir ac y dylid ei wneud bob amser i sicrhau bod y celfyddydau a diwylliant yn fwy hygrych. I raddau, mae technoleg fodern yn dechrau ein helpu yn y dasg honno, fel y dangosir gan Gasgliad y Bobl. Rwyf wedi ymateb i adroddiad y pwyllgor, gan dderbyn y rhan fwyaf o'i argymhellion. Mater i'r Llywodraeth nesaf fydd dilyn i fyny yr adroddiad hwn, ac mae fy swyddogion wedi llunio cynllun gweithredu a fydd yn awr yn cael ei ddilyn.

**Lynne Neagle:** Rwyf am ddechrau drwy ymuno ag eraill i ddiolch i staff y pwyllgor, cyd-aelodau'r pwyllgor a'r holl bobl a roddodd dystiolaeth neu a oedd fel arall yn rhan o'r ymchwiliad hwn. Bu dipyn o fynd a dod ar bwyntiau manwl, sesiynau tystiolaeth o'r galon gyda thystion ar bob ochr, trafodaethau cadarn rhwng Aelodau ac adroddiad terfynol sydd wedi cael ei archwilio'n fanwl gan randdeiliaid—bu'n chwa o awyr iach i gymryd rhan yn yr ymchwiliad hwn, a dylai weithredu fel model o arfer gorau wrth i ni edrych i adnewyddu ein prosesau craffu yn dilyn canlyniad y refferendwm.

Er bod elfennau pwysig i'r adroddiad hwn, rwyf yn siŵr na fyddwch yn synnu clywed y byddaf yn canolbwyntio fy nghyfraniad ar ein hystyriaeth o ganlyniadau adolygiad buddsoddi cyngor y celfyddydau, gan iddo arwain at gau un o'r sefydliadau mwyaf poblogaidd a diwylliannol pwysicaf yn fy ardal, sef Theatr Gwent, a dynnodd y llen, yn anffodus, ar ei gynhyrchiad olaf yn gynharach eleni. Roedd yn ddiwrnod trist a ddaeth i ben 30 mlynedd o ddarparu cyfleoedd theatr mewn addysg i blant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth, gan gynnwys nifer o'r plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, y byddai ei hunig brofiad o theatr wrth dyfu i fyny wedi dod drwy'r math o waith a wnaed gan Theatr Gwent mewn ysgolion ar draws fy etholaeth.

Rwy'n dal y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gyfrifol am hyn. Weinidog, rwy'n credu eich bod wedi siomi pobl ifanc yn fy etholaeth yn ddifrifol, ac, ei hoffi neu beidio, mae'r adroddiad hwn yn ddamniol am eich rôl yn hyn i gyd. Yn gyntaf, rydych wedi methu â nodi cynyddu cyfranogiad a mynediad i'r

review in your remit letter. As the committee report said, you then sought to wash your hands of the entire investment review process, leaving Gwent Theatre and others to hang out to dry. As the committee report puts it

‘we do not believe it is appropriate for the Welsh Government to both distance itself from the Arts Council of Wales decisions, and to provide inadequate strategic input in the review’s initiation.’

To put it another way, no matter how much you would like to, you cannot have your cake and eat it. If you do not set a proper strategic direction and then fail to intervene on a matter as important as this, people will naturally wonder whether there is any point in having a Minister in charge. Does the sum total of your input into the Arts Council of Wales, which Welsh taxpayers fund to the tune of tens of millions of pounds each year, really comprise of just a two-page letter once a year and two update meetings with the chief executive?

I have read your response to this report carefully, Minister, and, for the most part, I find it rather unsatisfactory. First, you say that you,

‘found merit in ACW’s intention to move from theatre in education provision to a broader strategic approach to arts experiences for children and young people.’

However, you fail to mention the next paragraph of our report, which states that,

‘it would have been considerably more appropriate for the Arts Council to have consulted on, and finalised, a new strategy for ‘Children, Young People and the Arts’ before making decisions on funding for organisations delivering Theatre in Education.’

Talk about moving the goalposts after the game has started.

Minister, you have completely failed to

celfyddydau fel blaenoriaeth i’r adolygiad buddsoddi yn eich llythyr cylch gwaith. Fel y dywedodd adroddiad y pwyllgor, gwnaethoch wedyn geisio golchi eich dwylo o’r holl broses adolygu buddsoddiad, gan adael Theatr Gwent ac eraill ar y plwy. Fel y dywed adroddiad y pwyllgor

‘nid ydym yn credu ei bod yn briodol bod Llywodraeth Cymru ymbellhau oddi wrth benderfyniadau Cyngor Celfyddydau Cymru, yn ogystal â rhoi mewnbwn strategol annigonol ar ddechrau’r adolygiad.’

I’w roi mewn ffordd arall, waeth faint y byddech yn hoffi gwneud hynny, ni allwch gael eich cacen a’i bwyta. Os nad ydych yn gosod cyfeiriad strategol priodol ac yna yn methu ag ymyrryd ar fater mor bwysig â hyn, bydd pobl yn naturiol yn tybio a oes unrhyw bwynt cael Gweinidog wrth y llyw. A yw cyfanswm eich cyfraniad at Gyngor Celfyddydau Cymru, sy’n cael degau o filiynau o bunnoedd o arian trethdalwyr Cymru bob blwyddyn, wir ond yn cynnwys llythyr dwy dudalen unwaith y flwyddyn a dau gyfarfod diweddar gyda’r prif weithredwr?

Rwyf wedi darllen eich ymateb i’r adroddiad hwn yn ofalus, Weinidog, ac rwyf yn cael y rhan fwyaf ohono braidd yn anfoddfaol. Yn gyntaf, rydych yn dweud eich bod,

‘yn canmol bwriad Cyngor y Celfyddydau i symud o ddarpariaeth theatr mewn addysg i agwedd strategol ehangach at brofiadau plant a phobl ifanc o’r celfyddydau.’

Fodd bynnag, nid ydych yn sôn am baragraff nesaf ein hadroddiad, sy’n datgan,

‘y byddai wedi bod yn dipyn mwy priodol pe bai Cyngor y Celfyddydau wedi ymgynghori ynghylch strategaeth newydd i blant, pobl ifanc a’r celfyddydau, a chwblhau’r strategaeth honno, cyn gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid ar gyfer sefydliadau sy’n darparu Theatr mewn Addysg.’

Am enghraifft o newid y rheolau ar ôl i’r gêm ddechrau.

Weinidog, rydych wedi methu’n lân â mynd

address the fact that theatre in education will remain for children in some parts of Wales, but not for children in others. Either theatre in education is part of the mix or it is not. If it is good enough for children in Gwynedd, Ceredigion or Carmarthenshire, it should be good enough for children in the Valleys. It remains a mystery, as far as I am concerned—not for the want of trying—as to why the arts council will continue to fund certain companies that provide theatre in education, but not others. I know that you have argued in the past that not every school was benefiting from theatre in education, but surely the answer to that lies in trying to ensure that companies fill those gaps, not in creating a situation in which, as one piece of evidence put it,

‘a huge swathe of South East Wales will have scant theatre and arts provision for young people’.

Minister, this whole business has made me seriously doubt your commitment to widening access to the arts and culture in Wales. As you know, under the landmark Children and Families (Wales) Measure 2010, Welsh public bodies have a duty to set out what they are doing to tackle child poverty. I was, therefore, shocked to read in your remit letter that you sought to reassure the arts council that this duty is not expected to place an onerous burden on the council. I take the opposite view: if something is not onerous or difficult, it is probably not worth doing at all, especially when it comes to something as serious as tackling child poverty.

It is a tragedy that the theatre in education sector in Wales, which took nearly four decades of hard work and commitment to become world-class, has taken fewer than six months to dismantle. In light of the evidence presented to the inquiry, and given your obvious unwillingness to look at this matter, what steps will you now take to ensure that every child in Wales will have access to a quality theatre experience in education? I conclude by asking the Minister what I should say to the hundreds of schoolchildren and young people in my constituency alone, particularly those from deprived

i’r afael â’r ffaith y bydd theatr mewn addysg yn parhau i blant mewn rhai rhannau o Gymru, ond nid i blant mewn rhannau eraill. Naill ai mae theatr mewn addysg yn rhan o’r gymysgedd neu nid yw. Os yw’n ddigon da i blant yng Ngwynedd, Ceredigion neu sir Gaerfyrddin, dylai fod yn ddigon da i blant yn y Cymoedd. Mae’n dal yn ddirgelwch, cyn belled ag rwyf yn y cwestiwn—nid o ran diffyg ymdrech—pam y bydd cyngor y celfyddydau yn dal i ariannu rhai cwmnïau sy’n darparu theatr mewn addysg, ond nid eraill. Gwn eich bod wedi dadlau yn y gorffennol nad yw pob ysgol yn elwa o theatr mewn addysg, ond yr ateb i hynny yw ceisio sicrhau bod cwmnïau yn llenwi’r bylchau hynny, ac nid creu sefyllfa lle bydd, fel y dywedodd un darn o dystiolaeth,

prin y bydd gan ardal fawr o Dde Ddwyrain Cymru ddarpariaeth theatr a chelfyddydau i bobl ifanc.

Weinidog, mae’r holl fusnes hwn wedi gwneud i mi amau o ddifrif eich ymrwymiad i ehangu mynediad i’r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Fel y gwyddoch, o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae dyletswydd gan gyrrff cyhoeddus Cymru i egluro beth maent yn ei wneud i fynd i’r afael â thlodi plant. Roeddwn felly yn synnu i ddarllen yn eich llythyr cylch gwaith eich bod wedi ceisio rhoi sicrwydd i gyngor y celfyddydau na ddisgwyllir i’r dyletswydd hwn osod gormod o faich ar y cyngor. Rwyf o’r farn groes: os nad yw rhywbeth yn feichus neu’n anodd, mae’n debyg nad yw’n werth ei wneud o gwbl, yn enwedig pan ddaw i rywbeth mor ddifrifol â mynd i’r afael â thlodi plant.

Mae’n drasiedi fod y sector theatr mewn addysg yng Nghymru, a gymerodd bron i bedwar degawd o waith caled ac ymrwymiad i gyrraedd safon fyd-eang, wedi cymryd llai na chwe mis i’w ddatgymalu. Yn wyneb y dystiolaeth a gyflwynwyd i’r ymchwiliad, ac o ystyried eich amharodrwydd amlwg i edrych ar y mater hwn, pa gamau a wnewch eu cymryd yn awr i sicrhau y bydd pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad i brofiad theatr mewn addysg o safon? Hoffwn gloi drwy ofyn i’r Gweinidog beth y dylwn ei ddweud wrth y cannoedd o blant ysgol a phobl ifanc yn fy etholaeth i’n unig, yn

backgrounds, who have been denied perhaps their only opportunity to experience theatre as they grow up because of this wrongheaded decision not to intervene to save the theatre in education sector in my part of Wales.

**Mohammad Asghar:** Thank you for the opportunity to contribute to this afternoon's debate. I start my contribution by thanking Sandy, committee members, committee staff, the research service and all those who were kind enough to offer and submit evidence to help develop this important inquiry. Making arts and cultural activities accessible is so important. The arts aid historical and cultural understanding, inspire creativity and act as powerful vehicles of expression and communication. It is for these reasons that I, and many other Members across the Chamber, have voiced concern at the cuts to funding faced by many theatre in education groups in Wales, including Gwent Theatre in my region, which my colleague has already mentioned emotively.

By accepting recommendation 6 of the report, the Minister confirms that the Assembly Government is accountable at a strategic level for the funding decisions made by the Arts Council of Wales. It is now important that the Assembly Government ensures that the council's decision to cease funding for 32 groups does not have a detrimental effect on accessibility. The committee found that numerous barriers exist in Wales that can impact on how accessible arts and cultural experiences can be, thus emphasising the importance of this report. I am pleased that the Minister has taken a broadly positive approach to the recommendations put forward by the committee. In accepting recommendation 1, the Minister agrees that the sharing of good practice for increasing accessibility is important. Greater partnership working is needed to ensure that barriers to attendance, accessibility and participation are dealt with as effectively as possible. I am also pleased that recommendation 4 has been accepted. I note that the Minister's response highlights good examples of work that is being undertaken to improve accessibility to

enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, a gafodd eu gwrthod efallai eu hunig gyfle i brofi theatr wrth iddynt dyfu i fyny oherwydd y penderfyniad cibddall hwn i beidio ag ymyrryd i achub y sector theatr mewn addysg yn fy rhan i o Gymru.

**Mohammad Asghar:** Diolch am y cyfle i gyfrannu at ddadl y prynhawn yma. Dechreuaf fy nghyfraniad drwy ddiolch i Sandy, aelodau'r pwyllgor, staff y pwyllgor, y gwasanaeth ymchwil a phawb a fu'n ddigon caredig i gynnig a chyflwyno tystiolaeth i helpu i ddatblygu'r ymchwiliad pwysig hwn. Mae mor bwysig gwneud y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn hygyrch. Mae'r celfyddydau o gymorth i ennill dealltwriaeth hanesyddol a diwylliannol, i ysbrydoli creadigrwydd a gweithredu fel cyfryngau pwerus o fynegiant a chyfathrebu. Dyna pam fy mod i, ac Aelodau eraill ar draws y Siambr, wedi lleisio pryder am y toriadau cyllid a wynebir gan lawer o grwpiau theatr mewn addysg yng Nghymru, gan gynnwys Theatr Gwent yn fy rhanbarth, y mae fy nghydweithiwr eisoes wedi ei grybwyll ag angerdd.

Drwy dderbyn argymhelliad 6 yr adroddiad, mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn atebol ar lefel strategol am y penderfyniadau cyllido a wneir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae bellach yn bwysig bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau nad yw penderfyniad y cyngor i roi'r gorau i gyllido 32 o grwpiau yn cael effaith andwyol ar hygyrchedd. Canfu'r pwyllgor fod nifer o rwystrau yn bodoli yng Nghymru a all effeithio ar ba mor hygyrch y gall profiadau celfyddydol a diwylliannol fod, a thrwy hynny bwysleisio pwysigrwydd yr adroddiad hwn. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan i'r argymhellion a gyflwynwyd gan y pwyllgor. Wrth dderbyn argymhelliad 1, mae'r Gweinidog yn cytuno bod rhannu arfer da i wella hygyrchedd yn bwysig. Mae angen mwy o weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod rhwystrau i bresenoldeb, mynediad a chyfranogiad yn cael eu trin mor effeithiol ag y bo modd. Rwyf hefyd yn falch bod argymhelliad 4 wedi'i dderbyn. Nodaf fod ymateb y Gweinidog yn tynnu sylw at enghreifftiau da o waith sy'n cael ei wneud i wella hygyrchedd profiadau, er enghraifft,



experiences, for example, Cadw is taking steps to improve physical and intellectual access to monuments.

Recommendation 2, which highlights the importance of increasing media coverage, has been accepted only in principle. While I agree with the Minister that it is ultimately a matter for the media to decide what it publishes and circulates, I would like to see Visit Wales and the Assembly Government do all that they can to use all opportunities to undertake wide-ranging public relations activities. These will, in turn, give the media better opportunities to cover artistic and cultural experiences. This could be particularly beneficial in rural areas, where facilities are perhaps more limited and require greater promotion to ensure that awareness is raised.

The Minister has rejected recommendation 9 that calls for statutory duties to be placed on local authorities to support arts and cultural experiences. However, I acknowledge, Minister, that you are looking at alternatives to legislation before consulting on a Bill. I am also pleased, Minister, that you have acknowledged that there is presently a lack of clarity regarding relevant local authority spend.

Finally, in accepting recommendation 16, the Minister acknowledges the obligation of Wales's national arts and cultural bodies to the people of Wales, which is important in the context of this debate. Publicly funded, national bodies have an obligation to serve the whole nation, and that will be crucial as we aim to tackle the accessibility issues that exist in Wales. I thank the Minister for what he has done in Newport with regard to the library and museum and so on. I am sure that you have the same vision for the whole of Wales, to allow entire communities—from the young, the middle aged to the old—to have access to the enjoyment that the cultural heritage and art of this great nation can give.

mae Cadw yn cymryd camau i wella mynediad corfforol a deallusol i henebion.

Mae argymhelliad 2, sy'n amlygu pwysigrwydd cynyddu sylw yn y cyfryngau, wedi ei dderbyn mewn egwyddor yn unig. Er fy mod yn cytuno â'r Gweinidog ei bod yn fater yn y pen draw i'r cyfryngau benderfynu beth maent yn ei gyhoeddi a'i gylchredeg, hoffwn weld Croeso Cymru a Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddefnyddio pob cyfle i ymgymryd â gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus eang eu cwmpas. Bydd y rhain, yn eu tro, yn rhoi cyfleoedd gwell i'r cyfryngau roi sylw i brofiadau celfyddydol a diwylliannol. Gallai hyn fod yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd gwledig, lle mae cyfleusterau o bosibl yn fwy cyfyngedig ac angen eu hyrwyddo'n fwy i sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei godi.

Mae'r Gweinidog wedi gwrthod argymhelliad 9 sy'n galw am osod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gefnogi profiadau celfyddydol a diwylliannol. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod, Weinidog, eich bod yn edrych ar ddewisiadau eraill i ddeddfwriaeth cyn ymgynghori ar Fil. Rwyf hefyd yn falch, Weinidog, eich bod wedi cydnabod bod diffyg eglurder ar hyn o bryd o ran gwariant perthnasol gan awdurdodau lleol.

Yn olaf, wrth dderbyn argymhelliad 16, mae'r Gweinidog yn cydnabod rhwymedigaeth cyrff celfyddydol a diwylliannol Cymru i bobl Cymru, sy'n bwysig yng nghyd-destun y y ddatl hon. Mae gan gyrff cenedlaethol a ariennir yn gyhoeddus rwymedigaeth i wasanaethu'r genedl gyfan, a bydd hynny'n hollbwysig wrth i ni anelu at fynd i'r afael â'r materion hygrychedd sy'n bodoli yng Nghymru. Diolch i'r Gweinidog am yr hyn a wnaeth yng Nghasnewydd o ran y llyfrgell a'r amgueddfa ac yn y blaen. Rwyf yn siŵr bod gennych yr un weledigaeth ar gyfer Cymru gyfan, er mwyn galluogi cymunedau cyfan—o'r ifanc, y canol oed i'r henoed—gael mynediad i'r mwynhad y gall treftadaeth ddiwylliannol a chelfyddydol y genedl fawr hon eu rhoi.

**David Lloyd:** Mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl bwysig hon ar yr adroddiad swmpus iawn a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, ar ôl adolygiad a aeth yn ei flaen am fisoedd. Y teitl oedd 'Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru', a'r bwriad gwreiddiol, wrth gwrs, oedd edrych ar hygyrchedd. Cawsom gryn dipyn o dystiolaeth ynglŷn â'r amryw anawsterau a oedd yn wynebu pobl â gwahanol anableddau mewn lleoliadau celfyddydol. Fodd bynnag, fel y mae'r Cadeirydd eisoes wedi'i ddweud, daeth y diffyg ariannu o ran theatr mewn addysg yng Ngwent i'r amlwg wrth i'r adolygiad fynd rhagddo. Yn wir, yr oedd y dystiolaeth mor gref, mor bwerus ac emosïynol, fel y dadlennodd Lynne Neagle, fel y bu iddo gymryd dros ran helaeth o'r adolygiad hwn a oedd wedi'i ddechrau ar fater pur wahanol, sef hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru.

Hoffwn innau gyfleu fy niolch a'm teyrnged i'r Cadeirydd, Sandy Mewies, am ei gwaith bendigedig, ynghyd â'r clerod a'r swyddogion, am dynnu popeth at ei gilydd. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r Gweinidog am y gwaith bendigedig a chlodwiw y mae ei adran wedi'i gyflawni dros y blynyddoedd ar y materion hyn. Nid dyma'r adroddiad cyntaf y mae'r pwyllgor wedi'i gynhyrchu ar bwysigrwydd y celfyddydau yn y byd economaidd ac fel curiad calon y genedl, i ddefnyddio gwell diffiniad. Fel y dywedir yn yr adroddiad:

'Mae ein celfyddydau a'n diwylliant yn ein diffinio.... Maent yn elfen annatod o ymdeimlad hanesyddol Cymru o genedligrwydd, ac yn sbardun modern i dwf economaidd a chynhwysiant cymunedol.'

Yn wir, bu i'r dystiolaeth a gawsom yn ystod yr adolygiad cynhwysfawr hwn brofi hynny.

Yn naturiol, yr hinsawdd economaidd a oedd yn chwyrliô'r holl gymylau duon ariannol hynny uwch ein pennau a oedd yn gyfrifol am y dystiolaeth dywyll ynghylch y penderfyniadau yn ymwneud ag ariannu gwahanol brosiectau celfyddydol. Nid wyf am olrhain na gwyntyllu'r hyn y mae Lynne Neagle eisoes wedi'i ddweud, ond, yn

**David Lloyd:** It is a pleasure to contribute to this important debate on a very comprehensive report that was produced by the Communities and Culture Committee, after a review that took some months to complete. The title was 'The Accessibility of Arts and Cultural Activities in Wales, and that was the original intention, of course, and we received quite a bit of evidence on the various difficulties that people with different disabilities faced in cultural venues. However, as the Chair has already mentioned, the lack of funding for theatre in education in Gwent became clear as the review went on. Indeed, the evidence was so strong, powerful and emotional, as Lynne Neagle has already revealed, that it almost took over a large part of this review, which had started on quite a different issue, namely the accessibility of arts and cultural activities in Wales.

I would like to thank and pay tribute to the Chair, Sandy Mewies, for her excellent work, along with the clerks and officials, in drawing everything together. I would also like to pay tribute to the Minister for the excellent and commendable work that his department has carried out over the years in dealing with these issues. This is not the first report that we as a committee has drawn up in looking at the importance of the arts in terms of the economy and as the heartbeat of the nation, to use a better definition. As the report states:

'Our arts and culture define us....They are both an integral element in Wales' historical sense of nationhood, and a modern driver of economic growth and community inclusion.'

Indeed, the evidence that we received during this comprehensive review proves that.

Naturally, the economic climate and the dark financial clouds that were gathering above us were responsible for the bleak evidence on the decisions relating to the funding of various arts projects. I will not go into detail on what Lynne Neagle has already said, but, naturally, there are problems with that and that is what lead to recommendation 6, which

naturiol, mae problemau ynghylch hynny a dyna a arweiniodd at argymhelliad 6, sy'n dweud ein bod,

'yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n derbyn ei bod yn atebol, ar lefel strategol, dros y penderfyniadau y mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, fel Cyngor Celfyddydau Cymru, yn eu gwneud ynghylch cyllid, ac am sicrhau bod y rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau o'r fath mor glir a thryloyw â phosibl.'

Yr wyf felly'n llongyfarch y Gweinidog am dderbyn yr argymhelliad hwnnw. Derbyniad fod cryn dipyn o feirniadaeth wedi'i chyflwyno eisoes ac y bu cryn dipyn eto'r prynhawn yma, ond yr ydym yn edrych am ffordd glir, sicr a thryloyw ymlaen.

3.30 p.m.

Deallaf hefyd resymeg y Gweinidog dros wrthod argymhellion 9 a 10, ac fe'i llongyfarchaf ar ei ymateb i'r argymhellion hynny. Yr oedd yn arloesol i ni fel pwyllgor fynnu bod dyletswydd statudol yn rhwymo awdurdodau lleol i gefnogi profiadau celfyddydol a diwylliannol yn eu hardaloedd. Yr wyf yn dal i deimlo'n gryf y dylai bod pwysau ar ein hawdurdodau lleol i hyrwyddo profiadau celfyddydol, ond deallaf resymeg y Gweinidog dros wrthod y syniad o gyflwyno Mesur i'r perwyl hwnnw.

Felly, i gloi, credaf fod hwn yn adroddiad bendigedig. Llongyfarchaf y Cadeirydd, y swyddogion a'r sawl sydd wedi cyfrannu. Diolchaf hefyd i'r holl dystion am eu cyfraniadau—hyd yn oed y tystion a oedd weithiau yn dweud pethau digon anodd i ni fel pwyllgor eu clywed.

**Eleanor Burnham:** Mae hwn yn fater pwysig i ni i gyd. Yn bersonol, credaf mai dyma'r portffolio pwysicaf yn y Cynulliad. Fel y nodir yn rhagair y Cadeirydd i'r adroddiad,

'mae ein celfyddydau a'n diwylliant yn ein diffinio, ein hysbrydoli a'n cyffroi a rydym yn mynegi ein hunain drwyddynt'.

Fodd bynnag, yn fwy na hynny—ac fel y dywedwyd yn gynharach—gall y

states that:

'We recommend that the Welsh Government accepts that it has an accountability, at a strategic level, for the funding decisions undertaken by Assembly Government Sponsored Bodies, such as the Arts Council of Wales, and to ensure that the rationale for such decisions is as clear and transparent as possible.'

I therefore congratulate the Minister on accepting that recommendation. I accept that there has been quite some criticism already and we have heard more again this afternoon, but we are looking for a clear, certain and transparent way forward.

I also understand the Minister's reasons for rejecting recommendations 9 and 10, and congratulate him on his response to those recommendations. It was ground-breaking for us, as a committee, to insist upon a statutory duty for local authorities to support cultural and artistic experiences in their areas. I still strongly believe that our local authorities should be urged to promote cultural experiences, but I understand the Minister's reasons for rejecting the idea of bringing forward a Measure for that.

Therefore, to close, I believe that this is an excellent report. I congratulate the Chair, officials and those who have contributed. I also thank the witnesses for their contributions—even those who sometimes said things that were quite difficult for us as a committee to hear.

**Eleanor Burnham:** This is an important issue for us all. Personally, I believe that this is the Assembly's most important portfolio. As noted in the Chair's foreword to the report,

our arts and culture define us, express us, inspire and excite us, and that is how we express ourselves.

However, more than that—and as was said earlier on—the arts can lift people out of

celfyddydau godi pobl allan o dlodi, gan roi profiadau unigryw iddynt.

Mae teimladau cryf wedi cael eu mynegi y prynhawn yma, ac yr wyf yn cydfynd â'r hyn a ddywedwyd. Yr wyf yn poeni'n fawr am y maes hwn, a chredaf y dylai'r pwyllgor nesaf gael mwy o allu cadarn i archwilio yn fwy manwl sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn penderfynu ar ei wariant. Soniodd Lynne Neagle am Theatr Gwent, ac mae'r dystiolaeth wedi bod yn bwerus dros ben. Yr ydym wedi gweld a chlywed emosiwn ynglŷn â'r materion hyn.

Efallai fod hyn wedi bod yn anodd i'r Gweinidog, ond, ar y llaw arall, er ein bod eisiau cadw hyd braich fel egwyddor rhwng y Gweinidog a gwariant—nid ydym am iddo fod yn microreoli—efallai mai gwaith y pwyllgor nesaf, pwy bynnag fydd yn eistedd ar hwnnw, fydd gofyn mwy o gwestiynau manwl. Os nad yw'r Gweinidog yn meddwl ei bod yn iawn iddo ef wneud hynny, efallai y dylai'r pwyllgor gael mwy o gyfle i ofyn y cwestiynau anodd. Mae'n rhaid i rywun wneud hynny, neu bydd pethau'n mynd o ddrwg i waeth.

Yr ydym yn lwcus yn y gogledd o ran yr hyn sydd wedi digwydd. Yr wyf yn ddiolchgar nad wyf yn byw yn etholaeth Lynne o ran y penderfyniadau anodd sydd wedi cael eu gwneud yno. Pan oeddwn yn delio â phlant a oedd yn tangyflawni, cyn dod yn Aelod Cynulliad, rhai o'r pethau pwysicaf yr oeddwn yn ei wneud â hwy oedd defnyddio'r theatr, y syrcais ac yn y blaen, sydd efallai yn swnio'n anarferol i'r rhai sy'n gwrandio arnom neu yn ein gwyllo. Fodd bynnag, mae hyn yn ganolog i sut mae codi ymwybyddiaeth a newid profiadau pobl nad ydynt efallai wedi cael profiadau o'r fath.

Yr wyf wedi bod yn lwcus yn fy mywyd i. Yr oeddwn yn gwyllo'r Cwmni Opera Cenedlaethol yn Llandudno yn ddiweddar yn perfformio *Die Fledermaus*, sef yr ystlym, os cofiaf yn iawn, yn Gymraeg. Yr oedd yn gynhyrchiad gwych, a chawsom noson arbennig. Yr wyf wedi bod yn lwcus, ond nid yw pobl eraill wedi bod mor lwcus.

**Ann Jones:** It is 'bat' in English.

poverty, giving them unique experiences.

Strong feelings have been expressed this afternoon, and I agree with what has been said. I worry about this issue, and believe that the next committee should be given firmer powers to look in more detail at how the Arts Council of Wales makes decisions on expenditure. Lynne Neagle mentioned Gwent Theatre, and the evidence was very strong. We have seen and heard emotional evidence on these issues.

This might have been difficult for the Minister, but, on the other hand, even though we want to keep the arm's length principle between the Minister and expenditure—we do not want him to be micromanaging—it might be up to the next committee, whoever sits on it, to ask more detailed questions. If the Minister does not believe that it is his place to do that, the committee should, perhaps, be given more opportunity to ask the difficult questions. Someone has to do it, or things will go from bad to worse.

We are lucky in north Wales in terms of what has happened. I am grateful that I do not live in Lynne's constituency, given the difficult decisions that have been taken there. When I used to deal with underachieving children, before becoming an Assembly Member, some of the most important things that I did with them involved making us of the theatre, the circus and so on, which might sound unusual to some people listening to us or watching us. However, this is central to how we raise awareness and change the experiences of people who have not, perhaps, had such experiences.

I have been lucky in my life. I recently went to see the Welsh National Opera performance of *Die Fledermaus* in Llandudno—which translates as 'the bat', if I am correct. It was a wonderful production, and we had a lovely evening. I have been lucky, but others have not been so lucky.

**Ann Jones:** 'Bat' yw hynny'n Saesneg.

**Eleanor Burnham:** Diolch, Ann.

Efallai ein bod yn anwybyddu llawer o bobl na ddylem fod yn eu hanwybyddu, o ran flodi, a dylem wneud mwy.

Mae Aelodau eraill wedi dweud popeth arall yr oeddwn am ei ddweud. Hoffwn ddiolch i Sandy, y Cadeirydd; yr ydym wedi cael ychydig o hwyl yn y pwyllgor, er bod hwn yn fater difrifol. Mae hwn wedi bod yn arolwg ac yn adroddiad cynhwysfawr, ac mae'n drist meddwl bod y bobl sydd wedi gweld y toriadau hyn yn credu efallai nad ydym wedi gwneud ein gorau drostynt. Teimlaf yn flin am hynny; efallai, fel y dywedais, mai ein bai ni fel pwyllgor yw hyn—pwy a wŷr. Fodd bynnag, os y cawn ein hail-ethol, dylem gryfhau ein ffordd o gael atebolrwydd gan gyngor y celfyddydau.

**Mark Isherwood:** I welcome the Minister's acceptance of 12 of the 16 recommendations in the report. In agreeing in principle to another, accepting a fourteenth in part and rejecting only two, I find sympathy in his statements that the media should strive to provide a balanced picture of what is going on in the cultural sphere; that community arts are at the heart of community life in Wales but that we need to retain a balanced approach, without which venues risk closure; that introducing a statutory duty on local authorities in this very difficult financial climate would risk creating a minimum standard rather than securing improvement; and that there may be a sound reason for some organisations to receive a greater or lower reduction in funding than others. Although I join the Minister in congratulating the National Theatre Wales on the success of its first year of operation, I remind him that when it was announced, I pointed out that Wales already had a national English-language theatre, based in Mold, namely Clwyd Theatr Cymru. Yes, as husband of the chair of Clwyd Theatr Cymru, it could be said that I have a vested interest, but this theatre was funded by the last Welsh Government to deliver arts in the community. As Professor Scott, vice chancellor of Glyndŵr University and vice-chair of the theatre, stated in his evidence to committee on its previous inquiry into the promotion of Welsh arts and culture on the world stage,

**Eleanor Burnham:** Thank you, Ann.

We might be mistakenly ignoring many people, in terms of poverty, and we should be doing more.

Other Members have said everything else that I wanted to say. I would like to thank Sandy, the Chair; we had some fun in committee, even though this is a serious issue. This has been a comprehensive inquiry and report, and it is sad to think that the people who have seen these cuts believe that we may not have done our best for them. I feel sad about that; as I said, that might be our fault as a committee—who knows. However, if re-elected, we should strengthen our method of ensuring the accountability of the arts council.

**Mark Isherwood:** Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn 12 o'r 16 argymhellad yn yr adroddiad. Am ei fod yn cytuno mewn egwyddor ag un arall, ac yn derbyn pedwerydd ar ddeg yn rhannol, ac yn gwrthod dim ond dau, rwy'n cytuno â'i ddatganiadau y dylai'r cyfryngau ymdrechu i ddarparu darlun cytbwys o'r hyn sy'n digwydd yn y maes diwylliannol; bod y celfyddydau cymunedol yn ganolog i fywyd cymunedol yng Nghymru ond bod angen inni gadw at ddull gweithredu cytbwys, oherwydd heb hwn mae risg y gall ein lleoliadau gau; y byddai cyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yn yr hinsawdd ariannol anodd iawn sydd ohoni yn achosi risg o greu safon ofynnol yn hytrach na sicrhau gwelliant; ac y gall rheswm pendant fod i egluro pam fod rhai sefydliadau yn derbyn lleihad sydd yn uwch neu yn is nag eraill yn eu harian. Er fy mod innau, fel yr oedd y Gweinidog, yn llongyfarch Theatr Genedlaethol Cymru ar lwyddiant ei blwyddyn gyntaf ar waith, hoffwn ei atgoffa, pan gyhoeddwyd ei dyfodiad, imi dynnu sylw at y ffaith fod gan Gymru theatr genedlaethol Saesneg ei hiaith eisoes, yn yr Wyddgrug, sef Clwyd Theatr Cymru. Ie, fel gŵr cadeirydd Clwyd Theatr Cymru, gellid dweud bod gennyf fuddiant personol, ond ariannwyd y theatr hon gan Lywodraeth ddiwethaf Cymru i ddarparu'r celfyddydau yn y gymuned. Fel y dywedodd yr Athro Scott, is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr ac is-gadeirydd y theatr,

one of the disadvantages of the break-up of the county of Clwyd was that the arts became isolated among the unitary authorities, which resulted in a diminution of funding for Clwyd Theatr Cymru, fragmenting the cohesion. In north-east Wales, the wonderful Theatr Clwyd is now so old that it is creaking, and Professor Scott said that he did not know how Terry Hands and the company put on such internationally brilliant performances.

Moving on, in responding to recommendation 1, the Minister refers to the establishment of a north-east Wales cultural steering group in early 2010, and to the drawing up of an action plan to foster collaborative working between culture, heritage, tourism and local government sectors, with consequent greater impact in north-east Wales. It should, therefore, be noted that freedom of information requests revealed that north Wales had received substantially less than south Wales for heritage tourism. Greenfield Valley Trust, a heritage park, museum and education service in Flintshire, carried out research after it failed to obtain funding under current criteria. Based on census population, the figures revealed that five north Wales councils were at the bottom of the funding table—Flintshire was bottom at £23 per head, followed by Wrexham at £25 per head, Denbighshire at £45 per head, Anglesey at £46 per head and Conwy at £47 per head. The best-funded council in north Wales, Gwynedd, received only £76 per head. This contrasted with £216 per head in Wales's best-funded county. This unfairness must be addressed if rhetoric about collaborative working and greater impact is to achieve real results.

Further, in referring to the development of the north-east Wales cultural action plan, the Minister states that it is designed, among other things, to establish a programme for the Pontcysyllte world heritage site to act as an attractor and the basis for tourism, cultural and wider development projects. I welcome

yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor yn ystod ei ymchwiliad blaenorol i'r gwaith o hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd, un o anfanteision rhannu sir Clwyd oedd bod y celfyddydau wedi'u hynysu ymhlith yr awdurdodau unedol, a arweiniodd at leihau'r arian ar gyfer Clwyd Theatr Cymru, a darnio'r cydlynad oedd gennym gynt. Yng ngogledd-ddwyrain Cymru, mae Theatr Clwyd wych bellach mor hen nes ei bod yn gwegian, a dywedodd yr Athro Scott na wŷr sut y mae Terry Hands a'r cwmni'n llwyfannu perfformiadau rhyngwladol sydd mor wych.

I gael symud ymlaen, wrth ymateb i argymhelliad 1, cyfeiria'r Gweinidog at sefydlu grŵp llywio diwylliannol gogledd-ddwyrain Cymru ar ddechrau 2010, ac at lunio cynllun gweithredu i feithrin cydweithio rhwng y sectorau diwylliant, treftadaeth, twristiaeth a llywodraeth leol, a gâi effaith ddilynol gryfach yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Dylid nodi, felly, bod ceisiadau rhyddid gwybodaeth wedi datgelu bod gogledd Cymru wedi derbyn llai o lawer o arian na'r de ar gyfer twristiaeth treftadaeth. Gwnaed ymchwil gan Ymddiriedolaeth Dyffryn y Maes Glas, sef parc treftadaeth, amgueddfa a gwasanaeth addysg yn sir y Fflint, ar ôl iddi fethu â chael cyllid o dan y meini prawf presennol. Yn seiliedig ar y cyfrifiad poblogaeth, dangosodd y ffigurau a gyhoeddwyd bod pump o gynghorau gogledd Cymru ar waelod y tabl ariannu, sef sir y Fflint ar y gwaelod gyda £23 y pen, yna Wrecsam gyda £25 y pen, yna sir Ddinbych gyda £45 y pen, Ynys Môn gyda £46 y pen a Chonwy gyda £47 y pen. Roedd y Cyngor a gaiff yr arian gorau yng ngogledd Cymru, sef Gwynedd, yn cael £76 y pen yn unig. Mae hyn yn cyferbynnu â £216 y pen yn y sir a ariennir orau yng Nghymru. Rhaid mynd i'r afael â'r annhegwch hwn os bydd rhethreg am gydweithio ac effaith gryfach yn sicrhau canlyniadau gwirioneddol.

Ymhellach, wrth gyfeirio at ddatblygu cynllun gweithredu diwylliannol gogledd-ddwyrain Cymru, dywed y Gweinidog bod y cynllun wedi'i gynllunio, ymhlith pethau eraill, i sefydlu rhaglen ar gyfer safle treftadaeth y byd Pontcysyllte, i ddenu pobl ac i fod yn sail ar gyfer twristiaeth, a

his reference to linkages between the world heritage site and Llangollen, the three counties festival plans and the National Eisteddfod in Wrexham this year and in Denbighshire in 2013. However, if we are to tackle high levels of worklessness in the surrounding area, we must also link this to other exciting local regeneration initiatives, including proposals by the Plas Kynaston Canal Group and marina project at Cefn Mawr, the Glyn Valley Tramway Trust in Chirk, and the Brymbo heritage group. In his response, the Minister states that maintaining our free entry policy to the seven sites operated by Amgueddfa Cymru—National Museum Wales, has been an extremely effective and popular means of extending access to larger numbers of visitors than ever before. However, research by Greenfield Valley Trust also revealed that people in north Wales, including school pupils, could only visit one of these sites within a realistic 60 mile travelling distance, whereas residents of Cardiff and Swansea could visit six.

For all these reasons, and very many more, the Welsh Conservatives would give north Wales a greater voice by appointing not just a Minister who lives in north Wales, but a north Wales Minister.

**Andrew Davies:** I thank Sandy Mewies and the committee for this report. It is a very important report, and I commend the committee for its efforts. I also thank the Minister for his response. I must declare an interest as chair of National Dance Company Wales, and as patron of TAN Dance, a community dance organisation in the Swansea-Neath Port Talbot area.

It was not Hermann Göring but Hanns Johst, the German playwright, who famously said that when he heard culture, he reached for his gun—or rather, he said that he released the safety catch of his Browning. It is appropriate that this debate is taking place today, on the very day that Arts Council England is announcing to literally hundreds of arts organisations that their funding will not just be cut, but eliminated completely. Arts

phrosiectau a datblygiad diwylliannol ehangach. Rwy'n croesawu ei gyfeiriadau at gysylltiadau rhwng y safle treftadaeth y byd a Llangollen, y cynlluniau ar gyfer gŵyl y tair sir a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni ac yn sir Ddinbych yn 2013. Fodd bynnag, os ydym am fynd i'r afael â lefelau uchel o ddiweithdra yn yr ardal gyfagos, mae'n rhaid inni gysylltu hyn hefyd â mentrau adfywio cyffrous eraill yn lleol, gan gynnwys cynigion gan Grŵp Camlas Plas Kynaston a phrosiect marina Cefn Mawr, Ymddiriedolaeth Tramffordd Glyn Ceiriog yn y Waun, a grŵp treftadaeth Brymbo. Yn ei ymateb, dywed y Gweinidog bod cadw ein polisi mynediad am ddim i saith safle Amgueddfa Cymru, wedi bod yn ffordd hynod o effeithiol a phoblogaidd o ymestyn mynediad i niferoedd mwy o ymwelwyr nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, mae ymchwil gan Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas hefyd yn dangos y gallai pobl yng ngogledd Cymru, gan gynnwys disgyblion ysgol, ymweld ag un o'r safleoedd hyn yn unig o fewn pellter teithio realistig o 60 milltir, tra byddai modd i drigolion Caerdydd ac Abertawe ymweld â chwech.

Am yr holl resymau hyn, a llawer iawn mwy, byddai Ceidwadwyr Cymru'n rhoi llais amlycach i ogledd Cymru drwy benodi nid yn unig Weiniog sy'n byw yng ngogledd Cymru, ond Gweinidog y gogledd.

**Andrew Davies:** Diolch i Sandy Mewies ac i'r pwyllgor am yr adroddiad hwn. Mae'n adroddiad pwysig iawn, a rhoddaf glod i'r pwyllgor am ei ymdrechion. Diolch hefyd i'r Gweinidog am ei ymateb. Rhaid imi ddatgan buddiant fel cadeirydd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, ac fel noddwr Dawns TAN, sy'n sefydliad dawns cymunedol yn ardaloedd Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot.

Nid Hermann Göring ond Hanns Johst, y dramodydd o'r Almaen, a oedd yn enwog am ddweud, pan glywodd ddiwylliant, y byddai'n estyn am ei wn, neu yn hytrach, dywedodd y byddai'n rhyddhau clicied ddiogelwch y Browning. Mae'n briodol bod y ddadl hon yn digwydd heddiw, ar yr union ddiwrnod y mae Cyngor Celfyddydau Lloegr yn cyhoeddi i gannoedd, yn wir, o sefydliadau celfyddydol y bydd eu cyllid nid

Council England has had a cut of 29 per cent—that is almost a third—from the culture Secretary, Jeremy Hunt, whose title is something of a misnomer. In Wales, however, we have taken a very different view, and although the Arts Council of Wales is seeing a reduction in its budget, it is only 4 per cent. That shows the commitment of the Assembly Government to the arts in Wales.

I would like to raise a couple of issues for the committee and particularly for the Minister. In my role as chair of the national dance company, and as someone who is passionate about the arts, I have had lots of discussions with organisations such as the Wales Association of Performing Arts, and I am delighted that Chris Ryde, the regional organiser of the union for performers, Equity, is in the gallery today to hear this debate. We are concerned generally in arts organisations about this issue of how decisions are made, and how widening participation and access to the arts is to be carried forward.

As Lynne Neagle and others have said, there has been widespread concern about the future of theatre in education in Wales. As it was dramatically put to me the other day, it has taken 39 years to create a theatre in education network in Wales, and 39 days to undermine it—or, in some cases, eliminate it. My concern therefore is that a strategic approach has not been taken by the arts council towards theatre in education across Wales, and I would hope that this could be looked at by the next Government as a matter of some urgency.

The committee recommends a cross-cutting approach, funding organisations and Government departments to promote the development of the arts. What concerns me is that I am aware of at least two organisations that have had funding from the arts council as part of the investment review, but then will almost certainly have that funding eliminated by the local authority. That is Theatre Na n'Og in my area, and TAN Dance. My concern is that many local authorities may

yn unig yn cael ei gwtogi, ond yn cael ei ddileu'n gyfan gwbl. Cafodd Cyngor Celfyddydau Lloegr doriad o 29 y cant, sef traean ei gyllid bron, gan Jeremy Hunt, yr Ysgrifennydd diwylliant, y mae ei deitl rywfaint yn gamarweiniol. Yng Nghymru, fodd bynnag, rydym wedi edrych ar y sefyllfa mewn ffordd wahanol iawn, ac er bod lleihad yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru, dim ond 4 y cant yw'r lleihad hwnnw. Mae hynny'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r celfyddydau yng Nghymru.

Hoffwn godi un neu ddau o faterion ar gyfer y pwyllgor ac ar gyfer y Gweinidog yn enwedig. Yn fy rôl fel cadeirydd cwmni dawns cenedlaethol Cymru, ac fel un sy'n angerddol hoff o'r celfyddydau, rwyf wedi cael llawer o drafodaethau â sefydliadau fel Cymdeithas y Celfyddydau Perfformio yng Nghymru, ac rwyf wrth fy modd bod Chris Ryde, trefnydd rhanbarthol yr undeb i berfformwyr, Equity, yn yr oriel heddiw i glywed y ddadl hon. Rydym yn pryderu'n gyffredinol, yn y sefydliadau celfyddydol, ynghylch y mater hwn, ynghylch sut y gwneir penderfyniadau, a sut y bydd pethau'n datblygu o ran ehangu cyfranogiad a mynediad i'r celfyddydau.

Fel y dywedodd Lynne Neagle, bu pryder cyffredinol am ddyfodol theatr mewn addysg yng Nghymru. Fel y dywedwyd wrthyf yn ddramatig y diwrnod o'r blaen, mae wedi cymryd 39 mlynedd i greu rhwydwaith theatr mewn addysg yng Nghymru, a 39 diwrnod i'w danseilio—neu, mewn rhai achosion, i'w ddileu. Rwy'n poeni felly na ddefnyddiwyd dull gweithredu strategol gan gyngor y celfyddydau o safbwynt theatr mewn addysg ledled Cymru, a gobeithiaf y gall y Llywodraeth nesaf ystyried hyn fel mater o frys.

Mae'r pwyllgor yn argymhell gweithredu trawsbynciol, a bod cyrff ariannu ac adrannau'r Llywodraeth yn hyrwyddo datblygiad y celfyddydau. Yr hyn sy'n fy mhoeni yw, fy mod yn ymwybodol o o leiaf ddau sefydliad sydd wedi cael cyllid gan gyngor y celfyddydau fel rhan o'r adolygiad buddsoddi, ond y bydd yr awdurdod lleol bron yn sicr yn dileu'r arian hwnnw. Y ddau sefydliad yw Theatr Na n'Og yn fy ardal i, a Dawns TAN. Rwy'n poeni y gall llawer o



see the investment review as a smokescreen or an excuse for reducing arts funding.

On the role of the arts council, I commend the work of Professor Dai Smith, chair of the arts council. It was a difficult investment review, I know. I believe that the arts council should be undertaking much more of a developmental role in supporting arts organisations. This is something that I have discussed with the Wales Association of Performing Arts. The arts council should not just be seen as a funding organisation; its role should involve being there to help organisations to develop, whether that is in terms of management capacity or, indeed, of widening their revenue base, particularly at a time when funding will be increasingly tight.

I would argue that the most famous Welshman of the twentieth century—Nye Bevan—had a commitment to the arts. He always said that politics was not just about bread-and-butter economic issues; culture and the arts are things that we should all aspire to, and which help to bring meaning to our lives. I can say without any shame that I am delighted to represent the cultural capital of Wales, Swansea. A huge—I think unprecedented—amount of talent has come through that city, from Dylan Thomas and Ceri Richards to Catherine Zeta-Jones and, more recently, Russell T. Davies, one of the creators of *Doctor Who*, who developed his artistic skills through West Glamorgan Youth Theatre. My fear is that, in the future, this rich seam of talent will not be exploited if theatre in education and other support for young people ceases.

3.45 p.m.

**Lorraine Barrett:** We are discussing a serious issue, but I wanted to challenge you to agree with me that Cardiff really is the capital of culture in Wales.

**Andrew Davies:** As this is almost certainly going to be my last planned contribution to this Chamber, and as a proud Member representing Swansea, there is no way that I

awdurdodau lleol weld yr adolygiad buddsoddi fel llen fwg neu esgus dros leihau'r arian a roddir i'r celfyddydau.

O ran rôl cyngor y celfyddydau, rwy'n cymeradwyo gwaith yr Athro Dai Smith, cadeirydd cyngor y celfyddydau. Roedd yr adolygiad buddsoddi yn un anodd, fe wn. Rwy'n credu y dylai cyngor y celfyddydau ymgymryd â rôl llawer mwy datblygiadol er mwyn cefnogi sefydliadau celfyddydol. Rwyf wedi trafod hyn â Chymdeithas y Celfyddydau Perfformio yng Nghymru. Ni ddylai cyngor y celfyddydau gael ei weld fel sefydliad ariannu yn unig; dylai hefyd fod ar gael i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu, boed hynny o ran gallu i reoli neu, yn wir, i ehangu eu sylfaen refeniw, yn enwedig ar adeg pan ddaw'n fwy a mwy anodd yn ariannol.

Byddwn i yn dadlau bod gan y Cymro enwocaf yn yr ugeinfed ganrif—Nye Bevan—ymrwymiad i'r celfyddydau. Byddai ef wastad yn dweud nad yw gwleidyddiaeth yn ymwneud â materion economaidd, bara menyn yn unig; mae diwylliant a'r celfyddydau yn bethau y dylai pob un ohonom anelu atynt hefyd, ac yn bethau sydd o gymorth i roi ystyr i'n bywydau. Gallaf ddweud heb ddim cywilydd fy mod yn falch o gael cynrychioli prifddinas ddiwylliannol Cymru, Abertawe. Mae talent aruthrol, talent heb ei ail yn wir, wedi dod o'r ddinas—o Dylan Thomas a Ceri Richards i Catherine Zeta-Jones ac, yn fwy diweddar, Russell T. Davies, un o'r rhai a grëodd *Doctor Who*, a ddatblygodd ei sgiliau artistig trwy Theatr Ieuencid Gorllewin Morgannwg. Rwy'n ofni, yn y dyfodol, na fydd y wythien gyfoethog o dalent hon yn cael ei hecsbloetio os daw theatr mewn addysg, a chymorth arall i bobl ifanc, i ben.

**Lorraine Barrett:** Rydym yn trafod mater difrifol, ond roeddwn eisiau eich herio i gytuno â mi mai Caerdydd mewn gwirionedd yw prifddinas diwylliant Cymru.

**Andrew Davies:** Gan mai dyma fydd, bron yn sicr, fy nghyfraniad olaf cynlluniedig yn y Siambr hon, ac fel Aelod sy'n falch o gynrychioli Abertawe, nid oes unrhyw ffordd

am going to bend my knee to Cardiff.

After 12 years in this institution, it is tempting to look back and to look at such issues as questions of national identity, and, if you will indulge me, I recall a famous occasion when I sat in on a focus group conducted by Philip Gould, the Labour Party pollster, during the summer of 1997. This story goes to the heart of our sense of national identity. He did not say what the focus group was for, but it was really about finding out people's attitude towards devolution. There were about 10 or 12 men in the room—there was a separate group for women later—and he asked people to introduce themselves. Halfway through the introductions, a man with one of the broadest Cockney accents that I have ever heard introduced himself, and said that his name was Joe. He had just been released from Walton jail after spending, I think, around 10 years inside. Clearly, he had not been sent down for parking on double yellow lines. There was something of a chill in the air when he announced his background. He complicated matters severely by saying that, although he was from Canning Town in London, he was originally from Merthyr Tydfil and, therefore, was more Welsh than anybody in the room who came from Wrexham. Given his tenure in Walton jail, nobody wanted to challenge him. However, after about five minutes, somebody plucked up the courage, as curiosity overcame their fear, and asked him why he had said that he was more Welsh than the others. His answer was:

'Well it's true, innit? Cos I could box for Wales but I couldn't play for soccer for Wales.'

We were still a bit nervous, so the conversation went on and then about five minutes later somebody asked him why had he said that and what boxing and soccer had to do with it. His answer was:

'Cos I can box but I can't play bloody soccer, can I?'

I think that that goes to the heart of the issue

y byddaf yn plygu glin i Gaerdydd.

Ar ôl 12 mlynedd yn y sefydliad hwn, mae'n demtasiwn i edrych yn ôl, ac i edrych ar faterion fel cwestiynau o hunaniaeth genedlaethol, ac, os wnewch chi faddau i mi, rwy'n cofio achlysur enwog pan fu i mi eistedd i mewn ar grŵp ffocws o dan arweiniad Philip Gould, poliwr y Blaid Lafur, yn ystod haf 1997. Mae'r stori hon yn mynd at galon ein hymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol. Ni ddywedodd beth oedd pwrpas y grŵp ffocws, ond mewn gwirionedd y pwrpas oedd darganfod beth oedd agweddau pobl tuag at ddatganoli. Roedd tua 10 neu 12 o ddyinion yn yr ystafell—roedd grŵp ar wahân i fenywod yn hwyrach—a gofynnodd i bobl gyflwyno eu hunain. Hanner ffordd trwy'r cyflwyniadau, cyflwynodd dyn ei hun gydag un o'r acenion Cockney trymaf yr wyf erioed wedi ei chlywed, a dywedodd mai Joe oedd ei enw. Roedd newydd gael ei ryddhau o garchar Walton ar ôl treulio tua 10 mlynedd y tu mewn, rwy'n meddwl. Yn amlwg, ni chafodd ei anfon i lawr am barcio ar linellau melyn dwbl. Roedd rhywfaint o oerni yn yr awyr pan gyhoeddodd ei gefndir. Cymhlethodd pethau'n fawr drwy ddweud, er ei fod yn dod o dref Canning yn Llundain, ei fod yn wreiddiol o Ferthyr Tudful, ac, felly, yn fwy o Gymro na neb yn yr ystafell a oedd yn dod o Wrecsam. O ystyried ei gyfnod yng ngharchar Walton, nid oedd neb eisiau ei herio. Fodd bynnag, ar ôl tua phum munud, bu i rywun fagu'r hyder, wrth i chwilfrydedd oresgyn ofn, a gofyn iddo pam iddo ddweud ei fod yn fwy o Gymro na'r lleill. Ei ateb oedd:

Wel, mae'n wir on'd yw e? Achos fe allwn i focsio dros Gymru, ond allwn i ddim chwarae pêl-droed dros Gymru.

Roeddem i gyd yn dal ychydig yn nerfus, felly fe aeth y sgwrs yn ei blaen ac yna, tua phum munud yn ddiweddarach, holodd rhywun wrtho pam iddo ddweud hynny, a beth sydd gan focsio a phêl-droed i'w gwneud â'r peth. Ei ateb oedd:

Achos gallaf i focsio, ond allaf i ddim chwarae blydi pêl-droed, allaf i?'

Credaf fod hynny'n mynd at wraidd y mater

of national identity and culture.

I am delighted and privileged to have been a Member of this National Assembly for 12 years, but, as the debate today has shown, there are still considerable challenges facing us, not least financial ones, in the next five years. The funding decisions made by this Assembly Government, particularly in supporting the arts, in contrast to what is happening in England, show that the coalition Welsh Assembly Government has the future of the cultural inheritance of our country, particularly for young people, at heart. There are major challenges to be faced, and I would welcome the Minister's response to the questions.

**Alun Ffred Jones:** I echo the comments made by Andrew Davies—widening participation, the issue of local authority funding and the development role of the Arts Council of Wales are things that I would endorse and things about which I have had discussions with the arts council. There is a great deal of ambiguity in relation to theatre in education. Theatre in education is not necessarily about children and young people participating in theatre and drama, although it can be. However, very often it is not, and that is why the arts council is keen to engage children and young people in more dynamic theatre work. In relation to the points that have been raised about theatre in education, as I have said in my response to recommendation 6, there is no question that the Government accepts that it has accountability at a strategic level for the funding decisions of the arts council. In my remit letter for the arts council for 2011-12, I state clearly that I have asked it to bring forward a progress report on its new strategy regarding provision for children and young people before the beginning of the new academic year. Therefore, a new arts strategy for young people is in hand, and it will apply to all children in all parts of Wales. With regard to some of the theatre companies that have been mentioned, they are still in discussion with the arts council about possible future funding. Therefore, it is not the end of the world, and those discussions are ongoing.

o hunaniaeth genedlaethol a diwylliant.

Bu'n bleser ac yn ffrainc cael bod yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol am 12 mlynedd, ond, fel y dangosodd y ddadl heddiw, mae heriau sylweddol o hyd yn ein hwynebu, nid lleiaf y rhai ariannol, yn y pum mlynedd nesaf. Mae'r penderfyniadau cyllido a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad hwn, yn enwedig wrth gefnogi'r celfyddydau, yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, yn dangos bod gan glymblaid Llywodraeth Cynulliad Cymru ddyfodol etifeddiaeth ddiwylliannol ein gwlad, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, wrth ei chalon. Mae heriau sylweddol i'w hwynebu, a byddwn yn croesawu ymateb y Gweinidog i'r cwestiynau.

**Alun Ffred Jones:** Ategfaf y sylwadau a wnaed gan Andrew Davies—mae ehangu o ran y niferoedd sy'n cymryd rhan, y mater o gyllid awdurdodau lleol a datblygu rôl Cyngor Celfyddydau Cymru yn bethau y byddwn yn ategu ac yn bethau rwyf wedi eu trafod â chyngor y celfyddydau. Mae llawer iawn o amwysedd o ran theatr mewn addysg. Nid yw theatr mewn addysg o anghenraid yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn theatr a drama, er y gall fod. Fodd bynnag, yn aml iawn nid yw, a dyna pam mae cyngor y celfyddydau yn awyddus i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn gwaith theatr mwy deinamig. O ran y pwyntiau a godwyd ynghylch theatr mewn addysg, fel y dywedais yn fy ymateb i argymhelliad 6, nid oes amheuaeth bod y Llywodraeth yn derbyn bod ganddi atebolrwydd ar lefel strategol dros benderfyniadau ariannu cyngor y celfyddydau. Yn fy llythyr cylch gwaith i gyngor y celfyddydau ar gyfer 2011-12, rwy'n datgan yn glir fy mod wedi gofyn iddo gyflwyno adroddiad cynnydd ar ei strategaeth newydd o ran darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Felly, mae strategaeth celfyddydau newydd i bobl ifanc ar y gweill, a bydd yn berthnasol i bob plentyn ym mhob rhan o Gymru. O ran rhai o'r cwmnïau theatr sydd wedi eu crybwyll, maent yn dal i fod mewn trafodaethau gyda chyngor y celfyddydau ynghylch cyllid posibl yn y dyfodol. Felly, nid yw'n ddiwedd y byd, ac mae'r trafodaethau hynny'n parhau.

Lynne Neagle made a passionate speech, and she accused me of a number of things. The fact is that you know that you met the chair of the arts council in recent weeks, Lynne—he spoke to me about it—but you did not raise the issue of theatre in education with him. That is what Dai Smith said to me clearly a few weeks ago.

**Lynne Neagle:** I met the chief executive of the arts council, and I spent some time raising the theatre in education cuts with him, and I have corresponded with him in some detail. I have never had a formal meeting with Dai Smith about it.

**Alun Ffred Jones:** I did not say that you had had a formal meeting, but you met him, and he said that the matter was not raised. However, that is a side issue.

With regard to children and young people, a new strategy is being developed, which will apply to all children in all parts of Wales. I trust that that will be an exciting new start for the arts, including drama, for young people and with regard to the experiences that they should have in their formative years. On the evidence that is already contained in many documents that have been released to the committee and to me, we should be celebrating the success of the arts in Wales, and, indeed, the fact that we reach so many different parts of the country and of the community. Rather than end on a sour note, I applaud the committee on its work and its recommendations, and I have tried to respond in a positive way to all of them.

**Sandy Mewies:** As far as I am concerned, the Minister has made a positive and realistic response to the points that we raised in committee. I remind everyone that it was a broad-ranging inquiry; we were looking at geographical and other access to arts and cultural activities in Wales. From a personal perspective, I was particularly concerned about access for people with sensory impairment, and appreciated the evidence given by the Royal National Institute for Deaf People and the Royal National Institute

Gwnaeth Lynne Neagle araith angerddol, ac fe gyhuddodd hi mi o nifer o bethau. Y ffaith yw, rydych chi'n gwybod ichi gyfarfod â chadeirydd cyngor y celfyddydau yn yr wythnosau diwethaf, Lynne—siaradodd â mi am y peth—ond ni wnaethoch godi'r mater o theatr mewn addysg gydag ef. Dyna ddywedodd Dai Smith wrthyf yn glir ychydig wythnosau yn ôl.

**Lynne Neagle:** Bu i mi gwrdd â phrif weithredwr cyngor y celfyddydau, a threuliais beth amser yn codi'r toriadau i theatr mewn addysg gydag ef, ac rwyf wedi gohebu ag ef yn fanwl. Nid wyf erioed wedi cael cyfarfod ffurfiol gyda Dai Smith am y peth.

**Alun Ffred Jones:** Ni ddywedais ichi gael cyfarfod ffurfiol, ond bu i chi gwrdd ag ef, a dywedodd na chodwyd y mater. Fodd bynnag, mae hynny'n fater ymylol.

O ran plant a phobl ifanc, mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu, a fydd yn berthnasol i bob plentyn ym mhob rhan o Gymru. Hyderaf y bydd hynny'n ddechrau newydd cyffrous i'r celfyddydau, gan gynnwys drama, i bobl ifanc ac o ran y profiadau y dylent gael yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol. Ar sail y dystiolaeth sydd eisoes mewn llawer o'r dogfennau sydd wedi cael eu rhyddhau i'r pwyllgor ac i mi, dylem ddathlu llwyddiant y celfyddydau yng Nghymru, ac, yn wir, y ffaith ein bod yn cyrraedd cymaint o wahanol rannau o'r wlad a'r gymuned. Yn hytrach na dod i ben ar nodyn sur, cymeradwyaf y pwyllgor ar ei waith a'i argymhellion, ac rwyf wedi ceisio ymateb mewn ffordd gadarnhaol i bob un ohonynt.

**Sandy Mewies:** Cyn belled ag yr wyf yn y cwestiwn, mae'r Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn realistig i'r pwyntiau a godwyd gennym yn y pwyllgor. Atgoffaf bawb yr oedd yn ymchwiliad eang ei gwmpas; roeddem yn edrych ar fynediad daearyddol, a mynediad o fathau eraill, at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru. O safbwynt personol, roeddwn i'n pryderu'n benodol am fynediad i bobl â nam ar y synhwyrau, ac yn gwerthfawrogi'r dystiolaeth a roddwyd gan y

of Blind People, and that of many others. Issues were raised regarding geographical access and transport, including rail and so on, but the evidence showed clearly that the arts and culture are flourishing in Wales. The committee wanted to see that go on into the future. Several Members referred to theatre in education, although not all referred to it specifically. Lynne in particular did so, as did Dai, Mark and Andrew. That reflects the committee's concern that we should go on seeing the arts and culture flourishing, and, in that respect, I am glad that the Minister has accepted recommendation 6.

I have little else to say. I cannot do Cockney accents, and neither can Andrew Davies. [*Laughter.*] I will not comment much further, except to say that we are grateful to the Welsh Government for its positive response to our report. Arts and cultural activities will always flourish in Wales. I thank everyone who has participated in the debate, and I am grateful for the opportunity to present such an important report to the Assembly.

**Lynne Neagle:** Point of order. Presiding Officer, I am not sure what the appropriate Standing Order is, but I feel that what Alun Ffred said was highly inappropriate. I have led a consistent and concerted campaign against what has been a really bad decision by the arts council, underpinned by the Minister. What Alun Ffred referred to was an incident where I bumped into Dai Smith in Cardiff with my children, and I was certainly not going to get into a row with him about that issue then. The remarks were inappropriate, and the Minister should retract them and confine his arguments to the politics, something that he clearly cannot do.

**The Presiding Officer:** I appreciate the feeling that you have just expressed. It is not a matter for me, but I think that honour is now satisfied on both sides.

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl Fyddar a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, a chan lawer eraill. Codwyd materion ynglŷn â mynediad daearyddol a thrafnidiaeth, gan gynnwys rheilffyrdd ac yn y blaen, ond roedd y dystiolaeth yn dangos yn glir bod y celfyddydau a diwylliant yn ffynnu yng Nghymru. Roedd y pwyllgor yn awyddus i weld hynny yn parhau yn y dyfodol. Cyfeiriodd sawl Aelod at theatr mewn addysg, er na chyfeiriodd pob un ati'n benodol. Gwnaeth Lynne hynny yn benodol, fel y gwnaeth Dai, Mark ac Andrew. Mae hynny'n adlewyrchu pryder y pwyllgor y dylem barhau i weld y celfyddydau a diwylliant yn llewyrchu, ac, yn hynny o beth, rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 6.

Nid oes gen i fawr ddim arall i'w ddweud. Ni allaf wneud acenion Cockney, ac nid yw Andrew Davies yn gallu chwraith. [*Chwerthin.*] Ni wnaf lawer o sylwadau pellach, ac eithrio i ddweud ein bod yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ei hymateb cadarnhaol i'n hadroddiad. Bydd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol bob amser yn ffynnu yng Nghymru. Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl, ac rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno adroddiad mor bwysig i'r Cynulliad.

**Lynne Neagle:** Pwynt o drefn. Lywydd, nid wyf yn siŵr beth yw'r Rheol Sefydlog briodol, ond rwy'n teimlo bod yr hyn a ddywedodd Alun Ffred yn amhriodol iawn. Rwyf wedi arwain ymgyrch cyson ac unedig yn erbyn yr hyn sydd wedi bod yn benderfyniad gwael iawn gan gyngor y celfyddydau, wedi'i ategu gan y Gweinidog. Roedd yr hyn yr oedd Alun Ffred yn cyfeirio ato yn ddigwyddiad lle bu i mi daro i mewn i Dai Smith yng Nghaerdydd gyda fy mhlant, ac yn sicr, nid oeddwn yn mynd i ddechrau ffrae gydag ef am y mater hwnnw bryd hynny. Roedd y sylwadau yn amhriodol, a dylai'r Gweinidog eu tynnu yn ôl a chyfyngu ei ddadleuon at y wleidyddiaeth, sy'n amlwg yn rhywbeth nad yw'n gallu ei wneud.

**Y Llywydd:** Rwy'n gwerthfawrogi'r teimlad rydych newydd ei fynegi. Nid yw'n fater i mi, ond rwy'n credu yn awr bod anrhydedd wedi ei fodloni ar y ddwy ochr.

Before we proceed to the next item, I must first invite Members to note the report.

Cyn i ni symud ymlaen i'r eitem nesaf, yn gyntaf, rhaid i mi wahodd yr Aelodau i nodi'r adroddiad.

Y cynnig yw nodi adroddiad y pwyllgor. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes, felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, mae'r cynnig wedi ei derbyn.

The proposal is to note the committee report. Are there any objections? I see that there are none, therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

**The Presiding Officer:** Before I undertake the normal handover of the chair to Rosemary Butler, I would like to take advantage of this moment to give her my personal thanks for all that she has done for this institution during her period as Deputy Presiding Officer and as a very distinguished Chair of a legislation committee. She has been unfailing in her support for me, and elegant and firm in presiding. You will remember, colleagues, that you did indeed vote us both back in, as it were, in the unusual circumstance where we had been voted in initially as members of different parties, obviously, but also when we were of different mind towards the Government of the day. Then things matured, perhaps, from certain viewpoints, and we were both supporters of the Government, and you entrusted us with this work. I thank Rosemary for her support and for the very successful way in which she has carried out her work as Deputy Presiding Officer and maintained the confidence of all of you throughout this Assembly. Diolch yn fawr. [*Applause.*]

**Y Llywydd:** Cyn imi drosglwyddo'r gadair yn y modd arferol i Rosemary Butler, hoffwn fanteisio ar y foment hon i ddiolch iddi yn bersonol am yr oll a wnaeth dros y sefydliad hwn yn ystod ei chyfnod yn Ddirprwy Lywydd, ac fel Cadeirydd nodedig iawn o bwyllgor deddfwriaeth. Bu'n ddi-feth yn ei chefnogaeth i mi, ac yn gain ac yn gadarn wrth lywyddu. Byddwch yn cofio, gydweithwyr, y bu i chi bleidleisio dros y ddau ohonom eto, fel petai, o dan yr amgylchiadau anarferol lle'r oeddem wedi ein hethol yn wreiddiol fel aelodau o bleidiau gwahanol, yn amlwg, ond hefyd pan oedd gennym safbwyntiau gwahanol tuag at Lywodraeth y dydd. Yna, bu i bethau aeddfedu, efallai, o ran safbwyntiau penodol, ac roeddem ni'n dau yn cefnogi'r Llywodraeth, a bu i chi ymddiried y gwaith i ni. Diolch i Rosemary am ei chefnogaeth ac am y ffordd lwyddiannus iawn y mae wedi gwneud ei gwaith fel Dirprwy Lywydd gan gynnal eich hyder chi oll drwy gydol y Cynulliad hwn. Diolch yn fawr. [*Cymeradwyaeth.*]

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.57 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.57 p.m.*

**The Deputy Presiding Officer:** Goodness me. Wow. I hope my husband was not watching that embrace. Thank you very much, Llywydd, for those very kind words. I will try to be fair and firm for the rest of the afternoon.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mawredd mawr. Diawch. Rwy'n gobeithio na welodd fy ngŵr y cofleidiad hwnnw. Diolch yn fawr iawn, Lywydd, am y geiriau caredig iawn hynny. Ceisiaf fod yn deg ac yn gadarn weddill y prynhawn.

**Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ‘Triniaeth ar gyfer Anhwylder Straen wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog’  
The Health, Wellbeing and Local Government Committee’s Inquiry ‘Post-traumatic Stress Disorder Treatment in Services Veterans’**

*Cynnig NDM4717 Jonathan Morgan*

*Motion NDM4717 Jonathan Morgan*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i Driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma i gyn-filwyr y lluoedd arfog, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2011.*

*Notes the report of the Health, Wellbeing and Local Government Committee on its Inquiry into Post Traumatic Stress Disorder for Service Veterans, which was laid in the Table Office on 9 February 2011.*

**Jonathan Morgan:** I move the motion.

**Jonathan Morgan:** Cynigiau y cynnig.

I am very pleased to open this debate today on the Health, Wellbeing and Local Government Committee’s inquiry into post-traumatic stress disorder treatment for service veterans. Before I go into the context of the inquiry and the report’s recommendations, I would like, on a personal note, to pay a strong tribute to all Members who have served on this committee during the past four years. All committee members have shown considerable dedication and professionalism in how the inquiries have been carried out. I feel strongly that this committee has added considerable value to the scrutiny of the Assembly Government and the development of policy here in Cardiff bay.

Rwy’n falch iawn o gael agor y ddadl hon heddiw ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma i gyn-filwyr y lluoedd arfog. Cyn i mi sôn am gyd-destun yr ymchwiliad ac argymhellion yr adroddiad, hoffwn, ar nodyn personol, dalu teyrnged gref i’r holl Aelodau sydd wedi gwasanaethu ar y pwyllgor hwn yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae pob aelod pwyllgor wedi dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb helaeth wrth gynnal yr ymchwiliadau. Rwy’n teimlo’n gryf bod y pwyllgor hwn wedi ychwanegu gwerth sylweddol i’r gwaith o graffu ar Lywodraeth y Cynulliad ac o ddatblygu polisi yma ym mae Caerdydd.

The men and women who serve in our armed forces put their lives on the line every day of their active duty. Many return home with visible scars of battle, but many return with scars of battle that cannot be seen and are therefore difficult to treat. During this inquiry, the committee heard that the symptoms of PTSD can take many years to manifest, and that even then the sufferers may not be aware that the problems they experience on civvy street—from substance misuse and crime, to family breakdown and homelessness—are the result of PTSD. The increasing engagement of the UK’s armed forces in international conflicts is likely to result in an increase in the prevalence of PTSD in the future. It is therefore vital that there is effective identification and treatment of PTSD.

Mae’r dynion a’r menywod sy’n gwasanaethu yn ein lluoedd arfog yn peryglu eu bywydau bob dydd pan fyddant ar ddyletswydd. Mae llawer yn dychwelyd adref yn dwyn creithiau brwydro gweladwy, ond mae llawer yn dychwelyd yn dwyn creithiau brwydro nad oes modd eu gweld ac felly sy’n anodd eu trin. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, clywodd y pwyllgor y gall symptomau anhwylder straen wedi trawma gymryd blynyddoedd lawer i ddod i’r amlwg, ac mae’n bosibl nad yw’r dioddefwyr, hyd yn oed, yn ymwybodol bod y problemau maent yn eu profi yn ôl yn y gymuned—o gamddefnyddio sylweddau a throseddau, i chwalfa deuluol a digartrefedd—yn ganlyniad i anhwylder straen wedi trawma. Mae ymwneud cynyddol lluoedd arfog y DU â gwrthdaro rhyngwladol yn debygol o

arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma yn y dyfodol. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gallu adnabod a thrin anhwylder straen wedi trawma yn effeithiol.

We have made 19 recommendations in this report, covering a range of issues raised during the inquiry. I am pleased that the Minister has accepted them all. The recommendations can be grouped into three main areas: improving information on the prevalence of PTSD among veterans, improving information sharing and awareness raising, and improving the adequacy and suitability of treatment and support services.

Rydym wedi gwneud 19 o argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cwmpasu ystod o faterion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn pob un ohonynt. Gellir grwpio'r argymhellion yn dri phrif faes: gwella gwybodaeth am nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma ymhlith cyn-filwyr, gwella rhannu gwybodaeth a chodi ymwbyddiaeth, a gwella digonolrwydd ac addasrwydd y driniaeth a'r gwasanaethau cymorth.

4.00 p.m.

The committee heard that there is an issue with services personnel being unprepared for life on leaving the forces. In its written evidence to the inquiry, Hafal, the mental health charity, told us that an important indicator is the number of veterans who end up in the criminal justice system simply because their lives have fallen apart after leaving the armed forces. It went on to tell us that, while the UK armed forces number some 180,000 people, it is estimated that up to 10 per cent of the 85,000 prisoners in England and Wales are veterans, and many more are elsewhere in the criminal justice system. These figures indicate that something is going wrong for these veterans. However, due to a lack of comprehensive data on the prevalence of PTSD among veterans, it is difficult to know exactly how many of those in the criminal justice system are suffering from PTSD. We also know that the collection of accurate data is hampered by the fact that, in many cases, the symptoms of PTSD take a number of years to appear.

Clywodd y pwyllgor fod problem gyda phersonél gwasanaethau o ran eu bod heb eu paratoi ar gyfer bywyd ar ôl gadael y lluoedd. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad, dywedodd Hafal, yr elusen iechyd meddwl, wrthym mai un dangosydd pwysig yw nifer y cyn-filwyr sydd yn y system cyfiawnder troseddol, yn syml oherwydd bod eu bywydau wedi mynd ar chwâl wedi iddynt adael y lluoedd arfog. Dywed wrthym hefyd, er bod oddeutu 180,000 o bobl o ran nifer yn lluoedd arfog y DU, amcangyfrifir bod hyd at 10 y cant o garcharorion o'r 85,000 sydd yng Nghymru a Lloegr yn gyn-filwyr, ac mae llawer mwy mewn mannau eraill o fewn y system cyfiawnder troseddol. Dengys y ffigurau hyn bod rhywbeth yn mynd o'i le i'r cyn-filwyr hyn. Fodd bynnag, oherwydd diffyg gwybodaeth gynhwysfawr ar nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma ymhlith cyn-filwyr, mae'n anodd gwybod yn union faint o'r rhai sydd yn y system cyfiawnder troseddol sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Gwyddom hefyd yr effeithir ar y gwaith o gasglu gwybodaeth gywir gan y ffaith fod symptomau anhwylder straen wedi trawma yn cymryd nifer o flynyddoedd i ymddangos mewn llawer o achosion.

The committee was told that the new NHS mental health and wellbeing service for veterans, which has been announced by the

Dywedwyd wrth y pwyllgor y bydd gwasanaeth iechyd meddwl a lles newydd y GIG ar gyfer cyn-filwyr, a gyhoeddwyd gan



Welsh Government, will facilitate improved data collection on the incidence of PTSD. The Minister's response also states that a veterans' health needs assessment has been funded to identify the mental health needs of veterans, and that this information will feed into the data collected. I very much welcome this and hope that it will create a clearer picture of the prevalence of PTSD among veterans. We have recommended that these data should inform the distribution of funding for treatment and support services, rather than the funding being based on population figures alone, as certain areas of Wales will have a higher proportion of services personnel than others. We have also recommended that any Welsh veterans in Welsh or English prisons who suffer from PTSD receive the full benefits of the new mental health and wellbeing service for veterans. In her response, the Minister confirms that veterans in Welsh prisons are eligible for treatment in the mental health and wellbeing service for veterans. The Minister also indicates that Welsh veterans in English prisons are able to access provision via local English NHS services. I ask the Minister to keep this matter under review to ensure that such provisions are appropriate.

One of the major themes to emerge from the inquiry is the importance of information sharing. We heard that there can be large gaps in veterans' medical notes caused by information not being passed from the Ministry of Defence to GPs when personnel leave the services. Dr Andrew Dearden told the committee that if the MOD provided this information on injuries, treatments, backgrounds and experiences, it would help GPs to give more accurate diagnoses more quickly. In our recommendations, therefore, we call on the Assembly Government to work with the MOD to ensure that this information is transferred, although we also recognise that it is important to provide an opt-out system for those veterans who do not want information on their military background to be included in their notes. I

Lywodraeth Cymru, yn hwyluso'r dasg o gasglu gwybodaeth well ar nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma. Mae ymateb y Gweinidog hefyd yn datgan bod asesiad anghenion iechyd cyn-filwyr wedi'i ariannu er mwyn adnabod anghenion iechyd meddwl cyn-filwyr, ac y bydd y wybodaeth hon yn cyfrannu at y wybodaeth a gesglir. Rwy'n croesawu hyn yn fawr ac yn gobeithio y bydd yn creu darlun cliriach o nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma sydd ymhlith cyn-filwyr. Rydym wedi argymhell y dylai'r wybodaeth hon lywio dosbarthiad y cyllid ar gyfer gwasanaethau triniaeth a chymorth, yn hytrach na bod yr arian wedi'i seilio ar ffigurau poblogaeth yn unig, oherwydd y bydd gan rai ardaloedd o Gymru gyfran uwch o bersonél y gwasanaethau amddiffyn nag eraill. Rydym wedi argymhell hefyd y dylai unrhyw gyn-filwyr o Gymru yng ngharchardai Cymru neu Lloegr, sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma, gael manteision llawn y gwasanaeth iechyd meddwl a lles newydd ar gyfer cyn-filwyr. Yn ei hymateb, cadarnhaodd y Gweinidog fod cyn-filwyr yng ngharchardai Cymru yn gymwys i gael triniaeth yn y sector iechyd meddwl a gwasanaethau lles ar gyfer cyn-filwyr. Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi bod cyn-filwyr o Gymru sydd mewn carchardai yn Lloegr â hawl i dderbyn gwasanaethau GIG lleol yn Lloegr. Gofynnaf i'r Gweinidog barhau i adolygu'r mater hwn er mwyn sicrhau bod darpariaethau o'r fath yn briodol.

Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwiliad yw pwysigrwydd rhannu gwybodaeth. Clywsom y gall bylchau mawr fod yn nodiadau meddygol cyn-filwyr o ganlyniad i ddiffyg trosglwyddo gwybodaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i feddygon teulu pan fydd cyn-filwyr yn gadael y gwasanaethau. Dywedodd Dr Andrew Dearden wrth y pwyllgor, pe bai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu gwybodaeth o'r fath am anafiadau, triniaethau, cefndiroedd a phrofiadau, y byddai hynny'n helpu meddygon teulu i roi diagnosis mwy cywir yn gyflymach. Yn ein hargymhellion, felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo, er ein bod yn cydnabod ei bod yn bwysig hefyd i

am therefore pleased to note that the Minister is working with the Ministry of Defence on the pilot of a transition protocol, which includes the transfer of medical records, and that GPs in Wales have been asked to initiate a coding system to flag veterans' status.

We also identified the need for greater awareness of PTSD and veterans' vulnerability to it among clinicians, as well as veterans and their families. The committee has therefore recommended training for GPs and other clinicians on the symptoms of, and treatment for, PTSD. We also recommended follow-up screening for veterans 12 months after they leave service, as recommended by Dr Andrew Murrison in his report, 'Fighting Fit: a mental health plan for servicemen and veterans', which was commended by many of the witnesses who gave evidence. The committee heard evidence that services personnel may only begin to experience those symptoms sometime after they have left the armed services. The Royal British Legion told the committee that it believes that 12 months would allow enough time for personnel to make adjustments to civilian life and that follow-up screening after 12 months would help to identify those who may need to be referred to a PTSD treatment service. In her response, the Minister told us that the Welsh Government is liaising with the UK Government to evaluate the benefits of follow-up screening for veterans. Given the evidence received, I urge the Minister to consider the provision of follow-up screening 12 months after the discharge of a service member as a priority.

I welcome the fact that, as part of the roll-out of the mental health and wellbeing service, nurse-led and peer-led network groups will be developed. The veterans' groups that gave evidence to this inquiry were absolutely clear about the value of veterans supporting veterans and about the greater success such groups have in helping PTSD sufferers seek

ddarparu system optio allan ar gyfer y cyn-filwyr hynny nad ydynt am i wybodaeth am eu cefndir milwrol gael ei chynnwys yn eu nodiadau. Felly, rwy'n falch nodi bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar dreialu protocol ar gyfer pontio, sy'n cynnwys trosglwyddo cofnodion meddygol, ac y gofynnwyd i feddygon teulu yng Nghymru ddechrau system godio er mwyn tynnu sylw at statws cyn-filwyr.

Nodwyd gennym hefyd bod angen mwy o ymwybyddiaeth o anhwylder straen wedi trawma a pha mor agored yw cyn-filwyr iddo ymhlith clinigwyr, yn ogystal ag ymhlith cyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'r pwyllgor felly wedi argymhell hyfforddiant ar gyfer meddygon teulu a chlinigwyr eraill ar symptomau, a thriniaeth, ar gyfer anhwylder straen wedi trawma. Rydym hefyd yn argymhell sgrinio dilynol ar gyfer cyn-filwyr 12 mis ar ôl iddynt adael y gwasanaeth, fel yr argymhellwyd gan Dr Andrew Murrison yn ei adroddiad, 'Fighting Fit: a mental health plan for servicemen and veterans', ac a ganmolwyd gan lawer o'r tystion a gyflwynodd dystiolaeth. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth y gall personél y gwasanaethau amddiffyn ddechrau profi'r symptomau hynny beth amser ar ôl iddynt adael y lluoedd arfog. Dywedodd y Llenng Brydeinig Frenhinol wrth y pwyllgor ei bod o'r farn y byddai 12 mis yn caniatáu digon o amser i bobl addasu i fywyd sifil ac y byddai sgrinio dilynol ar ôl 12 mis yn helpu i adnabod y rhai a all fod angen cael eu cyfeirio at wasanaeth triniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma. Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU i werthuso manteision sgrinio dilynol ar gyfer cyn-filwyr. O ystyried y dystiolaeth a gafwyd, rwy'n annog y Gweinidog i roi blaenoriaeth i ystyried darparu sgrinio dilynol 12 mis wedi i aelod o'r gwasanaeth amddiffyn gael ei ryddhau.

Croesawaf y ffaith, fel rhan o'r broses o gyflwyno'r gwasanaeth iechyd meddwl a lles, y datblygir grwpiau rhwydwaith o dan arweiniad nyrsys a chymheiriaid. Roedd grwpiau cyn-filwyr a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn yn hollol sicr ynghylch gwerth cyn-filwyr yn cefnogi cyn-filwyr ac am y llwyddiant mwy a gaiff grwpiau o'r fath

treatment. A strong theme that emerged from the evidence was the importance of addressing the needs of veterans holistically, as many veterans with PTSD also experience other difficulties, such as depression and substance misuse problems, as well as wider resettlement issues, such as housing, employment and debt problems. We received considerable evidence about the shortcomings of substance misuse services, particularly for veterans who need treatment for both PTSD and substance misuse difficulties. For example, we heard that veterans have to access two separate services to receive these treatments, which can mean joining two separate waiting lists, and that some services will be unwilling to provide treatment if the other problem is still waiting to be addressed. I therefore welcome the Minister's plan to develop a specific module of the substance misuse treatment framework for the treatment of veterans over the next 18 months.

The committee also supports the Minister's efforts to press the MOD for a financial contribution to the veterans' mental health project and her commitment to review the outcomes of, and demands for, veterans' mental health and wellbeing services by the beginning of 2013. I would be grateful if the Minister, or her successor, could report back to the Health, Wellbeing and Local Government Committee's successor on those findings. I am also pleased that the Minister's officials have written to the chair of the UK MOD health partnership board to draw the board's attention to the committee's findings on the difficulties that can be experienced by veterans suffering from PTSD in the process of applying for benefits. As I mentioned earlier, the Minister has accepted all of the committee's recommendations, many of which will be taken forward as part of the work of the new mental health and wellbeing service for veterans steering group.

Finally, I am grateful to all of those who have

i helpu dioddefwyr anhwylder straen wedi trawma i chwilio am driniaeth. Un thema gref a ddaeth i'r amlwg yn y dystiolaeth oedd pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghenion cyn-filwyr mewn modd cyfannol, gan fod llawer o gyn-filwyr sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma hefyd yn dioddef anawsterau eraill, fel iselder a phroblemau camddefnyddio sylweddau, yn ogystal â materion adsefydlu ehangach, fel tai, cyflogaeth a phroblemau dyled. Cafwyd cryn dipyn o dystiolaeth am ddiffygion y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, yn enwedig ar gyfer cyn-filwyr sydd angen triniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma ac anawsterau camddefnyddio sylweddau. Er enghraifft, clywsom fod yn rhaid i gyn-filwyr fynd at ddau wasanaeth ar wahân i dderbyn y triniaethau hyn, a all olygu ymuno â dwy restr aros ar wahân, ac y byddai rhai gwasanaethau yn amharod i ddarparu triniaeth os yw'r broblem arall yn dal heb ei datrys. Felly, rwy'n croesawu cynllun y Gweinidog i ddatblygu modiwl penodol o'r fframwaith triniaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer trin cyn-filwyr dros y 18 mis nesaf.

Mae'r pwyllgor hefyd yn cefnogi ymdrechion y Gweinidog i roi pwysau ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i roi cyfraniad ariannol i brosiect iechyd meddwl y cyn-filwyr a'i hymrwymiad i adolygu canlyniadau, a'r galw am, wasanaethau iechyd meddwl a lles i gyn-filwyr erbyn dechrau 2013. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai modd i'r Gweinidog, neu ei holnydd, adrodd yn ôl i olynnydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar y canfyddiadau hynny. Rwy'n falch hefyd bod swyddogion y Gweinidog wedi ysgrifennu at gadeirydd bwrdd partneriaeth iechyd y Weinyddiaeth Amddiffyn y DU i dynnu sylw'r bwrdd at ganfyddiadau'r pwyllgor ar yr anawsterau y gellir eu profi gan gyn-filwyr sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma yn ystod y broses o wneud cais am fudd-daliadau. Fel y soniais yn gynharach, mae'r Gweinidog wedi derbyn pob un o argymhellion y pwyllgor, a bydd llawer ohonynt yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o waith grŵp llywio'r gwasanaeth iechyd meddwl a lles newydd ar gyfer cyn-filwyr.

Yn olaf, rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi

contributed to this review. I am grateful to the clerks, deputy clerks and research staff who have provided such excellent advice and support to the Health, Wellbeing and Local Government Committee over the past four years. I conclude by thanking all those who gave their time to provide written or oral evidence during the inquiry. We appreciated how difficult that was for some. The duty on the Assembly Government to provide better services for those with PTSD is somewhat more acute, because while the people of Wales make up 5 per cent of the UK population, they make up 10 per cent of the UK armed forces. Therefore, we provide a disproportionate number to the armed forces numbers and, as a result of that, I believe that the duty on the Assembly Government to provide better services is greater. That is what we need to adhere to over the next four years and beyond.

**The Deputy Presiding Officer:** The Minister has indicated that she wishes to be called just once in this debate, as the penultimate speaker. Therefore, we now move to Jeff Cuthbert.

**Jeff Cuthbert:** I welcome the opportunity to contribute to this important debate. I regularly speak on such matters in the Chamber, and I am pleased to do so again. Many of my constituents are serving in the forces as we speak, and many more are veterans. I am a member of the Royal British Legion and, each year, I attend remembrance services in my constituency, as well as partaking in the festivities of Armed Forces Day, which is a much more recent development to celebrate the contribution of serving troops. Last September, I also attended a ceremony in Caerphilly town centre, awarding the freedom of the borough to the Royal Welsh regiment. Treatment for veterans suffering from post-traumatic stress disorder is therefore something that is important to many of my constituents and their loved ones.

In light of this, I am pleased that the Minister has decided to accept outright the vast majority of the recommendations in the

cyfrannu at yr adolygiad hwn. Rwy'n ddiolchgar i'r clercod, y dirprwy glercod a'r staff ymchwil sydd wedi darparu cyngor a chefnogaeth mor rhagorol i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol dros y pedair blynedd diwethaf. Hoffwn gloi drwy ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar yn ystod yr ymchwiliad. Roeddem yn gwerthfawrogi mor anodd oedd hynny i rai. Mae'r ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau gwell i'r rhai sydd ag anhwylder straen wedi trawma ychydig yn fwy difrifol, oherwydd er bod pobl Cymru i gyfrif am 5 y cant o boblogaeth y DU, maent i gyfrif am 10 y cant o boblogaeth y lluoedd arfog yn y DU. Felly, rydym yn darparu nifer anghymesur i niferoedd y lluoedd arfog ac, o ganlyniad i hynny, credaf fod mwy o ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau gwell. Dyna sydd angen inni ymlynu wrtho dros y pedair blynedd nesaf a thu hwnt.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r Gweinidog wedi dweud ei bod yn dymuno cael ei galw unwaith yn unig yn ystod y ddadl hon, fel y siaradwr olaf ond un. Felly, rydym yn awr yn symud at Jeff Cuthbert.

**Jeff Cuthbert:** Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Rwyf yn siarad ar faterion o'r fath yn y Siambr yn rheolaidd, ac rwy'n falch o wneud hynny eto. Mae llawer o fy etholwyr yn gwasanaethu yn y lluoedd ar hyn o bryd, ac mae llawer mwy yn gyn-filwyr. Rwy'n aelod o'r Lleng Brydeinig Frenhinol a, bob blwyddyn, byddaf yn mynychu gwasanaethau coffa yn fy etholaeth, yn ogystal â chymryd rhan yn nathliadau Diwrnod y Lluoedd Arfog, sy'n ddatblygiad llawer mwy diweddar i ddathlu cyfraniad y milwyr sy'n gwasanaethu. Fis Medi diwethaf, roeddwn hefyd yn bresennol mewn seremoni yng nghanol tref Caerffili, a oedd yn dyfarnu rhyddid y fwrdeistref i gatrwd Frenhinol Cymru. Felly, mae triniaeth ar gyfer cyn-filwyr sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma yn rhywbeth sy'n bwysig i lawer o fy etholwyr a'u hanwyliaid.

Yng ngoleuni hyn, rwy'n falch bod y Gweinidog wedi penderfynu derbyn yn llwyr y mwyafrif helaeth o'r argymhellion yn

committee's report. What concerns me most is access to the most appropriate practical resources. Those suffering from PTSD after serving in the forces need and deserve the best care that they can get from the society that they have potentially laid their life on the line for. To this end, we have a duty to ensure that said services are as easily accessible as possible. I am pleased that the Minister has accepted recommendation 2 concerning veterans suffering from PTSD who are in prison. This group of people cannot be neglected and it is important that local health boards' funding formula accounts for prison populations. It is vital that sufficient resources are available to meet the needs of the prisons veteran population. I also welcome the Minister's acceptance of recommendation 3 about working closely with the legion to raise awareness of PTSD and the services available to treat it. The legion and charities such as Combat Stress and Help for Heroes should very much be a part of the steering group for the Welsh Government's veterans' mental health and wellbeing service. Awareness of PTSD and treatment for it should be ingrained in relevant policy discussions at all levels.

Finally, I would like to welcome the Minister's acceptance of recommendation 17. It is very important that the steering group ensures effective use of resources in treating veterans who suffer from this condition. For far too long throughout history, those with PTSD, once graphically known as shell-shock, have suffered in silence, and we cannot afford for this to be the case any longer.

**Darren Millar:** I, too, welcome the opportunity to take part in this debate. Like Jeff, and probably everyone else in the Chamber, I have constituents serving on active duty in different parts of the world. Indeed, some of my family members have served in the armed forces. It has been a privilege to chair the Assembly cross-party group on the armed forces and cadets, which

adroddiad y pwyllgor. Yr hyn sy'n fy mhoeni fwyaf yw'r mynediad at yr adnoddau mwyaf priodol ac ymarferol. Mae'r rhai sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma ar ôl gwasanaethu yn y lluoedd angen y gofal gorau y gallant ei gael, a'r gofal y maent yn ei haeddu, gan y gymdeithas y maent wedi rhoi eu bywyd yn y fantol drosti. I'r perwyl hwn, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod y gwasanaethau hynny mor hygyrch ag y bo modd. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 2, sy'n ymwneud â chyn-filwyr sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma sydd yn y carchar. Ni ellir esgeuluso'r grŵp hwn o bobl ac mae'n bwysig bod fformiwla ariannu byrddau iechyd lleol yn ystyried poblogaethau carchardai. Mae'n hanfodol bod adnoddau digonol ar gael i gwrdd ag anghenion y boblogaeth yn y carchardai sy'n gyn-filwyr. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog yn derbyn argymhelliad 3 ynglŷn â gweithio'n agos gyda'r lleng i godi ymwybyddiaeth o anhwylder straen wedi trawma a'r gwasanaethau sydd ar gael i'w drin. Dylai'r lleng ac elusennau fel Combat Stress a Help for Heroes yn sicr fod yn rhan o'r grŵp llywio ar gyfer gwasanaeth iechyd meddwl a lles cyn-filwyr Llywodraeth Cymru. Dylai ymwybyddiaeth o'r anhwylder straen, a'r driniaeth ar ei gyfer, fod yn rhan annatod o'r trafodaethau polisi perthnasol ar bob lefel.

Yn olaf, hoffwn groesawu'r ffaith fod y Gweinidog yn derbyn argymhelliad 17. Mae'n bwysig iawn bod y grŵp llywio yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol wrth drin cyn-filwyr sy'n dioddef o'r cyflwr hwn. Am gyfnod o amser llawer yn rhy hir drwy gydol hanes, mae'r rhai sydd ag anhwylder straen wedi trawma, a elwir yn ei ffordd blaen yn 'shell-shock', wedi dioddef yn dawel, ac ni allwn fforddio gadael i hyn barhau.

**Darren Millar:** Rwyf finnau, hefyd, yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Fel Jeff, ac mae'n debyg pawb arall yn y Siambr, mae gennyf etholwyr sy'n gwasanaethu ar ddyletswydd weithredol mewn rhannau gwahanol o'r byd. Yn wir, mae rhai aelodau o fy nheulu wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Bu'n fraint cadeirio'r grŵp trawsbleidiol yn y Cynulliad

I hope has contributed in some small way to improving the lot of our ex-service personnel here in Wales. I have also been privileged to be the Chair of the Health, Wellbeing and Local Government Committee during the course of this inquiry into post-traumatic stress disorder and services for veterans. One of the things that struck me was just how well many organisations are working and serving our armed forces family with PTSD. Many of us will know about the very good work of the Royal British Legion, not only as the custodians of remembrance and in running the annual poppy appeal, but more widely in and around our constituencies, providing help, support and welfare to serving and ex-service families.

One of the most remarkable findings in the evidence presented to the committee was the number of people who have been affected by PTSD, depression, anxiety and substance abuse. Although it is a small minority, it is a significant minority of ex-service personnel. It is important, as Jonathan Morgan rightly said, that we do our best to identify those people who are at risk of suffering from PTSD in a better way. That is why I was particularly pleased about the recommendation to identify with a flag on their medical records people who have previously served in the armed forces. It is sometimes incredibly important to link symptoms with an individual's history. You can do that much better with that sort of flag on people's records. There is a range of therapies available to people as treatment for these conditions. In fact, there are many emerging solutions as well. I was particularly taken with the evidence that the committee received from the organisation Talking 2 Minds, a charity that offers coaching and therapeutic treatment for veterans with PTSD through pretty ground-breaking work in its 'Synergy' programme.

I had the opportunity to visit its premises and to see some of its work in action. It was quite remarkable to see the change in individuals after a relatively short period of time of engaging with the charity. It is one of those

ar y lluoedd arfog a chadetiad, sydd, gobeithio, wedi cyfrannu rhywfaint tuag at wella bywyd ein cyn-filwyr yma yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi cael y fraint o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn ystod yr ymchwiliad hwn i anhwylder straen wedi trawma a gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr. Un o'r pethau oedd yn fy nharo i oedd pa mor dda y mae llawer o sefydliadau yn gweithio ac yn gwasanaethu aelodau ein lluoedd arfog sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma. Bydd llawer ohonom yn gwybod am y gwaith da iawn a wneir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, nid yn unig fel arweinwyr cyfnod y cofio a chynnal yr apêl pabi bob flwyddyn, ond yn fwy eang yn ein hetholaethau, yn darparu cymorth, cefnogaeth a lles i rai sy'n gwasanaethu ac wedi gwasanaethu, a'u teuluoedd.

Un o'r canfyddiadau mwyaf nodedig yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor oedd nifer y bobl yr effeithir arnynt gan anhwylder straen wedi trawma, iselder, pryder a chamdrin sylweddau. Er mai lleiafrif bach yw, mae'n lleiafrif arwyddocaol o gyn-filwyr. Mae'n bwysig, fel y dywedodd Jonathan Morgan yn gywir iawn, ein bod yn gwneud ein gorau i adnabod y bobl sydd mewn perygl o ddioddef o anhwylder straen wedi trawma mewn ffordd well. Dyna pam roeddwn yn arbennig o falch ynglŷn â'r argymhelliaid i nodi ar gofnodion meddygol pobl sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn y gorffennol. Weithiau, mae'n hynod bwysig i gysylltu symptomau â hanes unigolyn. Gellir gwneud hynny yn llawer gwell gyda math o arwydd ar gofnodion pobl. Mae amrywiaeth o therapïau sydd ar gael i drin y cyflyrau hyn i bobl. Yn wir, mae yna lawer o atebion sy'n dod i'r amlwg hefyd. Gwnaed argraff arbennig arnaf gan y dystiolaeth a gafodd y pwyllgor gan y sefydliad Talking 2 Minds, sef elusen sy'n cynnig triniaeth hyfforddiant a thriniaeth therapiwtig i gyn-filwyr sydd ag anhwylder straen wedi trawma, drwy gyflawni gwaith pur arloesol drwy ei raglen 'Synergy'.

Cefais gyfle i ymweld â'i safleoedd ac i weld rhywfaint o'i waith ymarferol. Roedd yn brofiad syfrdanol gweld y newid mewn unigolion ar ôl cyfnod cymharol fyr o ymgysylltu â'r elusen. Mae'n un o'r

charities that has been established by veterans to give support and help to veterans. All of us who heard the evidence will know the importance that veterans place on receiving services from people who have been there and understand what it is like to be in the field and, perhaps, suffer in the way that they have suffered. Therefore, I warmly welcome recommendation 12 in the committee's report, which urges the Assembly Government to address the need for increased capacity of those sorts of specialist therapeutic services and treatments for veterans, such as those provided by Talking 2 Minds. I was also very pleased to see the recommendation to undertake a pilot project into those specialist therapy services. The Minister will know that a pilot project is under way in north Wales between Talking 2 Minds and CAIS on the substance misuse agenda. There is no doubt that some veterans will be engaging with that, so perhaps the Minister will refer to it in her response to the debate.

4.15 p.m.

The other important point that I want to stress is the good work that is going on on a voluntary basis, particularly in my area in north Wales. One of my constituents, Chris O'Neil, is a former military policeman who runs a charity that he established called Forces for Good. Mark Isherwood and I are very familiar with the good work that it does. It supports veterans in helping them to rejoin civilian life. As a veteran himself, Chris offers this simple support service that operates on the principle that a veteran will talk to another veteran, and he is doing some fantastic work that often goes unrecognised. That is why I am pleased to see that recommendation 9 in the report urges the Assembly Government to provide more funding and support for veterans groups such as Forces for Good.

Finally, when a veteran or a veteran's family needs help, they need to have access to the necessary information to get that help. They should be able to tap into a much wider support network to access other services provided by groups such as Forces for Good,

elusennau hynny a sefydlwyd gan gyn-filwyr i roi cymorth a chefnogaeth i gyn-filwyr. Bydd pawb a glywodd y dystiolaeth yn gwybod mor bwysig ydyw i'r cyn-filwyr dderbyn gwasanaethau gan bobl sydd wedi bod yn yr un sefyllfa ac sy'n deall y profiad o fod ar faes y gad, fel petai, ac sydd, efallai, yn dioddef yn yr un ffordd ag y maent hwy wedi dioddef. Felly, rwy'n croesawu argymhelliad 12 yn adroddiad y pwyllgor yn fawr, am ei fod yn annog Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r angen am wasanaethau ehangach o ran gwasanaethau therapiwtig arbenigol a thriniaethau ar gyfer cyn-filwyr, megis y rhai a ddarperir gan Talking 2 Minds. Roeddwn hefyd yn falch iawn o weld yr argymhelliad i ymgymryd â phrosiect peilot yn y gwasanaethau therapi arbenigol hynny. Bydd y Gweinidog yn gwybod bod prosiect peilot ar y gweill yng ngogledd Cymru rhwng Talking 2 Minds a CAIS ar yr agenda camddefnyddio sylweddau. Nid oes amheuaeth y bydd rhai cyn-filwyr yn ymgysylltu â hwn, felly efallai y gwnaiff y Gweinidog gyfeirio at hyn yn ei hymateb i'r ddadl.

Y pwynt pwysig arall rwyf am ei bwysleisio yw'r gwaith da a wneir yn wirfoddol, yn enwedig yn fy ardal i yng ngogledd Cymru. Mae un o fy etholwyr, Chris O'Neil, yn gyn-blismon milwrol sy'n rhedeg elusen a sefydlwyd ganddo, o'r enw Forces for Good. Mae Mark Isherwood a minnau yn gyfarwydd iawn â'r gwaith da y mae'n ei wneud. Mae'n cefnogi cyn-filwyr wrth eu helpu i ailymuno â bywyd sifil. Fel cyn-filwr ei hun, mae Chris yn cynnig y gwasanaeth cymorth syml hwn, sy'n gweithredu ar yr egwyddor y bydd cyn-filwr yn siarad â chyn-filwr arall, ac mae'n gwneud gwaith gwych sy'n aml yn mynd heb ei gydnabod. Dyna pam rwy'n falch o weld bod argymhelliad 9 yn yr adroddiad yn annog Llywodraeth y Cynulliad i roi mwy o gyllid a chefnogaeth i grwpiau cyn-filwyr fel Forces for Good.

Yn olaf, pan fydd angen cymorth ar gyn-filwr neu deulu cyn-filwr, mae angen iddynt allu cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol i gael y cymorth hwnnw. Dylent fod yn gallu manteisio ar rwydwaith cefnogi llawer ehangach i gael gafael ar wasanaethau eraill a

Talking2Minds and others. I hope that whoever the Minister is post May that he or she will pick up this issue and make sure that we have the finest possible services available to our ex-services personnel.

**Helen Mary Jones:** I will begin my brief contribution to this debate by extending my thanks to the Chairs, Darren and Jonathan, for the effective way in which our committee has been chaired. Jonathan Morgan is right when he says that the committee has made a real contribution to scrutiny. I have certainly learnt a lot in the past four years, and their leadership has been important in that.

I also wish to take the opportunity, as the One Wales coalition comes to an end, to say a few words of thanks to our coalition partners, particularly to Edwina Hart, the Minister for Health and Social Services.

Yr wyf hefyd yn diolch i Gwenda Thomas am gydweithio â ni mewn ffordd agored.

We have managed to work closely and I am grateful to the Minister and the Deputy Minister for the way in which we have been able to work together as a partnership, which is now coming to an end—we will all be out of the stumps shortly, competing against each other—but I feel that I have been able to make a contribution through both Ministers, for which I am grateful.

We received some powerful evidence to this inquiry, which many of us found very distressing. I completely concur with the points that have been made about how difficult it must have been for some of those individuals and groups to share their experiences with us. It is not a group of people who traditionally find it easy to talk about their feelings, let alone talk about their feelings in public. We were grateful for that honesty.

I concur with what has already been said, and I do not wish to repeat it, but I want to touch briefly on the responsibility of the Ministry of Defence. It is vital that we crack the issue

ddarperir gan grwpiau fel Forces for Good, Talking2Minds ac eraill. Pwy bynnag fydd y Gweinidog ar ôl mis Mai, rwy'n gobeithio y bydd ef neu hi yn ymdrin â'r mater hwn ac yn gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau gorau posibl ar gael i'n cyn-filwyr.

**Helen Mary Jones:** Rwyf am ddechrau fy nghyfraniad byr i'r ddadl hon drwy ymestyn fy niolch i'r Cadeiryddion, Darren a Jonathan, am y ffordd effeithiol y mae ein pwyllgor wedi cael ei gadeirio. Mae Jonathan Morgan yn iawn pan ddywed fod y pwyllgor wedi gwneud cyfraniad gwirioneddol o ran gwaith craffu. Yn sicr, rwyf wedi dysgu llawer yn y pedair blynedd diwethaf, ac mae eu harweinyddiaeth wedi bod yn bwysig yn hynny o beth.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle, fel y mae clymblaid Cymru'n Un yn dod i ben, i ddweud ychydig eiriau o ddiolch i'n partneriaid yn y glymblaid, yn enwedig i Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

I also thank Gwenda Thomas for working with us in such an open way.

Rydym wedi llwyddo i weithio'n agos ac rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog am y ffordd rydym wedi gallu cydweithio fel partneriaeth, sydd bellach yn dod i ben—byddwn i gyd yn cystadlu yn erbyn ein gilydd cyn bo hir—ond rwy'n teimlo fy mod wedi gallu gwneud cyfraniad drwy'r ddau Weinidog, ac rwy'n ddiolchgar am hynny.

Cawsom rywfaint o dystiolaeth bwerus i'r ymchwiliad hwn, ac roedd hyn yn peri gofid i nifer ohonom. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r pwyntiau sydd wedi cael eu gwneud ynghylch pa mor anodd ydoedd i rai o'r unigolion a grwpiau rannu eu profiadau gyda ni. Nid yw'n grŵp o bobl sydd yn draddodiadol yn ei chael hi'n hawdd siarad am eu teimladau, heb sôn am siarad am eu teimladau yn gyhoeddus. Roeddem yn ddiolchgar am y gonestrwydd hynny.

Cytunaf â'r hyn a ddywedwyd eisoes, ac nid wyf yn dymuno ei ailadrodd, ond rwyf am sôn yn fyr am gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'n hanfodol ein bod yn dod o



of passing on information. It is also important that there is an opt-out, because I have constituents with experience of the military who want to put it behind them and never hear of it again, and would not want that to be flagged up on their records. However, more of the veterans that we spoke to thought that it was a good idea for that information to be passed on automatically. I concur with what Jonathan Morgan said about the importance of the Ministry of Defence investing in services in Wales to help veterans who are facing difficulties.

I wish to touch on a further issue that came out of evidence, that is the issue of deprogramming. Veterans said that it takes many months to turn a civilian into a soldier, but a matter of days, if that, to turn the soldier or serviceperson back into a civilian. Going forward, that is not a matter for the Welsh Government, but it has a big effect on our citizens. Jonathan Morgan rightly highlighted the contribution that Wales makes to the military over and above what would be expected from the size of our population. The next Assembly Government will need to have a dialogue with the Ministry of Defence on that because more needs to be done. We heard of examples in the United States of America where more is done, where the equivalent of the Ministry of Defence takes responsibility for easing people back into civilian life.

The nature of the recent conflicts in which our armed forces have been engaged makes it more likely, I am afraid, that we will see more victims of post-traumatic stress disorder in the future. This partly arises from the nature of the conflicts, which do not necessarily involve soldiers fighting soldiers, but where someone can be a civilian one moment and the enemy the next. That makes it more emotionally difficult for many soldiers to deal with. There is also the issue about the ambiguity of public opinion about the conflict. It is interesting to look back at history that there was much more trauma after the first world war, where the public was ambiguous about the conflict, than there was after the second world war when public

hyd i ateb i'r broblem ynghylch trosglwyddo gwybodaeth. Mae hefyd yn bwysig bod modd dewis peidio â throsglwyddo gwybodaeth, oherwydd bod gennyf etholwyr sydd â phrofiad milwrol sydd am anghofio am y profiad hwnnw ac na fyddai'n dymuno i hynny gael ei nodi ar eu cofnodion. Fodd bynnag, roedd mwy o'r cyn-filwyr y buom yn siarad â hwy yn credu ei bod yn syniad da i'r wybodaeth honno gael ei throsglwyddo yn awtomatig. Cytunaf â'r hyn a ddywedodd Jonathan Morgan am bwysigrwydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn buddsoddi mewn gwasanaethau yng Nghymru i helpu cyn-filwyr sy'n wynebu anawsterau.

Hoffwn gyffwrdd ar fater arall a ddaeth allan o'r dystiolaeth, sef diraglennu. Dywedodd cyn-filwyr ei bod yn cymryd sawl mis i droi sifiliad yn filwr, ond mater o ddyddiau, os hynny, i droi'r milwr yn ôl yn i mewn i sifiliad. Wrth symud ymlaen, nid yw hynny'n fater i Lywodraeth Cymru, ond mae'n cael effaith fawr ar ein dinasyddion. Roedd Jonathan Morgan yn iawn i dynnu sylw at y cyfraniad y mae Cymru yn ei wneud i'r lluoedd arfog y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir o ystyried maint ein poblogaeth. Bydd angen i Lywodraeth nesaf y Cynulliad gael deialog gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch hynny oherwydd bod angen gwneud mwy. Clywsom am enghreifftiau yn Unol Daleithiau America lle mae mwy yn cael ei wneud, lle mae'r corff sy'n cyfateb i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cymryd cyfrifoldeb o ran helpu pobl yn ôl i fywyd sifil.

Mae natur y gwrthdaro diweddar y mae ein lluoedd arfog wedi bod yn ymwneud ag ef yn ei gwneud yn fwy tebygol, mae arnaf ofn, y byddwn yn gweld mwy o ddiodefwrwr anhwylder straen wedi trawma yn y dyfodol. Mae hyn yn codi, yn rhannol, o natur y gwrthdaro, sy'n golygu na fydd milwyr, o reidrwydd, yn ymladd milwyr eraill; gall rhywun fod yn sifiliad un funud ac yn elyn y funud nesaf. Mae hynny'n ei gwneud yn fwy anodd o lawer, yn emosiynol, i lawer o filwyr ddelio â'r sefyllfa. Mae materion yn codi hefyd o ran amwysedd barn y cyhoedd am y gwrthdaro. Mae'n ddiddorol gweld, o edrych yn ôl ar hanes, y bu llawer mwy o drawma ar ôl y rhyfel byd cyntaf, pan oedd y cyhoedd yn amwys am y gwrthdaro, nag yr oedd ar ôl

support was clear. For those of us who have not been in support of some of these recent conflicts, it is even more important that we send a clear message to those servicepeople that we respect them and will support them when they come home, regardless of what our views about the wars were. Servicepeople coming back from those conflicts may need more support, not less, and we need to be clear that that will be available. In that context, I am glad, and not at all surprised, that the Government has accepted the recommendations of the committee.

The level of consensus that we have managed to generate around this issue is an example of the best work of this Assembly and previous Assemblies: taking evidence, working together and putting our differences aside to look for common solutions that will work for our citizens. Whatever our differences and whatever happens in the coming weeks and the election campaign, I hope that the next Assembly will be able to carry forward what I think is a proud tradition of working from evidence and building consensus where we can, because that is what our citizens, especially vulnerable citizens, such as some ex-servicepeople, need and expect from us as their representatives.

**Veronica German:** I thank both Chairs of the committee and of the first committee inquiry that I took part in, and I am very grateful for the way in which it was conducted. It was humbling to hear the evidence that came before us in this committee. We had all heard of PTSD, but did not know that much about it. I thought that it would be quite obvious that people had this condition, yet many people came before us and said that it was many years, sometimes 12 years, before the condition was detected as being the cause of many of their other problems. We have been aware of this condition for a long time—Jeff mentioned shellshock from the first world war—and it is in our psyche. The way that we treat people in all sorts of mental distress has changed since then, but there is still a lot of work to be

yr ail ryfel byd pan oedd cefnogaeth y cyhoedd yn glir. I'r rhai ohonom nad ydym wedi cefnogi rhai o'r rhyfeloedd diweddar, mae hyd yn oed yn fwy pwysig ein bod yn anfon neges glir i'r milwyr hynny ein bod yn eu parchu ac y byddwn yn eu cefnogi pan fyddant yn dod adref, waeth beth oedd ein barn am y rhyfeloedd. Mae'n bosibl y bydd angen mwy, nid llai, o gefnogaeth ar y milwyr sy'n dod yn ôl o'r rhyfeloedd hynny, ac mae angen inni fod yn glir y bydd hynny ar gael. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n falch, ac nid wyf yn synnu o gwbl, fod y Llywodraeth wedi derbyn argymhellion y pwyllgor.

Mae lefel y consensws rydym wedi llwyddo i'w gael ar y mater hwn yn enghraifft o waith gorau'r Cynulliad hwn a Chynullidau blaenorol: cymryd tystiolaeth, gweithio gyda'n gilydd a rhoi ein gwahaniaethau o'r neilltu i chwilio am atebion cyffredin a fydd yn gweithio ar gyfer ein dinasyddion. Beth bynnag yw ein gwahaniaethau a beth bynnag fydd yn digwydd yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn yr ymgyrch etholiadol, rwy'n gobeithio y bydd y Cynulliad nesaf yn gallu parhau â'r hyn sydd, yn fy marn i, yn draddodiad balch o weithio ar sail tystiolaeth ac adeiladu consensws lle gallwn, oherwydd dyna beth sydd ei angen ar ein dinasyddion, yn enwedig dinasyddion sy'n agored i niwed, fel rhai cyn aelodau o'r lluoedd arfog. Dyna beth y maent yn ei ddisgwyl gennym fel eu cynrychiolwyr.

**Veronica German:** Diolch i ddau Gadeirydd y pwyllgor. Dyma'r ymchwiliad pwyllgor cyntaf imi gymryd rhan ynddo, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y ffordd y cafodd ei gynnal. Roedd clywed y dystiolaeth a ddaeth ger ein bron yn y pwyllgor yn peri i rywun deimlo'n wylaidd. Rydym i gyd wedi clywed am PTSD, ond nid oeddem yn gwybod rhyw lawer am y peth. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n eithaf amlwg bod pobl yn dioddef gyda'r cyflwr, ac eto daeth llawer o bobl ger ein bron a dweud bod blynyddoedd lawer, weithiau 12 mlynedd, wedi mynd heibio cyn bod y cyflwr wedi cael ei ganfod fel achos llawer o'u problemau eraill. Rydym wedi bod yn ymwybodol o'r cyflwr hwn ers amser hir—soniodd Jeff am siel-syfrdandod o'r rhyfel byd cyntaf—ac mae yn ein meddylfryd. Mae'r ffordd rydym yn trin pobl

done.

One of those issues was stigma. We all know that there is stigma related to any mental health problems that people may have. Some of the evidence that came before us showed that there is still huge stigma in the armed forces to admitting that you have a problem. Simon Weston told us that, before 1987, there was no-one that you could tell and that, after 1987, you would not want to tell anyone, because it might have a detrimental effect on your career in the service. That is not an issue for us in the Assembly, but it is something that we have to bear in mind and put pressure on other places about.

It is clear, as Helen Mary said, that this condition will not go away and, in fact, its incidence is likely to increase. It does not just affect veterans, but the wider community and their families. The fact that we are now looking at the holistic work that is being done and including the families in the treatment is very welcome. Those families may sometimes suffer even more than the person with the condition.

We learned that there was a lack of clear data on the prevalence of PTSD, not helped by the fact that it sometimes takes many years for the symptoms to appear. We also learned about the problems experienced on leaving the armed services, which Helen Mary alluded to, and the small amount of help that is available. It is startling that you have to have served for over six years in order to be given any resettlement support. It is as if, magically, if you have been serving for over six years, you need support, but if you have been serving for up to that time, you are not likely to have seen anything for which you might need that support. That seems very strange. Even when that support was offered, some people told us that it was very much a one-size-fits-all type of support and did not suit everyone.

mewn pob math o ofid meddwl wedi newid ers hynny, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd.

Un o'r materion hynny oedd stigma. Rydym i gyd yn gwybod bod stigma yn perthyn i unrhyw broblemau iechyd meddwl sydd gan bobl. Roedd peth o'r dystiolaeth a ddaeth ger ein bron yn dangos bod stigma mawr yn y lluoedd arfog o ran cyfaddef bod gennych broblem. Dywedodd Simon Weston wrthym na allech ddweud wrth neb cyn 1987, ac na fydech am wneud hynny ar ôl 1987, oherwydd fe allai gael effaith niweidiol ar eich gyrfa yn y gwasanaeth. Nid yw hynny'n fater i ni yn y Cynulliad, ond mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni gadw mewn cof a rhaid i ni roi pwysau ar leoedd eraill yn ei gylch.

Mae'n amlwg, fel y dywedodd Helen Mary, na fydd y cyflwr hwn yn mynd i ffwrdd a bod nifer yr achosion, mewn gwirionedd, yn debygol o gynyddu. Nid yw'n effeithio ar gyn-filwyr yn unig; mae hefyd yn effeithio ar y gymuned ehangach a'u teuluoedd. Mae'r ffaith ein bod nawr yn edrych ar y gwaith holistig sy'n cael ei wneud ac yn cynnwys y teuluoedd yn y driniaeth i'w groesawu'n fawr. Weithiau, gall y teuluoedd hynny ddioddef hyd yn oed yn fwy na'r person sydd â'r cyflwr.

Cawsom wybod bod diffyg data clir ar nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma, ac nid yw'r ffaith ei fod weithiau'n cymryd blynyddoedd lawer i'r symptomau ymddangos yn helpu'r sefyllfa. Dywedwyd wrthym hefyd am y problemau a geir wrth adael y lluoedd arfog, y cyfeiriodd Helen Mary atynt, a'r ffaith mai ychydig iawn o help sydd ar gael. Mae'n frawychus bod yn rhaid ichi fod wedi gwasanaethu am dros chwe blynedd er mwyn cael unrhyw gefnogaeth adsefydlu. Mae fel pe bai, drwy ryw ryfedd wyrth, arnoch angen cefnogaeth os ydych wedi bod yn gwasanaethu am dros chwe blynedd, ond os ydych wedi bod yn gwasanaethu ers llai o amser, nid ydych yn debygol o fod wedi gweld unrhyw beth er mwyn bod angen y cymorth hwnnw. Ymddengys hynny'n rhyfedd iawn. Hyd yn oed pan fo'r cymorth yn cael ei gynnig, dywedodd rhai pobl wrthym nad oedd yn addas i bawb.

I also want to talk about the fact that, time and again, we heard from veterans groups that it was important that whoever they were talking to, or whoever was treating them, understood what it was like to be in the armed services. There were conflicting opinions on that: some veterans felt that they had to speak to other veterans and that no-one else could possibly understand their experiences, while others were a little softer in their response, saying that it was okay for them to be non-veterans, but that the people that they were talking to should have experience of working alongside servicepeople. We need to bear in mind all of these opinions.

I will now go back to the idea that one size does not fit all, but Darren has already used some of the lines that I was intending to use because we visited Mind together. What struck me when Darren and I went to talk to the representatives of Mind was that there were people who had received every type of treatment possible—they had received cognitive behavioural therapy, other therapies and drugs—but that those treatments had not worked and their lives were at rock bottom as a result. However, a different form of therapy, namely neurolinguistic programming, somehow just did it for them. We have to be open to new therapies, even if they have not been around for 15 years or are yet to receive approval from the National Institute for Health and Clinical Excellence. We have to be open to things that have been proven to work, because we owe it to these people and to all of those who will have this condition in future to do so.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** It is a pleasure to respond to the committee's excellent report, which shows the excellent work done in the Assembly between the Government and the committee in identifying the key areas in dealing with post-traumatic stress disorder. All of us in the Chamber appreciate that military matters are not devolved, but there are so many areas where our work impacts on the lives of current and ex-service personnel, and one area in particular is that of health services. We need to recognise that the

Rwyf hefyd am sôn am y ffaith y clywsom dro ar ôl tro gan grwpiau cyn-filwyr, sef ei bod yn bwysig bod pwy bynnag y maent yn siarad â hwy, neu bwy bynnag sy'n eu trin, yn deall sut brofiad yw bod yn y lluoedd arfog. Roedd barn anghyson ar hynny: roedd rhai cyn-filwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt siarad â chyn-filwyr eraill ac na allai neb arall ddeall eu profiadau, tra bod eraill yn fwy meddal yn eu hymateb, gan ddweud ei bod yn iawn iddynt beidio â bod yn gyn-filwyr, ond y dylai'r bobl y maent yn siarad â hwy gael profiad o weithio ag aelodau o'r lluoedd arfog. Mae angen inni gadw'r holl safbwyntiau hyn mew cof.

Nawr rwyf am ddychwelyd at y syniad nad oes un dull sy'n addas i bawb, ond mae Darren eisoes wedi dweud rhai o'r pethau yr oeddwn yn bwriadu eu dweud oherwydd buom yn ymweld â Mind gyda'n gilydd. Yr hyn a wnaeth fy nharo pan aeth Darren a mi i siarad â chynrychiolwyr o Mind oedd bod rhai pobl wedi cael pob math o driniaeth posibl—therapi ymddygiad gwybyddol, therapïau eraill a chyffuriau—ond nad oedd y triniaethau hynny wedi gweithio a bod eu bywydau wedi cyrraedd isafbwynt o ganlyniad. Fodd bynnag, roedd math gwahanol o therapi, sef rhaglennu niwroieithyddol, rywsut wedi gweithio ar eu cyfer. Rhaid inni fod yn agored i therapïau newydd, hyd yn oed os nad ydynt wedi bod o gwmpas ers 15 mlynedd neu os nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Rhaid inni fod yn agored i bethau sydd wedi cael eu profi i weithio, oherwydd mae arnom ddyled i'r bobl hyn ac i bawb a fydd yn dioddef o'r cyflwr hwn yn y dyfodol.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae'n bleser gennyf ymateb i adroddiad rhagorol y pwyllgor, sy'n dangos y gwaith ardderchog a wnaed yn y Cynulliad rhwng y Llywodraeth a'r pwyllgor yn nodi'r prif faterion wrth ymdrin ag anhwylder straen wedi trauma. Mae pob un ohonom yn y Siambr yn sylweddoli nad yw materion milwrol wedi'u datganoli, ond mae cynifer o feysydd lle mae ein gwaith yn effeithio ar fywydau personél presennol a chyn-filwyr, ac un maes penodol yw gwasanaethau iechyd. Mae angen inni

majority of ex-service personnel return to make a valid contribution to civilian life and use the skills and experiences acquired during their military career to enhance civilian life. However, we also have to recognise that some veterans return to civilian life with a lot of problems. For some, their experiences leave such physical and emotional scars that this matter is not only about mental health issues or post-traumatic stress disorder, but about tackling things like anxiety and depression, which are common problems for ex-military personnel.

We have a moral obligation to provide appropriate services tailored to meet the needs of our veterans. A range of services is required, from the opportunity to talk through problems with a sympathetic appropriately trained counsellor in a local GP surgery to more intensive specialist mental health services. Points have been well made by Members on the need for veterans to speak to someone who has been in the same position as them. The same is true when dealing with other issues, such as domestic abuse; it is sometimes much easier for a victim of domestic abuse to speak to someone who has also been a victim of abuse because they fully understand the issues.

I have aimed for a tiered approach to ensure appropriate levels of support at the right time in the right environment on a consistent basis, no matter where an individual lives. I was very pleased that in my formal response to the committee on 23 March, I was able to accept all of its recommendations. As you aware, in March 2010, I announced the extension of the mental health and wellbeing service for veterans across Wales with annual funding of £485,000. This is a ground-breaking initiative that aims to provide additional local access to specialist outpatient care for veterans with mental health problems, and to help signpost veterans and their families to other support services such as substance misuse services. One of the issues in the committee's report that I took very much to heart was that of substance misuse. People often face more than one problem at once and need to have a one-stop shop to access the appropriate services. I

gydnabod bod y rhan fwyaf o gyn-filwyr yn dychwelyd i wneud cyfraniad dilys i fywyd sifil ac yn defnyddio'r sgiliau a'r profiadau a gafwyd yn ystod eu gyrfa filwrol i gyfoethogi bywyd sifil. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gydnabod bod rhai cyn-filwyr yn dychwelyd i fywyd sifil gyda llawer o broblemau. I rai, mae eu profiadau yn gadael creithiau corfforol ac emosiynol sydd mor ddwfn, fel bod y mater hwn nid yn unig yn ymwneud â materion iechyd meddwl neu anhwylder straen wedi trawma, ond â phethau fel pryder ac iselder, sy'n broblemau cyffredin ar gyfer cyn aelodau o'r lluoedd arfog.

Mae gennym rwymedigaeth foesol i ddarparu gwasanaethau priodol wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion ein cyn-filwyr. Mae angen ystod o wasanaethau, o'r cyfle i drafod problemau gyda chynghorydd sympathetig sydd wedi'i hyfforddi'n briodol mewn meddygfa leol, i wasanaethau iechyd meddwl mwy dwys. Mae'r Aelodau wedi codi pwyntiau da ynghylch y ffaith fod angen i gyn-filwyr siarad â rhywun sydd wedi bod yn yr un sefyllfa â hwy. Mae'r un peth yn wir wrth ymdrin â materion eraill, fel cam-drin domestig; weithiau mae'n llawer haws i ddiodeffwr cam-drin domestig i siarad â rhywun sydd hefyd wedi bod yn diodeff o gam-drin oherwydd eu bod yn deall y materion yn llawn.

Rwyf wedi anelu at gael dull gweithredu haenog i sicrhau lefelau priodol o gymorth ar yr adeg gywir, yn yr amgylchedd cywir ac ar sail gyson, ni waeth lle mae'r unigolyn yn byw. Roeddwn yn falch iawn fy mod wedi gallu derbyn ei holl argymhellion yn fy ymateb ffurfiol i'r pwyllgor ar 23 Mawrth. Fel y gwyddoch, ym mis Mawrth 2010, cyhoeddais y byddwn yn ehangu'r gwasanaeth iechyd meddwl a lles i gyn-filwyr ledled Cymru, gyda chyllid blynyddol o £485,000. Mae hon yn fenter arloesol sy'n anelu at ddarparu mynediad lleol ychwanegol i ofal arbenigol allanol ar gyfer cyn-filwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac i helpu cyfeirio cyn-filwyr a'u teuluoedd at wasanaethau cefnogi eraill fel gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Un o'r materion yn adroddiad y pwyllgor y cymerais i'r galon oedd camddefnyddio sylweddau. Mae pobl yn aml yn wynebu mwy nag un broblem ar unwaith ac mae angen siop un-stop arnynt i

hope that we will now have a unified care pathway to join up the statutory and non-statutory sectors in a single point of reference. Local health champions for veterans also play a key role in developing this service.

We have accomplished much in a short period and the report acknowledges the progress that we have made. The recommendations build on our activity; where appropriate, we have already taken steps to address those recommendations that add value to our activities in this area. Looking at recommendations 8 and 15, I have written to the postgraduate deanery of Cardiff University, offering to fund the development of a national health service staff training model. On recommendation 11, I have asked officials to begin to develop the substance misuse treatment framework in relation to veterans that Jonathan alluded to in his opening remarks. On recommendation 18, on access to benefits, I have asked officials to raise this issue with the UK Government through the membership and partnership board. It is a very important area. Regardless of who is in Government following the Assembly elections, it is important that we keep up the pressure on some of these issues, rather than thinking that this can be filed nicely with issues relating to the Assembly of 2007-11. We need to work on the report in the future to develop its recommendations.

4.30 p.m.

Members have spoken about these issues with great interest and passion. Jeff, recommendations 2, 3 and 17, to which you referred, are very important. Likewise, Darren referred to recommendations 5, 6, 12 and 9. However, one of the most important recommendations is the one that relates to medical records, with regard to flagging up and identifying former armed service personnel. I appreciate that some will not want it but, at the end of the day, it is better for health professionals to be aware of patients' background and history when they

gael mynediad at y gwasanaethau priodol. Nawr, rwy'n gobeithio y bydd gennym lwybr gofal unedig i uno'r sectorau statudol ac anstatudol mewn un pwynt cyfeirio. Mae hyrwyddwyr iechyd lleol ar gyfer cyn-filwyr hefyd yn chwarae rôl bwysig yn natblygiad y gwasanaeth.

Rydym wedi cyflawni llawer mewn cyfnod byr ac mae'r adroddiad yn cydnabod y cynnydd ydym wedi'i wneud. Mae'r argymhellion yn adeiladu ar ein gweithgarwch; lle y bo'n briodol, rydym eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n ychwanegu gwerth at ein gweithgareddau yn y maes hwn. O edrych ar argymhellion 8 a 15, rwyf wedi ysgrifennu at ddeoniaeth ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd, gan gynnig ariannu datblygu model hyfforddi cenedlaethol ar gyfer staff y gwasanaeth iechyd. O ran argymhelliad 11, rwyf wedi gofyn i swyddogion ddechrau datblygu'r fframwaith triniaethau camddefnyddio sylweddau mewn perthynas â chyn-filwyr y cyfeiriodd Jonathan ato yn ei sylwadau agoriadol. O ran argymhelliad 18, ynghylch mynediad i fudd-daliadau, rwyf wedi gofyn i swyddogion godi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU drwy'r bwrdd aelodaeth a phartneriaeth. Mae'n faes pwysig iawn. Ni waeth pwy fydd mewn Llywodraeth ar ôl etholiadau'r Cynulliad, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r momentwm ynghylch rhai o'r materion hyn, yn hytrach na meddwl y gall y mater hwn gael ei ffeilio'n dwt gyda materion sy'n ymwneud â'r Cynulliad rhwng 2007 a 2011. Rhaid inni weithio ar yr adroddiad yn y dyfodol er mwyn datblygu ei argymhellion.

Mae'r Aelodau wedi siarad am y materion hyn gyda diddordeb a brwdfrydedd. Jeff, mae argymhellion 2, 3 ac 17, y cyfeiriasoch atynt, yn bwysig iawn. Yn yr un modd, cyfeiriodd Darren at argymhellion 5, 6, 12 a 9. Fodd bynnag, un o'r argymhellion pwysicaf yw'r un sy'n ymwneud â chofnodion meddygol, ynghylch amlygu a dynodi personél a oedd yn y lluoedd arfog gynt. Rwy'n gwerthfawrogi na fydd rhai am fod yn rhan o'r system, ond, yn y pen draw, mae'n well i weithwyr iechyd proffesiynol fod yn ymwybodol o gefndir cleifion a'u hanes pan

are giving treatment. People are sometimes reluctant to talk about things; it is sometimes a nudging game, trying to get information out of an individual that will benefit them. I think that this will help in this area. I was also taken by Helen Mary's point about deprogramming. They spend all those months training to get into the military, but what happens when they finish? It is a total change of lifestyle for the individual, and we have to look at what counselling is available to help them deal with these lifestyle changes. I thank Helen Mary Jones for her kind comments, which I reciprocate, as I am sure does the Deputy Minister, on our working relationship.

Veronica alluded to the stigma of shell shock, as did Jeff. It is almost as if, having done their duty, former armed service personnel are told to go away and say nothing more about it. It is important that there is no stigma attached to what has happened to individuals, because we are talking about health issues that have been brought about as a result of their service to the state and to us.

We must also recognise that Wales has a proud military history. The oldest regiment of the reserved force is the Royal Monmouthshire Royal Engineers Militia, dating back to the sixteenth century. Welsh soldiers, sailors, airmen and airwomen have distinguished themselves in action across the globe, in conflict and in humanitarian roles. The humanitarian roles are extremely stressful, and are likely to continue well into the future, based on what is going on in the world today. We call upon them to make personal sacrifices and, in return, we owe them, and their families, a duty of care. The debate today shows that all of us take our duties on this issue very seriously.

**Jonathan Morgan:** I will start by thanking all Members who have contributed to this important debate. One theme that has united Members' contributions is the feeling of

fyddant yn rhoi triniaeth. Weithiau mae pobl yn amharod i siarad am bethau; weithiau mae ceisio cael gwybodaeth gan unigolyn, a fydd o fudd iddo, fel ceisio cael gwaed allan o garreg, fel petai. Credaf y bydd hyn yn helpu yn hyn o beth. Gwnaed argraff arnaf gan y pwynt gan Helen Mary ynglŷn â datraglennu. Maent yn treulio'r holl fisoedd yn hyfforddi i fynd i'r fyddin, ond beth sy'n digwydd pan fyddant yn gorffen? Mae'r unigolyn yn newid ei ffordd o fyw yn llwyr, a rhaid inni edrych sut fath o wasanaethau cwnsela sydd ar gael i'w helpu i ymdrin â'r newidiadau hyn yn eu ffordd o fyw. Diolch i Helen Mary Jones am ei sylwadau caredig; rwy'n cytuno â hwy, fel y mae'r Dirprwy Weinidog rwy'n sicr, ynghylch ein perthynas waith.

Cyfeiriodd Veronica at stigma'r 'ysgytwad', neu'r 'shell-shock', fel y gwnaeth Jeff. Mae bron fel pe bai, ar ôl iddynt wneud eu dyletswydd, y dywedir wrth bobl y lluoedd arfog am fynd, a dim byd mwy na hynny. Mae'n bwysig nad oes stigma'n gysylltiedig â'r hyn sydd wedi digwydd i unigolion, oherwydd materion iechyd yw'r rhain sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i bobl yn gwasanaethu'r wladwriaeth, a ninnau, sydd o dan sylw yma.

Rhaid inni gydnabod hefyd bod gan Gymru hanes milwrol y gellir ymfalchïo ynddo. Peirianwyr Brenhinol Mynwy Brenhinol yw'r llw wrth gefn hynaf sy'n bod, ac mae'n dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg. Mae milwyr, morwyr, awyrenwyr ac awyrenwagedd wedi ennill bri yn eu gwaith ar draws y byd, mewn gwrthdaro ac mewn rolau dyngarol. Mae'r rolau dyngarol yn llawn straen, ac mae'n debygol y byddant yn parhau yn y dyfodol pell, o gofio'r hyn sy'n digwydd yn y byd heddiw. Rydym ar eu gofyn i wneud aberth personol ac, am hynny rydym yn ddyledus iddynt hwy a'u teuluoedd, ac mae dyletswydd arnom i ofalu amdanynt. Mae'r ddadl heddiw yn dangos bod pob un ohonom yn cymryd ein dyletswyddau ar y mater hwn yn gwbl o ddifrif.

**Jonathan Morgan:** Dechreuaf drwy ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl bwysig hon. Un thema sy'n gyffredin yng nghyfraniadau'r Aelodau yw'r teimlad o

tremendous pride in our armed forces for the work that they do, the challenges that they face and the way that they defend our country's interest and those we seek to serve. As the Minister quite rightly pointed out, I strongly believe that we have a moral duty and obligation to ensure that people who have seen active service and suffered as a result, get all the help, care and attention that they need. Helen Mary Jones was absolutely right in saying that, in a sense, there are always going to be conflicts that members of the public will struggle to understand and, on occasion, to support. However, we have to show our armed forces personnel and veterans, through our actions, that we will stand by them and ensure that they get access to medical help and attention and the range of services that they need when they leave the armed services.

Some Members talked about the impact on families. Veronica German and Darren Millar, in particular, talked about the range of therapy that is available. One issue that came out in the inquiry—it is referred to in the report—is that there is a lot of expertise out there. There is a range of therapy service that we strongly believe should be examined. If we are going to provide an expansive range of services for people who have come out of the armed services, it is essential that we use all of the expertise that is out there in Wales to help people. Members were right to refer to that.

The Minister and Helen Mary Jones mentioned the Ministry of Defence and its responsibilities. I completely agree with them that the Ministry of Defence needs to have a system in place, beyond the pilot scheme, that shares information with general practitioners. Having talked to members of the armed forces about this, I know that many officers are concerned that some of the MoD records may not be up to scratch, and their fear is that the MoD may not have a complete picture or record. We do not know what the picture is, but, clearly, there are concerns about the information that the MoD may or may not have.

falchder aruthrol yn ein lluoedd arfog am y gwaith a wnânt, yr heriau y maent yn eu hwynebu a'r ffordd y maent yn amddiffyn budd ein gwlad a budd y rhai yr ydym yn ceisio eu gwasanaethu. Fel y nododd y Gweinidog yn gwbl gywir, rwy'n credu bod gennym ddyletswydd a chyfrifoldeb moesol i sicrhau bod pobl sydd wedi cymryd rhan mewn gwasanaeth gweithredol ac sy'n dioddef o ganlyniad iddo yn cael yr holl gymorth, gofal a sylw sydd ei angen arnynt. Roedd Helen Mary Jones yn llygad ei lle pan ddywedodd, ar un ystyr, ei bod yn anochel y bydd gwrthdaro o hyd y bydd y cyhoedd yn ei chael hi'n anodd ei ddeall ac, ar adegau, i'w gefnogi. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ddangos i'n lluoedd arfog a'n cyn-filwyr, trwy ein gweithredoedd, y byddwn yn eu cefnogi ac yn sicrhau y gallant gael yr hawl i gymorth meddygol, y sylw a'r ystod o wasanaethau sydd eu hangen arnynt pan fyddant yn gadael y gwasanaethau arfog.

Soniodd rhai Aelodau am yr effaith ar deuluoedd. Soniodd Veronica German a Darren Millar, yn arbennig, am yr amrywiaeth o therapi sydd ar gael. Un mater a ddaeth i'r amlwg yn yr ymchwiliad, a chyfeirir ato yn yr adroddiad, yw bod llawer o arbenigedd ar gael. Mae amrywiaeth o wasanaethau therapi yr ydym yn credu'n gryf y dylid edrych yn fanwl arnynt. Os ydym am ddarparu ystod eang o wasanaethau i bobl sydd wedi gadael y lluoedd arfog, mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r holl arbenigedd sydd yng Nghymru i helpu pobl. Roedd yr Aelodau yn gwbl gywir pan oeddent yn cyfeirio at hynny.

Cyfeiriodd y Gweinidog a Helen Mary Jones at y Weinyddiaeth Amddiffyn a'i chyfrifoldebau. Cytunaf yn llwyr â hwy fod angen i'r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu system, ar wahân i'r cynllun peilot, sy'n rhannu gwybodaeth â meddygon teulu. Ar ôl siarad ag aelodau o'r lluoedd arfog am hyn, gwn fod llawer o swyddogion yn pryderu nad yw rhai o gofnodion y Weinyddiaeth Amddiffyn yn safonol, ac maent yn ofni nad oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddarlun na chofnod cyflawn. Ni wyddom beth yw'r sefyllfa'n union, ond, yn amlwg, mae pryderon am yr ansicrwydd ynghylch y wybodaeth sydd ar gael neu beidio gan y



## Weinyddiaeth Amddiffyn.

Darren and Jeff talked about the role of the Royal British Legion. I would like to pay tribute to it, because it is not just an organisation that goes out once a year to raise money through the poppy appeal; it is not there just to promote the act of remembrance. It is there to help veterans get the services that they need, the diagnoses that they need, and the home adaptations that they need. Often, members of the public do not understand the true extent of the work that the Royal British Legion does; it does it quietly, but it does it professionally, and we owe it a lot. Ultimately, we want to ensure that people have access to the services that they need.

I am grateful to all members of the committee for contributing to this inquiry, and in particular to my colleague Darren Millar, who chaired the committee during the taking of the evidence. I hope that the recommendations in this report will lead to that far-reaching improvement in the services available for these brave men and women who have given so much for their country. They deserve the best support that we can offer; we owe them no less. The Assembly needs to deliver on this important agenda in the future.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to note the committee's report. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

#### **GYC a Chymorth i Fusnesau GVA and Support for Business**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendments 2 and 3 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4715 Nick Ramsay*

Siaradodd Darren a Jeff am rôl y Lleng Brydeinig Frenhinol. Hoffwn dalu teyrnged i'r sefydliad, oherwydd nid mynd allan unwaith y flwyddyn i godi arian drwy'r apêl pabi y bydd y sefydliad; nid yw yno i hyrwyddo Dydd y Cofio yn unig. Mae'n helpu cyn-filwyr i gael y gwasanaethau, y diagnosis, a'r addasiadau i'w cartrefi sydd eu hangen arnynt. Yn aml, nid yw'r cyhoedd yn deall y gwir waith a gyflawnir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol; mae'n gwneud y gwaith yn dawel, ond mae'n ei wneud yn broffesiynol, ac rydym yn ddyledus iddi am ei gwaith. Yn y pen draw, rydym eisiau sicrhau bod y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar gael i bobl.

Rwy'n ddiolchgar i holl aelodau'r pwyllgor am gyfrannu at yr ymchwiliad hwn, ac yn arbennig i fy nghydweithiwr Darren Millar, a gadeiriodd y pwyllgor pan oedd yn clywed tystiolaeth. Gobeithiaf y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn arwain at y gwelliannau pellgyrhaeddol hynny i'r gwasanaethau sydd ar gael i'r dynion a'r menywod dewr sydd wedi aberthu cymaint dros eu gwlad. Maent yn haeddu'r cymorth gorau y gallwn ei gynnig; maent yn haeddu dim llai. Rhaid i'r Cynulliad ddarparu o ran yr agenda pwysig hwn yn y dyfodol.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y pwyllgor. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 2 a 3 yn enw Peter Black.

*Motion NDM4715 Nick Ramsay*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*Yn nodi â chryn bryder a siom bod GYC Cymru nawr bellach yn ddim ond 74.3% o gyfartaledd y DU a 62.6% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.*

*Notes with great concern and disappointment that Welsh GVA is now only 74.3% of the UK average and 62.6% in West Wales and the Valleys.*

*Yn croesawu'r cyhoeddiadau yn Natganiad Cyllideb Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â chymorth i fusnesau.*

*Welcomes the announcements in the UK Government Budget Statement relating to support for businesses.*

**Darren Millar:** I move the motion.

**Darren Millar:** Cynigiau y cynnig.

I welcome the opportunity to lead this final Welsh Conservative debate of the third Assembly. I seem to recall that I also led the first Welsh Conservative debate of the third Assembly. We are doing so from opposition at present, but I hope that we will not be doing so from this position after 5 May.

Rwy'n croesawu'r cyfle i arwain dadl derfynol Ceidwadwyr Cymru yn y trydydd Cynulliad. Cofiaf fy mod hefyd wedi arwain dadl gyntaf Ceidwadwyr Cymru yn y trydydd Cynulliad. Rydym yn cymryd rhan yn y ddadl fel gwrthblaid ar hyn o bryd, ond gobeithio na fyddwn yn y sefyllfa honno ar ôl 5 Mai.

The verdict on the successive Labour-led Assembly Governments' stewardship of the Welsh economy is clear. Despite being at the top of the economic development spending league, Wales has slipped to the bottom of the prosperity table. Recent figures from Eurostat, the statistical office of the European Union, show that Wales's gross value added is now just 74.3 per cent of the UK average. In west Wales and the Valleys, the situation is much worse. On an EU level, gross domestic product per head in west Wales and the Valleys is just 71 per cent of the EU average, putting these areas on a par with parts of Bulgaria and Portugal. Worse than that, they are in a worse position than every region of Greece. What did the First Minister say when asked to comment on these shaming figures on the Andrew Marr programme? He said that the figures were not that bad. Let us be clear: these figures are a disgrace, and the Welsh economy urgently needs a step change in its management.

Mae'r dyfarniad ynghylch rheolaeth Llywodraethau olynol y Cynulliad o dan arweiniad y blaid Lafur o economi Cymru yn amlwg. Er bod Cymru ar frig y gynghrair wariant o ran datblygu economaidd, mae hi wedi llithro i waelod y tabl ffyniant. Dengys ffigurau diweddar gan Eurostat, sef swyddfa ystadegau'r Undeb Ewropeaidd, bod gwerth ychwanegol crynswth Cymru bellach yn ddim ond 74.3 y cant o gyfartaledd y DU. Yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r sefyllfa yn llawer gwaeth. Ar lefel yr UE, mae cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 71 y cant yn unig o gyfartaledd yr UE, sy'n rhoi'r ardaloedd hyn yn gyfartal â rhannau o Fwlgaria a Phortiwgal. Yn waeth na hynny, maent mewn sefyllfa waeth na phob rhanbarth o Wlad Groeg. Beth a ddywedodd y Prif Weinidog pan ofynnwyd iddo roi ei sylwadau ar y ffigurau cywilyddus hyn ar raglen Andrew Marr? Dywedodd nad oedd y ffigurau cynddrwg â hynny. Gadewch inni fod yn glir: mae'r ffigurau hyn yn warthus, ac mae angen newid sylweddol yn y dull o reoli economi Cymru ar frys.

I recognise that, when the Deputy First Minister responds, he will argue that the economic situation in Wales is better than that indicated in the GDP figures alone. The

Gwn, pan fydd y Dirprwy Brif Weinidog yn ymateb, y bydd ef yn dadlau bod y sefyllfa economaidd yng Nghymru yn well na'r hyn a nodir yn y ffigurau cynnyrch mewnwladol

First Minister and the Deputy First Minister have repeatedly argued that using gross disposable household income figures is a better way of measuring the economic situation. Household incomes have increased in Wales since 1999, and have, as they say, outstripped the UK average. That is the argument that they will present against ours. I want to challenge the Deputy First Minister on two points here. First, many business groups in Wales agree with us, including the Institute of Chartered Accountants and the Institute of Directors in Wales, that GVA is the best measure of the economy. On this measure, the gap between the UK and Wales has grown. We have slipped from 80.3 per cent of the UK average in 1997 to just 74.3 per cent in 2009. Secondly, if the Deputy First Minister is such a believer in using the GDHI as a statistic for economic health, then perhaps he would like to comment on figures from the respected Professor Dylan Jones Evans that show that the gap between the richest and poorest regions in Wales has trebled between 1998 and 2008, and, indeed, on the isle of Anglesey—his own backyard—the indicator has fallen by 0.5 per cent. Let us not forget that these figures are against the backdrop of billions of pounds of European money that Wales has received, which has, unfortunately, been squandered, given the way that it has been managed throughout those two rounds of European structural funds. That is £5.5 billion, and we have still slipped further behind the rest of the UK.

I want to spend some time talking about manufacturing, which is a crucial part of the Welsh economy, but, unfortunately, has been completely ignored and disregarded by Labour and Plaid during their time in office. In 1997, manufacturing accounted for 28 per cent of Welsh GVA, but, by 2008, that had fallen to just 17 per cent. Only yesterday, we learned from the First Minister during questions that, after three years and 11 months of postponements, the Assembly Government's manufacturing strategy will not be published until the autumn. That was a 'One Wales' commitment and something that

cryswth yn unig. Mae'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog wedi dadlau dro ar ôl tro fod defnyddio ffigurau incwm Aelwydydd cryswth i'w wario yn ffordd well o fesur y sefyllfa economaidd. Mae incwm aelwydydd wedi cynyddu yng Nghymru ers 1999, ac maent yn uwch na chyfartaledd y DU. Dyna'r ddadl y byddant yn ei chyflwyno yn erbyn ein dadl ni. Rwyf am herio'r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch dau fater yma. Yn gyntaf, mae nifer o grwpiau busnes yng Nghymru yn cytuno â ni, gan gynnwys Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig a Sefydliad y Cyfarwyddwyr yng Nghymru, mai gwerth ychwanegol cryswth yw'r ffordd orau o fesur yr economi. Wrth ddefnyddio'r mesur hwn, mae'r bwlch rhwng y DU a Chymru wedi lledu. Rydym wedi llithro o 80.3 y cant o gyfartaledd y DU ym 1997 i ddim ond 74.3 y cant yn 2009. Yn ail, os yw'r Dirprwy Brif Weinidog yn credu mor gryf mewn defnyddio incwm aelwydydd cryswth i'w wario fel ystadegyn ar gyfer llewyrch economaidd, yna efallai y byddai'n hoffi cynnig sylwadau ar ffigurau'r hybarch Athro Dylan Jones Evans sy'n dangos bod y bwlch rhwng y rhanbarthau mwyaf cyfoethog a'r rhanbarthau mwyaf tlawd yng Nghymru wedi treblu rhwng 1998 a 2008, ac, yn wir, ar ei domen ei hun yn Ynys Môn, mae'r dangosydd wedi lleihau 0.5 y cant. Cofiwch fod miliynau o bunnoedd o arian Ewropeaidd y mae Cymru wedi'i dderbyn yn gefndir i'r ffigurau hyn, ac mae'r arian hwn, yn anffodus, wedi'i afradu, o ystyried y ffordd y cafodd ei drin a'i drafod drwy gydol y ddau gylch o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Mae hynny'n £5.5 biliwn, ac rydym yn parhau i fod wedi llithro ymhellach y tu ôl i weddill y DU.

Rwyf am dreulio rhywfaint o amser yn siarad am weithgynhyrchu, sy'n rhan hanfodol o economi Cymru, ond, yn anffodus, sydd wedi cael ei anwybyddu a'i ddiystyru yn llwyr gan y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn ystod eu hamser mewn grym. Ym 1997, roedd gweithgynhyrchu i gyfrif am 28 y cant o GYC Cymru, ond, erbyn 2008, roedd y ffigur yn ddim ond 17 y cant. Mor ddiweddar â ddoe, cawsom wybod gan y Prif Weinidog yn ystod ei gwestiynau, ar ôl gohirio am dair blynedd a 11 mis, ni fydd strategaeth gweithgynhyrchu Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei chyhoeddi tan yr hydref. Roedd

you said, Deputy First Minister, was on your desk in draft in December 2008. Manufacturing is vital for Wales, and we must boost and support the industry as much as possible. It is farcical that an entire sector has been ignored and let down by the Assembly Government over the past four years, despite the First Minister and the Deputy First Minister promising a detailed manufacturing strategy for Wales. However, nothing has been produced over those four years.

I hope that you can tell me, Deputy First Minister, whether you know what your civil servants are doing. You keep making this promise and, yet, you have failed to deliver on it. All that we have seen is an independent body producing a manufacturing strategy, in which it clearly states that, 'It has nothing to do with you, Guv'. While jobs in manufacturing have reduced dramatically—thousands have been shed over the past 11 years—the number of business start-ups has also fallen for the past three years. During 2008, the figure stood at 9,300, which is down 6.2 per cent on the previous year with regard to the wider Welsh economy.

I am sure that all of us here this afternoon are in agreement on the importance of encouraging and promoting enterprise and an entrepreneurial spirit here in Wales. Indeed, the flagship economic renewal programme, which was unveiled by the Deputy First Minister in July of last year, focuses on those two things. In fact, it said that there was a need

'to retain and attract skilled individuals with entrepreneurial spirit and the ambition to succeed to create a modern and dynamic nation'.

However, the Welsh Assembly Government's rhetoric does not match the reality or the action. A couple of weeks ago, we learned of Michael Samuel, the managing

hwn yn un o ymrwymadau 'Cymru'n Un' ac yn rhywbeth y dwedasoch, Ddirprwy Brif Weinidog, oedd ar eich desg ar ffurf drafft ym mis Rhagfyr 2008. Mae gweithgynhyrchu yn hollbwysig i Gymru, a rhaid inni hybu a chefnogi'r diwydiant gymaint ag y bo modd. Mae'n chwerthinllyd bod sector cyfan wedi cael ei anwybyddu a bod cymaint o dro gwael wedi'i wneud ag ef gan Lywodraeth y Cynulliad dros y pedair blynedd diwethaf, er bod y Prif Weinidog a'r Ddirprwy Brif Weinidog wedi addo strategaeth weithgynhyrchu fanwl ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, nid oes dim wedi cael ei gynhyrchu dros y pedair blynedd hynny.

Gobeithiaf y gallwch ddweud wrthyf, Ddirprwy Brif Weinidog, a ydych yn gwybod beth y mae eich gweision sifil yn ei wneud. Rydych yn parhau i wneud yr addewid hwn, ac eto, rydych wedi methu â chyflawni dim. Y cyfan rydym wedi'i weld yw strategaeth weithgynhyrchu yn cael ei chynhyrchu gan gorff annibynnol, ac mae honno'n datgan yn glir, 'Nid oes ganddo ddim oll i'w wneud â chi, syr'. Tra bod swyddi mewn gweithgynhyrchu wedi prinhau'n ddramatig—collwyd miloedd o swyddi dros yr 11 mlynedd ddiwethaf—mae nifer y busnesau newydd hefyd wedi lleihau dros y tair blynedd diwethaf. Yn ystod 2008, roedd y ffigwr yn 9,300, sydd 6.2 y cant yn llai o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ran economi ehangach Cymru.

Rwy'n siŵr fod pob un ohonom yma yn prynhawn yma yn cytuno ar ba mor bwysig yw annog a hyrwyddo menter ac ysbryd entrepreneuriaid yma yng Nghymru. Yn wir, mae'r rhaglen adnewyddu'r economi flaenllaw, a gyhoeddwyd gan y Ddirprwy Brif Weinidog ym mis Gorffennaf y llynedd, yn canolbwyntio ar y ddau beth hynny. Yn wir, dywedodd:

'Rydym am gadw a denu unigolion sy'n entrepreneuriaid ac yn meddu ar y sgiliau a'r uchelgais i lwyddo i greu cenedl gyfoes a deinamig.'

Fodd bynnag, nid yw rhethreg Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfateb i'r realiti na'r weithred. Wythnos neu ddwy yn ôl, clywsom am Michael Samuel, rheolwr gyfarwyddwr

director of a company from south Wales, who has been seeking a soft loan—just a soft loan—to support his business and to create hundreds of jobs in the south-Wales economy. He wants to build a new factory to develop modular eco homes, which fits nicely with the economic renewal programme. However, he is now thinking of walking away from Wales, because, despite every effort on his part to engage with the Assembly Government, he has simply been rejected, cast aside and not given the enthusiastic support that he deserves to create those jobs. Instead, he is thinking of going over the border into England, to Hull, because England has got its act together with regard to its economic development programme. That is perhaps why the Deputy First Minister's colleagues in the Assembly Government think that he has lost the confidence of the business community. He has been described by some people in the Labour Party as 'the One Wales weak link'. I will not comment on whether that is an accurate description of his tenure at the helm of the economy here in Wales, but we know that the economy has slipped back and that small and medium-sized enterprises—the backbone of our economy and key to growth in the private sector—are not getting the support that they need.

We welcomed the long-awaited publication of the economic renewal programme. We know that billions of pounds have been spent on economic development since devolution, but, despite that, the economy was still faring badly. It was absolutely clear that we needed a fundamental change in our approach to economic regeneration, and that is why we welcomed the programme. It places a great deal of emphasis on the role of devolved Government in creating the conditions and the environment in which the private sector can flourish, and that is something that we support. However, we are extremely disappointed and concerned that, since the big fanfare in July and the triumphalism with which you announced the economic renewal programme, not a single penny has been paid in business support to a single business in Wales under that programme. That is a shocking indictment of your failure to take economic regeneration seriously.

cwmni o dde Cymru, sydd wedi bod yn chwilio am fenthyciad meddal—benthyciad meddal yn unig—i gefnogi ei fusnes ac i greu cannoedd o swyddi yn economi de Cymru. Mae ef eisiau adeiladu ffatri newydd i ddatblygu tai eco modiwlwr, sy'n cyd-fynd i'r dim â rhaglen adnewyddu'r economi. Fodd bynnag, mae bellach yn ystyried gadael Cymru, oherwydd, er gwaethaf pob ymdrech ar ei ran i ymgysylltu â Llywodraeth y Cynulliad, cael ei wrthod, a'i daflu o'r neilltu a wnaeth, ac nid yw'n cael y gefnogaeth frwd y mae'n ei haeddu i greu'r swyddi hynny. Yn hytrach, mae'n ystyried mynd dros y ffin i Loegr, i Hull, am fod Lloegr wedi cael siâp ar bethau o ran ei rhaglen datblygu economaidd. Dyna'r rheswm efallai pam fod cydweithwyr y Dirprwy Brif Weinidog yn Llywodraeth y Cynulliad yn meddwl ei fod wedi colli hyder y byd busnes. Disgrifiwyd ef gan rai pobl yn y Blaid Lafur fel 'dolen wan Cymru'n Un'. Ni fyddaf yn gwneud sylwadau ar p'un a yw hwnnw'n ddisgrifiad hollol gywir am ei gyfnod wrth y llyw o ran yr economi yma yng Nghymru, ond gwyddom fod yr economi wedi llithro, ac nad yw busnesau bach a chanolig—sef asgwrn cefn ein heconomi ac elfen allweddol ar gyfer twf yn y sector preifat—yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Croesawn gyhoeddi rhaglen adnewyddu'r economi, a oedd yn hir-ddisgwyliedig. Gwyddom fod biliynau o bunnoedd wedi'u gwario ar ddatblygu economaidd ers datganoli, ond, er gwaethaf hynny, mae'r economi yn dal yn sigledig. Roedd yn gwbl glir bod arnom angen newid sylfaenol yn ein dull gweithredu o ran adnewyddu'r economi, ac felly dyna pam y croesawom y rhaglen. Mae'n rhoi llawer o bwyslais ar rôl y Llywodraeth ddatganoledig i greu'r amodau a'r amgylchedd cywir i'r sector preifat ffynnu ynddo, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei gefnogi. Fodd bynnag, rydym yn hynod o siomedig a phryderus, ers y sbloets fawr ym mis Gorffennaf a'r modd ymorchestol y cyhoeddwyd y rhaglen adnewyddu'r economi gennyh, nid oes yr un geiniog wedi'i thalu i un busnes yng Nghymru fel cymorth busnes, fel rhan o'r rhaglen honno. Mae hynny'n arwydd ysgytiol o'ch methiant i fod o ddifrif wrth ystyried adnewyddu'r economi.

4.45 p.m.

**Gareth Jones:** Will you take an intervention?

**Gareth Jones:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Darren Millar:** No, I will not, Gareth. Sit down. I love you very much, I really do, and I know that you are a keen supporter of the Welsh Conservatives, but on this occasion I need to move on.

**Darren Millar:** Na, ni wnaf, Gareth. Eisteddwch. Er cymaint rwy'n eich caru, a gwn eich bod yn gefnogwr brwd i Geidwadwyr Cymru, ond y tro hwn mae'n rhaid imi symud ymlaen.

Our economy remains in this fragile state, and it desperately needs all the support that it can get. Yet Labour and Plaid's flagship scheme is offering nothing. In addition, businesses in Wales are penalised by a rate relief scheme that is not as good as the assistance offered in Scotland, Northern Ireland or even England. We have the least competitive business rates environment in the whole of the United Kingdom. There is only one industry that does better in terms of business rates in Wales than it does anywhere else in the UK, and that is the windfarm industry. If you want to set up a windfarm, you have an incentive to do so in Wales, because of the planning regime and the business rates, but that is the only type of business that gets a better deal in Wales. That is pathetic. Small businesses account for three quarters of all private sector employment in Wales, and it is for these reasons that we have announced our proposals to scrap business rates for 75 per cent of small businesses. All small businesses with a rateable value of up to £12,000 would pay nothing at all under our proposals. Cutting business rates would help businesses to ride out the economic downturn caused predominantly by the Labour UK Government, and would also encourage small business start-ups by giving people the confidence to invest. That would give a huge boost to the Welsh economy and would allow people to create jobs, which is what we desperately need, given the state of our economy.

Mae ein heconomi yn parhau mewn cyflwr bregus, ac mae gwir angen yr holl gymorth y gall ei chael arni. Eto, nid yw cynllun arloesol Llafur a Phlaid Cymru yn cynnig dim. Yn ogystal, caiff busnesau yng Nghymru eu cosbi yn sgil cynllun rhyddhad ardrethi nad yw cystal â'r cymorth a gynigir yn yr Alban, Gogledd Iwerddon na hyd yn oed yn Lloegr. Mae gennym yr ardrethi busnes lleiaf cystadleuol yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Dim ond un diwydiant sy'n gwneud yn well o ran ardrethi busnes yng Nghymru nag y mae'n ei wneud yn unrhyw le arall yn y DU, a hwnnw yw'r diwydiant ffermydd gwynt. Os ydych am sefydlu fferm wynt, mae cymhelliad i chi wneud hynny yng Nghymru, oherwydd y gyfundrefn gynllunio a'r ardrethi busnes, ond dyna'r unig fath o fusnes sy'n cael bargaen dda yng Nghymru. Mae hynny'n druenus. Mae busnesau bach yn gyfrifol am dri chwarter cyflogaeth y sector preifat yng Nghymru, a dyna pam rydym wedi cyhoeddi ein cynigion i gael gwared ar ardrethi busnes ar gyfer 75 y cant o fusnesau bach. Ni fyddai pob busnes bach sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 yn talu dim o gwbl o dan ein cynigion ni. Byddai lleihau ardrethi busnes yn helpu busnesau i ddod drwy'r dirywiad economaidd a achoswyd gan Lywodraeth Lafur y DU yn bennaf, a byddai hefyd yn annog busnesau bach sy'n cychwyn drwy roi hyder i bobl fuddsoddi. Byddai hynny'n rhoi hwb enfawr i economi Cymru ac yn galluogi pobl i greu swyddi, sef yr hyn y mae gwir ei angen arnom, o ystyried cyflwr ein heconomi.

However, it is not just what we can do here that is important, but what is being done at a UK level. Businesses in Wales will already be benefitting from the budget

Fodd bynnag, yn ogystal â'r hyn y gallwn ni ei wneud, mae'r hyn sy'n cael ei wneud ar lefel y DU hefyd yn bwysig. Bydd busnesau yng Nghymru eisoes yn elwa yn sgil

announcements last week by the UK coalition Government. Last week, George Osborne talked of reforming the UK economy to ensure jobs and growth for the future while doing whatever he can to help families cope with cost-of-living increases. It was a budget for growth. As a result of the Chancellor's budget, around 10,000 of the poorest people in Wales will be taken out of tax altogether, corporation tax will be reduced, and nearly 6,000 young people will benefit from new work experiences through the work experience programme that will be established. That is not to mention the fact that fuel costs have been slashed, which will help pretty much every single business and family in the country. We have scrapped the proposed increase in fuel duty of the previous Labour Government, and thank goodness for that. As a result of the budget we will also have an additional £65 million in Barnett consequential, all as a result of the good work of the UK Conservative Government.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. If you wish to leave some time for your colleagues, you need to wind up.

**Darren Millar:** There is plenty of time, if I can get on with it, please.

If only we could say the same for Wales—those conditions need to be experienced in Wales. Deputy First Minister, you have had a challenge from the Secretary of State for Wales regarding the creation of enterprise zones, which is something that we on this side of the Chamber think that you should be getting on with as soon as possible. Instead, you have sat and dithered, as you have done with the manufacturing strategy and extra business rates support. Pull your finger out and get on with the job. You have not done it for the past four years. That is why we need a change in May.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

cyhoeddiadau Llywodraeth glymblaid y DU ynglŷn â'r gyllideb yr wythnos diwethaf. Soniodd George Osborne yr wythnos diwethaf am ddiwygio economi'r DU er mwyn sicrhau swyddi a thwf ar gyfer y dyfodol, a gwneud beth bynnag sy'n bosibl i helpu teuluoedd i ymdopi â'r cynnydd mewn costau byw. Roedd hi'n gyllideb ar gyfer twf. O ganlyniad i gyllideb y Canghellor, ni fydd tua 10,000 o'r bobl dlotaf yng Nghymru yn talu treth o gwbl, caiff y dreth gorfforaethol ei lleihau, a bydd bron i 6,000 o bobl ifanc yn elwa o brofiadau gwaith newydd trwy'r rhaglen profiad gwaith a sefydlir. Mae hyn yn ychwanegol at y ffaith bod lleihad mewn costau tanwydd, a fydd yn helpu bron pob busnes a theulu yn y wlad. Rydym wedi dileu'r cynnydd arfaethedig yn y dreth ar danwydd a gynigiwyd gan y Llywodraeth Lafur flaenorol, a diolch byth am hynny. Hefyd, o ganlyniad i'r gyllideb, bydd gennym £65 miliwn o symiau canlyniadol Barnett, y cyfan o ganlyniad i'r gwaith da a wneir gan Lywodraeth Geidwadol y DU.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Os ydych am roi rhywfaint o amser i'ch cydweithwyr, mae angen ichi ddirwyn i ben.

**Darren Millar:** Mae digon o amser, os gallaf barhau â hyn, os gwelwch yn dda.

Mae'n biti na allwn fod yr un mor obeithiol yng Nghymru—mae angen i Gymru brofi rhai o'r amodau hynny. Ddirprwy Brif Weinidog, rydych wedi cael her gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch creu parthau menter, sy'n rhywbeth yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu y dylech ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Yn lle hynny, rydych wedi eistedd a phetruso, fel y gwnaethoch gyda'r strategaeth weithgynhyrchu a'r gefnogaeth ychwanegol o ran ardrethi busnes. Mae'n amser i chi gyflawni rhywbeth. Nid ydych wedi gwneud hynny dros y pedair blynedd diwethaf. Dyna pam y mae arnom angen newid ym mis Mai.

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Delete all and replace with:*

*The National Assembly for Wales:*

- |   |   |
|---|---|
| <p>1. Yn nodi'r angen i gynyddu GYC Cymru o'r lefelau cyfredol o 74.3% o gyfartaledd y DU ledled Cymru a 62.6% yn y Gorllewin a'r Cymoedd.</p> <p>2. Yn nodi pwysigrwydd ystyried amrywiaeth ehangach o ddangosyddion na GYC y pen yn unig, er mwyn cael darlun cytbwys o economi Cymru.</p> <p>3. Yn cydnabod cynllun Llywodraeth y Cynulliad i greu economi gryfach, fwy cynaliadwy drwy weithredu Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd.</p> | <p>1. Notes the need to increase Welsh GVA from the current levels of 74.3% of the UK average across Wales and 62.6% in West Wales and the Valleys.</p> <p>2. Notes the importance of considering a broader range of indicators than GVA per head alone, to obtain a balanced picture of the Welsh economy.</p> <p>3. Recognises the Welsh Assembly Government's plan to create a stronger, more sustainable economy through the implementation of Economic Renewal: A New Direction.</p> |
|---|---|

**Y Diprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Cynigiau welliant 1.

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** I move amendment 1.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn credu, er mwyn creu swyddi a gwella ein heconomi, bod angen i ni gynnig £2000 i gwmnïau ar gyfer hyfforddi staff os ydynt yn rhoi swyddi i bobl ifanc ddi-waith ac yn sefydlu Rhaglen Arloesi er mwyn buddsoddi yn y seilwaith sydd ei angen ar economi lewyrchus.*

*Believes that to create jobs and improve our economy we need to offer companies £2000 for staff training if they provide jobs to unemployed young people and set up an Innovation Programme to invest in the infrastructure a prosperous economy needs.*

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Amendment 3 Peter Black*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio â Llywodraeth y DU i sefydlu Parthau Menter yng Nghymru, gan ddefnyddio arian canlyniadol fel sail ar gyfer y rhaglen hon.*

*Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to establish Enterprise Zones in Wales, using consequential funding as the basis for this programme.*

**Jenny Randerson:** I move amendments 2 and 3.

**Jenny Randerson:** Cynigiau welliannau 2 a 3.

As this is my last speech in this Assembly, I hope that colleagues will indulge me by allowing me to thank them as colleagues across parties for all their support and friendship over the years. I particularly want to thank the staff who have assisted us. They work largely invisibly behind the scenes, and their expertise and unfailing helpfulness has been invaluable. When I made the decision to step down last May, it was the most difficult decision of my life. It was made long before I knew that I would be given the opportunity of

Gan mai hon yw fy araith olaf yn y Cynulliad hwn, rwy'n gobeithio y bydd fy nghydweithwyr yn caniatáu imi ddiolch iddynt fel cydweithwyr drwy'r pleidiau am eu holl gefnogaeth a'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Rwy'n arbennig o awyddus i ddiolch i'r staff sydd wedi ein cynorthwyo. Maent yn gweithio yn anweledig bron y tu ôl i'r llenni, ac mae eu harbenigedd a'u parodrwydd i helpu wedi bod yn amhrisiadwy. Pan wnes y penderfyniad i roi'r gorau i'r swydd fis Mai diwethaf, hwn oedd y



a new career at Westminster. It was difficult because it has been an enormous privilege to represent Cardiff Central in the first three Assemblies. I never walk through my constituency without feeling a sense of pride at representing such a vibrant and diverse constituency. I wish to record my grateful thanks to my constituents for their support and for trusting me with representing them. I hope that they feel that I have done a decent job for them. I believe that we can be justly proud of the way in which the Assembly has developed, and I have been proud, in opposition and in Government, to have played my part.

In moving the Welsh Liberal Democrats' amendments 2 and 3, I wish to say that we share the Conservatives' concern that the Plaid-Labour Government has failed to stimulate and develop our economy in the way in which the hard-working people of Wales deserve. I will not go into the details of the statistics, which Darren has talked about at some length. I want to emphasise instead that, in the UK budget, instruments were placed in the hands of the Welsh Assembly Government to enable it to encourage economic growth, and those instruments are greatly welcomed. The £65 million in Barnett consequentials in the budget is not inconsiderable. We should remember that that budget also addressed the concerns that the Welsh Assembly Government had expressed on end-year flexibility. The so-called budget exchange will work in a very similar manner. Therefore, funding is available for the Assembly Government to do that bit extra for the economy—and goodness knows our economy needs stimulation.

The real issue is whether the next Assembly Government will be up for the challenge. Will it be more ready for the challenge than the Government that we have had for the past four years? I can tell you this: if the Welsh Liberal Democrats are part of the next Assembly Government, we will certainly be up for the challenge, and we will seize the opportunities that the UK Government has given us to create enterprise zones. I would

penderfyniad anoddaf i mi ei wneud yn fy mywyd. Fe'i gwnaed ers amser cyn i mi wybod y byddwn yn cael y cyfle i gael gyrfa newydd yn San Steffan. Roedd yn benderfyniad anodd oherwydd ei bod wedi bod yn fraint enfawr i gynrychioli Canol Caerdydd yn y tri Chynulliad cyntaf. Ni allaf gerdded drwy fy etholaeth heb deimlo balchder o fod yn cynrychioli etholaeth mor fywiog ac amrywiol. Hoffwn gofnodi fy niolch i fy etholwyr am eu cefnogaeth ac am ymddiried ynof i'w cynrychioli. Gobeithio y byddant yn teimlo fy mod wedi gwneud gwaith teilwng drostynt. Rwy'n credu y gallwn fod yn haeddiannol falch o'r ffordd y mae'r Cynulliad wedi datblygu, ac rwyf wedi bod yn falch, fel gwrthblaid ac wrth fod yn y Llywodraeth, i fod wedi chwarae fy rhan.

Wrth gynnig gwelliannau 2 a 3 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, hoffwn ddweud ein bod yr un mor bryderus â'r Ceidwadwyr bod y Llywodraeth Lafur a Phlaid Cymru wedi methu ag ysgogi a datblygu ein heconomi yn y ffordd y mae pobl weithgar Cymru yn ei haeddu. Nid wyf am fanylu ynghylch yr ystadegau, oherwydd y mae Darren wedi sôn am y rheini. Yn lle hynny rwyf am bwysleisio, yng nghyllideb y DU, gosodwyd offerynnau yn nwylo Llywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi iddi annog twf economaidd, a chroesawyd yr offerynnau hynny'n gynnes iawn. Nid oedd y £65 miliwn o ran symiau canlyniadol Barnett yn y gyllideb yn ansylweddol. Dylem gofio fod y gyllideb hon hefyd yn mynd i'r afael â'r pryderon y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u mynegi mewn cysylltiad â'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Bydd yr hyn a elwir yn gyfnewid cyllideb yn gweithio mewn modd tebyg iawn. Felly, mae arian ar gael ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad i wneud ei rhan fach ychwanegol dros yr economi—a dyn a wŷr, mae angen symbyliad ar ein heconomi.

Y mater gwirioneddol yw a fydd Llywodraeth nesaf y Cynulliad yn barod am yr her. A fydd yn fwy parod am yr her na'r Llywodraeth yr ydym wedi ei chael dros y pedair blynedd diwethaf? Gallaf ddweud hyn wrthyhch: pe bai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn rhan o Lywodraeth nesaf y Cynulliad, byddwn yn sicr yn barod am yr her, a byddwn yn manteisio ar y cyfleoedd y mae Llywodraeth y DU wedi'u rhoi i ni greu

stress to everyone in the Chamber that, if enterprise zones are to be created in Wales, it is essential that that is done as soon as possible, because they are already on the way in England, and we need to be ahead of the game and not limping along behind. It would be ideal if the Deputy First Minister could give a commitment or a statement of intent this afternoon that the Assembly Government, as it currently exists, would create enterprise zones. That would give us cross-party agreement on this in the Assembly, and it would be a good, strong sign to businesses that, no matter which party is in Government, there will be enterprise zones in Wales and they should therefore be planning their investment accordingly.

Turning to tax-increment financing, we need to be rushing ahead with that now. The establishment of a Welsh stock exchange is an idea that has been kicking around for two or three years, since I first suggested it. The Welsh Assembly Government endorses it, the First Minister made it part of his election campaign for leader of the Labour Party, and yet we have seen nothing of it. Will the Government, as it stands, endorse those mechanisms and produce some new and fresh ideas? I hope that we will hear something about that this afternoon.

On the Government's amendment 1, I want simply to comment that I take it as a kind of backhanded seal of approval of the UK Government that the amendment is silent on the state of the UK Government's budget. Finally, I thank the Conservatives for tabling the motion. It is a pity that Conservative economic literacy seems to stop at the border. I believe that the Welsh Conservatives have placed themselves in an impossible position by stating that they would ring-fence the budget of the national health service, because that would lead to massive cuts in the education budget. The Welsh Liberal Democrats put education first.

parthau menter. Hoffwn bwysleisio wrth bawb yn y Siambr, os caiff parthau menter eu creu yng Nghymru, mae'n hanfodol bod hynny'n digwydd cyn gynted ag y bo modd, oherwydd y maent eisoes ar y gweill yn Lloegr, ac mae angen inni fod ar flaen y gad ac nid yn cloffi y tu ôl i bawb arall. Byddai'n ddelfrydol pe gallai'r Dirprwy Brif Weinidog roi ymrwymiad neu ddatganiad o fwriad y prynhawn yma y byddai Llywodraeth y Cynulliad, fel y mae ar hyn o bryd, yn creu parthau menter. Byddai hynny'n rhoi cytundeb trawsbleidiol i ni ar hyn yn y Cynulliad, a byddai'n arwydd sicr a chryf i fusnesau, ni waeth pa blaid sydd mewn Llywodraeth, y bydd parthau menter yng Nghymru ac y dylent felly fod yn cynllunio eu buddsoddiad yn unol â hynny.

Gan droi at ariannu drwy gynyddrannau treth ariannu, rhaid inni ruthro ymlaen â hynny yn awr. Mae sefydlu cyfnewidfa stoc yng Nghymru yn syniad a fu'n cronni ers dwy neu dair blynedd, ers i mi ei awgrymu gyntaf un. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gefnogi, roedd yn rhan o ymgyrch etholiadol y Prif Weinidog ar gyfer ei rôl fel arweinydd y Blaid Lafur, ac eto nid ydym wedi'i weld ar waith. A fydd y Llywodraeth, fel y mae, yn cefnogi'r mecanweithiau hynny ac yn cynnig rhywfaint o syniadau newydd a ffres? Rwy'n gobeithio y clywn rywbeth ynglŷn â hynny y prynhawn yma.

O ran gwelliant 1 y Llywodraeth, rwyf am ddweud yn syml fy mod yn ei ystyried fel rhyw fath o gymeradwyaeth i Lywodraeth y DU bod y gwelliant yn dawel o ran cyflwr cyllideb Llywodraeth y DU. Yn olaf, diolchaf i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r cynnig. Mae'n drueni ei bod yn ymddangos bod llythrennedd economaidd y Ceidwadwyr fel pe bai'n dod i stop wrth y ffin. Credaf fod Ceidwadwyr Cymru wedi creu sefyllfa amhosibl iddynt eu hunain drwy ddatgan y byddent yn neilltuo cyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol, oherwydd byddai hynny'n arwain at doriadau enfawr yn y gyllideb addysg. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn rhoi'r flaenoriaeth i addysg.

**Mark Isherwood:** Billions of pounds have been blown on keeping Wales at the bottom of the UK economic league table, delivering less for more. The gulf between the richest and the poorest is at its widest since the second world war, and Wales has the highest levels of child poverty and the lowest economic activity levels in the UK. Wales has the poorest figures for GVA wealth creation among the UK's devolved nations and the English regions, and has been at the bottom since 1998. The West Wales and the Valleys region, which includes four north Wales counties, has the lowest GDP per capita of all UK regions, leaving it poorer now than some parts of eastern Europe.

The Labour-led Welsh Government had to abandon its target to grow Welsh GVA per capita to 90 per cent of the UK average by 2010 when it fell by 3 per cent to just 74.3 per cent during the first decade of devolution. Labour apologists point out that gross domestic household income per capita in Wales has increased as a percentage of the UK average, but they fail to mention that Wales went from being third from bottom to second from bottom among the devolved nations and English regions in 2006, where it has since remained.

Labour and Plaid Cymru now try to blame everything on a UK coalition Government that took over from Labour less than a year ago. The socialist parties described the UK coalition Government's deficit reduction plan as ideological, and their supporters seem to think that it is okay to spend today by borrowing against the future earnings of our children. In the real world, the world financial watchdog, the Bank for International Settlements, said that when the UK entered the global financial crisis, the shock absorber had already been used up, exposing rot in the UK's finances. It added that the UK faced the highest structural deficit of OECD countries, with a risk that public debt would explode out of control. The International Monetary Fund has described the UK Government's deficit reduction plan

**Mark Isherwood:** Mae biliynau o bunnoedd wedi'u gwario'n afradlon ar gadw Cymru ar waelod tabl cynghrair economaidd y DU, yn darparu llai am fwy. Mae'r bwlch rhwng y bobl gyfoethocaf a thlotaf ar ei fwyaf ers yr ail ryfel byd, a chan Gymru y mae'r lefelau uchaf o dlodi plant a'r lefel isaf o weithgarwch economaidd yn y DU. Gan Gymru y mae'r ffigurau gwaethaf o ran creu cyfoeth gwerth ychwanegol crynswth o'r gwledydd datganoledig yn y DU a rhanbarthau Lloegr, a bu yn y sefyllfa hon ers 1998. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n cynnwys pedair sir yng ngogledd Cymru, y mae'r cynnyrch mewnwladol crynswth isaf y pen o holl ranbarthau'r DU, sy'n golygu eu bod yn dlotach yn awr na rhai rhannau o ddwyrain Ewrop.

Bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru o dan arweiniad y Blaid Lafur roi'r gorau i'w tharged i gynyddu gwerth ychwanegol crynswth y pen yng Nghymru, i 90 y cant o gyfartaledd y DU erbyn 2010 pan syrthiodd 3 y cant i ddim ond 74.3 y cant yn ystod degawd cyntaf datganoli. Mae'r rhai sy'n ymddiheuro ar ran y Blaid Lafur yn nodi bod incwm aelwydydd crynswth i'w wario, y pen, yng Nghymru wedi cynyddu fel canran o gyfartaledd y DU, ond maent yn anghofio sôn bod Cymru wedi symud o fod yn drydydd o'r gwaelod i fod yn ail o'r gwaelod ymysg y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr yn 2006, a'i bod hi wedi aros yno ers hynny.

Mae'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru bellach yn ceisio rhoi'r bai ar Lywodraeth glymblaid y DU, a gymerodd yr awenau oddi wrth y Blaid Lafur lai na blwyddyn yn ôl, am bopeth. Disgrifiodd y pleidiau sosialaidd gynllun lleihau dyled Llywodraeth glymblaid y DU fel ideoleg, ac mae eu cefnogwyr fel pe baent yn credu ei bod yn iawn i wario heddiw drwy fentyca yn erbyn enillion ein plant yn y dyfodol. Yn y byd go iawn, dywedodd y corff gwarchod dros y byd ariannol, y Banc Setliadau Rhyngwladol, pan ddaeth y DU yn rhan o'r argyfwng ariannol byd-eang, defnyddiwyd y mesurau lliniaru eisoes, a datgelwyd pydredd yng nghyllid y DU. Ychwanegodd y byddai'r diffyg strwythurol mwyaf o holl wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn wynebu'r DU, gyda risg y gallai ei dyled

as essential, while the Institute for Fiscal Studies has said that the UK Government should not relax its plans to reduce budget deficits, as to do so would be ineffective in helping the economy and could lead to higher, job-destroying interest rates. Both the Organisation for Economic Co-operation and Development and the Governor of the Bank of England have called on the UK coalition to stay the course.

The first thing, therefore, that I want to hear from the Labour Party in London and Cardiff is for it to say 'sorry' for the mess that it has left us in. Ed Balls has in fact now said sorry for Labour's failure to regulate the banks, but that does not really go to the heart of the matter. Gordon Brown came to believe that he had abolished the economic cycle and therefore proceeded recklessly during the runaway boom years when he should have been saving for a rainy day. Ed Balls is right to state that our historical debt position was not outrageous, but we were running record deficits when we need not have done, and we were much too reliant on speculative income from the financial sector. I worked in that sector, and it had been hijacked by risk-denying non-bankers. I was tireless in reminding people of the risks ahead accordingly. At no point has any senior member of the UK Shadow Cabinet, or this Government, tackled this head on.

**Brian Gibbons:** Is that why, just before the economic crisis hit us in 2008, the Conservative Party in both Houses at Westminster promised to replicate Labour's spending plans? If what you are saying is true, that the Conservative Party was opposed to this, why was it promising consistently to replicate and match Labour's plans?

**Mark Isherwood:** My recollection is that it said that it would share the proceeds of growth—I think that that was the phrase

gyhoeddus fynd y tu hwnt i bob rheolaeth. Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol wedi disgrifio cynllun lleihau dyled Llywodraeth y DU fel rhywbeth hanfodol, tra bod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud na ddylai Llywodraeth y DU lacio ei chynlluniau i leihau diffygion cyllidebol, gan y byddai gwneud hynny yn aneffeithiol o ran helpu'r economi, a gallai arwain at gyfraddau llog uwch a fyddai'n dinistrio swyddi. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad a Llywodraethwr Banc Lloegr wedi galw ar glymblaid y DU i barhau i weithredu fel y mae.

Y peth cyntaf, felly, rwyf am ei glywed gan y Blaid Lafur yn Llundain a Chaerdydd yw eu bod yn ymddiheuro am y llanast y mae wedi ein gadael ynddo. Mae Ed Balls wedi dweud erbyn hyn ei bod yn ddrwg ganddo am fethiant Llafur i reoleiddio'r banciau, ond nid yw hynny'n mynd at wraidd y mater yn wir. Daeth Gordon Brown i gredu ei fod wedi cael gwared ar y cylch economaidd ac fe aeth ymlaen yn ddi-hid yn ystod y blynyddoedd ffyniannus, pan ddylai fod wedi bod yn cynilo ar gyfer y dyfodol. Mae Ed Balls yn gywir pan ddywed nad yw sefyllfa ein dyled hanesyddol yn warthus, ond mae gennym ddyledion na welwyd mo'u tebyg ac nid oes esgus drostynt, ac roeddem yn llawer rhy ddibynnol ar incwm hapfasnachol gan y sector ariannol. Bûm yn gweithio yn y sector hwnnw, ac mae rhai nad ydynt yn fancwyr ac nad ydynt yn hidio dim am gymryd risgiau, yn bla ynddo. Byddwn wrthi'n ddiffino'n atgoffa pobl am beryglon cymryd risgiau. Nid oes unrhyw uwch aelod o Gabinet yr Wrthblaid y DU, na'r Llywodraeth hon, wedi mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol ar unrhyw adeg.

**Brian Gibbons:** Ai dyna pam, yn union cyn i'r argyfwng economaidd presennol ein taro yn 2008, fod y Blaid Geidwadol yn y ddau Dŷ yn San Steffan wedi addo copïo cynlluniau gwario Llafur? Os yw'r hyn a ddywedwch yn wir, bod y Blaid Geidwadol yn gwrthwynebu hyn, pam oedd hi'n addo'n gyson i ailadrodd a chopïo cynlluniau Llafur?

**Mark Isherwood:** Fy atgof yw ei bod yn dweud y byddai'n rhannu enillion y twf—credaf mai dyna oedd yr ymadrodd a

used.

**Brian Gibbons:** No, I am sorry, Mark—

**Mark Isherwood:** That was the phrase that was used. I can tell you that, in this Assembly in 2004, I am on the record as having warned that we were heading for a car crash of massive proportions. That is all in the Record of Proceedings, if you wish to check.

The argument that the coalition is therefore taking a reckless gamble with our future lacks credibility. Labour was incredibly slow to acknowledge the dangers posed by the deficit, but it still cannot come up with any cut that it would make in public spending, despite being committed to at least 80 per cent of the UK coalition's spending cuts, and that is growing, as commitments are made almost daily.

Wales will receive an additional £65 million as a result of the UK budget, and the Welsh Conservatives would invest this money in social and economic regeneration, working with business to build for growth in Wales and to help those most in need of support. Corporation tax reductions will support business, and changes to personal tax allowances will take another 10,000 of some of the poorest people in Wales out of tax altogether.

5.00 p.m.

**Gareth Jones:** You say that others should be sorry, but what about the money that has been stolen by the Treasury from end-of-year flexibility, which I believe amounts to £384 million? Also, what about the £100 million that we are losing through the housing revenue account, and the £300 million per year that we are not getting as a result of the Barnett formula? Who is going to say sorry to whom? We are losing millions of pounds in Wales simply through the action of your Government in London.

ddefnyddiwyd.

**Brian Gibbons:** Na, mae'n flin gennyf, Mark—

**Mark Isherwood:** Dyna oedd yr ymadrodd a ddefnyddiwyd. Gallaf ddweud wrthyf, yn y Cynulliad hwn yn 2004, mae cofnod ar gael fy mod wedi rhybuddio ein bod yn symud tuag at gwmp enfawr. Mae hynny yng Nghofnod y Trafodion, os ydych am wirio hynny.

Felly mae diffyg hygredd i'r ddadl bod y glymblaid yn cymryd gambl ddi-hid â'n dyfodol. Roedd y Blaid Lafur yn hynod o araf yn cydnabod y peryglon a achoswyd gan y ddyled, ac mae'n parhau i fethu â dweud lle y byddai'n gwneud unrhyw doriad mewn gwariant cyhoeddus, er gwaetha'r ffaith ei bod yn ymrwymedig i o leiaf 80 y cant o doriadau gwariant clymblaid y DU, ac mae'r canran hwnnw'n tyfu, oherwydd gwneir ymrwymadau yn ddyddiol bron.

Bydd Cymru'n cael £65 miliwn yn ychwanegol o ganlyniad i gyllideb y DU, a byddai Ceidwadwyr Cymru'n buddsoddi'r arian hwn ar gyfer adfywio cymdeithasol ac adnewyddu'r economi, gan weithio gyda busnesau i adeiladu ar gyfer twf yng Nghymru ac i gynorthwyo'r rhai sydd fwyaf angen cymorth. Byddai gostyngiadau mewn trethi corfforaethol yn cefnogi busnes, a byddai newidiadau i lwfansau treth personol yn golygu na fydd 10,000 eraill o'r bobl dlotaf yng Nghymru yn talu trethi o gwbl.

**Gareth Jones:** Dywedwch y dylai eraill fod yn ymddiheuro, ond beth am yr arian sydd wedi cael ei ddwyn gan y Trysorlys o'r arian hyblygrwydd diwedd blwyddyn, sy'n gyfanswm o £384 miliwn, rwy'n credu? Hefyd, beth am y £100 miliwn rydym yn ei gollu drwy'r cyfrif refeniw tai, a'r £300 miliwn y flwyddyn nad ydym yn ei gael o ganlyniad i fformiwla Barnett? Pwy sydd am ymddiheuro wrth bwy? Rydym yn colli miliynau o bunnoedd yng Nghymru yn syml yn sgîl camau gweithredu eich Llywodraeth yn Llundain.

**Mark Isherwood:** Yes, you are quite right. The Labour Party should apologise. It brought in amendments in England in 2001 that it never implemented in Wales. Both Governments failed. Both Governments blew that £100 billion. Thankfully, the UK Government is now taking measures to address the deficit in the housing revenue account, as it has in England, where local authorities will now be able to retain that money for new affordable housing. It is a disgrace and a betrayal on their part. They did nothing to deliver on the Holtham report. Again, the UK Government is now taking that forward. Thank goodness for that. Yes, Gareth, you highlight important points. Yes, we have been betrayed.

**The Deputy Presiding Officer:** Could you start winding up, please?

**Mark Isherwood:** I will conclude by saying that it is time for a new voice and that it is time for a change. We cannot carry on as we are.

**Rhodri Morgan:** This is also my last speech in the Assembly. I would like to echo the goodbyes and compliments paid to everyone who has participated over the last 12 years, including you, Deputy Presiding Officer, although I know that you are not retiring and I am glad to see that.

Some 15 days ago, Stephanie Flanders, the BBC's economics editor, who is certainly no admirer of Gordon Brown or Ed Balls, made an interesting comment. She said that if you look at the GDP figures for the period from 1997 to 2010, you will see that the figure for Great Britain rose by 17 per cent per capita, although Wales did not fully share in that. Meanwhile, the USA had a 15 per cent increase, Germany had a 14 per cent increase and Japan had a 10.5 per cent increase. Those are average figures over those 13 years. As I said, Wales did not share fully in that. However, if you take the figure that has been adduced by the Conservatives today, namely a 3 per cent shortfall in performance for Wales, it would still give us a figure considerably in advance of Japan, and on a par with Germany. Wales did not share the full benefits of the extraordinary 11-year

**Mark Isherwood:** Rydych yn llygad eich lle. Dylai'r Blaid Lafur ymddiheuro. Cyflwynodd newidiadau yn Lloegr yn 2001 na weithredwyd yng Nghymru erioed. Methodd y ddwy Lywodraeth. Gwariwyd y £100 biliwn yn afradlon gan y ddwy Lywodraeth. Diolch byth, mae Llywodraeth y DU yn awr yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyfrif refeniw tai, fel y gwnaethpwyd yn Lloegr, lle y gall awdurdodau lleol yn awr gadw'r arian ar gyfer tai fforddiadwy newydd. Mae'n warth ac yn frad ar eu rhan. Ni wnaethant ddim i gyflawni'r hyn a nodwyd yn adroddiad Holtham. Unwaith eto, mae Llywodraeth y DU yn awr yn bwrw ymlaen â hynny. Diolch am hynny. Do, Gareth, fe dynnwyd sylw at bwyntiau pwysig gennych. Do, fe'n bradychwyd.

**Y Dirprwy Lywydd:** A oes modd i chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Mark Isherwood:** Rwyf am gloi drwy ddweud ei bod yn bryd cael llais newydd ac mae'n bryd cael newid. Ni allwn barhau fel yr ydym.

**Rhodri Morgan:** Hon yw fy araith olaf yn y Cynulliad hefyd. Hoffwn ategu'r ffarwelio a'r ganmoliaeth i bawb sydd wedi cymryd rhan dros y 12 mlynedd diwethaf, gan eich cynnwys chi, Ddirprwy Lywydd, er fy mod yn gwybod nad ydych yn ymddeol ac rwy'n falch o hynny.

Tua 15 diwrnod yn ôl, gwnaeth Stephanie Flanders, golygydd materion economaidd y BBC, sy'n sicr ddim yn un o edmygwyr Gordon Brown nac Ed Balls, sylw diddorol. Dywedodd, os edrychwch ar y ffigurau cynnyrch domestig gros ar gyfer y cyfnod rhwng 1997 a 2010, fe welwch fod y ffigur ar gyfer Prydain Fawr wedi codi 17 y cant y pen, er nad oedd gan Gymru ran lawn yn hynny. Yn y cyfamser, roedd cynnydd o 15 y cant yn Unol Daleithiau'r America, 14 y cant yn yr Almaen a chynnydd o 10.5 y cant yn Siapan. Mae'r rhain yn ffigurau cyfartalog dros y 13 mlynedd hynny. Fel y dywedais, nid oedd gan Gymru ran lawn yn hynny. Fodd bynnag, os cymerir y ffigur a ddyfynnwyd gan y Ceidwadwyr heddiw, sef diffyg o 3 y cant ym mherfformiad Cymru, byddai'n dal i ddangos ffigur sylweddol uwch i ni na Siapan, a ffigur ar yr un lefel â'r

period of sustained growth seen until the recession hit in 2008. However, even if the period through to 2010 is analysed, Wales's performance was on a par with Germany's, far ahead of Japan's, just behind the USA's, though not as good as that of the rest of the United Kingdom.

Unfortunately, in that extraordinarily long period of low unemployment and low inflation, the likes of which had never been seen before, a property bubble developed. Probably the worst thing that the last Conservative Government did in its final years was to demutualise the building societies, or to give them every encouragement to demutualise. Many of those former building societies, such as Northern Rock, Bradford and Bingley and the Halifax, acted like children in a sweet shop. It was very sad to see. All of the bailout money tended to be pumped into saving institutions that had helped to wreck the British economy—money pumped into Newcastle for Northern Rock, and into Bradford and into Halifax for the others, but not into Wales. We had no bailouts. It is quite strange, really, when you think about it. Our mutual institutions remained mutual. If only the Conservatives had not encouraged those former building societies to act like children in a sweet shop or bulls in a china shop, it is possible that Britain would have avoided the property blow-up that caused the financial crisis.

What really happened to the Welsh economy during that period? Were we squeezed out? There is a fair point to be made that we were squeezed between Ireland and its low corporation tax of 12.5 per cent—which is still there today and is very attractive to software-type industries—and eastern Europe and China, which sucked eastward the oily-rag industries that we had depended on a great deal. We did not really have a market niche in which we could operate. Until Ireland abandons that ultra-low, hyper-competitive corporation tax rate of 12.5 per cent, I am not sure whether we are going to

Almaen. Nid oedd Cymru yn rhannu manteision llawn y cyfnod 11 mlynedd rhyfeddol o dwf parhaus a gafwyd nes i'r dirwasgiad daro yn 2008. Fodd bynnag, hyd yn oed os dadansoddir y cyfnod hyd at 2010, roedd perfformiad Cymru ar yr un lefel â'r Almaen, ymhell ar y blaen i Siapan, ychydig yn is na'r UDA, ond nid cystal â gweddill y Deyrnas Unedig.

Yn anffodus, yn y cyfnod hynod o hir hwnnw o ddiweithdra isel a chwyddiant isel, na welwyd mo'i debyg o'r blaen, roedd swigen yn chwyddo ym maes eiddo. Mae'n debyg mai'r peth gwaethaf a wnaeth y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf yn ystod ei blynnyddoedd olaf oedd dadgydfuddiannu'r cymdeithasau adeiladu, neu roi pob anogaeth iddynt i ddadgydfuddiannu. Roedd llawer o'r cymdeithasau adeiladu gynt hynny, fel Northern Rock, Bradford & Bingley a'r Halifax, yn ymddwyn fel plant mewn siop losin. Roedd yn drist iawn gweld hynny. Tueddai'r holl arian help llaw i gael ei gyfeirio i achub sefydliadau a oedd wedi cyfrannu tuag at ddinistrio economi Prydain—arian a gyfeiriwyd i Newcastle ar gyfer Northern Rock, ac i Bradford a Halifax ar gyfer y lleill, ond nid i Gymru. Nid oedd dim help llaw ar ein cyfer ni. Mae'n beth eithaf rhyfedd, mewn gwirionedd, pan feddylwch am y peth. Arhosodd ein sefydliadau cydfuddiannol ni yn gydfuddiannol. Pe bai'r Ceidwadwyr ond wedi peidio ag annog y cymdeithasau adeiladu gynt hynny i weithredu fel plant mewn siop losin neu deirw mewn siop lestri, fel petai, mae'n bosibl y byddai Prydain wedi osgoi gweld yr yswigen eiddo'n chwythu i'r eithaf a achosodd yr argyfwng ariannol.

Beth ddigwyddodd mewn gwirionedd i economi Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw? A gawsom ein gwasgu? Mae'n deg dweud ein bod wedi cael ein gwasgu gan Iwerddon a'i threth gorfforaethol isel o 12.5 y cant—sy'n bodoli yno hyd heddiw ac sy'n ddeniadol iawn i ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â meddalwedd—a dwyrain Ewrop a Tsieina, sydd wedi sugno'r diwydiannau trwm, yr oeddem wedi dibynnu llawer iawn arnynt, tua'r dwyrain. Nid oedd gennym, mewn gwirionedd, farchnad arbenigol i weithredu ynddi. Nes bod Iwerddon yn rhoi'r gorau i'r dreth

see—[*Interruption.*] I give way to Darren Millar.

**Darren Millar:** You made reference to the loss of jobs—mainly manufacturing jobs—to eastern Europe and beyond. Do you not, therefore, think that it was all the more important for us to have a manufacturing strategy over the last four years, and yet we have not had one?

**Rhodri Morgan:** I think that these processology questions about strategy interest no-one other than the Conservative Party, to be honest. The questions are about markets. What market are we in? Do we have a niche for the future of Wales? You are backward-looking today. You are looking at what happened over the past 10 years and are saying that the Conservative and Lib Dem coalition has now brought in enterprise zones. Geoffrey Howe tried those in 1981. Did they bring a lot of new jobs to the Swansea enterprise zone? Well, they brought many out-of-town shops and one manufacturing industry, which was Alberto Culver, as I recall. In general, it was Allied Carpets and all of the other out-of-town shops that moved there. If it has been tried before and it did not produce jobs then, and if it did not produce the mini Hong Kong that we were all promised by Geoffrey Howe, why try it again now and pretend that it is an original and new idea? What you are doing is looking backwards, but I think that you should be trying to look forward and analyse the real causes

It is not about the absence of a written manufacturing strategy, it is about what the market niche is for Wales. As Michael Porter, the famous economics guru said, never be caught in the middle. You should try to be high class, high price and high cost at the top, as Germany is, or you should try to be the lowest cost commodity at the bottom, such as China and, to some extent, eastern Europe, Turkey, and the other competitive countries that have eaten our lunch, if you like, and have caused companies like Sony, Panasonic,

gorfforaethol isel a chystadleuol iawn sydd ganddi o 12.5 y cant, nid wyf yn sicr a gawn ni—[*Torri ar draws.*] Ildiaf i Darren Millar.

**Darren Millar:** Roeddech yn cyfeirio at golli swyddi, sef swyddi gweithgynhyrchu'n bennaf, i ddwyrain Ewrop a thu hwnt. Onid ydych, felly, yn credu roedd yn bwysicach byth fod gennym strategaeth gweithgynhyrchu dros y pedair blynedd diwethaf, ac eto nid oes gennym strategaeth o'r fath?

**Rhodri Morgan:** Nid wyf o'r farn fod y cwestiynau proses-oleg hyn ynghylch strategaeth o ddiddordeb i neb ar wahân i'r Blaid Geidwadol, i ddweud y gwir. Mae'r cwestiynau yn ymwneud â marchnadoedd. Ym mha farchnadoedd ydym? A oes gennym droedle ar gyfer dyfodol Cymru? Rydych yn edrych yn ôl lawer iawn heddiw. Rydych yn edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf ac yn dweud bod clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol bellach wedi cyflwyno parthau menter. Rhoddodd Geoffrey Howe gynnig arnynt ym 1981. A ddaethant â llawer o swyddi newydd i ardal fenter Abertawe? Wel, daethant â llawer o siopau y tu allan i'r dref ac un diwydiant gweithgynhyrchu, sef Alberto Culver, fe gofiau. Yn gyffredinol, Allied Carpets a'r holl siopau eraill y tu allan i'r dref a symudodd yno. Os ydym wedi rhoi cynnig arni yn y gorffennol ac nid oedd yn creu swyddi bryd hynny, ac os nad oedd yr Hong Kong bychan a addawyd i ni gan Geoffrey Howe wedi'i wireddu, pam ydym yn rhoi cynnig arni eto yn awr gan esgus ei fod yn syniad newydd a gwreiddiol? Rydych yn edrych yn ôl, ond credaf y dylech fod yn ceisio edrych ymlaen a dadansoddi'r achosion gwirioneddol.

Nid yw'n ymwneud â diffyg strategaeth ysgrifenedig ar weithgynhyrchu, mae'n ymwneud â beth yw'r farchnad benodol ar gyfer Cymru. Fel y dywedodd Michael Porter, yr arbenigwr enwog ar economeg, peidiwch byth â chael eich dal yn y canol. Dylech geisio bod yn y dosbarth brig, ar y pris brig a'r gost brig, fel yr Almaen, neu geisio cael y nwyddau sy'n costio leiaf ar waelod y raddfa, fel Tsieina ac, i ryw raddau, dwyrain Ewrop, Twrci, a gwledydd cystadleuol eraill sydd wedi bwyta ein cinio,



Bosch and Hoover to move from Wales to eastern Europe or east Asia.

On the question of data—and the Conservatives are obsessed with this—let us be clear that there are data sets that indicate that there was 3 per cent relative loss to 2009. Wales has underperformed in some areas, but we have outperformed the rest of the UK on primary income: Wales is at 4.5 per cent, which is double the EU Objective 1 average. On net domestic household income, we have shown a real clean pair of heels from 1999 to 2007—those are the only figures that I have—Wales, at 3.9 per cent, is well outscoring the United Kingdom, which rose by 2.5 per cent, or the EU 15 Objective 1 areas, which rose by 2 per cent. West Wales and the Valleys are also ahead of that at 2.9 per cent. Therefore, you have to have complementarity. It is necessary to look at the GVA, the domestic household income and the primary income. Although the figures for Wales sometimes do not look good, fortunately, those are the figures on which the Objective 1 ratings are given. Also, when you look on the other side, you can see that there are areas where we have outperformed the UK economy and parts of Europe as well. On some figures, such as domestic household income, we have shown a clean pair of heels to everybody. Domestic household income per head is the critical measure of living standards, and that is where we have shown a clean pair of heels to most of Europe and to the rest of Great Britain.

**Brian Gibbons:** As Celine Dion said, goodbye is the saddest word. It is a great pleasure to contribute to this final debate and, like other speakers, I thank everyone who has contributed to my being a part of the National Assembly for Wales. Reflecting on the debate so far, I think that most of us went into politics to see things improve in our own localities. However, one of the reasons was probably out of a sense of anger and resentment for what had happened to our communities in the 18 to 20 years that preceded the establishment of the National Assembly, a situation that was wreaked on our communities by the Conservatives. What we have heard in the debate was probably a

fel petai, ac wedi achosi i gwmnïau fel Sony, Panasonic, Bosch a Hoover symud o Gymru i ddwyrain Ewrop neu ddwyrain Asia.

O ran y cwestiwn o ddata—ac mae gan y Ceidwadwyr obsesiwn â hyn—gadewch i ni fod yn glir bod cyfresi o ddata sy'n awgrymu ein bod wedi cael colled perthynol o 3 y cant o'i gymharu â 2009. Mae Cymru wedi tanberfformio mewn rhai meysydd, ond rydym wedi perfformio'n well na gweddill y DU o ran incwm cynradd: cyfradd Cymru yw 4.5 y cant, sef dwbl cyfartaledd Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd. Ynghylch incwm domestig net aelwydydd, roeddem ar y blaen rhwng 1999 a 2007—dyna'r unig ffigurau sydd gennyf—mae Cymru, ar gyfradd o 3.9 y cant, yn rhagori ar sgôr y Deyrnas Unedig, a gododd 2.5 y cant, neu 15 ardal Amcan 1 yr UE, a gododd 2 y cant. Mae sgôr Gorllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd yn rhagori arno, sef 2.9 y cant. Felly, rhaid cael cyfatebolrwydd. Mae angen edrych ar y gwerth ychwanegol crynswth, ar incwm domestig aelwydydd a'r incwm sylfaenol. Er nad yw'r ffigurau ar gyfer Cymru yn edrych yn dda weithiau, yn ffodus, y rheini yw'r ffigurau y mae'r graddau Amcan 1 wedi'u seilio arnynt. Hefyd, os edrychwn ar yr ochr arall, gwelwn lle'r ydym wedi perfformio'n well nag economi'r DU a rhannau o Ewrop hefyd. Gyda rhai ffigurau, fel incwm domestig aelwydydd, rydym ar y blaen. Incwm domestig aelwydydd y pen yw'r mesur a ddefnyddir allweddol ar safonau byw, a dyna lle'r ydym wedi dangos ein bod ar y blaen o gymharu â'r rhan fwyaf o Ewrop a gweddill Prydain Fawr.

**Brian Gibbons:** Fel y dywedodd Celine Dion, mae'n drist gorfod dweud hwyl fawr. Mae'n bleser mawr cael cyfrannu at y ddadl olaf hon ac, fel y siaradwyr eraill, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i fy nghynorthwyo i fod yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. O ystyried y ddadl hyd yma, credaf fod y rhan fwyaf ohonom wedi ymhel â gwleidyddiaeth yn y lle cyntaf er mwyn gweld pethau'n gwella yn ein hardaloedd eu hunain. Fodd bynnag, un o'r rhesymau hefyd, yn ôl pob tebyg, oedd yr ymdeimlad o ddicter ac anffodlonrwydd oedd gennym ynghylch yr hyn oedd wedi digwydd i'n cymunedau yn ystod y 18 i 20 mlynedd cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd

good reminder of one of the reasons why I came to the National Assembly in the first place—the feeling that we needed something in Wales to stand up to the type of attacks and ravages that Conservatism inflicted on Wales in the past. Clearly, from the contributions that we have heard so far, it seems that very little has been learned. If they have a chance after May 5, God help us.

I think that the Welsh Conservatives have brought forward a serious issue. It is a source of worry and concern that the relative GVA in Wales has not improved, as most people would have liked to see. That is an important question, and I think that it probably merits more scrutiny than the knockabout efforts that we have had so far. The figures need to be investigated in more depth to try to understand what is actually going on, because, if we do not look to see what is going on behind the figures, we are likely to reach the wrong conclusion.

When I look at the figures and then walk around my constituency in Aberavon, which is one of the areas where one would expect structural funds to make a real difference, it does not correspond to the message I am hearing from the opposition. Clearly, things in my constituency up to the time of the recession had improved significantly. The talk of relative performance does not ring true. In the face of the biggest economic crisis that any of us have experienced, the resilience demonstrated in my constituency conveys a picture that is at odds with the doom and gloom that we have been hearing from opposition spokespeople. To try to explain that, the first thing is that, although relative GVA is very important, not least for the reason that Rhodri Morgan gave, which is that it is the currency in which our performance in Europe is measured for structural funds and so forth—

**David Melding** *rose*—

**Brian Gibbons:** Just let me finish this point, David.

hi'n sefyllfa lle'r oedd y Ceidwadwyr wedi difrodi ein cymunedau. Mae'r hyn a glywsom yn ystod y ddadl fwy na thebyg yn atgof o un o'r rhesymau pam y deuthum i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y lle cyntaf—yr ymdeimlad bod arnom angen rhywbeth yng Nghymru i wrthsefyll y math o ymosodiadau a'r difrod a achoswyd yng Nghymru gan y Ceidwadwyr yn y gorffennol. Mae'n amlwg, o'r cyfraniadau a gafwyd hyd yma, mai ychydig iawn sydd wedi'i ddysgu. Os bydd ganddynt gyfle ar ôl 5 Mai, Duw â'n helpo.

Credaf fod y Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno mater difrifol. Mae'n destun gofid a phryder nad yw'r gwerth ychwanegol crynswth cymharol yng Nghymru wedi gwella, fel y byddai dymuniad y rhan fwyaf o bobl. Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig, ac rwyf o'r farn ei fod yn haeddu mwy o waith craffu na'r ymdrechion a fu hyd yma. Mae angen ymchwilio'n fanylach i'r ffigurau er mwyn ceisio deall beth sy'n digwydd mewn gwirionedd, oherwydd, os na edrychwn i weld beth yw cefndir y ffigurau, rydym yn debygol o ddod i'r casgliad anghywir.

Pan fyddaf yn edrych ar y ffigurau hynny ac yna'n cerdded o amgylch fy etholaeth yn Aberafan, sydd yn un o'r ardaloedd lle byddai rhywun yn disgwyl y byddai cronfeydd strwythurol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, nid yw'n cyfateb i'r neges a glywaf gan yr wrthblaid. Yn amlwg, roedd y sefyllfa yn fy etholaeth wedi gwella'n sylweddol hyd at gyfnod y dirwasgiad. Nid yw'r sôn am berfformiad cymharol yn hollol gywir. Yn wyneb yr argyfwng economaidd mwyaf i unrhyw un ohonom ei brofi, dangosir gwydnwch yn fy etholaeth sy'n cyfleu darlun sy'n mynd yn groes i'r anobaith a'r digalondid y clywsom sôn amdano gan lefarwyr y gwrthbleidiau. Er mwyn ceisio egluro hynny, y peth cyntaf yw, er bod gwerth ychwanegol crynswth cymharol yn bwysig, yn enwedig am y rheswm a nodwyd gan Rhodri Morgan, sef sut y mesurir ein perfformiad yn Ewrop ar gyfer cronfeydd strwythurol ac yn y blaen—

**David Melding** *a gododd*—

**Brian Gibbons:** Gadewch i mi orffen y pwynt hwn yn unig, David.

In terms of people's everyday experience, it is the absolute changes over time that are of greatest importance. Looking at the changes in absolute growth of GVA in Wales, and particularly in west Wales and the Valleys, between 1995 and 2000, GVA grew by about 13 per cent. In the following eight years, the GVA grew between 42 per cent and 43 per cent. That is a step change—a clear improvement that was tangible. Everyone could feel and see it. To try to rubbish that, as we have heard from the opposition, is to fly in the face of the reality that people are experiencing daily.

**David Melding:** When we talk about eradicating poverty, we do not say 'absolute poverty', because that is not an appropriate measure for most people. It is about your relative position. The reason that GVA is resilient is that it measures an economy's strength to generate its own wealth. Gross disposable household income is a really important economic and social measure. It allows transfer payments, as Rhodri Morgan well knows. We are part of a British liberal economy—thank God—and that allows a lot of transfer payments to people who are relatively poor. Three cheers for that, but it does not necessarily make our economy any more resilient.

**Brian Gibbons:** I am not disagreeing with the point that you are making. Obviously, relative performance is important, but so is absolute performance. We have not heard any reference from the opposition benches to absolute performance with regard to how people's lives have improved. We know that, between 2000 and 2008, the change and increase in growth was markedly better than in the five years before that. It is so self-evident that to try to deny it is to try to deny reality.

I have two final brief points. First, the issue of GVA leakage from west Wales and the Valleys is an important issue. It is difficult to quantify the extent of the GVA leakage, but, if one looks at the patterns of the change in GVA at a sub-regional level in Wales, it is evidently happening. The final point is about the composition of the sectors that contribute to GVA in Wales. Clearly, the

O ran profiad pobl o ddydd i ddydd, y newidiadau absoliwt dros gyfnod o amser sydd bwysicaf. O edrych ar y newidiadau o ran twf absoliwt gwerth ychwanegol crynswth yng Nghymru, ac yn enwedig yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, rhwng 1995 a 2000, tyfodd GYC oddeutu 13 y cant. Yn yr wyth mlynedd dilynol, tyfodd GYC rhwng 42 y cant a 43 y cant. Mae hynny'n newid, ac yn welliant clir a diriaethol. Gallai pawb ei weld a'i deimlo. Mae ceisio lladd arno, fel y clywsom gan yr wrthblaid, yn fethiant i wynebu'r realiti y mae pobl yn ei brofi bob dydd.

**David Melding:** Pan soniwn am ddileu tlodi, ni ddywedwn 'tlodi absoliwt', oherwydd nid yw hynny'n fesur priodol ar gyfer y rhan fwyaf o bobl. Mae'n ymwneud â'ch sefyllfa gymharol. Y rheswm pam fod GYC yn wydn yw ei fod yn mesur cryfder economi ar gyfer creu ei chyfoeth ei hun. Mae incwm gwario gros aelwydydd yn fesur pwysig iawn yn economaidd a chymdeithasol. Mae'n caniatáu i daliadau trosglwyddo, fel y gŵyr Rhodri Morgan yn dda. Rydym yn rhan o economi ryddfrydol Prydain—diolch i Dduw—ac mae hynny'n caniatáu taliadau trosglwyddo i bobl sy'n gymharol dlawd. Tair bloedd i hynny, ond nid yw o reidrwydd yn sicrhau bod ein heconomi yn fwy gwydn.

**Brian Gibbons:** Nid wyf yn anghytuno â'r pwynt a wnaethoch. Yn amlwg, mae perfformiad cymharol yn bwysig, ond mae perfformiad absoliwt hefyd yn bwysig. Nid ydym wedi clywed meinciau'r gwrthbleidiau yn cyfeirio at berfformiad absoliwt o ran sut y mae bywydau pobl wedi gwella. Gwyddom, rhwng 2000 a 2008, fod y newid a'r cynnydd mewn twf yn amlwg yn well nag yn y pum mlynedd cyn hynny. Mae mor amlwg, nes bod ceisio gwadu'r ffaith yr un fath â cheisio gwadu realiti.

Mae gennyf ddau bwynt byr i derfynu. Yn gyntaf, mae mater gollyngiadau GYC o orllewin Cymru a'r Cymoedd yn fater pwysig. Mae'n anodd mesur maint y gollyngiadau GYC, ond, o edrych ar batrymau'r newid mewn GYC ar lefel is-ranbarthol yng Nghymru, mae'n amlwg ei fod yn digwydd. Mae'r pwynt olaf yn ymwneud â chyfansoddiad y sectorau sy'n

underperformance of agriculture in Wales is contributing to this situation. Compared to other European areas, where agriculture is continuing to expand and increase, here in Wales, agriculture is going down from a position of contributing something like 1.5 per cent of GDP seven or eight years ago to about 0.3 per cent. Therefore, that distorts the figures as well. In conclusion, this is an important debate. We need to understand the issues behind it, but let us not send out completely the wrong message that no progress is being made. Progress is being made. We are not going backwards; we are going forwards, but perhaps not as fast as we would like.

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** As well as being a debate on GVA, it has also been a debate in which three Members have probably given their final speeches to the Assembly. First, I wish to say to Jenny that I always welcomed very much her very thoughtful speeches in this place. I am sure that she will be giving thoughtful speeches in another place from now on. It is no reflection on my belief that she has made thoughtful speeches that I will be asking the Assembly to reject the amendments tabled by the Lib Dems. [*Laughter.*] However, I am pretty sure that she probably did not expect anything different.

5.15 p.m.

I also wish to point to the speeches by former First Minister, Rhodri Morgan, and Brian Gibbons. Brian was my immediate predecessor in this particular post—for six weeks, he reminds us—but I thank him for his support. I also wish to thank Rhodri, who was a colleague in Government for most of the last four years, and I wish him well for the future. I think that he demolished some of the rhetoric that we heard from Darren Millar earlier.

If you had listened to the contributions made by the Conservative front bench, you would have been forgiven by thinking that they had

cyfrannu at GYC yng Nghymru. Yn amlwg, mae tanberfformiad amaethyddiaeth yng Nghymru yn cyfrannu tuag at y sefyllfa hon. O'i gymharu ag ardaloedd eraill yn Ewrop, lle mae amaethyddiaeth yn parhau i ehangu a chynyddu, mae amaethyddiaeth yn dirywio yma yng Nghymru; lle'r oedd yn cyfrannu oddeutu 1.5 y cant o'r cynnyrch domestig gros saith neu wyth mlynedd yn ôl i sefyllfa lle mae'n cyfrannu oddeutu 0.3 y cant. Felly, mae hynny'n ystumio'r ffigurau hefyd. I gloi, mae hon yn ddadl bwysig. Mae angen i ni ddeall y materion sy'n gefndir iddi, ond gadewch inni beidio ag anfon y neges hollol anghywir na chafwyd dim cynnydd. Mae yna gynnydd. Nid ydym yn mynd yn ôl, yn hytrach, rydym yn symud ymlaen, ond efallai nad ydym ddim mor gyflym ag yr hoffem.

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Yn ogystal â bod yn ddadl ar GYC, bu hefyd yn ddadl lle mae tri Aelod wedi rhoi eu hareithiau olaf yn y Cynulliad yn ôl pob tebyg. Yn gyntaf, hoffwn ddweud wrth Jenny fy mod bob amser wedi croesawu'n fawr ei hareithiau meddylgar iawn yn y lle hwn. Rwy'n siŵr y bydd yn rhoi areithiau meddylgar mewn man arall o hyn ymlaen. Nid yw'n adlewyrchiad ar fy nghred ei bod wedi gwneud areithiau meddylgar y byddaf yn gofyn i'r Cynulliad wrthod y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. [*Chwerthin.*] Fodd bynnag, rwy'n eithaf siŵr nad oedd yn disgwyl unrhyw beth yn wahanol.

Rwyf hefyd am dynnu sylw at yr areithiau gan Rhodri Morgan, y cyn-Brif Weinidog, a Brian Gibbons. Brian oedd fy rhagflaenydd yn y rôl arbennig hon—am chwe wythnos, fel y mae'n ein hatgoffa—ond rwy'n diolch iddo am ei gefnogaeth. Hoffwn hefyd ddiolch i Rhodri, a oedd yn gydweithiwr yn y Llywodraeth am y rhan fwyaf o'r pedair blynedd diwethaf, a dymunaf yn dda iddo ar gyfer y dyfodol. Credaf ei fod wedi dymchwel ychydig o'r rhethreg a glywsom gan Darren Millar yn gynharach.

Pe baech wedi gwrando ar y cyfraniadau a wnaed gan fainc flaen y Ceidwadwyr, byddech o bosibl wedi meddwl nad oeddent

not read the economic renewal programme. They seemed to think that they were scoring some kind of big political victory. The content of the Conservative motion refers to concern and disappointment at the latest GVA figures. However, they did not mention that I drew attention to the earlier set of figures in the first part of the ERP document, where I said,

‘We recognise that, over the long term, the performance of the Welsh economy has not met expectations, particularly when measured in terms of relative Gross Value Added (GVA) per capita.’

The ‘we’ in that sentence is, of course, the Government. We recognised that in the document and also made it clear why we thought that that was the case. We drew attention to the employment rate, productivity and, therefore, the growth rate. However, as Rhodri Morgan rightly pointed out, GVA is only one indicator of the state of our economy. We have to look at a much broader range of indicators and therefore give ourselves a more balanced view. The best available indicator of relative living standards is disposable income. On this measure, Wales ranks higher within the United Kingdom and performs better than Ireland and parts of Scandinavia, including Denmark. I find it interesting that the Conservatives only want to rely on one indicator, but criticise us when we wish to rely on another indicator, as a balance, while recognising the fact that we think that the GVA figure is too low. All we are asking for is balance in the debate.

I clearly set out in ‘Economic Renewal: a new direction’ how the Government should respond to the challenges that we face. These challenges include increasing global integration and interdependencies, the large UK budget deficit and constrained public expenditure, the need to remain competitive through innovation and technological advancement, and finally and importantly, which was something that you did mention, restricted and expensive access to finance for individuals and businesses.

wedi darllen rhaglen adnewyddu'r economi. Roeddent yn ymddangos i feddwl eu bod yn sgorio rhyw fath o fuddugoliaeth wleidyddol fawr. Mae cynnwys cynnig y Ceidwadwyr yn cyfeirio at bryder a siom ynghylch y ffigurau GYC diweddaraf. Fodd bynnag, nid oeddent yn sôn fy mod wedi tynnu sylw at y set gynharach o ffigurau yn rhan gyntaf dogfen rhaglen adnewyddu'r economi, lle y dywedais,

‘Rydym yn cydnabod, dros y cyfnod hirdymor, nad yw perfformiad economi Cymru wedi bodloni disgwyliadau, yn enwedig o ran Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y pen.’

Mae'r ‘rydym’ yn y frawddeg honno yn cyfeirio at y Llywodraeth, wrth gwrs. Cydnabuwyd hynny gennym yn y ddogfen a gwnaethom hefyd yn glir pam ein bod yn credu mai dyna oedd yr achos. Gwnaethom dynnu sylw at y gyfradd gyflogaeth, cynhyrchiant ac, felly, y gyfradd dwf. Fodd bynnag, fel yr oedd Rhodri Morgan yn iawn i'w ddweud, dim ond un dangosydd o gyflwr ein heconomi yw GYC. Mae'n rhaid i ni edrych ar ystod lawer ehangach o ddangosyddion ac felly rhoi golwg fwy cytbwys i ni'n hunain. Y dangosydd gorau sydd ar gael o safonau byw cymharol yw incwm gwario. Yn ôl y mesur hwn, mae Cymru yn uwch o fewn y Deyrnas Unedig ac yn perfformio'n well nag Iwerddon a rhannau o Sgandinafia, gan gynnwys Denmarc. Mae'n ddiddorol bod y Ceidwadwyr am ddibynnu ar un dangosydd yn unig, ond eu bod yn ein beirniadu pan rydym yn dymuno dibynnu ar ddangosydd arall, i gael cydbwysedd, tra'n cydnabod y ffaith ein bod yn credu bod y ffigur GYC yn rhy isel. Y cyfan yr ydym yn gofyn amdano yw cydbwysedd yn y ddadl.

Nodais yn glir yn ‘Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd’ sut y dylai'r Llywodraeth ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Mae'r heriau hyn yn cynnwys cynyddu integreiddio byd-eang a chyd-ddibyniaeth, y diffyg mawr yng nghyllideb y DU a gwariant cyhoeddus cyfyngedig, yr angen i barhau i fod yn gystadleuol drwy arloesi a datblygu technolegol, ac yn olaf ac yn bwysig, rhywbeth y soniasoch amdano, sef mynediad cyfyngedig a drud at gyllid ar gyfer unigolion a busnesau.

One of the matters that I highlighted was the deep and savage cuts to the Welsh budget imposed by George Osborne. In 2010-11, my departmental budget in round figures is £865 million, excluding non-cash. By the end of the comprehensive spending review period, the figure will reduce in real terms to £620 million. The cut in my capital allocation, before any cuts that the Tories might make if they were in Government here, is £110 million. These are deep cuts that will make it impossible for me or for any Government to deliver all the programmes set out in the national transport plan. I have announced the projects that I have to defer next year. Let us be clear about this: the Assembly Government is getting a larger cut than any other devolved administration in the UK and the capital cut is much more than anyone expected, with a cut across the Welsh budget of 42 per cent. That is the cut being imposed by the UK Government.

The Tories here want to cut even more of my budget—Jenny Randerson was absolutely right about that. I have examined Darren Millar's plan in detail; I have given him the courtesy of reading his plan in detail. He said, on 9 December 2010, that there would be a further cut of 8.7 per cent in my department's budget. That amounts to a reduction of £118 million in my budget. If they had their way, the total cut would be well over £300 million over the CSR period. They go on to say in that document that the major decisions that they would make include further postponements in the trunk road programme. I want to hear from them today what cuts they will make. Will they cut the works to the M4, going through Llanwern steelworks? Will they cut the project to dual the remaining sections of the A465? Will they cut the Newtown bypass or the A40 Llanddewi Velfry to Penblewin improvement? Are those the schemes in the major programme that the Tories will cut? Is Darren now prepared to tell us? Of course he is not.

Un o'r materion y tynnais sylw ato oedd y toriadau dwfn a ffyrnig i gyllideb Cymru a orfodwyd arnom gan George Osborne. Yn 2010-11, fy nghyllideb adrannol mewn ffigurau cyfan yw £865 miliwn, ac eithrio cyllideb nad yw'n arian parod. Erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, bydd y ffigur yn gostwng mewn termau real i £620 miliwn. Y toriad yn fy nyraniad cyfalaf, cyn unrhyw doriadau y byddai'r Torïaid yn eu gwneud os oeddent mewn Llywodraeth yma, yw £110 miliwn. Mae'r rhain yn doriadau dwfn a fydd yn ei gwneud yn amhosibl i mi neu unrhyw Lywodraeth weithredu'r holl raglenni a nodir yn y cynllun trafniadaeth cenedlaethol. Rwyf wedi cyhoeddi'r prosiectau sydd rhaid i mi eu gohirio'r flwyddyn nesaf. Gadewch inni fod yn glir am hyn: mae Llywodraeth y Cynulliad yn cael toriad mwy nag unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig arall yn y DU a thoriad cyfalaf llawer mwy nag yr oedd unrhyw un yn ei ddisgwyl, gyda thoriad ar draws gyllideb Cymru o 42 y cant. Dyna'r toriad sy'n cael ei orfodi arnom gan Lywodraeth y DU.

Mae'r Torïaid yma am dorri hyd yn oed mwy o fy nghyllideb—roedd Jenny Randerson yn llygad ei lle am hynny. Rwyf wedi archwilio cynllun Darren Millar yn fanwl; rwyf wedi dangos y cwrtseisi o ddarllen ei gynllun yn fanwl. Ar 9 Rhagfyr 2010, dywedodd y byddai toriad pellach o 8.7 y cant yng nghyllideb fy adran. Mae hynny'n gyfystyr â gostyngiad o £118 miliwn yn fy nghyllideb. Os fyddent yn cael eu ffordd, byddai cyfanswm y toriad ymhell dros £300 miliwn dros gyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Maent yn mynd ymlaen i ddweud yn y ddogfen honno bod y penderfyniadau mawr y byddent yn eu gwneud yn cynnwys gohiriadau pellach yn y rhaglen gefnffyrdd. Rwyf am glywed ganddynt heddiw pa doriadau y byddant yn eu gwneud. A fyddant yn torri'r gwaith ar yr M4, sy'n mynd trwy weithfeydd dur Llanwern? A fyddant yn torri'r prosiect i ddeuoli'r rhannau sy'n weddill o'r A465? A fyddant yn torri ffordd osgoi'r Drenwydd neu'r gwelliannau i'r A40 rhwng Llanddewi Felffre a Phenblewin? Ai dyna'r cynlluniau yn y rhaglen fawr y bydd y Torïaid yn ei thorri? A yw Darren yn barod i ddweud wrthym yn awr? Wrth gwrs nid yw'n barod i wneud hynny.

Some of those schemes attract European funding; therefore, if I have not got—

**Darren Millar:** Will you take an intervention?

**The Deputy First Minister:** It is belated, but I will give you the opportunity to speak.

**Darren Millar:** I want to ask you about the Wales Audit Office report, Deputy First Minister, that detailed your department's very poor management of trunk road network infrastructure schemes. It suggested that, on average, the schemes were 61 per cent overspent and, in some cases, had cost more than treble the estimated costs. If you had stuck to your guns and ensured that they were delivered on time and to budget, you might get more out of your network.

**The Deputy First Minister:** He did not answer the question, did he? Will you cut the Newtown bypass or Penblewin? They do not know. Darren, if you were a Minister and had to cancel some of those schemes, there would be no European funding for those schemes either and, therefore, a lot more money would be lost to the transport budget.

However, I have not finished. On the economy, which sectors would they not support? Would they abandon support for anchor companies or regionally important companies? From where would they find the money to support further inward investment projects? Some £80 million will be lost in revenue from my budget and £38 million will be lost in capital. Where would they find the money to support Welsh businesses as he claims that he wants to do?

I carefully read Darren Millar's speech to the Tory spring conference. I enjoyed it. It was full of rhetoric, but had no policy initiatives whatsoever. There was a lot of bluster, but no beef. This is a party that has few ideas and no ambition for Wales. Its big and only idea is to improve the business rate relief scheme. How much will that cost? It will cost £41 million.

Mae rhai o'r cynlluniau hynny yn denu arian Ewropeaidd; felly, os nad oes gen i—

**Darren Millar:** A wnewch dderbyn ymyriad?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'n hwyr, ond byddaf yn rhoi cyfle i chi siarad.

**Darren Millar:** Hoffwn ofyn i chi am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Ddirprwy Brif Weinidog, a oedd yn nodi bod eich adran yn rheoli cynlluniau seilwaith rhwydwaith y cefnffyrdd yn wael iawn. Roedd yn awgrymu, ar gyfartaledd, bod y cynlluniau wedi gorwario 61 y cant ac, mewn rhai achosion, wedi costio mwy na tair gwaith y costau amcangyfrifedig. Os oeddech wedi glynau at eich gynnu a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb, efallai y byddwch yn cael mwy allan o'ch rhwydwaith.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni atebodd y cwestiwn. A fyddwch yn torri ffordd osgoi y Drenewydd neu Penblewin? Nid ydynt yn gwybod. Darren, os oeddech yn Weinidog ac yn gorfod canslo rhai o'r cynlluniau hynny, ni fyddai unrhyw gyllid Ewropeaidd ar gyfer y cynlluniau hynny ar gael ychwaith ac, felly, byddai llawer mwy o arian yn cael ei golli o'r gyllideb drafnidiaeth.

Fodd bynnag, nid wyf wedi gorffen. O ran yr economi, pa sectorau na fyddent yn eu cefnogi? A fyddent yn rhoi'r gorau i gynnig cymorth i gwmnïau angor neu gwmnïau sy'n bwysig yn rhanbarthol? O le byddent yn dod o hyd i'r arian i gefnogi prosiectau mewnfuddsoddi pellach? Bydd tua £80 miliwn yn cael ei golli mewn refeniw o fy nghyllideb, a bydd £38 miliwn yn cael ei golli mewn cyfalaf. O le byddent yn dod o hyd i'r arian i gefnogi busnesau Cymru fel y mae'n honni ei fod am wneud?

Darllenais yn ofalus araith Darren Millar i'r gynhadledd y Torïaid yn y gwanwyn. Mwynheais yr araith honno. Roedd yn llawn rhethreg, ond nid oedd mentrau polisi o gwbl. Roedd llawer o stŵr, ond dim cig ar yr esgryn. Dyma blaid sydd ag ychydig iawn o syniadau a dim uchelgais ar gyfer Cymru. Ei unig syniad mawr yw gwella'r cynllun

That will come from the social justice and local government budget. In December, they said that they want to cut that budget by 5 per cent. Therefore, where will the £41 million come from? It can only come from the budgets of schools, social services, universities or even student support. They do not tell us where the money will come from.

I enjoyed Darren's speech at the spring conference so much that I will quote it back to him. He told the Tory conference that the only thing that has expanded under the Tories is his waistline. [*Laughter.*] That is what he said. Let me tell you, Darren, that you will spend the next month losing a lot of weight, because you will be trying to find where the Tory votes have all gone. That is what will happen to you in the next month or so.

We cannot afford the cuts wherever they come from, whether it is the UK Tories or the Welsh Tories. All that they want to do is cut, and they want to cut because they have no ideas of their own. The Welsh Government needs to have a policy for growth, to invest in infrastructure, to raise our skill levels and to increase our share of research and development. We do not need a Government that wants to cut back on these services. As Brian Gibbons rightly pointed out, we want a Government for the twenty-first century, not one that will take us back to the dark days of the 1980s.

**Nick Bourne:** I will first concentrate on the part of the Deputy First Minister's speech that I agreed with, which was the tribute to Jenny Randerson, Rhodri Morgan and Brian Gibbons, who have all been distinguished Ministers as well as distinguished Members. I wish the three of them all the best in their future careers. We also send best wishes from our benches to all other retiring Members. The Deputy First Minister made a spirited contribution, but one that did not have a lot to do with the debate, which was on the GVA figures for Wales. The Deputy First Minister

rhyddhad ardrethi busnes. Faint fydd hynny'n ei gostio? Bydd yn costio £41 miliwn. Bydd y gost yn dod o'r gyllideb cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol. Ym mis Rhagfyr, dywedasant eu bod am dorri'r gyllideb honno 5 y cant. Felly, o le fydd y £41 miliwn yn dod? Gall ond ddod o gyllidebau ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, prifysgolion neu hyd yn oed cymorth i fyfyrwyr. Nid ydynt yn dweud wrthym o le y daw'r arian.

Mwynheais araith Darren yng nghynhadledd y gwanwyn gymaint y byddaf yn ei dyfynnu yn ôl iddo. Dywedodd wrth gynhadledd y Torïaid mai'r unig beth sydd wedi ehangu o dan y Torïaid yw ei linell gwasg. [*Chwerthin.*] Dyna'r hyn a ddywedodd. Gadewch imi ddweud wrthyich, Darren, y byddwch yn treulio'r mis nesaf yn colli llawer o bwysau, oherwydd byddwch yn ceisio canfod i le y mae pleidleisiau'r Torïaid wedi mynd. Dyna beth fydd yn digwydd i chi yn ystod y mis nesaf.

Ni allwn fforddio'r toriadau o le bynnag y maent yn dod, p'un a Thorïaid y DU neu'r Torïaid Cymreig sy'n gyfrifol amdanynt. Y cyfan y maent am ei wneud yw torri, ac maent yn awyddus i dorri oherwydd nad oes ganddynt unrhyw syniadau eu hunain. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael polisi ar gyfer twf, buddsoddi mewn seilwaith, codi ein lefelau sgiliau a chynyddu ein cyfran o ymchwil a datblygu. Nid oes angen arnom Lywodraeth sydd am dorri yn ôl ar y gwasanaethau hyn. Fel yr oedd Brian Gibbons yn iawn i ddweud, rydym eisiau Llywodraeth ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, nid un a fydd yn mynd â ni'n ôl at ddyddiau tywyll yr 1980au.

**Nick Bourne:** Yn gyntaf, byddaf yn canolbwyntio ar y rhan o araith y Dirprwy Brif Weinidog y cytunais â hi, sef y deyrnged i Jenny Randerson, Rhodri Morgan a Brian Gibbons, sydd oll wedi bod yn Weinidogion nodedig yn ogystal ag Aelodau nodedig. Dymunaf y gorau i'r tri ohonynt yn eu gyrfaedd yn y dyfodol. Rydym hefyd yn anfon dymuniadau gorau oddi wrth ein meinciau i'r holl Aelodau eraill sy'n ymddeol. Gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog gyfraniad bywiog, ond un nad oedd ganddo lawer i'w wneud â'r ddadl, a oedd ar y



seemed to focus on two things only: one being the debt position of the UK and the other being Darren Millar's speech. I had not noticed him there at the conference, but I will happily have a Conservative Party membership card ready for him afterwards. The Deputy First Minister has great potential that we want to maximise out on the stump and as a member of the Conservative group. [Laughter.]

Turning to the debate, I take issue with Brian's opening statement that most Members want to do things for their constituents; I think that all Members want to do things for their constituents and for Wales. The motivation for all Members is to improve the lot of people in Wales, and this goes to the root of what we have to do. Everyone would accept that getting the economy right is vital. Nobody is suggesting that everything in Wales is bad—of course it is not—but there is great danger of an emperor's-new-clothes attitude in pretending that these GVA figures somehow do not matter. To be fair to Brian Gibbons, he did not go as far as to say that and neither did the Deputy First Minister. However, the former First Minister seemed to rubbish GVA altogether.

**Rhodri Morgan:** I did not.

**Nick Bourne:** I now hear the former First Minister saying that he did not do so, and I accept his comments.

GVA is an important measure of economic activity; it is, after all, the measure that the European Union uses for cohesion funding. I share the First Minister's hope that we will not qualify for the next round of cohesion funding, as it is a badge of shame rather than of pride. This matters deeply. To some extent, there was a suggestion that everything out there in the communities of Wales is rosy, when that is simply not the case. If you go to the Valleys, you will see that there are areas of massive poverty and no economic activity. This issue needs to be addressed and we need to learn lessons. The Deputy First

ffigurau GYC ar gyfer Cymru. Roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn ymddangos i ganolbwyntio ar ddau beth yn unig: un ohonynt oedd sefyllfa'r DU o ran dyled a'r llall oedd araith Darren Millar. Nid oeddwn wedi sylwi ei fod yn bresennol yn y gynhadledd, ond byddaf yn ddigon hapus i gael cerdyn aelodaeth y Blaid Geidwadol yn barod iddo wedyn. Mae gan y Dirprwy Brif Weinidog potensial mawr yr ydym am wneud y gorau ohono wrth ganfasio ac fel aelod o grŵp y Ceidwadwyr. [Chwerthin.]

Gan droi at y ddatl, rwy'n anghytuno â datganiad agoriadol Brian bod y rhan fwyaf o Aelodau am wneud pethau dros eu hetholwyr; credaf fod pob Aelod am wneud pethau dros eu hetholwyr a dros Gymru. Y cymhelliad ar gyfer yr holl Aelodau yw gwella sefyllfa pobl yng Nghymru, ac mae hyn yn mynd at wraidd yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud. Byddai pawb yn derbyn bod cael yr economi yn gywir yn hanfodol. Nid oes unrhyw un yn awgrymu bod popeth yng Nghymru yn ddrwg—wrth gwrs, nid yw hynny'n wir—ond mae perygl mawr o fabwysiadu agwedd dillad newydd yr ymerawdwr wrth esgus nad yw'r ffigurau GYC rywsut yn bwysig. I fod yn deg i Brian Gibbons, ni aeth mor bell â dweud hynny ac ni wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog ychwaith. Fodd bynnag, roedd y cyn-Brif Weinidog yn ymddangos fel petai'n gwawdio GYC yn gyfan gwbl.

**Rhodri Morgan:** Wnes i ddim.

**Nick Bourne:** Rwyf yn awr yn clywed y cyn-Brif Weinidog yn dweud na wnaeth hynny, ac rwy'n derbyn ei sylwadau.

Mae GYC yn fesur pwysig o weithgaredd economaidd; wedi'r cyfan, dyna'r mesur y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei ddefnyddio ar gyfer cyllid cydlyniant. Rwy'n rhannu gobaith y Prif Weinidog na fyddwn yn gymwys ar gyfer y rownd nesaf o gyllid cydlyniant, gan ei fod yn fathodyn o gywilydd yn hytrach nag o falchder. Mae hyn yn bwysig iawn. I ryw raddau, roedd awgrym bod pob peth yng nghymunedau Cymru yn fêl i gyd, pan nad yw hynny'n wir. Os ydych yn mynd i'r Cymoedd, fe welwch fod yna ardaloedd o dlodi enfawr a dim gweithgaredd economaidd. Mae angen mynd i'r afael â'r

Minister seemed to suggest that spending money on economic development necessarily leads to results, but if you compare Wales with Scotland, you will see that that is not the case: Scotland has spent 40 per cent less per person than Wales and has shrunk the gap between its GVA position and the UK average over the last 10 years. We have not done that. I am not suggesting that money does not matter, but it does not necessarily deliver results unless it is properly targeted.

**The Deputy First Minister:** To be fair, Nick, how can you possibly say that the next Assembly Government can do as well for the economy if you cut £118 million from the budget, as you plan to do? How can it possibly deliver?

**Nick Bourne:** You keep going on about cuts to the budget, but saying that those cuts are so large only highlights how much you are taking out of the health service's budget. Let me repeat the point that it is not only about the money: look at Scotland and the lessons that we have to learn from there. I agree with Rhodri Morgan's point on corporation tax in Ireland and some of the macro levers do matter as well. We know that tackling issues is not just about spending money; we know that from our activities in relation to education and the PISA results. It is, rather, about spending money smartly. Nobody is suggesting that you do not need to spend money, but it has to be done properly.

To conclude this last debate of the third Assembly, this is a massively important issue that is of fundamental importance to everything that we do in Wales because we have to get the economy right. I thank you, Dirprwy Lywydd and the Llywydd, for presiding over our debates with good humour and effectiveness over the last four years. I wish everyone well on the stump; may battle begin after the dissolution of the Assembly.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without

mater hwn ac mae angen dysgu gwersi. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymddangos fel petai'n awgrymu bod gwario arian ar ddatblygu economaidd o reidrwydd yn arwain at ganlyniadau, ond os ydych yn cymharu Cymru â'r Alban, fe welwch nad yw hynny'n wir: mae'r Alban wedi gwario 40 y cant yn llai y pen na Chymru ac mae wedi lleihau'r bwlch rhwng ei sefyllfa o ran GYC a chyfartaledd y DU dros y 10 mlynedd diwethaf. Nid ydym wedi gwneud hynny. Nid wyf yn awgrymu nad yw arian yn bwysig, ond nid yw o reidrwydd yn sicrhau canlyniadau oni bai ei fod yn cael ei dargedu'n briodol.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** I fod yn deg, Nick, sut allwch ddweud y gall Llywodraeth nesaf y Cynulliad wneud mor dda o ran yr economi os ydych yn torri £118 miliwn o'r gyllideb, fel yr ydych yn bwriadu ei wneud? Sut all gyflawni ei hamcanion?

**Nick Bourne:** Rydych yn cadw i sôn am doriadau i'r gyllideb, ond mae dweud bod y toriadau mor fawr ond yn amlygu faint rydych yn ei gymryd allan o gyllideb y gwasanaeth iechyd. Gadewch i mi ailadrodd y pwynt nad arian yw'r unig beth pwysig: edrychwch ar yr Alban a'r gwersi sydd gennym i ddysgu oddi yno. Rwy'n cytuno â phwynt Rhodri Morgan ar y dreth gorfforaeth yn Iwerddon ac mae rhai o'r dulliau macro yn bwysig hefyd. Rydym yn gwybod nad gwario arian yw'r unig ffordd o fynd i'r afael â materion; rydym yn gwybod hynny o'n gweithgareddau mewn perthynas ag addysg a'r canlyniadau PISA. Gwario arian yn gall sy'n bwysig. Nid oes unrhyw un yn awgrymu nad oes angen i chi wario arian, ond mae'n rhaid ei wneud yn iawn.

I gloi dadl olaf y trydydd Cynulliad, mae hwn yn fater hynod o bwysig sydd o bwysigrwydd sylfaenol i bob peth yr ydym yn ei wneud yng Nghymru oherwydd rhaid inni gael yr economi yn gywir. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd a'r Llywydd, am lywyddu dros ein dadleuon gyda hiwmor da ac effeithiolrwydd dros y pedair blynedd diwethaf. Dymunaf yn dda i bawb wrth ganfasio; bydd y frwydr yn dechrau ar ôl diddymu'r Cynulliad.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A

amendment. Does any Member object? I see that there are objections, therefore, I defer all voting on this item until voting time.

oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad; felly, byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

I propose to move straight to voting time. Does anyone object? I see that no-one does.

Bwriadaf symud yn syth i'r cyfnod pleidleisio. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### **Cyfnod Pleidleisio Voting Time**

*Cynnig NDM4715: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 33.  
Motion NDM4715: For 16, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4715: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 16.  
Amendment 1 to NDM4715: For 34, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment agreed.*

5.30 p.m.

*Gwelliant 2 i NDM4715: O blaid 5, Ymatal 11, Yn erbyn 34.  
 Amendment 2 to NDM4715: For 5, Abstain 11, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor  
 German, Veronica  
 Randerson, Jenny

The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Veronica  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred

Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
 The following Members abstained:

Asghar, Mohammad  
 Bourne, Nick  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4715: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 34.  
 Amendment 3 to NDM4715: For 16, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Veronica  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David

Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4715 fel y'i diwygiwyd: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 16.  
Motion NDM4715 as amended: For 34, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny

*Derbyniwyd y cynnig NDM4715 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM4715 as amended agreed.*

### **Dadl Fer Short Debate**

**Pwy sy'n Gofalu yn Nelyn?  
Who Cares in Delyn?**

**Sandy Mewies:** It is quite strange that one of the first short debates that I did was on carers. I hope that this will not be the last short debate that I ever do, but it will certainly be on carers. Irene James and Ann Jones will both contribute to the debate.

Some people may be surprised—although not people here, I would hope—to learn that, in Delyn and throughout Flintshire and Wales, the role of caring for parents, siblings and grandparents is taken on by young people who are sometimes as young as five years old. There are around 172,000 young carers in the United Kingdom, who provide care and support to a family member who is disabled, physically or mentally ill, has a life-limiting illness or a substance misuse problem. Those are just a few examples. In Wales, there are around 11,000 young carers under the age of 18. In Flintshire, there are around 2,500 children and young people who provide care. These figures may be grossly underestimated, as both young carers and their families can find it difficult to identify themselves in that role. For some, it is fear that keeps them from identifying themselves in this way: fear that they could be at risk of being removed from their families. This is particularly true when the person cared for is experiencing severe mental problems or is affected by substance misuse.

One young carer from Flintshire, describing how difficult it can be for children and young people to identify themselves as young carers, said:

‘You do not realise that you are missing out on anything because it is just what you are used to. I started to realise that I was different a few years before my dad passed away, when my friends were developing their social lives. I would come home from school, do my homework and then have to help mum take dad upstairs, which was always quite difficult as there were numerous tasks involved. By the time all that was done, the night was over and it was time for bed.’

**Sandy Mewies:** Mae'n eithaf rhyfedd mai un o'r dadleuon byr cyntaf a wnes i oedd un ar ofalwyr. Gobeithio nad hon fydd y ddadl fer olaf y byddaf yn ei gwneud, ond bydd yn sicr am ofalwyr. Bydd Irene James ac Ann Jones yn cyfrannu at y ddadl.

Efallai y bydd rhai pobl yn synnu—er nid pobl yn y fan hon, gobeithio—i ddysgu, yn Nelyn a ledled sir y Fflint a Chymru, fod pobl ifanc sydd weithiau mor ifanc â phum mlwydd oed yn ymgymryd â'r rôl o ofalu am rieni, brodyr a chwiorydd a neiniau a theidiau. Mae tua 172,000 o ofalwyr ifanc yn y Deyrnas Unedig, sy'n darparu gofal a chefnogaeth i aelod o'r teulu sy'n anabl, yn gorfforol neu'n feddyliol sâl, sydd â salwch sy'n cyfyngu ar ei fywyd neu broblem camddefnyddio sylweddau. Dim ond rhai enghreifftiau yw'r rheini. Yng Nghymru, mae tua 11,000 o ofalwyr ifanc o dan 18 oed. Yn sir y Fflint, mae tua 2,500 o blant a phobl ifanc sy'n darparu gofal. Efallai bod y ffigurau hyn yn amcangyfrif yn rhy isel o lawer, oherwydd mae gofalwyr ifanc a'u teuluoedd yn gallu ei chael yn anodd uniaethu eu hunain â'r rôl honno. I rai, ofn sy'n eu hatal rhag uniaethu eu hunain â'r rôl: ofn y gallent fod mewn perygl o gael eu symud oddi wrth eu teuluoedd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd y person sy'n derbyn gofal yn profi problemau meddyliol difrifol neu pan fydd gan y person broblem o ran camddefnyddio sylweddau.

Dywedodd un gofalwr ifanc o Sir y Fflint, wrth ddisgrifio pa mor anodd y gall fod i blant a phobl ifanc uniaethu eu hunain â'r rôl o ofalwr ifanc:

Nid ydych yn sylweddoli eich bod yn colli allan ar unrhyw beth oherwydd rydych yn gyfarwydd â'r sefyllfa honno. Dechreuais sylweddoli fy mod yn wahanol ychydig o flynyddoedd cyn y bu fy nhad farw, pan roedd fy ffrindiau yn datblygu eu bywydau cymdeithasol. Byddwn yn dod adref o'r ysgol, yn gwneud fy ngwaith cartref ac yna roedd yn rhaid i mi helpu mam i fynd â dad i fyny'r grisiau. Roedd hynny bob amser yn eithaf anodd gan fod nifer o dasgau'n gysylltiedig. Erbyn inni wneud hynny, roedd y noson ar ben ac roedd yn amser gwely.

For many children and young people born into or living in a family where there is someone in need of care, taking on a caring role is normal to them: it is just something that they do. However, many young carers often take on a level of responsibility that is inappropriate for their age and development.

The 2001 census recorded that there were approximately 860 children in Wales under the age of 18 who provided more than 50 hours of care a week. Of these children, 240 were of primary school age. Young carers' responsibilities can include practical care, personal care, medical care such as dispensing medication, household chores, financial responsibilities, self-care and caring for other family members, such as younger brothers and sisters. They often provide emotional support and supervision. The provision of emotional support by young carers is possibly the most difficult for families and professionals to identify, as it is not visible, in the way that the provision of personal care is. However, it is vital that it is identified, as it can potentially have a more detrimental impact on young carers than any other caring responsibility that they undertake.

Many young carers describe the positive side of caring, such as feeling a sense of pride and independence, developing a caring attitude, increased resilience, a better understanding of illness and disability and the acquisition of life skills that will help them later in life. However, there are potentially negative impacts, which can include emotional strain and distress, social isolation, a loss of childhood, false maturity, poor self-confidence and self-esteem, restricted life choices and an increased likelihood of living in poverty. Young carers often have a disrupted education because of problems of truancy, attendance, inattention and fatigue when they are in school, and difficulties with coursework or homework due to disruption when they are at home. Sadly, they sometimes get into trouble for these things, because people are not aware that these problems are caused by the fact that they have a caring role at home. This may explain why they are more likely to have lower

I llawer o blant a phobl ifanc a anwyd i mewn i deulu lle mae rhywun sydd angen gofal, neu sy'n byw mewn teulu sy'n wynebu'r sefyllfa honno, mae ymgymryd â rôl ofalu yn normal iddynt: yn syml, mae'n rhywbeth y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, mae llawer o ofalwyr ifanc yn aml yn derbyn lefel o gyfrifoldeb sy'n anaddas ar gyfer eu hoedran a'u lefel o ddatblygiad.

Yn ôl cyfrifiad 2001, roedd tua 860 o blant yng Nghymru o dan 18 oed yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos. Ymysg y plant hynny, roedd 240 o oed ysgol gynradd. Gall cyfrifoldebau gofalwyr ifanc gynnwys gofal ymarferol, gofal personol, gofal meddygol megis dosbarthu meddyginiaeth, gwaith tŷ, cyfrifoldebau ariannol, hunanofal a gofalu am aelodau eraill o'r teulu, megis brodyr a chwiorydd iau. Maent yn aml yn darparu cefnogaeth emosiynol a goruchwyliaeth. Mae'n bosibl mai darparu cefnogaeth emosiynol gan ofalwyr ifanc yw'r math o ofal mwyaf anodd i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ei adnabod, gan nad yw'n weladwy yn yr un ffordd â darparu gofal personol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ei fod yn cael ei nodi, gan y gall gael effaith fwy niweidiol ar ofalwyr ifanc nag unrhyw gyfrifoldeb gofal arall y maent yn ymgymryd ag ef.

Mae llawer o ofalwyr ifanc yn disgrifio'r ochr gadarnhaol o ofalu, fel y teimlad o falchder ac annibyniaeth, datblygu ymagwedd ofalgar, teimlo'n fwy gwydn, gwell dealltwriaeth o salwch ac anabledd a datblygu sgiliau bywyd a fydd yn eu helpu yn nes ymlaen mewn bywyd. Fodd bynnag, mae effeithiau negyddol posibl, fel straen emosiynol a gofid, ynysu cymdeithasol, colli plentyndod, aeddfedrwydd ffug, diffyg hunanhyder a hunan-barch, dewisiadau bywyd cyfyngedig a thebygolrwydd cynyddol o fyw mewn tlodi. Yn aml, amherir ar addysg gofalwyr ifanc oherwydd problemau triwantiaeth, presenoldeb, diffyg sylw a blinder pan fyddant yn yr ysgol, ac anawsterau gyda gwaith cwrs neu waith cartref o ganlyniad i aflonyddwch pan fyddant yn y cartref. Yn anffodus, weithiau maent yn mynd i drafferth am y pethau hyn, oherwydd nad yw rhai pobl yn ymwybodol bod y problemau hyn yn cael eu hachosi gan y ffaith bod ganddynt rôl ofalu yn y cartref.



educational attainment than their peers, and be less likely to go on to further education, which in turn restricts their choices in later life.

Recently, I was privileged to attend Barnardo's Flintshire young carers conference, which was attended by nearly 200 young carers from across Wales and the north-west of England. The conference was funded by Flintshire carers strategy and substance misuse action team, and was the first of its kind in Wales. Young carers were able to share their experiences, and flag up the issues that are important to them. They were also consulted on the recommendations of the children's commissioner's recent 'Full of Care' report, and the findings of this consultation will be fed back to the commissioner. They talked of their pride at being young carers, but they recognised that it was important for them not only to have a choice about undertaking a caring role, but also to receive help and support in what they do. This is where people like you and me come in. I know that everyone here shares my view that we should do all that we can to help and support these young people in their valuable work. Many of them were concerned that the current financial climate would lead to funding being cut to young carers projects, leaving them to undertake their caring roles without support from Barnardo's Flintshire young carers group. These groups give them a lifeline and a much needed break from their caring role. The importance of continued funding for young carers projects should be something for the fourth Assembly to seriously consider.

Worryingly, many young carers at the conference were unaware of their right to access a carers' needs assessment, which, in theory, should enable them to access the support and help that they need. However, even if they do know about the carers' needs assessments, uptake across Wales is very low, and there are inconsistencies in the process of how young carers access them from one local authority area to another. I would suggest that the next Welsh Assembly

Efallai fod hyn esbonio pam eu bod yn fwy tebygol o gael cyrhaeddiad addysgol is na'u cyfoedion, ac yn llai tebygol o fynd ymlaen i addysg bellach, sydd yn ei dro yn cyfyngu ar eu dewisiadau yn ddiweddarach mewn bywyd.

Yn ddiweddar, cefais y fraint o fynychu cynhadledd gofalwyr ifanc Barnardo's yn sir y Fflint a fynychwyd gan bron i 200 o ofalwyr ifanc o bob rhan o Gymru a gogledd-orllewin Lloegr. Cafodd y gynhadledd ei hariannu gan strategaeth gofalwyr sir y Fflint a'r tîm gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau, a hon oedd y gynhadledd gyntaf o'i math yng Nghymru. Roedd gofalwyr ifanc yn gallu rhannu eu profiadau, a thynnu sylw at y materion sy'n bwysig iddynt. Ymgynghorwyd â hwy hefyd ar argymhellion adroddiad diweddar y comisiynydd plant 'Bywyd Llawn Gofal', a bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu bwydo'n ôl i'r comisiynydd. Roeddent yn sôn am eu balchder am fod yn ofalwyr ifanc, ond roeddent yn cydnabod ei bod yn bwysig iddynt nid yn unig gael dewis am ymgymryd â rôl ofalu, ond hefyd i gael help a chefnogaeth yn yr hyn maent yn ei wneud. Dyma lle mae rôl i bobl fel chi a fi. Gwn fod pawb yma yn rhannu fy marn y dylem wneud popeth y gallwn ei wneud i helpu a chefnogi'r bobl ifanc hyn yn eu gwaith gwerthfawr. Roedd llawer ohonynt yn pryderu y byddai'r hinsawdd ariannol bresennol yn arwain at dorri cyllid i brosiectau ar gyfer gofalwyr ifanc, gan adael iddynt ymgymryd â'u rolau gofalu heb gymorth gan grŵp gofalwyr ifanc Barnardo's yn sir y Fflint. Mae'r grwpiau hyn yn rhoi achubiaeth a seibiant mawr ei angen oddi wrth eu rôl ofalu. Dylai'r pedwerydd Cynulliad ystyried o ddifrif bwysigrwydd cyllid parhaus ar gyfer prosiectau gofalwyr ifanc.

Roedd yn destun pryder nad oedd llawer o ofalwyr ifanc yn y gynhadledd yn ymwybodol o'u hawl i gael mynediad at asesiad o anghenion gofalwyr, a ddylai, mewn theori, eu galluogi i gael mynediad at y gefnogaeth a'r help sydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, hyd yn oed os ydynt yn gwybod am asesiadau o anghenion gofalwyr, mae nifer y bobl ledled Cymru sy'n cymryd mantais o'r asesiadau'n isel iawn, ac mae anghysondebau o ran sut y gall gofalwyr

Government develop a national young carers strategy, giving clear guidance on the identification, assessment and support that should be provided to young carers, and, of course, that should be implemented consistently across Wales. This is also a recommendation of the 'Full of Care' report.

Other ideas include a national identity card that clearly identifies those who are young carers. That would prevent the need for them to continuously explain their circumstances, as they currently have to do. A similar system is currently in use for some adult carers, and has proved invaluable in crisis situations, when they are unable to continue with their caring responsibilities and the authorities have to be alerted to make alternative provision.

Every one of us would like to think of childhood as being care-free, and in an ideal world, it would be so. However, in reality, there are many children and young people who are denied that privilege. We have young carers in Wales who happily take on their caring responsibilities, even when they have little choice. Often, these children and young people are oblivious to this concept of a care-free childhood, and are denied the experiences that their peers take for granted. These children and young people should be given a choice about the caring responsibilities that they want to take on, and those children and young people with inappropriate caring roles and responsibilities need our support not to be young carers.

I will end by stating that we owe these young people support, not only in their caring role, but also to give them the right to a happy, fulfilled life of their own, which includes the education that they want, and time to enjoy their childhood and young adulthood. I would like to thank Barnardo's for the work that it is doing, and particularly all those young people who are daily proving that they do care,

ifanc gael mynediad iddynt o un ardal awdurdod lleol i un arall. Byddwn yn awgrymu bod y Llywodraeth Cynulliad Cymru nesaf yn datblygu strategaeth genedlaethol i ofalwyr ifanc, gan roi arweiniad clir ar adnabod ac asesu gofalwyr ifanc a'r gefnogaeth y dylid ei darparu iddynt, ac, wrth gwrs, y dylid rhoi'r strategaeth honno ar waith yn gyson ledled Cymru. Mae hyn hefyd yn un o argymhellion yr adroddiad 'Bywyd Llawn Gofal'.

Un o'r syniadau eraill yw cynnwys cerdyn adnabod cenedlaethol sy'n nodi'n glir y rhai sy'n ofalwyr ifanc. Byddai hynny'n golygu na fyddai angen iddynt egluro eu hamgylchiadau yn barhaus, fel y mae'n rhaid iddynt ei wneud ar hyn o bryd. Defnyddir system debyg ar gyfer rhai gofalwyr sy'n oedolion ar hyn o bryd, ac mae wedi bod yn werthfawr iawn mewn sefyllfaoedd o argyfwng, pan na fyddant yn gallu parhau â'u cyfrifoldebau gofalu a rhaid i awdurdodau gael gwybod i wneud darpariaeth amgen.

Byddai pob un ohonom yn hoffi meddwl am blentyndod fel cyfnod diofal, ac mewn byd delfrydol, byddai hynny'n wir. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae llawer o blant a phobl ifanc nad ydynt yn cael y fraint honno. Mae gennym ofalwyr ifanc yng Nghymru sy'n ymgymryd â'u cyfrifoldebau gofalu yn hapus, hyd yn oed pan na fydd ganddynt fawr o ddewis. Yn aml, nid yw'r plant a'r bobl ifanc hyn yn ymwybodol o'r cysyniad o blentyndod diofal, ac maent yn cael eu hamddifadu o'r profiadau y mae eu cyfoedion yn eu cymryd yn ganiataol. Dylai'r plant a phobl ifanc hyn gael dewis o ran y cyfrifoldebau gofalu y maent eisiau ymgymryd â hwy, ac mae angen ein cefnogaeth ar y plant a phobl ifanc hynny sydd â rolau a chyfrifoldebau gofalu amhriodol i'w helpu i beidio â bod yn ofalwyr ifanc.

I gloi, rwyf am ddweud y dylem fod yn cefnogi'r bobl ifanc hyn, nid yn unig yn eu rôl ofalu, ond hefyd i roi iddynt yr hawl i fywyd hapus a bodlon, sy'n cynnwys yr addysg y maent am ei chael, ac amser i fwynhau eu plentyndod ac oedolaeth ifanc. Hoffwn ddiolch i Barnardo's am y gwaith y mae'n ei wneud, ac yn enwedig yr holl bobl ifanc hynny sy'n dangos bob dydd eu bod yn

whether that be in Delyn, throughout Flintshire, or across Wales.

**Irene James:** I thank Sandy for giving me the opportunity to speak on this very important issue. This is my final opportunity to speak in the Chamber, and I just want to say what a privilege it has been to serve the people of Islwyn and to work with my fellow Members.

The work that young carers do, in many cases to keep families together, is often underestimated. These young people forgo a lot of the joys of childhood in order to care for a family member. It is, therefore, beholden on us, as an Assembly, to do all that we can to support them.

As with all these things, the reckless budget cuts by the Tory-Lib Dem Government in Westminster will make life much harder for people who rely on help from the public sector. I doubt that young carers will take any comfort from George Osborne's attempt to lessen the burden on those at the very top of society. I know that this Labour-led Assembly Government takes supporting carers seriously, and I pay tribute to Gwenda Thomas, who has championed their cause with much diligence. It is right that we place a duty on the NHS and local authorities in Wales to work jointly and in consultation with young carers and their representatives to ensure that they have the opportunities that should be open to all young people, as young carers are entitled to a childhood.

**Ann Jones:** I thank Sandy for this short debate. While she talked about Delyn, she did expand it to the rest of Wales. While she was describing young carers in Flintshire, and in Delyn in particular, she could have been discussing young carers in the Vale of Clwyd, which shares a border with Delyn, and other constituencies as well. You effectively raised the way that young carers suffer; they lose their childhood and often are not on the radar of agencies, and we all know of the problems that they face. Sandy has been a champion for young carers in her time

gofalu, boed hynny yn Nelyn, ledled sir y Fflint, neu ledled Cymru.

**Irene James:** Diolch i Sandy am roi cyfle imi siarad ar y mater pwysig hwn. Dyma fy nghyfle olaf i siarad yn y Siambr, a hoffwn ddweud cymaint o ffraind y mae wedi bod i wasanaethu pobl Islwyn a gweithio gyda fy nghyd Aelodau.

Mae'r gwaith y mae gofaluwr ifanc yn ei wneud, mewn llawer o achosion i gadw teuluoedd gyda'i gilydd, yn cael ei danbristio yn aml. Nid yw'r bobl ifanc hyn yn profi llawer o bleserau plentyndod, a hynny er mwyn gofalu am aelod o'r teulu. Felly, mae dyletswydd arnom ni, fel Cynulliad, i wneud popeth o fewn ein gallu i'w cefnogi.

Fel gyda'r holl bethau hyn, mae'r toriadau dihid yn y gyllideb gan y Llywodraeth o Doriaid a Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn gwneud bywyd yn llawer anos i bobl sy'n dibynnu ar gymorth gan y sector cyhoeddus. Rwy'n amau y bydd gofaluwr ifanc yn cymryd unrhyw gysur o ymgais George Osborne i leihau'r baich ar y rhai ar frig y gymdeithas. Gwn fod Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn cymryd y gwaith o gefnogi gofaluwr o ddifrif, ac rwy'n talu teyrnged i Gwenda Thomas, sydd wedi hyrwyddo eu hachos gyda diwydrwydd sylweddol. Mae'n iawn ein bod yn gosod dyletswydd ar y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithio ar y cyd ac mewn ymgynghoriad â gofaluwr ifanc a'u cynrychiolwyr i sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd a ddylai fod ar gael i bob person ifanc, gan fod gan ofaluwr ifanc hawl i blentyndod.

**Ann Jones:** Diolch i Sandy am y ddatl fer hon. Er iddi siarad am brofiad Delyn, ehangodd ei chyfraniad i drafod gweddill Cymru. Disgrifiodd ofaluwr ifanc yn sir y Fflint, ac yn Nelyn yn benodol, ond gallai fod wedi bod yn trafod gofaluwr ifanc yn Nyffryn Clwyd, sy'n rhannu ffin â Delyn, ac etholaethau eraill yn ogystal. Gwnaethoch bwyntiau effeithiol am y ffordd y mae gofaluwr ifanc yn dioddef; maent yn colli eu plentyndod ac yn aml nid yw asiantaethau yn ymwybodol ohonynt, ac rydym i gyd yn gwybod am y problemau sy'n eu hwynebu.

and will continue to be.

Despite the efforts of this Assembly Government, there is still a lot to do in the way in which we look after our young carers. I welcome the support of Barnardo's and the groups that young people themselves have set up, of which there is one in my constituency, which is adept at seeing how young carers can work together. I welcome Sandy's call for a national young carers strategy, and I give her this pledge today: if you and I are re-elected, I will support that pledge.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Hoffwn ddiolch i Sandy am gyflwyno'r ddadl fer hon ar bwnc sy'n agos iawn at fy nghalon, sef gofalwyr, a'r ffyrdd yr ydym ni, fel Llywodraeth ac fel cymdeithas, yn darparu cymorth iddynt. Heb gymorth gofalwyr, byddai llawer ohonom yn ei chael yn anodd delio â'r anawsterau yr ydym yn eu hwynebu. Hoffwn ddiolch hefyd am gyfraniadau Irene ac Ann.

We know from the 2001 census, which Sandy mentioned, that 132,000 people in Wales provide more than 20 hours of unpaid care per week, and that 90,000 of these are providing more than 50 hours of unpaid care per week. I await with interest the results of this year's census.

You will all know that, in this past year, we have passed the Carers Strategies (Wales) Measure 2010, which delivered our commitment in 'One Wales' to prepare legislation on the rights of carers. One point that I want to be absolutely clear about is that this Measure encompasses carers of all ages. Its focus is on information and engagement, given that those were the areas that carers themselves identified as their top priorities. The strategies required by the Measure will provide for more effective engagement by relevant authorities with carers of all ages. That will begin with the NHS, because, having listened to carers and their representative organisations, that is where they asked us to start.

Mae Sandy wedi bod yn eiriolwr dros ofalwyr ifanc yn ei hamser a bydd yn parhau i fod.

Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad hwn, mae dal llawer i'w wneud o ran y ffordd yr ydym yn edrych ar ôl ein gofalwyr ifanc. Rwy'n croesawu cefnogaeth Barnardo's a'r grwpiau y mae pobl ifanc eu hunain wedi eu sefydlu, ac mae un yn fy etholaeth i, sy'n effeithiol o ran gweld sut y gall gofalwyr ifanc weithio gyda'i gilydd. Rwy'n croesawu galw Sandy am strategaeth genedlaethol i ofalwyr ifanc, ac rwy'n rhoi'r addewid hwn iddi heddiw: os bydd y ddwy ohonom yn cael ein hail-ethol, byddaf yn cefnogi'r addewid hwnnw.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I wish to thank Sandy for introducing this short debate on a subject that is very close to my heart—carers, and the way that we, as a Government and as a society, provide support for them. Without the assistance of carers, many of us would find it very difficult to deal with the difficulties that we face. I also wish to thank Irene and Ann for their contributions.

Rydym yn gwybod o gyfrifiad 2001, y soniodd Sandy amdano, fod 132,000 o bobl yng Nghymru yn darparu mwy nag 20 awr o ofal di-dâl yr wythnos, a bod 90,000 o'r rhain yn darparu mwy na 50 awr o ofal di-dâl yr wythnos. Rwy'n aros gyda diddordeb i glywed canlyniadau'r cyfrifiad eleni.

Bydd pob un ohonoch yn gwybod ein bod, yn y flwyddyn ddiwethaf, wedi pasio Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, a oedd yn delifro ein hymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i baratoi deddfwriaeth ar hawliau gofalwyr. Un pwynt rwyf am fod yn hollol glir amdano yw bod y Mesur yn cwmpasu gofalwyr o bob oedran. Mae'n canolbwyntio ar wybodaeth ac ymgysylltu, gan mai dyna oedd y meysydd y nododd y gofalwyr eu hunain fel eu prif flaenoriaethau. Bydd y strategaethau sy'n ofynnol o dan y Mesur yn darparu ar gyfer ymgysylltu'n fwy effeithiol gan awdurdodau perthnasol â gofalwyr o bob oedran. Bydd yn dechrau gyda'r GIG, oherwydd, ar ôl gwrandao ar ofalwyr a sefydliadau sy'n eu cynrychioli,

dyna lle maent wedi gofyn inni ddechrau.

The strategies will ensure that carers are consulted before decisions are made about the provision of services for them or those cared for. The strategies will also ensure that carers are provided with the information that they need to carry out their caring role effectively. I have just issued the draft regulations and guidance to implement this Measure for full public consultation, and that will be an opportunity for carers and stakeholders across Wales to share their views with us.

Bydd y strategaethau yn sicrhau yr ymgynghorir â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer neu'r rhai sy'n derbyn gofal. Bydd y strategaethau hyn hefyd yn sicrhau bod gofalwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni eu rôl gofalu yn effeithiol. Rwyf newydd gyhoeddi'r rheoliadau drafft a chanllawiau i weithredu'r Mesur hwn i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, a bydd hwnnw'n gyfle ar gyfer gofalwyr a rhanddeiliaid ar draws Cymru i rannu eu barn gyda ni.

5.45 p.m.

It will then be a matter for the next Assembly Government to take the regulations forward. I have also issued for consultation research that was commissioned by the Welsh Assembly Government on the existing usage, capacity and range of respite care provision across Wales. This work identifies the patterns and demand for respite services for both adults and children across the country. This research and the views that we collect through the consultation will help to inform future policy development in this important area.

Mater i Lywodraeth nesaf y Cynulliad fydd cyflwyno rheoliadau. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi, ar gyfer ymgynghoriad, ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddefnydd, capasiti ac ystod y ddarpariaeth gofal seibiant presennol ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn nodi'r patrymau a'r galw am wasanaethau seibiant i oedolion a phlant ar draws y wlad. Bydd yr ymchwil a'r safbwyntiau y byddwn yn eu casglu drwy'r ymgynghoriad yn ein helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol yn y maes pwysig hwn.

Carers also feature in the paper that I published in February, 'Sustainable Social Services in Wales: A Framework for Action'. In the paper, I refer to the Measure and also commit to refreshing the current carers strategy. I say 'strategy', as that was the language used in the 'One Wales' agreement, but I am aware of the First Minister's recent 'strategy factory' comments. What we will produce, therefore, will be a framework that focuses on enabling and delivery. It will be about action. This new framework will focus on delivering for carers in a range of ways, and part of that work will include a specific focus on young carers and new guidance on carers' assessments.

Mae gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys yn y papur a gyhoeddais ym mis Chwefror, sef 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu'. Yn y papur, rwy'n cyfeirio at y Mesur ac hefyd yn ymrwymo i adnewyddu'r strategaeth gofalwyr bresennol. Rwy'n dweud 'strategaeth', gan mai dyna'r iaith a ddefnyddir yn 'Cymru'n Un', ond rwy'n ymwybodol o sylwadau diweddar y Prif Weinidog ynghylch 'ffatri strategaeth'. Yr hyn y byddwn yn ei lunio, felly, fydd fframwaith a fydd yn canolbwyntio ar alluogi a chyflawni. Bydd yn ymwneud â gweithredu. Bydd y fframwaith newydd yn canolbwyntio ar gyflawni ar gyfer gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, a bydd rhan o'r gwaith hwnnw'n cynnwys ffocws penodol ar ofalwyr ifanc ac arweiniad newydd ar asesiadau gofalwyr.

I would also like to make you aware that officials have started work on a review of

Hoffwn hefyd eich gwneud yn ymwybodol bod swyddogion wedi dechrau gweithio ar

carers' assessments, which is part of a wider review of the unified assessment process. Organisations representing carers are involved in this work. As Sandy has mentioned, in 2009, the Children's Commissioner for Wales published 'Full of Care', a piece of work that told us about how young carers lived their lives and changes that they would like to see, and which made recommendations as to how those changes should be made. This is an important report, and I encourage all those present to read it and to keep it fresh in our minds.

The title of this debate is 'Who Cares in Delyn?' and, of course, it is the case that carers assessed as having needs in other parts of Wales will have the same needs in Flintshire. That is why I want to see consistency in the approach taken by all local authorities to assessing carers, and why I set out my intention to develop national eligibility criteria in the framework for action paper. I understand that these assessments, and the consistency with which they are administered across Wales in relation to young carers, is one reason why you, Sandy, chose this subject for debate.

I agree that it is important that we get the assessment process right. An assessment is the gateway to services and so it is critical that those carrying them out get them right, and get them right the first time. That is reliant upon staff being trained in how to carry them out and the process being relevant and straightforward. It is also imperative that people should not be kept waiting unduly to find out the outcome of their assessment.

I know that Flintshire County Borough Council has in place, in partnership with Betsi Cadwaladr University Local Health Board, a joint commissioning strategy for carers. That strategy is clear about the support that they will provide to carers, including young carers. It is evidence-based and outcome-focused. It is encouraging to see that the local authority is working in partnership with the local health board for the benefit of carers. It is also encouraging to know about the specific work that is undertaken for the benefit of young carers,

adolygiad o asesiadau gofalwyr, sy'n rhan o adolygiad ehangach o'r broses asesu unedig. Mae sefydliadau sy'n cynrychioli gofalwyr yn cymryd rhan yn y gwaith hwn. Fel y soniodd Sandy, yn 2009, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru 'Bywyd Llawn Gofal', darn o waith sy'n dweud wrthym sut y gall gofalwyr ifanc fyw eu bywydau a'r newidiadau y byddent yn hoffi eu gweld, ac sy'n gwneud argymhellion ynghylch sut y dylid gwneud y newidiadau hynny. Mae hwn yn adroddiad pwysig, ac rwy'n annog pawb sy'n bresennol i'w ddarllen ac i'w gadw'n fyw yn ein meddyliau.

Teitl y ddadl hon yw 'Pwy sy'n Gofalu yn Nelyn?' ac, wrth gwrs, mae'n wir y bydd gan ofalwyr yr aseswyd bod ganddynt anghenion mewn rhannau eraill o Gymru yr un anghenion yn sir y Fflint. Dyna pam yr wyf am weld cysondeb yn y dull a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol i asesu gofalwyr, a pham yr wyf yn nodi fy mwriad i ddatblygu meini prawf cymhwyster cenedlaethol yn y papur fframwaith ar gyfer gweithredu. Rwy'n deall, Sandy, mai'r asesiadau hyn, a'r cysondeb o ran eu gweinyddu ledled Cymru mewn perthynas â gofalwyr ifanc, yw un o'r rhesymau pam eich bod wedi dewis y pwnc hwn ar gyfer dadl.

Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig bod y broses asesu yn un gywir. Asesiad yw'r porth i wasanaethau ac felly mae'n hanfodol bod y rhai sy'n eu cynnal yn eu cael yn iawn, ac yn eu cael yn iawn y tro cyntaf. Mae hynny'n ddibynnol ar gael staff sydd wedi'u hyfforddi ar sut i'w cynnal ac ar gael proses syml. Mae hefyd yn hollbwysig na ddylai pobl orfod aros yn rhy hir cyn darganfod canlyniad eu hasesiad.

Gwn fod Cyngor Sir y Fflint wedi sefydlu, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, strategaeth gomisiynu ar y cyd ar gyfer gofalwyr. Mae'r strategaeth honno'n glir am y cymorth y byddant yn ei ddarparu i ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'n galonogol gweld yr awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol er budd gofalwyr. Mae hefyd yn galonogol i wybod am y gwaith penodol sy'n cael ei wneud er

such as a mental health support project, the provision of respite care, information, social and fun activities, and a schools-based awareness raising project. There is also a contract in place with Barnardo's, as Sandy has mentioned, to deliver services. In 2010, around 450 young carers were supported.

According to 'Full of Care', 53 per cent of young carers in Flintshire were assessed. I would want to see that figure improved upon, but I am told that the authority has evidence that many young carers in the authority prefer not to be assessed. They are, therefore, signposted directly to Barnardo's to receive services, if that is their wish.

Tomorrow, I will meet the local authority carers' champions from across Wales. These are elected members, and Councillor Carol Ellis, Flintshire's carers' champion, is attending. I will use that opportunity to update them, as I have updated you today, on our work to support carers. I am sure that they will report back to me on any issues arising in their areas. I will also ask them to consider how they and their constituents can contribute to the development of the new enabling and delivery framework for carers.

I firmly believe that it is Government's responsibility to do what it can to ensure that carers are properly regarded in the development of policy and practice, and I sincerely hope that the next Assembly Government carries forward the focus that we have placed on carers since devolution.

I take this opportunity to express my gratitude for the degree of consensus that we have been able to achieve across the Chamber with regard to the development of policy and legislation that will make a real difference to the lives of the most vulnerable among us.

budd gofalwyr ifanc, megis prosiect cymorth iechyd meddwl, darpariaeth gofal seibiant, gwybodaeth, gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, a phrosiect i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion. Mae yna hefyd gytundeb ar waith gyda Barnardo's, fel y soniodd Sandy, i ddarparu gwasanaethau. Yn 2010, rhoddwyd cefnogaeth i tua 450 o ofalwyr ifanc.

Yn ôl 'Bywyd Llawn Gofal', mae 53 y cant o ofalwyr ifanc yn sir y Fflint wedi cael eu hasesu. Byddwn am weld y ffigur hwnnw'n gwella, ond dywedir wrthyf bod gan yr awdurdod dystiolaeth ei bod yn well gan lawer o ofalwyr ifanc yn yr awdurdod beidio â chael eu hasesu. Felly, cânt eu cyfeirio'n uniongyrchol at Barnardo's i dderbyn gwasanaethau, os mai dyna yw eu dymuniad.

Yfory, byddaf yn cyfarfod ag eiriolwyr dros ofalwyr o awdurdodau lleol ledled Cymru. Aelodau etholedig ydynt, a bydd y Cynghorydd Carol Ellis, yr eiriolwr dros ofalwyr yn sir y Fflint, yn bresennol. Byddaf yn defnyddio'r cyfle hwnnw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, fel yr wyf wedi ei rhoi i chi heddiw, ar ein gwaith i gefnogi gofalwyr. Yr wyf yn siŵr y byddant yn adrodd yn ôl i mi ar unrhyw faterion sy'n codi yn eu hardaloedd. Byddaf hefyd yn gofyn iddynt ystyried sut y gallant hwy a'u hetholwyr gyfrannu at ddatblygu'r fframwaith galluogi a chyflawni newydd i ofalwyr.

Rwy'n credu'n gryf mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw gwneud yr hyn a all i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hystyried yn briodol wrth ddatblygu polisi ac arfer, ac rwy'n mawr obeithio y bydd Llywodraeth nesaf y Cynulliad yn parhau â'r ffocws yr ydym ni wedi'i roi ar ofalwyr ers datganoli.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i fynegi fy niolchgarwch am y consensws yr ydym wedi gallu ei gyflawni ar draws y Siambr o ran datblygu polisi a deddfwriaeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein plith.

**Datganiad i Gloi gan y Llywydd**  
**Closing Statement by the Presiding Officer**

**Y Llywydd:** Dyma'r datganiad diddymiad cyntaf yn hanes y Cynulliad Cenedlaethol. Hoffwn ddatgan fy niolchgarwch fel Llywydd i'n prif weithredwr a thrwyddi hithau i'n holl staff brwdfrydig am eu hymroddiad trylwyr a phroffesiynol i hyrwyddo democratiaeth Cymru. Gallwch i gyd ymfalchïo bod eich gwaith clodwiw chi wedi cyfrannu'n sylweddol i'r bleidlais o ymddiriedaeth gadarn a gawsom gan etholwyr Cymru yn y refferendwm diweddar. Derbyniwch felly ein diolchgarwch cynnes fel Aelodau o'r trydydd Gynulliad. [*Cymeradwyaeth.*]

**Val Lloyd:** It is an honour to speak on the eve of the dissolution of the third National Assembly for Wales, and I speak as chair of the Assembly's Labour group. On behalf of my group, I add our sincere thanks to all Assembly staff, who have so competently and cheerfully assisted and supported us in all our work. As I look back, not just over this Assembly, but over the first and second Assemblies, in which I have served, it is clear to me that devolution works, and it is working to better the lives of the people of Wales. Since the start of the Assembly in 1999, Welsh Labour has always been a party of Government, and Welsh Labour remains committed to standing up for social justice, equality and fairness for all. My time to speak is limited, and I am conscious that the Presiding Officer will tell me so. Therefore, necessarily, I have to be selective in what I choose to highlight. I therefore highlight that, through the National Assembly, Wales was the first UK nation to offer free bus travel to the elderly and disabled; Wales equality proofs every policy, including the Assembly budget, and, of course, all in the Assembly have played a part in ensuring gender balance in the Chamber; Wales developed the very innovative ReAct and ProAct policies, which helped to keep people in their jobs during the recession; and, finally, I will be a little parochial, as Chair of the Committee on Smoking in Public Places, in saying that Wales became the first UK nation to vote in favour of a smoking ban in enclosed public places. That was agreed unanimously by the committee, and by all groups.

**The Presiding Officer:** This is the first dissolution statement in the history of the National Assembly. I would like to express my thanks as Presiding Officer to our chief executive and through her to all our enthusiastic staff for their total and professional commitment to the promotion of Welsh democracy. You can all take pride in the fact that your commendable work has contributed significantly to the solid vote of confidence in us delivered by the Welsh electorate in the recent referendum. Accept therefore our sincerest thanks as Members of the third Assembly. [*Applause.*]

**Val Lloyd:** Mae'n anrhydedd i siarad ar y noson cyn diddymiad trydydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac rwy'n siarad fel cadeirydd y grŵp Llafur yn y Cynulliad. Ar ran fy ngrŵp, yr wyf yn ychwanegu ein diolch diffuant i holl staff y Cynulliad, sydd wedi bod mor fedrus a siriol yn ein cynorthwyo a'n cefnogi ni yn ein holl waith. Wrth i mi edrych yn ôl, dros y Cynulliad hwn yn ogystal â'r ddau Gynulliad cyntaf, yr oeddwn hefyd yn Aelod ohonynt, mae'n amlwg i mi fod datganoli yn gweithio, ac mae'n gweithio er mwyn gwella bywydau pobl Cymru. Ers dechrau'r Cynulliad yn 1999, mae Llafur Cymru wedi bod yn blaid mewn Llywodraeth, ac mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i sefyll i fyny dros gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a thegwch i bawb. Mae fy amser i siarad yn gyfyngedig, ac yr wyf yn ymwybodol y bydd y Llywydd yn dweud hynny wrthyf. Felly, o reidrwydd, rhaid i mi ddewis a dethol yr hyn yr wyf am dynnu sylw ato. Felly, hoffwn amlygu mai Cymru, drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnig teithio ar fws am ddim i'r henoed a phobl anabl; mae Cymru yn profi effaith ei pholisïau ar gydraddoldeb, gan gynnwys cyllideb y Cynulliad, ac, wrth gwrs, mae pawb yn y Cynulliad wedi chwarae rhan mewn sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Siambr; datblygodd Cymru bolisïau arloesol ReAct a ProAct, a helpodd bobl i gadw eu swyddi yn ystod y dirwasgiad; ac, yn olaf, rwyf am fod ychydig yn blwyfol, fel Cadeirydd y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus, drwy ddweud mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i bleidleisio o blaid gwahardd ysmygu mewn manau cyhoeddus caeedig. Cytunwyd ar



hynny yn unfrydol gan y pwyllgor, a chan yr holl grwpiau.

Those are just some of the achievements that have been made through the process of devolution and by a Labour-led Government. I know that I speak for the entire Assembly Labour group when I say that we are fiercely proud of our achievements in Wales. It was, after all, a Labour Government that first introduced and brought devolution to Wales in the form of the 1997 referendum, and that then put it onto the statute book under the Government of Wales Act 1998. We in Welsh Labour remain committed to devolution, as I am sure others do too.

I feel deeply honoured and privileged to have been a Labour Assembly Member and to have had the opportunity to represent Swansea East for over 10 years. This Assembly has made its mark over its first 12 years, and I know that it and all Members will continue to work for the people of Wales. [*Applause.*]

**William Graham:** Certainly, no-one can doubt the transformation of the Welsh Conservative Party since 1997, and nobody here would doubt our commitment to devolution.

I thank the Presiding Officer and his deputy for their unfailing courtesy to all Members and for maintaining order, sometimes in the face of challenging provocation. [*Laughter.*] We should give our particular thanks to our support staff, for, without them, we would not do as well as we do now. We must also record our thanks to the Commission staff—from the cleaner to the Clerk, every one contributes to our success, and we know how well served we are. We give particular thanks to the committee staff, with whom we deal week in, week out. We know that, in Wales, committees have a particular importance: in religious life, in sporting life, and in the cultural life of our nation.

A hallmark of this third Assembly has been freedom. Perhaps that has been most clearly expressed in the recent referendum, in which the people of Wales decided freely what they wanted their future to be. We enjoy the

Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r hyn sydd wedi'i gyflawni drwy'r broses o ddatganoli, a hynny gan Lywodraeth dan arweiniad Llafur. Gwn fy mod yn siarad ar ran y grŵp Llafur cyfan yn y Cynulliad pan ddywedaf ein bod yn ffyrnig o falch o'n llwyddiannau yng Nghymru. Wedi'r cyfan, Llywodraeth Llafur a gyflwynodd ddatganoli i Gymru ar ffurf y refferendwm yn 1997, ac a'i rhoddodd ar y llyfr statud o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Rydym ni yn Llafur Cymru yn parhau'n ymrwymedig i ddatganoli, fel yr wyf yn siŵr y mae eraill hefyd.

Rwy'n teimlo anrhydedd a braint mawr o fod wedi bod yn Aelod Cynulliad Llafur ac o gael y cyfle i gynrychioli Dwyrain Abertawe am dros 10 mlynedd. Mae'r Cynulliad hwn wedi gwneud ei farc dros ei 12 mlynedd gyntaf, a gwn y bydd ef a'i holl Aelodau yn parhau i weithio dros bobl Cymru. [*Cymeradwyaeth.*]

**William Graham:** Yn sicr, ni all neb amau gweddnewidiad y Blaid Geidwadol yng Nghymru ers 1997, ac ni fyddai neb yma yn amau ein hymrwymiad i ddatganoli.

Diolchaf i'r Llywydd a'i ddirprwy am eu cwртеisi di-ffael i bob Aelod ac am gadw trefn, weithiau yn wyneb cryn herio pryfoclyd. [*Chwerthin.*] Dylem ddiolch yn arbennig i'n staff cymorth, oherwydd hebddynt, ni fyddem yn gwneud cystal ag yr ydym. Rhaid inni hefyd gofnodi ein diolch i staff y Comisiwn—o'r glanhawyr i'r Clerc, mae pob un ohonynt yn cyfrannu at ein llwyddiant, ac rydym yn gwybod pa mor dda yr ydym yn cael ein gwasanaethu. Rydym yn rhoi diolch arbennig i staff y pwyllgorau, yr ydym yn ymdrin â hwy o un wythnos i'r llall. Rydym yn gwybod bod lle arbennig i bwyllgorau yng Nghymru: mewn bywyd crefyddol, ym myd chwaraeon, ac ym mywyd diwylliannol ein cenedl.

Un o nodweddion amlycaf y trydydd Cynulliad hwn fu rhyddid. Efallai y cafodd hynny ei fynegi amlycaf yn y refferendwm diweddar, pryd y penderfynodd pobl Cymru yn rhydd ar eu dyfodol. Rydym yn

freedom to choose, to debate, to vote and to disagree, something denied to so many people in the world.

*Morituri te salutant*—those who are about to die salute you. That is what the gladiators are meant to have said in the arenas of ancient Rome, but our electoral system is not quite so final. [*Laughter.*] To those Members who are leaving voluntarily, I wish you godspeed and farewell, and thank you for your wonderful contributions. For those, like myself, who are determined to return, *pob lwc*. Let us also remember absent friends today, and hold them and their families in our thoughts.

Yesterday, our distinguished former First Minister—I do not know why his dog is called William; I am unable to ‘Tell’—quoted Tennyson’s ‘The Brook’, so I will finish today, if I may, by paraphrasing some Shakespeare.

This story shall the good man teach his son from this day to the ending of the world, but we in it shall be remembered, we few, we happy few, we band of Members, and gentlemen and gentlewomen in Wales now a-bed shall think themselves accursed they were not here, that fought with us upon election day. [*Applause.*]

**Janet Ryder:** I add the thanks of Plaid Cymru—The Party of Wales to all the staff who serve us in the Chamber and the Assembly buildings, in the restaurant and in the tea rooms, the cleaners, as William mentioned, members of the research team and all of the committee clerks. All have served us very well over this Assembly.

It has been a great pleasure to have been a Member of the Assembly since 1999. Undoubtedly, we have seen many changes. Those of us who were here at the beginning may remember that we started in May 1999 in a converted office block: we had no set committees, no Standing Orders and very few of us had experience of government at this level. We had no powers, really. We had no windows in the Chamber, and, certainly, some of us did not have any grey hairs. [*Laughter.*] How very much that has all changed. The building that we are currently

mwynhau’r rhyddid i ddewis, i drafod, i bleidleisio ac i anghytuno, rhywbeth sy’n cael ei wrthod i gynifer o bobl yn y byd.

*Morituri te salutant*—mae’r rhai sydd ar fin marw yn eich cyfarch. Yn ôl y sôn, dyna beth fyddai’r gladiatoriaid yn ei ddweud yn yr arenau yn Rhufain, ond nid yw ein system etholiadol ni mor derfynol â hynny. [*Chwerthin.*] I’r Aelodau hynny sy’n gadael yn wirfoddol, dymunaf y gorau ichi, a diolchaf ichi am eich cyfraniadau gwych. I’r rhai, fel fi, sy’n benderfynol o ddechwyd, pob lwc. Gadewch inni gofio hefyd am ffrindiau absennol a’u teuluoedd.

Ddoe, dyfynnodd ein cyn Brif Weinidog nodedig—ni wn pam mai William yw enw ei gi; a yw ar ôl William Tell, tybed?—ddarn o ‘The Brook’ gan Tennyson, felly, hoffwn i orffen heddiw, os caf, drwy aralleirio Shakespeare.

This story shall the good man teach his son from this day to the ending of the world, but we in it shall be remembered, we few, we happy few, we band of Members, and gentlemen and gentlewomen in Wales now a-bed shall think themselves accursed they were not here, that fought with us upon election day. [*Cymeradwyaeth.*]

**Janet Ryder:** Hoffwn ychwanegu diolchiadau Plaid Cymru i’r holl staff sy’n ein gwasanaethu ni yn y Siambr ac yn adeiladau’r Cynulliad, yn y bwyty, ac yn yr ystafelloedd te, y glanhawyr, fel y soniodd William, aelodau o’r tîm ymchwil a phob un o glercod y pwyllgorau. Mae pawb wedi ein gwasanaethu yn dda iawn dros y Cynulliad hwn.

Mae wedi bod yn bleser mawr cael bod yn Aelod Cynulliad ers 1999. Yn ddi-os, rydym wedi gweld llawer o newidiadau. Gall y rhai ohonom a oedd yma o’r cychwyn gofio inni ddechrau ym mis Mai 1999 mewn cyn-floc swyddfa: nid oedd gennym bwyllgorau penodol, dim Rheolau Sefydlog ac ychydig iawn ohonom oedd â phrofiad o lywodraeth ar y lefel hon. Nid oedd gennym unrhyw bwerau, mewn gwirionedd. Nid oedd gennym ffenestri yn y Siambr, ac, yn sicr, nid oedd gwallt rhai ohonom wedi britho. [*Chwerthin.*] Mae hynny i gyd wedi newid erbyn hyn.

in is a testament to how Welsh democracy and the love, which is growing, for their own parliament has changed people's feelings towards the Assembly. More importantly, we now have the powers to move on. So much has changed over those 12 years.

6.00 p.m.

If you remember—as I am sure many do—the 1999 campaign, knocking on doors usually meant having to explain what the National Assembly was, explaining where it was going to be—if you were in north Wales—and explaining that it was not just going to be an Assembly for Cardiff, but that it was going to be an Assembly for everyone in Wales. It was not an easy campaign, but it was an exciting campaign and a very challenging campaign. At the end of it, three members of Denbighshire County Council were elected to the Assembly. That must be a record. Two of us are standing down, which may leave only one to carry the baton for Denbighshire.

I would like to take this opportunity to thank everyone whom I have come to know in my own party and in the Assembly—everyone together in this family. I would like to thank the people with whom I have worked for so long; it has been a great pleasure. I would especially like to thank the clerks of the Constitutional Affairs Committee. It has been a great honour to chair that committee over the last few years and to see it grow as this Assembly has grown. I would also like to thank the staff who have supported the activities of the Wales branch of the Commonwealth Parliamentary Association, which I have also been very pleased to chair over the past four years. I would especially like to thank members of the cross-party group on autism. One thing that the Assembly, throughout its history, should be proud of is the work that it has done in that field. It has been truly great. There is a long way to go, but it has been great.

Lastly, I would like to thank a party that has made a girl born and brought up in Sunderland so welcome in its midst. I have

Mae'r adeilad yr ydym ynddo ar hyn o bryd yn dyst i'r ffordd y mae democratiaeth Cymru wedi newid teimladau pobl at y Cynulliad ynghyd â'r ffordd y mae cariad pobl at eu senedd eu hunain yn tyfu. Yn bwysicach, mae gennym bellach y pwerau i symud ymlaen. Mae cymaint wedi newid dros y 12 mlynedd hynny.

Os ydych yn cofio ymgyrch 1999—fel yr wyf yn sicr bod llawer ohonoch—roedd curo ar ddrysau fel arfer yn golygu gorfod esbonio beth oedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan egluro lle roedd yn mynd i gael ei leoli—os yr oeddech yn y gogledd—ac egluro nad oedd yn mynd i fod yn Gynulliad i Gaerdydd yn unig, ond ei fod yn mynd i fod yn Gynulliad i bawb yng Nghymru. Nid oedd yn ymgyrch hawdd, ond roedd yn ymgyrch gyffrous a heriol iawn. Ar y diwedd, cafodd tri aelod o Gyngor Sir Ddinbych eu hethol i'r Cynulliad. Mae'n rhaid bod hynny'n record. Mae dau ohonom yn sefyll i lawr, a gallai hyn adael dim ond un i gario'r baton ar gyfer sir Ddinbych.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb yr wyf wedi dod i'w hadnabod yn fy mhlaid fy hun ac yn y Cynulliad—pawb sy'n rhan o'r teulu hwn. Hoffwn ddiolch i'r bobl yr wyf wedi gweithio gyda hwy am gyfnod mor hir; mae wedi bod yn bleser mawr. Yn arbennig, hoffwn ddiolch i glercod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. Bu'n anrhydedd mawr cadeirio'r pwyllgor hwnnw dros y blynyddoedd diwethaf a'i weld yn tyfu fel y mae'r Cynulliad hwn wedi tyfu. Hoffwn hefyd ddiolch i'r staff sydd wedi cefnogi gweithgareddau cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yr wyf hefyd wedi bod yn falch iawn o'i gadeirio dros y pedair blynedd diwethaf. Yn arbennig, hoffwn ddiolch i aelodau'r grŵp trawsbleidiol ar awtistiaeth. Un peth y dylai'r Cynulliad fod yn falch ohono, drwy gydol ei hanes, yw'r gwaith y mae wedi'i wneud yn y maes hwnnw. Mae wedi bod yn wirioneddol wych. Mae ffordd bell i fynd, ond mae wedi bod yn wych.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i blaid sydd wedi croesawu merch a gafodd ei geni a'i magu yn Sunderland i'w plith. Nid wyf erioed wedi

never wanted to be a member of another political party, and I know that Plaid Cymru has an awful lot to offer this nation. I know from my own personal life that, just when it seems that everything is coming to an end, the very best and brightest new beginnings start to grow. I know that that will be true of this next Assembly, when there will be new Members and new powers, and when, at last, Wales will start to see the true development of the parliament for which it has longed for so many years. *[Applause.]*

**Eleanor Burnham:** I do not suppose that I am known for my oratory. I am probably better known for faux pas related to latex, trains, lavatories and so on. *[Laughter.]*

Mae'n anrhydedd fawr cael sefyll ac annerch y Cynulliad am eiliad neu ddwy, mae'n debyg am y tro olaf. Yr oedd yn anrhydedd imi gael y cyfle i gynrychioli pobl gogledd Cymru. Fel y dywedodd Janet, deuthum o Gynwyd i'r Cynulliad; pwy a wŷr beth fydd yn digwydd ym mis Mai?

It has been a fantastic journey. I came here in a bit of a whirlwind, but I have always said to my staff, 'If you can cope with a whirlwind, I think that you can cope with Eleanor'. I came here in 2001. I was very naive and green, and I do not think I have improved that much. I have tried to stay young and, although I am going to be 60 in a couple of weeks, I feel very young at heart, and I hope that I can continue in my work.

What we have done here over the last 10 years has been an enormous pleasure. We should consider the influence of women in the Assembly. Forgive me: I love men dearly, as you all know. *[Laughter.]* However, I think that women have brought a new flavour to this place. I am very concerned that, after May, there might be insufficient men—sorry, women—to continue the good work. *[Laughter.]* I have been a member of the Children and Young People Committee and the Committee on Equality of Opportunity. I was privileged to be on the board that appointed the Children's Commissioner for

eisiau bod yn aelod o blaid wleidyddol arall, a gwn fod gan Blaid Cymru lawer iawn i'w gynnig i'r genedl hon. Rwy'n gwybod o fy mywyd personol mai dim ond pan fo'n ymddangos bod popeth yn dod i ben y mae'r dechreuadau newydd gorau a mwyaf disglair yn dechrau dod i'r amlwg. Gwn y bydd hynny'n wir o ran y Cynulliad nesaf, pan fydd Aelodau newydd a phwerau newydd, a phan fydd Cymru, o'r diwedd, yn dechrau gweld y senedd y mae wedi dyheu amdani am gymaint o flynyddoedd yn wir datblygu. *[Cymeradwyaeth.]*

**Eleanor Burnham:** Nid wyf yn credu fy mod yn adnabyddus am fy noniau areithio. Rwyf siŵr o fod yn fwy adnabyddus am faux pas sy'n gysylltiedig â latecs, trenau, toiledau ac yn y blaen. *[Chwerthin.]*

It is a privilege to stand before you to address the Assembly for a few seconds for what is likely to be the last time. It has also been a privilege to have the opportunity to represent the people of north Wales. As Janet has said, I came from Cynwyd to the Assembly; who knows what will happen in May?

Mae wedi bod yn daith wych. Des i yma ar dipyn o gorwynt, ond rwyf bob amser wedi dweud wrth fy staff, 'Os ydych yn gallu ymdopi â chorwynt, rwy'n credu y gallwch ymdopi ag Eleanor'. Des i yma yn 2001. Roeddwn yn naif ac yn ddiniwed iawn, ac nid wyf yn meddwl fy mod wedi gwella cymaint â hynny. Rwyf wedi ceisio aros yn ifanc ac, er fy mod yn mynd i fod yn 60 oed mewn cwpl o wythnosau, rwy'n teimlo'n ifanc iawn yn y bôn, ac rwy'n gobeithio y gallaf barhau yn fy ngwaith.

Mae wedi bod yn bleser enfawr gwneud yr hyn yr ydym wedi'i wneud yma yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Dylem ystyried dylanwad menywod yn y Cynulliad. Maddeuwch i mi: rwyf wrth fy modd â dynion, fel y gwyddoch i gyd. *[Chwerthin.]* Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod menywod wedi dod â naws newydd i'r lle hwn. Rwy'n bryderus iawn, ar ôl mis Mai, na fydd digon o ddynion—mae'n ddrwg gennyf, menywod—i barhau â'r gwaith da. *[Chwerthin.]* Rwyf wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Cefais y fraint o fod ar y bwrdd a benododd

Wales, along with Jane Hutt, the Minister for Business and Budget, Helen Mary Jones and many other Members. That was a great privilege. We have also had the Commissioner for Older People in Wales—and I am going that way myself. However, the cross-party committee on ageing matters has been brilliant, and Ruth Marks has been involved in that. These are all soft issues that, as I have discussed before, we do not focus enough on in terms of ensuring equality in society. Recent discussions on ageing and lack of dignity have really horrified me.

I know that I must keep this brief, though I know that the Llywydd will be magnanimous, as he has been in the past. The Liberal Democrats are often asked the question: ‘what are you for?’ Well, I think that our purpose is to prick the conscience of the nation in a slightly off-key and off-the-wall way, which I suspect that I am part of. I long to see us continue after the May election.

I want to thank everyone. It has been an absolute privilege to talk to all of the fantastic staff that we have—all of those wonderful people who look after our security and our catering needs, the Members’ research service, and all staff in general. I think that they are fantastic and I suspect that they do not realise how integral they are to our wellbeing. I was attending a Commonwealth Parliamentary Association conference in Australia during 9/11 and, of course, everything went absolutely berserk. Not a lot of people know this, because unfortunately, when the media heard about it, they said that we had been on a jolly. Well, it was not a jolly. It was economy class all the way to Australia and I kept my hockey socks on afterwards when I went to talk to whoever it was we were having dinner with—some governor or other. When you look at security these days, it is probably so high on our list that we forget about it. It is all around us and everyone is looking after us.

Gomisiynydd Plant Cymru, ynghyd â Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a’r Gyllideb; Helen Mary Jones; a llawer o Aelodau eraill. Roedd yn fraith enfawr. Rydym hefyd wedi sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru—ac rwy’n mynd i’r cyfeiriad hwnnw fy hun. Fodd bynnag, mae’r pwyllgor trawsbleidiol ar faterion sy’n ymwneud â heneiddio wedi bod yn wych, ac mae Ruth Marks wedi bod yn rhan o hynny. Mae’r rhain i gyd yn faterion meddal nad ydym, fel yr wyf wedi sôn o’r blaen, yn canolbwyntio ddigon arnynt o ran sicrhau cydraddoldeb mewn cymdeithas. Mae trafodaethau diweddar ar heneiddio a diffyg urddas wir wedi fy arswydo.

Rwy’n gwybod bod yn rhaid i mi fod yn gryno, er fy mod yn gwybod y bydd y Llywydd yn hael, fel y mae wedi bod yn y gorffennol. Mae pobl yn aml yn gofyn i’r Democratiaid Rhyddfrydol, ‘Beth yw eich pwrpas?’ Wel, rwy’n credu mai ein pwrpas yw pigo cydwybod y genedl mewn ffordd ychydig yn wahanol ac annisgwyl, ac rwy’n amau fy mod yn rhan o hynny. Rwy’n ysu i’n gweld yn parhau ar ôl yr etholiad ym mis Mai.

Hoffwn ddiolch i bawb. Mae wedi bod yn fraith wirioneddol i siarad â’r holl staff gwych sydd gennym—yr holl bobl wych sy’n gofalu am ein diogelwch a’n hanghenion arlwyo, gwasanaeth ymchwil yr Aelodau, a’r holl staff yn gyffredinol. Rwy’n meddwl eu bod yn wych ac rwy’n amau nad ydynt yn sylweddoli pa mor hanfodol ydynt i’n lles. Roeddwn yn mynychu cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Awstralia yn ystod 9/11 ac, wrth gwrs, aeth popeth yn hollol wyllt. Nid oes llawer o bobl yn gwybod hyn, oherwydd, yn anffodus, pan glywodd y cyfryngau am y peth, roeddent yn dweud ein bod wedi bod ar ‘jolly’. Wel, nid ‘jolly’ oedd y daith honno. Roeddem yn teithio dosbarth economi yr holl ffordd i Awstralia a chadwais fy sanau hoci ymlaen ar ôl hynny pan euthum i siarad â phwy bynnag yr oeddem yn cael cinio ag ef—rhyw llywodraethwr neu’i gilydd. Pan fyddwch yn edrych ar ddiogelwch y dyddiau hyn, mae siŵr o fod mor uchel ar ein rhestr ein bod yn anghofio am y peth. Mae o’n cwmpas ac mae pawb yn edrych ar ein hôl ni.

On a more positive note, I want to thank everyone. I wish you all the best, as other Members have done more eloquently. *Salute* to you all. It has been a fantastic journey and I wonder where we will all be in May. But, whatever, good luck. [*Applause.*]

Ar nodyn mwy cadarnhaol, rwyf am ddiolch i bawb. Rwy'n dymuno'n dda i chi i gyd, fel y mae Aelodau eraill wedi gwneud yn fwy huawdl. *Salute* i chi i gyd. Mae wedi bod yn daith wych ac ys gwn i ble y byddwn ni i gyd ym mis Mai. Ond, beth bynnag a ddaw, pob lwc. [*Cymeradwyaeth.*]

**Y Llywydd:** Felly, gyd-Aelodau, dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw, a diwedd busnes y trydydd Cynulliad. Fel arwydd o'n diddymiad, gwahoddaf Rhodri Morgan i gludo'r byrllysg o'r Siambr.

**The Presiding Officer:** Therefore, fellow Members, that brings today's proceedings to a close and marks the end of business for the third Assembly. As a sign of dissolution, I invite Rhodri Morgan to carry the mace from the Chamber.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.07 p.m.  
The meeting ended at 6.07 p.m.*

*Cludwyd y byrllysg o'r Siambr.  
The mace was removed from the Chamber.*

#### **Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)